# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

**Dydd Mawrth, 21 Mehefin 2011**
**Tuesday, 21 June 2011**

**Cynnwys**
**Contents**

3 Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

34 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

41 Datganiad ar Ddiwygio Cyllidol
Statement on Financial Reform

60 Datganiad ar TB Buchol
Statement on Bovine TB

79 Datganiad ar Wasanaethau Cyhoeddus
Statement on Public Services

92 Cynnig i Gymeradwyo Rheoliadau'r Diwydiant Dŵr (Cynlluniau ar gyfer Mabwysiadu Carthffosydd Preifat) 2011
Motion to Approve the Water Industry (Schemes for Adoption of Private Sewers) Regulations 2011

98 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: Bil Senedd y DU ynghylch Ynni
Supplementary Legislative Consent Motion: Energy Bill

103 Ffioedd Addysg Uwch
Higher Education Fees

126 Dadl Fer: Prydau Ysgol Heb Stigma
Short Debate: Stigma-free School Meals

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn ogystal, cynhwysir cyfieithiad Saesneg o gyfraniadau yn y Gymraeg.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In addition, an English translation of Welsh speeches is included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Prynhawn da. Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

**The Presiding Officer:** Good afternoon. I call the National Assembly for Wales to order.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog
## Questions to the First Minister

### Cosb Gorfforol

### Physical Punishment

***1. Christine Chapman:*** *Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu dulliau amgen cadarnhaol yn hytrach na chosbi plant a phobl ifanc yn gorfforol. OAQ(4)0054(FM)*

***1. Christine Chapman:*** *What is the Welsh Government doing to promote positive alternatives to the physical punishment of children and young people. OAQ(4)0054(FM)*

**The First Minister (Carwyn Jones):** Our manifesto sets out our commitment to continue to promote positive approaches to parenting, helping parents to discipline their children without resorting to physical punishment.

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Mae ein maniffesto yn amlinellu ein hymrwymiad i barhau i hyrwyddo ymagweddau cadarnhaol at fagu plant, gan helpu rhieni i ddisgyblu eu plant heb droi at gosb gorfforol.

**Christine Chapman:** I welcome the approach that your Government has taken in the past in promoting positive alternatives to physical punishment, for example, by supporting the Children are Unbeatable! campaign and producing information for parents on alternatives. Research shows that smacking does not work—it can breed resentment, nurture unco-operative behaviour and promote an acceptance of physical violence as being normal. The fact that physical violence is the third most common cause of children contacting ChildLine is a powerful reminder of the feelings of children themselves towards smacking. Can you provide assurances that your Government will continue to work with partner agencies in getting a message of positive alternatives out to parents and children? The most positive message would come from a reform of the law that allows the use of reasonable punishment, and there are many examples from across Europe of how this has worked in practice.

**Christine Chapman:** Croesawaf y ffordd mae eich Llywodraeth yn y gorffennol wedi hyrwyddo dewisiadau amgen cadarnhaol i gosb gorfforol, er enghraifft, drwy gefnogi ymgyrch Sdim Curo Plant! a chynhyrchu gwybodaeth i rieni ar ddewisiadau eraill. Mae ymchwil yn dangos nad yw smacio yn gweithio—mae'n gallu ennyn dicter, meithrin ymddygiad anghydweithredol a hyrwyddo derbyn trais corfforol fel rhywbeth normal. Mae'r ffaith mai trais corfforol yw'r trydydd achos mwyaf cyffredin o blant yn cysylltu â ChildLine yn ein hatgoffa'n bwerus am deimladau plant eu hunain tuag at smacio. A allwch roi sicrwydd y bydd eich Llywodraeth yn parhau i weithio gydag asiantaethau partner i gyfleu neges o ddewisiadau amgen cadarnhaol i rieni a phlant? Byddai'r neges fwyaf cadarnhaol yn dod o ddiwygio'r gyfraith sy'n caniatáu'r defnydd o gosb resymol, a cheir llawer o enghreifftiau o bob rhan o Ewrop o sut mae hyn wedi gweithio yn ymarferol.

**The Presiding Officer:** Order. Can you come to the question, please?

**Y Llywydd:** Trefn. A wnewch chi ofyn cwestiwn os gwelwch yn dda?

**Christine Chapman:** It is regrettable that the

**Christine Chapman:** Mae'n drueni nad yw

UK Government has not worked to change the law in this area. First Minister, will you raise this issue with your counterpart in the UK Government?

Llywodraeth y DU wedi gweithio i newid y gyfraith yn y maes hwn. Brif Weinidog, a wnewch chi godi'r mater hwn gyda'r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth y DU?

**The First Minister:** I refer you to the point that I made earlier, which is that we intend to carry through our manifesto commitment in order to promote alternatives to physical punishment. We are working on how best to take that forward over the next few months.

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at y pwynt a wneuthum yn gynharach, sef ein bod yn bwriadu gwireddu ein hymrwymiad maniffesto i hyrwyddo dewisiadau yn lle cosbi corfforol. Rydym yn gweithio ar y ffordd orau o ddatblygu hynny dros y misoedd nesaf.

**Darren Millar:** No-one in the Chamber would condone child abuse of any kind, and I am a supporter of positive parenting and the promotion of alternatives to physical chastisement. However, do you accept that physical chastisement is still used by parents across this country as a tool of choice to discipline their children? Are decisions on these issues not best left to parents?

**Darren Millar:** Ni fyddai unrhyw un yn y Siambr yn cymeradwyo cam-drin plant mewn unrhyw ffordd, ac rwyf yn cefnogi magu plant yn gadarnhaol a hybu dewisiadau amgen i gosbi corfforol. Fodd bynnag, a ydych yn derbyn bod cosb gorfforol yn cael ei defnyddio o hyd gan rieni ar draws y wlad hon o ddewis i ddisgyblu eu plant? Onid yw’n well gadael penderfyniadau ar y materion hyn i rieni?

**The First Minister:** I do not think that parents use physical punishment as a matter of deliberate choice. There are occasions when parents need to be shown that there are alternatives to physical punishment, and that is the approach that we intend to take—to promote positive alternatives in order to provide parents with a wide range of options when it comes to disciplining children.

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn credu bod rhieni yn defnyddio cosbi corfforol fel mater o ddewis bwriadol. Mae adegau pan fydd angen dangos i rieni bod dewisiadau amgen yn lle cosbi corfforol, a dyna'r dull rydym yn bwriadu ei gymryd i hyrwyddo dewisiadau cadarnhaol er mwyn rhoi dewis eang i rieni pan ddaw i ddisgyblu plant.

**Julie Morgan:** Is the First Minister aware of the research done by Professor Jon Shepherd of Cardiff University, a very distinguished constituent of mine in Cardiff North, which shows that the number of children under the age of 11 treated for assault in accident and emergency units in Wales and England has gone up significantly over the last two years? What can your Government do to address this very worrying trend?

**Julie Morgan:** A yw'r Prif Weinidog yn ymwybodol o'r ymchwil a wnaed gan yr Athro Jon Shepherd o Brifysgol Caerdydd, etholwr nodedig iawn i mi yng Ngogledd Caerdydd, sy'n dangos bod nifer y plant o dan 11 oed a gafodd eu trin am ymosodiad mewn unedau damweiniau ac achosion brys yng Nghymru a Lloegr wedi codi’n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf? Beth all eich Llywodraeth wneud i fynd i'r afael â'r duedd bryderus iawn hon?

**The First Minister:** Coming back to the point that I made earlier, it is exceptionally important that we support—there has previously been cross-party support in the Chamber—alternatives to corporal punishment in all settings, including the home, as well as promoting positive parenting. We need to ensure that, as we roll out the programme of positive parenting,

**Y Prif Weinidog:** I ddod yn ôl at y pwynt a wneuthum yn gynharach, mae'n eithriadol o bwysig ein bod yn cefnogi—bu cefnogaeth drawsbleidiol yn y Siambr o’r blaen—dewisiadau amgen i gosb gorfforol ym mhob lleoliad, gan gynnwys yn y cartref, yn ogystal â hyrwyddo rhianta cadarnhaol. Mae angen i ni sicrhau, wrth i ni gyflwyno'r rhaglen rhianta cadarnhaol, fod pobl yn gweld bod

people see that there are alternatives available that they had perhaps not considered in the past.

dewisiadau eraill ar gael nad ydynt o bosibl wedi eu hystyried yn y gorffennol.

**Lindsay Whittle:** In a Plenary debate as long ago as January 2004, the National Assembly voted in favour of a ban on the smacking of children by 41 votes to nine. Does the First Minister agree that the time for talking has now gone and that it is now time for action? Will he please make strong representations to the UK Government that, if it will not amend the legislation, the power should be devolved to the Assembly? I am sure that you will agree that children in Wales are, and should be, unbeatable.

**Lindsay Whittle:** Mewn dadl mewn Cyfarfod Llawn mor bell yn ôl â mis Ionawr 2004, pleidleisiodd y Cynulliad Cenedlaethol o blaid gwahardd smacio plant o 41 pleidlais i naw. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno bod yr amser ar gyfer siarad wedi mynd heibio erbyn hyn a'i bod yn bryd gweithredu? A fyddai cystal â chyflwyno sylwadau cryf i Lywodraeth y DU i ddweud, os na fydd yn diwygio'r ddeddfwriaeth, y dylai'r pŵer gael ei ddatganoli i'r Cynulliad? Rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno bod plant yng Nghymru yn rhai heb eu curo, ac na ddylid eu curo.

**The First Minister:** If you look at Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006, you will see that the power has already been devolved to this Assembly.

**Y Prif Weinidog:** Os edrychwch ar Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, byddwch yn gweld bod y pŵer eisoes wedi ei ddatganoli i'r Cynulliad hwn.

**Julie James:** Are you aware that my constituency is home to a ChildLine base of over 120 highly trained volunteer telephone counsellors who deal with children who are having difficulties with the choices that their parents make about punishment, among other things? ChildLine is a well-known lifeline for any young person wishing to air grievances and report abuse. I am therefore concerned that the National Society for the Prevention of Cruelty to Children, which now administers the ChildLine charity, is determined to close the telephony facility in Swansea, and move to an online-only facility at its Cardiff base.

**Julie James:** A ydych yn ymwybodol bod fy etholaeth yn gartref i ganolfan ChildLine sy'n cynnwys dros 120 o gynghorwyr dros y ffôn gwirfoddol a hyfforddwyd yn drwyadl sy'n ymdrin â phlant sy'n cael trafferthion gyda'r dewisiadau mae eu rhieni yn eu gwneud am gosbi, ymhlith pethau eraill? Mae ChildLine yn gyfrwng adnabyddus i unrhyw berson ifanc sydd am wneud cŵyn a rhoi gwybod am gam-drin. Felly, rwy'n pryderu bod y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant, sydd bellach yn gweinyddu elusen ChildLine, yn benderfynol o gau'r cyfleuster teleffoni yn Abertawe, a symud i gyfleuster ar-lein yn unig yn ei chanolfan yng Nghaerdydd.

**The Presiding Officer:** Order. Can you please come to the question?

**Y Llywydd:** Trefn. A fyddech gystal â dod i gwestiwn?

**Julie James:** Does the First Minister agree that, if the NSPCC decides to remove the telephone service from Swansea, and therefore reduce the number of volunteers available to young people, particularly Welsh-speaking volunteers, this may further marginalise disadvantaged young people who do not have access to the internet, or are fearful that their internet history will be traceable by the very people they are seeking to report?

**Julie James:** A yw'r Prif Weinidog yn cytuno, os bydd yr NSPCC yn penderfynu cael gwared â'r gwasanaeth ffôn o Abertawe, ac felly leihau nifer y gwirfoddolwyr sydd ar gael i bobl ifanc, yn enwedig gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg, y gall hyn arwain at eithrio pellach ar bobl ifanc dan anfantais nad oes ganddynt fynediad at y rhyngrwyd, neu'r rhai sy'n ofni y bydd eu hanes ar y rhyngrwyd yn gallu cael ei olrhain gan yr union bobl maent yn ceisio rhoi gwybod amdanynt?

**The First Minister:** This is a matter for the NSPCC rather than for the Government. However, I understand that no final decision has been made, although a full consultation has taken place. It is essential that the services that are now provided are available in future. None of us in the Chamber want to see a diminution of services beyond those that are already provided.

**Y Prif Weinidog:** Mae hwn yn fater i'r NSPCC yn hytrach na'r Llywodraeth. Fodd bynnag, deallaf nad oes penderfyniad terfynol wedi ei wneud, er bod ymgynghoriad llawn wedi digwydd. Mae'n hanfodol bod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn awr ar gael yn y dyfodol. Nid oes yr un ohonom yn y Siambr am weld lleihau gwasanaethau y tu hwnt i'r rhai a ddarperir eisoes.

**Gofal Niwro-Gyhyrol**

**Neuro-Muscular Care**

***2. Bethan Jenkins:*** *A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ofal niwro-gyhyrol arbenigol yng Nghymru. OAQ(4)0055(FM)*

***2. Bethan Jenkins:*** *Will the First Minister provide an update on specialist neuro-muscular care in Wales. OAQ(4)0055(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae'r byrddau iechyd lleol yn gwneud cynnydd da yn gyrru'r gwelliannau sydd eu hangen er mwyn darparu gofal cydgysylltiedig o ansawdd uchel er mwyn sicrhau bod gwasanaethau amlddisgyblaethol cynhwysfawr a gwasanaethau arbenigol ar gael i gleifion, a hynny mor agos at eu cartrefi ag y bo modd.

**The First Minister:** Local health boards are making good progress in driving the improvements needed to deliver high-quality co-ordinated care in order to ensure that patients have access to comprehensive multi-disciplinary and specialist services as close to home as possible.

**Bethan Jenkins:** Amcangyfrifir bod tua £4 miliwn yn cael ei wario bod blwyddyn yng Nghymru ar dderbyn achosion brys heb eu cynllunio i'r ysbyty ar gyfer pobl â phroblemau niwro-gyhyrol. Byddai mynediad at wasanaethau gofal amlddisgyblaethol arbenigol yn lleihau cost sylweddol derbyn yr achosion brys hyn i'r ysbyty. A wnaiff y Prif Weinidog gytuno i gyfarfod â mi a chynrychiolwyr y grŵp trawsbleidiol ar nychdod cyhyrol i drafod y camau sydd angen eu cymryd i osgoi gorfod derbyn achosion heb eu cynllunio i ysbytai Cymru?

**Bethan Jenkins:** It is estimated that some £4 million is spent per annum in Wales on unplanned emergency hospital admissions for people with neuro-muscular problems. Access to multidisciplinary care services would reduce the significant cost of such hospital admissions. Will the First Minister agree to meet with me and representatives of the cross-party group on muscular dystrophy to discuss the steps that need to be taken to avoid these unplanned admissions in Wales?

**Y Prif Weinidog: M**ater i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yw hwnnw. Os bydd cais yn cael ei wneud, yr wyf yn siŵr y bydd yn ystyried y cais hwnnw.

**The First Minister:** That is a matter for the Minister for Health and Social Services. If a request is made, I am sure that she will consider that request.

**Nick Ramsay:** The First Minister may be aware that 70,000 children and adults in the UK have muscular dystrophy or a related condition. I am sure that he is also aware that the Thomas review made a number of recommendations in its report, in liaison with the cross-party group on muscular issues, on fighting muscle disease, and also met with a

**Nick Ramsay:** Efallai y bydd y Prif Weinidog yn ymwybodol bod gan 70,000 o blant ac oedolion yn y DU ddystroffi'r cyhyrau, neu gyflwr cysylltiedig. Rwyf yn siŵr ei fod yn gwybod hefyd fod adolygiad Thomas wedi gwneud nifer o argymhellion yn ei adroddiad, mewn perthynas â'r grŵp trawsbleidiol ar faterion cyhyrol, ar fynd i'r

range of muscle-related groups across Wales to discuss gaps in services in particular areas. The Muscular Dystrophy Campaign has highlighted that, although some of the recommendations of the Thomas report have begun to take shape in Wales, many require urgent improvements. Do you agree that the current situation is not good enough? Given your Government's decision not to protect the health budget in real terms, what steps are you taking to up our game as a nation on the treatment of muscular dystrophy and other muscular-related conditions?

afael â chlefyd y cyhyrau, gan gwrdd hefyd ag ystod o grwpiau sy'n gysylltiedig â chyhyrau ar draws Cymru i drafod bylchau mewn gwasanaethau mewn ardaloedd penodol. Mae Ymgyrch Dystroffi'r Cyhyrau wedi tynnu sylw at y ffaith, er bod rhai o'r argymhellion yn adroddiad Thomas wedi dechrau cael eu gweithredu yng Nghymru, fod angen gwneud gwelliannau i lawer ohonynt ar frys. A ydych yn cytuno nad yw'r sefyllfa bresennol yn ddigon da? O ystyried penderfyniad eich Llywodraeth i beidio â gwarchod y gyllideb iechyd mewn termau real, pa gamau rydych yn eu cymryd i wella safonau fel cenedl ar drin dystroffi'r cyhyrau a chyflyrau cysylltiedig â chyhyrau?

**The First Minister:** That is an important point, Nick, but the reality is that, if we had followed your suggestions for health, we would simply be taking money out of social services—money to help these very people—in order to pay for what you say needs to be done in health. At the end of the day, people would have ended up with a far worse service if you had been anywhere near the reins of power.

**Y Prif Weinidog:** Mae hwnnw'n bwynt pwysig, Nick, ond y gwir amdani yw, pe byddem wedi dilyn eich awgrymiadau ar gyfer iechyd, y cyfan y byddem wedi ei wneud fyddai cymryd arian allan o wasanaethau cymdeithasol—arian i helpu'r union bobl hyn—er mwyn talu am yr hyn y dywedwch sydd angen ei wneud ym maes iechyd. Yn y pen draw, byddai pobl wedi derbyn gwasanaeth llawer gwaeth pe baech wedi bod unrhyw le yn agos at rym.

However, I can say that two care advisers have been appointed in south Wales to help co-ordinate care for patients and their families, and that two specialist paediatric neurological physiotherapists for mid and south Wales are also being appointed. In addition, discussions are under way with clinicians about the need for similar posts for adults.

Fodd bynnag, gallaf ddweud bod dau gynghorydd gofal wedi cael eu penodi yn ne Cymru i helpu i gyd-drefnu gofal i gleifion a'u teuluoedd, a bod dau ffisiotherapydd niwrolegol pediatrig arbenigol ar gyfer canolbarth a de Cymru hefyd yn cael eu penodi. Yn ogystal, mae trafodaethau yn mynd rhagddynt â chlinigwyr am yr angen am swyddi tebyg ar gyfer oedolion.

**Rebecca Evans:** Specialist nurses play an important role in supporting people with muscular and other neurological conditions, such as multiple sclerosis and Parkinson's disease. In mid and west Wales, there is already a shortage of specialist nurses, leading to people with these conditions having to travel around 50 to 100 miles to access a clinic. Will the First Minister give a commitment to protecting specialist MS and Parkinson's disease nurses, and investigate how we can better support people living with these conditions in rural areas?

**Rebecca Evans:** Mae nyrsys arbenigol yn chwarae rôl bwysig wrth gefnogi pobl â chyflyrau niwrolegol cyhyrol ac eraill, fel sglerosis ymledol a chlefyd Parkinson. Yng nghanolbarth a gorllewin Cymru, mae eisoes brinder o nyrsys arbenigol, gan arwain at bobl â'r cyflyrau hyn yn gorfod teithio tua 50 i 100 milltir i gael mynediad i glinig. A wnaiff y Prif Weinidog roi ymrwymiad i ddiogelu nyrsys MS arbenigol a nyrsys clefyd Parkinson, ac ymchwilio i sut y gallwn wella cefnogaeth i bobl sy'n byw gyda'r cyflyrau hyn mewn ardaloedd gwledig?

**The First Minister:** The independent adult neurosciences expert review has recognised

**Y Prif Weinidog:** Mae'r adolygiad arbenigol niwrowyddorau oedolion annibynnol wedi

the importance of specialist nurses in improving access to high-quality care for people with long-term neurological conditions, such as Parkinson's disease, so that those services are delivered as close to home as possible. A clear pathway specifically for Parkinson's disease has been developed with the local health boards, in order for them to underpin their service planning and to improve the role of specialist nurses.

cydnabod pwysigrwydd nyrsys arbenigol o ran gwella mynediad i ofal o ansawdd uchel i bobl â chyflyrau niwrolegol tymor hir, megis clefyd Parkinson, fel bod y gwasanaethau hynny yn cael eu darparu mor agos i'r cartref ag y bod modd. Mae llwybr clir yn benodol ar gyfer clefyd Parkinson wedi cael ei datblygu gyda'r byrddau iechyd lleol, er mwyn iddynt gael sail i'w gwaith cynllunio gwasanaeth ac i wella rôl nyrsys arbenigol.

**Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau**

**Questions Without Notice from the Party Leaders**

**The Leader of Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones):** First Minister, I am sure that you will recall that we have asked you questions on a number of occasions on your Government's programme. You obviously felt compelled to write a rather long article for the *Western Mail* last week, in which you tried to set out your policy agenda. I have read that article: it is very long on words but very short on specific detail. On health, for example, you said that you want to see people's health being better. I think that we all want to see people's health getting better, but given that 40 per cent of your budget is spent on health, what specifically are you going to do to make sure that that happens?

**Arweinydd Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones):** Brif Weinidog, rwyf yn sicr y byddwch yn cofio ein bod wedi gofyn cwestiynau i chi sawl gwaith ar raglen eich Llywodraeth. Roeddech yn amlwg yn teimlo rheidrwydd i ysgrifennu erthygl braidd yn hir ar gyfer y *Western Mail* yr wythnos diwethaf, yn ceisio nodi eich agenda polisi. Rwyf wedi darllen yr erthygl honno: nid yw'n brin o eiriau ond mae'n brin o fanylion penodol. O ran iechyd, er enghraifft, rydych yn dweud eich bod am weld iechyd pobl yn gwella. Credaf ein bod i gyd am weld iechyd pobl yn gwella, ond o ystyried bod 40 y cant o'ch cyllideb yn cael ei wario ar iechyd, beth yn benodol fyddwch yn ei wneud i sicrhau bod hynny'n digwydd?

**The First Minister:** First of all, we have had the most detailed programme of government ever produced in this Chamber. I was invited to write that article by the *Western Mail*, rather than compelled to do it with a gun to my head. Let me give you one example from the pledges in our manifesto of what we are doing for the health service: we are ensuring that people will be able to access their GPs in the evenings and on weekends. I was at a surgery in Caerphilly last week where this is being done, where it is now possible for patients to see their GPs at times that are more convenient to them, and where they are able to order their prescriptions online. In making it easier for people to access their GPs, it makes it easier for GPs to see people and it reduces the pressure on hospitals.

**Y Prif Weinidog:** Yn gyntaf oll, rydym wedi cael y rhaglen ar gyfer llywodraeth mwyaf manwl a gynhyrchwyd erioed yn y Siambr hon. Cefais wahoddiad i ysgrifennu'r erthygl honno gan y *Western Mail*, yn hytrach na chael fy ngorfodi i wneud hynny gyda gwn i fy mhen. Gadewch imi roi un enghraifft o'r addewidion yn ein maniffesto o'r hyn rydym yn ei wneud ar gyfer y gwasanaeth iechyd: rydym yn sicrhau y bydd pobl yn gallu cael mynediad at eu meddygon teulu gyda'r nos ac ar benwythnosau. Roeddwn mewn meddygfa yng Nghaerffili yr wythnos diwethaf lle mae hyn yn cael ei wneud, lle mae bellach yn bosibl i gleifion weld eu meddygon teulu ar adegau sy'n fwy cyfleus iddynt, a lle maent yn gallu archebu eu presgripsiynau ar-lein. Wrth ei gwneud yn haws i bobl gael mynediad at eu meddygon teulu, mae'n ei gwneud yn haws i feddygon teulu weld pobl ac mae'n lleihau'r pwysau ar ysbytai.

**Ieuan Wyn Jones:** What I am finding rather strange about this, First Minister, is that it is only when I ask you questions about it that you actually tell us what your health policy is. Is it not the responsibility of the Government to come to this Assembly to tell us what its policy agenda is, rather than expecting leaders of opposition parties to drag it out of you week after week?

**Ieuan Wyn Jones:** Yr hyn rwyf yn ei gael braidd yn rhyfedd am hyn, Brif Weinidog, yw mai dim ond pan fyddaf yn gofyn cwestiynau i chi amdano y byddwch yn dweud wrthym mewn gwirionedd beth yw eich polisi iechyd. Onid cyfrifoldeb y Llywodraeth yw dod i'r Cynulliad hwn i ddweud wrthym beth yw ei agenda polisi, yn hytrach na disgwyl i arweinwyr y gwrthbleidiau ei lusgo allan ohonoch wythnos ar ôl wythnos?

Delivering the health policy that you have set out in your manifesto is a major challenge. We already know that, despite the fact that, in cash terms, it is a standstill budget, there are going to be cuts in real terms. We know already that waiting lists are getting longer, that we are seeing centralisation of services within our district general hospitals and health boards, and that Wales is behind the game on cancer care and stroke care. Can you tell us what your agenda is going to be to deal with those issues over the next five years?

Mae cyflawni'r polisi iechyd rydych wedi’i nodi yn eich maniffesto yn her fawr. Rydym eisoes yn gwybod, er gwaethaf y ffaith ei fod, yn nhermau arian parod, yn gyllideb sy’n aros yn ei unfan, y bydd toriadau mewn termau real. Rydym yn gwybod yn barod fod rhestrau aros yn tyfu, ein bod yn gweld canoli gwasanaethau o fewn ein hysbytai cyffredinol dosbarth a byrddau iechyd, a bod Cymru ar ei hôl hi ar ofal canser a gofal strôc. A allwch chi ddweud wrthym beth fydd eich agenda i ddelio â'r materion hynny dros y pum mlynedd nesaf?

**The First Minister:** The budget that he criticises is the budget that he supported in Government. He cannot have it both ways. He will know that, when it comes to orthopaedic services, we put in £65 million in order to deal with the problems that were arising because of a rapid increase in demand. He says that we have no policy. I would be happy to send him a copy of our manifesto—I will send it by Freepost or even as an electronic copy—and he will see the commitment to GP services. Indeed, I remember appearing in television hustings sessions where I mentioned this while he was standing next to me. So, it is not fair to say that, somehow, this is something that we have kept secret.

**Y Prif Weinidog:** Y gyllideb mae’n ei beirniadu yw'r gyllideb a gefnogodd pan oedd mewn Llywodraeth. Ni all ei chael hi’r ddwy ffordd. Bydd yn gwybod, pan ddaw i wasanaethau orthopedig, ein bod yn rhoi £65 miliwn er mwyn ymdrin â'r problemau a oedd yn codi oherwydd cynnydd cyflym yn y galw. Dywed nad oes gennym unrhyw bolisi. Byddwn yn hapus i anfon copi o'n maniffesto—gallaf ei anfon ato drwy Rhadbost neu hyd yn oed fel copi electronig—a bydd yn gweld yr ymrwymiad i wasanaethau meddyg teulu. Yn wir, rwyf yn cofio ymddangos mewn sesiynau hustyngau teledu lle soniais am hyn pan oedd yn sefyll wrth fy ymyl. Felly, nid yw'n deg dweud ein bod, rywsut neu'i gilydd, wedi cadw hyn yn gyfrinach.

**Ieuan Wyn Jones:** First Minister, let us deal with this seriously. I have made it perfectly clear to you that I am prepared to defend the budget that I agreed in Government with you as long as I know what policies you are going to deliver to make sure that you can keep within that budget. Let us put that to one side. I have made it clear that I am happy to support that budget, provided that I know what you are going to deliver. The problem is

**Ieuan Wyn Jones:** Brif Weinidog, gadewch i ni ddelio â hyn o ddifrif. Rwyf wedi dweud yn berffaith glir wrthych chi fy mod yn barod i amddiffyn y gyllideb y cytunwyd arni mewn Llywodraeth gyda chi cyn belled ag y gwn i pa bolisïau rydych yn mynd i’w cyflwyno i wneud yn siŵr eich bod yn gallu cadw o fewn y gyllideb honno. Gadewch inni roi hynny o'r neilltu. Rwyf wedi ei gwneud yn glir fy mod yn hapus i gefnogi'r gyllideb

that I do not know what you are going to deliver, because you are not prepared to come to this Assembly with a programme for government that we can challenge and scrutinise. It is not the responsibility of opposition leaders to drag out of you, week after week, what you are going to do on the health service.

honno, ar yr amod fy mod yn gwybod beth yr ydych yn mynd i'w gyflawni. Y broblem yw nad wyf yn gwybod beth rydych yn bwriadu ei gyflawni, gan nad ydych yn barod i ddod i'r Cynulliad gyda rhaglen ar gyfer llywodraeth y gallwn ei herio a chraffu arni. Nid cyfrifoldeb arweinwyr y gwrthbleidiau yw llusgo allan ohonoch, wythnos ar ôl wythnos, yr hyn rydych yn mynd i'w wneud am y gwasanaeth iechyd.

Let me ask you a question about your delivery unit. Will you come to the Assembly before you set up that delivery unit to outline the policies that you expect it to monitor?

Gadewch i mi ofyn cwestiwn i chi am eich uned gyflwyno. A wnewch chi ddod i'r Cynulliad cyn i chi sefydlu'r uned gyflwyno honno i amlinellu'r polisïau rydych yn disgwyl iddi eu monitro?

**The First Minister:** The delivery unit will be there in order to ensure that the Government's programme is followed through. That stands to reason. Secondly, you will know from the Government's manifesto what our plans are for health. That is quite clear. You will know that we published a comprehensive programme for legislation last week, and we will publish a fuller legislative programme before the summer recess. That puts us in a good position in terms of presenting a programme for the people of Wales in all areas, combining our manifesto with a legislative statement and the fiscal statement that will be made this afternoon, and there will be much to do.

**Y Prif Weinidog:** Bydd yr uned gyflwyno yno er mwyn sicrhau bod rhaglen y Llywodraeth yn cael ei dilyn drwodd. Mae hynny'n sefyll i reswm. Yn ail, fe wyddoch o faniffesto'r Llywodraeth beth yw ein cynlluniau ar gyfer iechyd. Mae hynny'n eithaf clir. Byddwch yn gwybod ein bod wedi cyhoeddi rhaglen gynhwysfawr ar gyfer deddfwriaeth yr wythnos diwethaf, a byddwn yn cyhoeddi rhaglen ddeddfwriaethol lawnach cyn toriad yr haf. Mae hynny'n ein rhoi mewn sefyllfa dda o ran cyflwyno rhaglen ar gyfer pobl Cymru ym mhob maes, gan gyfuno ein maniffesto â datganiad deddfwriaethol a'r datganiad ariannol a fydd yn cael ei wneud y prynhawn yma, a bydd llawer i'w wneud.

1.45 p.m.

**Ieuan Wyn Jones:** I understand, First Minister, that you will be making a statement on fiscal powers and you have made an initial statement on legislation. However, I have tackled you today on health specifically, and I see that you want to talk about other issues. Let me concentrate on health. Forty per cent of your budget will be spent on health over the next five years, and, frankly, you have not given me today what I would describe as a comprehensive policy agenda to deliver against for a five-year term. I ask you again, because otherwise we will rapidly come to the belief that your policy cupboard is bare: will you set out in the Chamber a comprehensive programme to deliver better healthcare for the people of Wales? Yes or no.

**Ieuan Wyn Jones:** Rwyf yn deall, Brif Weinidog, y byddwch yn gwneud datganiad am bwerau ariannol a'ch bod wedi gwneud datganiad cychwynnol ar ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, rwyf wedi eich herio heddiw ar iechyd yn benodol, a gallaf weld eich bod am siarad am faterion eraill. Gadewch inni ganolbwyntio ar iechyd. Bydd 40 y cant o'ch cyllideb yn cael ei wario ar iechyd dros y pum mlynedd nesaf, ac, a dweud y gwir, nid ydych wedi rhoi i mi heddiw yr hyn y byddwn i'n ei ddisgrifio fel agenda bolisi gynhwysfawr i gyflawni yn ei herbyn am dymor o bum mlynedd. Gofynnaf ichi eto, oherwydd fel arall byddwn yn dod i'r casgliad cyn bo hir bod eich cwpwrdd polisi yn wag: a wnewch chi amlinellu yn y Siambr raglen gynhwysfawr i ddarparu gofal iechyd

gwell i bobl Cymru? Gwnewch neu na wnewch.

**The First Minister:** Yes. It is in our manifesto; it is easy to see. We want to make sure that waiting times in accident and emergency departments in Wales are reduced, and that ambulance handover times are reduced. We want to make sure that we look at upgrading the ambulance fleet in time, that waiting times continue to drop, that we can be compared favourably with England when it comes to referral-to-treatment times of above 52 weeks, and that we do not see hospital overcrowding. It is also important that we have a programme that ensures the security and long-term future of all our hospitals. We will be working on that, and the Minister will bring forward proposals so that the Assembly is fully aware that what is in our manifesto is what we will do.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Mae yn ein maniffesto; mae'n hawdd i'w weld. Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod amseroedd aros mewn adrannau damweiniau ac achosion brys yng Nghymru yn gostwng, a bod amseroedd trosglwyddo ambiwlans yn gostwng. Rydym eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn edrych ar uwchraddio'r fflyd ambiwlans mewn pryd, bod amseroedd aros yn parhau i ostwng, y gallwn gael ein cymharu'n ffafriol â Lloegr pan ddaw i amseroedd cyfeirio-i-drin 52 wythnos neu fwy, ac nad ydym yn gweld ysbytai yn gorlenwi. Mae hefyd yn bwysig bod gennym raglen sy'n sicrhau diogelwch a dyfodol hir-dymor ein holl ysbytai. Byddwn yn gweithio ar hynny, a bydd y Gweinidog yn cyflwyno cynigion fel bod y Cynulliad yn gwbl ymwybodol mai'r hyn sydd yn ein maniffesto yw'r hyn y byddwn yn ei wneud.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** First Minister, does it remain the Government's policy to rule out the use of all private facilities to treat NHS patients regardless of the value for money or the standard of service provided?

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Brif Weinidog, a yw'n parhau i fod yn bolisi i'r Llywodraeth i ddiystyru'r defnydd o bob cyfleuster preifat i drin cleifion y GIG, waeth beth fo'r gwerth am arian neu safon y gwasanaeth a ddarperir?

**The First Minister:** We have no plans to privatise the health service.

**Y Prif Weinidog:** Nid oes gennym unrhyw gynlluniau i breifateiddio'r gwasanaeth iechyd.

**Kirsty Williams:** Could you explain to the Chamber, and, indeed, the people of Wales, why you are banning NHS patients from receiving free NHS IVF treatment at the popular, successful and value-for-money clinic at Singleton Hospital in Swansea?

**Kirsty Williams:** A allech esbonio i'r Siambr, ac, yn wir, i bobl Cymru, pam eich bod yn gwahardd cleifion y GIG rhag derbyn triniaeth IVF GIG am ddim yn y clinig poblogaidd, llwyddiannus a gwerth-am-arian yn Ysbyty Singleton yn Abertawe?

**The First Minister:** With regard to IVF, it is important that people have the opportunity to receive IVF treatment where that is possible. We know that in England IVF treatment has been stopped across the board. We want to try to ensure that, in Wales, we are able to offer IVF treatment where that is possible.

**Y Prif Weinidog:** O ran IVF, mae'n bwysig bod gan bobl y cyfle i dderbyn triniaeth IVF lle bo hynny'n bosibl. Gwyddom fod triniaeth IVF yn Lloegr wedi ei atal ym mhobman. Rydym am geisio sicrhau, yng Nghymru, ein bod yn gallu cynnig triniaeth IVF lle bo hynny'n bosibl.

**Kirsty Williams:** To ask you the question again, why are you banning NHS patients from receiving free NHS IVF treatment at the very popular, very successful and—certainly

**Kirsty Williams:** I ofyn y cwestiwn ichi eto, pam yr ydych yn gwahardd cleifion y GIG rhag derbyn triniaeth IVF GIG am ddim yn y gwasanaeth poblogaidd iawn, llwyddiannus

on the face of it—value-for-money service at the London Women's Clinic at Singleton Hospital? If you do not believe that it is value for money then let me enlighten you before you ask the former Minister for health to answer the question for you. It is the Government's intention to open a new unit, and I invite you to publish the business case for that unit.

iawn ac—yn sicr ar yr wyneb—gwerth-am-arian yng Nghlinig Merched Llundain yn Ysbyty Singleton? Os nad ydych yn credu ei fod yn werth am arian yna gadewch i mi ddweud wrthych, cyn i chi ofyn i'r cyn Weinidog dros iechyd ateb y cwestiwn i chi. Mae'n fwriad gan y Llywodraeth agor uned newydd, ac fe'ch gwahoddaf i gyhoeddi'r achos busnes ar gyfer yr uned honno.

**The First Minister:** If I remember rightly, the clinic in Swansea is a private clinic, run by a private organisation. It is important to realise that, where it is possible to do so, IVF treatment is provided on the NHS. However, there are difficulties with regard to IVF treatment, and particularly with certain types of IVF treatment. For example, it is very difficult indeed to provide treatment for infertile women who need egg donation. The number of egg donors has dropped dramatically because of a recent change in the law. It is never quite as easy as providing IVF services; an assessment needs to be carried out by doctors of people's ability to benefit from those services. Sometimes, that is not clear and it can be difficult for individuals to accept.

**Y Prif Weinidog:** Os cofiaf yn iawn, mae'r clinig yn Abertawe yn glinig preifat, a redir gan sefydliad preifat. Mae'n bwysig sylweddoli, lle bo modd gwneud hynny, bod triniaeth IVF yn cael ei darparu ar y GIG. Fodd bynnag, mae anawsterau o ran triniaeth IVF, yn enwedig gyda mathau penodol o driniaeth IVF. Er enghraifft, mae'n anodd iawn darparu triniaeth i fenywod anffrwythlon ag arnynt angen wyau. Mae nifer y rhoddwyr wyau wedi gostwng yn sylweddol oherwydd newid diweddar yn y gyfraith. Nid yw byth mor hawdd â darparu gwasanaethau IVF; mae angen i'r asesiad gael ei wneud gan feddygon o allu pobl i gael budd o'r gwasanaethau hynny. Weithiau, nid yw hynny'n glir a gall fod yn anodd i unigolion ei dderbyn.

**Kirsty Williams:** Perhaps I could assist the First Minister, who seems to be completely in the dark over decisions that the Government has made. The unit at Swansea is indeed a private clinic, with which the NHS in Wales had a contract to deliver free NHS treatment. Your Government, First Minister, has ended that contract. Therefore, NHS patients who previously received a free service from the clinic will no longer be able to do so. Let me help you again: the previous Government also commissioned a new clinic from Neath Port Talbot Hospital—I am amazed, First Minister, that you do not know anything about the history of this case. Will you publish the business case for the decision to end the contract with the unit at Swansea and to build the new unit? Will you also guarantee to patients that the 75 per cent success rate for couples under the age of 35 will be maintained in the new facility? Patients and couples who cannot afford to go private should not have a second-rate service. I will ask you again: why are you banning patients from going to Swansea, how much is the new clinic costing you and what

**Kirsty Williams:** Efallai y gallaf gynorthwyo'r Prif Weinidog, sy'n ymddangos fel pe bai yn y tywyllwch yn llwyr dros benderfyniadau a wnaeth y Llywodraeth. Mae'r uned yn Abertawe yn wir yn glinig preifat, ac mae gan y GIG yng Nghymru gontract gydag ef i ddarparu triniaeth y GIG am ddim. Mae eich Llywodraeth, Brif Weinidog, wedi dod â'r contract hwnnw i ben. Felly, ni fydd cleifion y GIG a oedd yn arfer derbyn gwasanaeth rhad ac am ddim oddi wrth y clinig yn gallu gwneud hynny mwyach. Gadewch i mi eich helpu eto: comisiynodd y Llywodraeth flaenorol hefyd glinig newydd o Ysbyty Castell-nedd Port Talbot—rwyf yn synnu, Brif Weinidog, nad ydych yn gwybod dim am hanes yr achos hwn. A wnewch chi gyhoeddi'r achos busnes dros y penderfyniad i derfynu'r contract gyda'r uned yn Abertawe ac i adeiladu'r uned newydd? A wnewch chi hefyd warantu i gleifion y bydd y gyfradd lwyddiant 75 y cant ar gyfer cyplau o dan 35 oed yn cael ei chynnal yn y cyfleuster newydd? Ni ddylai cleifion a chyplau nad ydynt yn gallu fforddio mynd yn breifat gael gwasanaeth

guarantee can you give those who cannot afford to go private that they will enjoy comparable success rates to those treated in the private sector?

eilradd. Gofynnaf i chi eto: pam rydych yn gwahardd cleifion rhag mynd i Abertawe, faint mae’r clinig newydd yn ei gostio i chi a pha sicrwydd y gallwch ei roi i'r rhai na allant fforddio mynd yn breifat y byddant yn mwynhau cyfraddau llwyddiant tebyg i'r rhai yn y sector preifat?

**The First Minister:** You asked me to publish the details on this, and I will write to you with the details.

**Y Prif Weinidog:** Gofynasoch imi gyhoeddi'r manylion ar hyn, a byddaf yn ysgrifennu atoch gyda'r manylion.

**The Leader of the Opposition (Paul Davies):** First Minister, 77,000 people in Wales have been claiming out-of-work benefits for more than 10 years. Ed Miliband claims that those people are shirkers. Do you agree with him?

**Arweinydd yr Wrthblaid (Paul Davies):** Brif Weinidog, mae 77,000 o bobl yng Nghymru wedi bod yn hawlio budd-daliadau allan-o-waith am fwy na 10 mlynedd. Mae Ed Miliband yn honni bod y bobl hynny yn ‘*shirkers’*. A ydych yn cytuno ag ef?

**The First Minister:** I certainly have many points of disagreement with politicians in London. I particularly disagree with the Conservative MP who said that the minimum wage should be lower for disabled people. I have not heard that comment condemned from the other side of the Chamber.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn sicr yn anghydweld llawer gyda gwleidyddion yn Llundain. Rwyf yn anghytuno’n benodol gyda'r AS Ceidwadol a ddywedodd y dylai'r isafswm cyflog fod yn is i bobl anabl. Nid wyf wedi clywed y sylw hwnnw yn cael ei gondemnio o ochr arall y Siambr.

**Paul Davies:** From that answer, we still do not know whether the First Minister agrees or disagrees with his leader in London.

**Paul Davies:** O'r ateb hwnnw, nid ydym dal yn gwybod a yw'r Prif Weinidog yn cytuno neu'n anghytuno â’i arweinydd yn Llundain.

Moving on, however, we heard last week that the private sector has created more than 0.5 million extra jobs in the UK in the last 12 months. Clearly, the UK Government’s policies are working. Given that the UK Government is holding to its side of the bargain, the Welsh Government needs to play its part. As was the case with health, there was nothing on job creation in the First Minister’s legislative statement last week. Why was that?

I symud ymlaen, fodd bynnag, clywsom yr wythnos diwethaf fod y sector preifat wedi creu mwy na 0.5 miliwn o swyddi ychwanegol yn y DU yn ystod y 12 mis diwethaf. Yn amlwg, mae polisïau Llywodraeth y DU yn gweithio. O gofio bod Llywodraeth y DU yn cynnal ei hochr hi o'r fargen, mae angen i Lywodraeth Cymru chwarae ei rhan. Fel ag yn achos iechyd, nid oedd unrhyw beth am greu swyddi yn natganiad deddfwriaethol y Prif Weinidog yr wythnos diwethaf. Pam hynny?

**The First Minister:** We have a plan to ensure that 4,000 young people get training places. That is in our manifesto; the first pledge that we put forward was on the Wales jobs fund to replace the Future Jobs fund that the party opposite got rid of, thereby destroying the hopes of so many young people. That is why, next month, we will bring forward plans that will improve the life chances of our young people, give them the chance of an apprenticeship and of training—

**Y Prif Weinidog:** Mae gennym gynllun i sicrhau bod 4,000 o bobl ifanc yn cael lleoedd hyfforddi. Mae hynny yn ein maniffesto; yr addewid cyntaf a gyflwynwyd gennym oedd ar cronfa swyddi Cymru i gymryd lle cronfa Swyddi'r Dyfodol y cafodd y blaid gyferbyn wared arni, a thrwy hynny ddinistrio gobeithion cymaint o bobl ifanc. Dyna pam, y mis nesaf, y byddwn yn cyflwyno cynlluniau a fydd yn gwella cyfleoedd bywyd ein pobl ifanc, gan’r roi

chances that were removed by the party opposite.

cyfle iddynt gael prentisiaeth a hyfforddiant—cyfleoedd a ddiddymwyd gan y blaid gyferbyn.

**Paul Davies:** The UK Future Jobs fund was a failed policy of the previous UK Labour Government. It was a failure because the number of people not in education, employment or training went up under that policy. Therefore, it was a failed policy. The First Minister and the shadow Secretary of State for Wales both admit that Wales needs to grow the private sector. Wales has the third lowest rate of business start-ups in the UK. We see far fewer businesses get off the ground in Wales, compared to in the UK as a whole. The measures that the UK Government is introducing include a new enterprise allowance, which will provide unemployed people with business mentoring and financial support of up to £2,000 in order to help them start their own businesses. Will the First Minister now commit to playing his part in working more closely with the UK Government to get more people off benefits and into work?

**Paul Davies:** Roedd cronfa Swyddi’r Dyfodol y DU yn bolisi a fethodd gan Lywodraeth Lafur flaenorol y DU. Roedd yn fethiant oherwydd bod nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant wedi mynd i fyny o dan y polisi hwnnw. Felly, roedd yn bolisi a fethodd. Mae Prif Weinidog Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru yr wrthblaid yn cyfaddef bod angen i Gymru dyfu'r sector preifat. Mae gan Gymru y gyfradd isaf o ddechrau busnesau yn y DU. Rydym yn gweld llawer llai o fusnesau yn cael eu creu yng Nghymru, o'i gymharu â’r DU yn ei chyfanrwydd. Mae'r mesurau y mae Llywodraeth y DU yn eu cyflwyno yn cynnwys lwfans menter newydd, a fydd yn rhoi cymorth mentora busnes a chefnogaeth ariannol o hyd at £2,000 i bobl ddi-waith i ddechrau eu busnesau eu hunain. A wnaiff y Prif Weinidog yn awr ymrwymo i chwarae ei ran i weithio'n agosach gyda Llywodraeth y DU i gael mwy o bobl oddi ar fudd-daliadau ac i mewn i waith?

**The First Minister:** The suggestion is that we do not have any ideas, but I have watched the Conservative leadership debate from afar, and it is an ideas-free zone. There are no policies at all being put forward by either of the candidates. We will wait and see what is produced in this Chamber over the course of the next few months. We will, of course, work with the UK Government if it has policies that we believe will be of benefit to the people of Wales. However, those policies are few and far between.

**Y Prif Weinidog:** Yr awgrym yw nad oes gennym unrhyw syniadau, ond rwyf wedi gwylio dadl arweinyddiaeth y Ceidwadwyr o bell, ac mae'n barth di-syniadau. Nid oes unrhyw bolisïau o gwbl yn cael eu rhoi gerbron gan yr un o'r ymgeiswyr. Byddwn yn aros i weld yr hyn a gynhyrchir yn y Siambr hon yn ystod y misoedd nesaf. Byddwn, wrth gwrs, yn gweithio gyda Llywodraeth y DU os oes ganddi bolisïau rydym yn credu a fydd o fudd i bobl Cymru. Fodd bynnag, mae'r polisïau hynny yn brin tu hwnt.

**Paul Davies:** Again, I did not get an answer, but let me try another question. The First Minister made it clear last week that he will continue with the economic renewal programme. Could he therefore tell us what contribution this policy will make in terms of creating jobs in the private sector?

**Paul Davies:** Eto, ni chefais ateb, ond gadewch i mi roi cynnig ar gwestiwn arall. Mae’r Prif Weinidog wedi ei gwneud yn glir yr wythnos diwethaf y bydd yn parhau â rhaglen adnewyddu'r economi. A allai ddweud wrthym pa gyfraniad y bydd y polisi hwn yn ei wneud o ran creu swyddi yn y sector preifat?

**The First Minister:** We know that the best way to attract investment into Wales, or to allow businesses to grow in Wales, is to ensure that people in Wales have the skills that make them attractive to investors. That is

**Y Prif Weinidog:** Gwyddom mai'r ffordd orau i ddenu buddsoddiad i Gymru, neu i ganiatáu i fusnesau dyfu yng Nghymru, yw sicrhau bod pobl yng Nghymru yn meddu ar y sgiliau sy'n eu gwneud yn ddeniadol i

why our policies have always been predicated on the idea that we increase people's skills, thereby increasing investment. We are beginning to see the fruits of that approach.

fuddsoddwyr. Dyna pam mae ein polisïau bob amser wedi bod yn seiliedig ar y syniad ein bod yn cynyddu sgiliau pobl, a thrwy hynny gynyddu buddsoddiad. Rydym yn dechrau gweld ffrwyth y dull hwnnw.

**Ffyniant Economaidd**

**Economic Prosperity**

***3. Llyr Huws Gruffydd:*** *Pa gymorth ymarferol y bydd Llywodraeth Cymru yn ei roi i fusnesau bach Cymru er mwyn sicrhau ffyniant economaidd. OAQ(4)0043(FM)*

***3. Llyr Huws Gruffydd:*** *What practical support will the Welsh Government be giving to small Welsh businesses to help ensure economic prosperity. OAQ(4)0043(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Fel y nodwyd yn ein maniffesto, byddwn yn adolygu'r cymorth entrepreneuraidd sydd ei angen ar fusnesau newydd a chwmnïau bach sydd â gwir botensial i ffynnu a thyfu.

**The First Minister:** As stated in our manifesto, we will be reviewing what entrepreneurial support is needed by start-up and small firms with real potential to thrive and grow.

**Llyr Huws Gruffydd:** Dau o'r costau mwyaf beichus unrhyw fusnes bach, fel y gwyddom i gyd yr wyf yn siŵr, yw cyflogau a threthi busnes. A ydych yn cytuno y byddai ymestyn y cyfnod rhyddhad treth busnes y tu hwnt i fis Hydref y flwyddyn nesaf o gymorth i fusnesau bach oroesi'r cyfnod economaidd anodd hwn?

**Llyr Huws Gruffydd:** Two of the most burdensome costs for any small business, as I am sure that we all know, are wages and business rates. Do you agree that extend the business rate relief scheme beyond next year would be of assistance to small businesses to get through this difficult financial period?

**Y Prif Weinidog:** Mae penderfyniadau anodd i'w wneud. Gwyddom fod yr hyn sydd wedi digwydd hyd yn hyn wedi bod o fudd i fusnesau, ond mae'n rhaid inni ystyried y sefyllfa ariannol, a sicrhau cydbwysedd, a byddem yn ystyried hyn dros y misoedd nesaf.

**The First Minister:** There are difficult decisions to be taken. I know that what has happened to date has been of benefit to businesses, but we must consider the financial situation, and we must seek balance, and we will consider this over the ensuing months.

**Andrew R.T. Davies:** First Minister, one of the planks of assistance offered to business by your Government is the economic renewal programme. During the Enterprise and Learning Committee's inquiry into this programme, the FSB said that it did not believe that the consultation process was genuine and that the outcome was poor. Given that we now know the figures for the support that your Government has been able to give to small businesses, do you believe that the economic renewal programme is fit for purpose? If not, what action will you take to ensure that it engages with business and supports it to the level necessary for it to grow in Wales?

**Andrew R.T. Davies:** Brif Weinidog, un o'r prif elfennau o gymorth a gynigir i fusnes gan eich Llywodraeth yw rhaglen adnewyddu'r economi. Yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Dysgu i'r rhaglen hon, dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach nad oedd yn credu bod y broses ymgynghori yn ddilys a bod y canlyniad yn wael. Gan ein bod bellach yn gwybod y ffigurau ar gyfer y gefnogaeth mae eich Llywodraeth wedi gallu ei rhoi i fusnesau bach, a ydych yn credu bod rhaglen adnewyddu'r economi yn addas at y diben? Os nad ydyw, pa gamau a gymerwch i sicrhau ei bod yn ymgysylltu â busnes ac yn ei gefnogi i'r lefel angenrheidiol iddo dyfu yng Nghymru?

**The First Minister:** The Minister is meeting the FSB to discuss this very issue. The

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Gweinidog yn cwrdd â'r Ffederasiwn Busnesau Bach i

consultation was genuine; I think that we all know that. We know of businesses across Wales that have been provided with advice and signposting services—for example, between 2010 and 2011, 4,900 businesses were provided with advice, and 18,000 businesses were provided with information or were signposted to where they could get further help.

drafod yr union fater hwn. Roedd yr ymgynghoriad yn ddilys; credaf ein bod i gyd yn gwybod hynny. Rydym yn gwybod am fusnesau ledled Cymru sydd wedi derbyn cyngor a gwasanaethau cyfeirio—er enghraifft, rhwng 2010 a 2011, cafodd 4,900 o fusnesau gyngor, a chafodd 18,000 o fusnesau wybodaeth neu cawsant eu cyfeirio at le y gallent gael cymorth pellach.

**Kenneth Skates:** The public consultation on high-speed rail comes to an end in little over a month. The route currently proposed for the high speed 2 line, announced in December, could mean that passengers could get from London to Birmingham in just 49 minutes, inevitably making the midlands an attractive place in which to invest and do business. Infrastructure improvements to the rail network in north-east Wales are vital to ensuring that the region is not left behind. The Enterprise and Learning Committee of the last Assembly suggested that the north Wales main line could be connected directly to the proposed high-speed line from London to the north-west of Scotland. Would your Government commit to working with the Westminster Government on this proposal and on other ways in which the economy of north-east Wales can have the transport infrastructure that it needs to stay competitive?

**Kenneth Skates:** Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus ar reilffyrdd cyflymder uchel yn dod i ben mewn ychydig dros fis. Gallai'r llwybr arfaethedig ar hyn o bryd ar gyfer y linell '*high speed* 2', a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr, olygu y gallai teithwyr deithio o Lundain i Birmingham mewn dim ond 49 munud, gan wneud y canolbarth yn anochel yn lle deniadol i fuddsoddi a gwneud busnes. Mae gwelliannau seilwaith i'r rhwydwaith rheilffyrdd yng ngogledd-ddwyrain Cymru yn hanfodol i sicrhau nad yw'r rhanbarth yn cael ei adael ar ôl. Awgrymodd Pwyllgor Menter a Dysgu y Cynulliad diwethaf y gallai prif reilffordd y gogledd gael ei chysylltu'n uniongyrchol â'r linell cyflymder uchel arfaethedig o Lundain i ogledd-orllewin yr Alban. A wnaiff eich Llywodraeth ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth San Steffan ar y cynnig hwn ac ar ffyrdd eraill y gall economi gogledd-ddwyrain Cymru gael y seilwaith trafnidiaeth sydd ei angen arno i aros yn gystadleuol?

**The First Minister:** We are happy to press the UK Government for further funding to modernise the Welsh rail network. Responsibility for the network is not devolved, of course. Our views on the electrification of the line to Swansea are well known, and you are right to point out that consideration must now be given to the electrification of the north Wales main line in particular and of other lines in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn hapus i bwyso ar Lywodraeth y DU am gyllid pellach i foderneiddio rhwydwaith rheilffyrdd Cymru. Nid yw'r cyfrifoldeb dros y rhwydwaith wedi cael ei ddatganoli, wrth gwrs. Mae ein barn ar drydaneiddio'r rheilffordd i Abertawe yn hysbys i bawb, ac rydych yn gywir i nodi bod rhaid rhoi ystyriaeth yn awr i drydaneiddio prif reilffordd y gogledd yn arbennig, a llinellau eraill yng Nghymru.

**Peter Black:** First Minister, the success and growth of small businesses is vital to underpin the success of the Welsh economy. Will you consider reintroducing an entrepreneurship strategy such as that which existed before the merger of the Welsh Development Agency with the Welsh Government?

**Peter Black:** Brif Weinidog, mae llwyddiant a thwf busnesau bach yn hanfodol i fod yn sail i lwyddiant economi Cymru. A wnewch chi ystyried ailgyflwyno strategaeth entrepreneuriaeth fel yr un a oedd yn bodoli cyn uno Awdurdod Datblygu Cymru â Llywodraeth Cymru?

**The First Minister:** We already have many

**Y Prif Weinidog:** Mae gennym eisoes nifer

elements of support in place to help small businesses. We have the regional centres and we have the start-up support that is provided in the form of taster sessions, workshops and advice surgeries. We have the supplier development service, which helps with procurement, and we have our plans for broadband. In addition, we have three School for Startups Wales pilot events taking place this week to support small businesses with regard to the internet. There are therefore many policies already in place to help small businesses to grow and to embed an entrepreneurial culture in Wales.

o elfennau cymorth ar waith i helpu busnesau bach. Mae gennym y canolfannau rhanbarthol a'r gefnogaeth dechrau busnes sy'n cael ei darparu ar ffurf sesiynau blasu, gweithdai a sesiynau cynghori. Mae gennym y gwasanaeth datblygu cyflenwr sy'n helpu gyda chaffael, ac mae gennym ein cynlluniau ar gyfer band eang. Yn ogystal, mae gennym dair ysgol ar gyfer digwyddiadau peilot Startups Cymru yn digwydd yr wythnos hon i gefnogi busnesau bach o ran y rhyngrwyd. Felly, mae llawer o bolisïau eisoes yn eu lle i helpu busnesau bach i dyfu ac i sefydlu diwylliant entrepreneuraidd yng Nghymru.

**Benthycwyr Morgeisi**

**Mortgage Borrowers**

***4. Mark Isherwood***: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisïau ei Lywodraeth ar gyfer cynorthwyo benthycwyr morgeisi. OAQ(4)0045(FM)*

***4. Mark Isherwood:*** *Will the First Minister make a statement on his Government's policies for supporting mortgage borrowers. OAQ(4)0045(FM)*

**The First Minister:** We are well aware of the challenges that some homebuyers experience when raising a mortgage, due to the changes in the wider economic climate. Our homebuy scheme provides support for qualifying households by providing an equity loan to ensure that home ownership is affordable to them.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn ymwybodol iawn o'r heriau y mae rhai prynwyr yn eu profi wrth godi morgais, oherwydd y newidiadau yn yr hinsawdd economaidd ehangach. Mae ein cynllun cymorth prynu yn darparu cymorth i aelwydydd cymwys drwy ddarparu benthyciad ecwiti i sicrhau bod perchnogaeth cartref yn fforddiadwy iddynt.

**Mark Isherwood:** The First Minister will know that people who are in mortgage arrears cannot receive equity loans from mortgage lenders. Figures from the Ministry of Justice for the first three months of this year show a 13 per cent increase in mortgage default repossessions in north Wales, while the figure for Wales as a whole is only 4 per cent—the figure is far higher than the England and Wales total. I know that you will agree that struggling homeowners should be encouraged to seek help as early as possible when they begin to encounter difficulties. The UK Government is continuing some financial support for mortgage rescue in England, but the Welsh Government has stopped allocating money for mortgage rescue, saying that local authorities and housing associations can instead choose to participate by using their own funding. By the end of last month, only four authorities—Conwy, Gwynedd, Caerphilly and Neath Port Talbot—had done that. How, therefore, do you respond to the

**Mark Isherwood:** Bydd y Prif Weinidog yn gwybod na all pobl sydd mewn ôl-ddyledion morgais dderbyn benthyciadau ecwiti gan fenthycwyr morgeisi. Mae ffigurau oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer tri mis cyntaf y flwyddyn hon yn dangos cynnydd o 13 y cant mewn adfeddiannu diffygdalu morgeisi yng ngogledd Cymru, tra bo'r ffigur ar gyfer Cymru gyfan yn ddim ond 4 y cant—mae'r ffigur yn llawer uwch na'r cyfanswm ar gyfer Cymru a Lloegr. Gwn y byddwch yn cytuno y dylid annog perchnogion tai sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi i geisio cymorth cyn gynted ag y bo modd pan fyddant yn dechrau wynebu anawsterau. Mae Llywodraeth y DU yn parhau i roi rhywfaint o gymorth ariannol ar gyfer achub morgeisi yn Lloegr, ond mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r gorau i ddyrannu arian ar gyfer achub morgeisi, gan ddweud y gall awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn hytrach ddewis cymryd rhan drwy ddefnyddio eu cyllid eu hunain. Erbyn diwedd y mis diwethaf, dim ond

need for support for mortgage borrowers and to the statement by Shelter Cymru that scrapping a mortgage rescue scheme might save money in the short term but will cost us much more further down the line?

pedwar awdurdod—Conwy, Gwynedd, Caerffili a Chastell-nedd Port Talbot—oedd wedi gwneud hynny. Sut, felly, ydych yn ymateb i'r angen am gefnogaeth ar gyfer benthycwyr morgais ac i'r datganiad gan Shelter Cymru y gallai cael gwared ar gynllun achub morgeisi arbed arian yn y tymor byr, ond gostio llawer mwy i ni yn y pen draw?

**The First Minister:** You are right to say that there is no separate budget for homebuy or mortgage rescue, but it is for local authorities to decide whether to set aside any of their social housing grant for these schemes. Indeed, as you have already mentioned, some local authorities have already done so, and it is a practice that others may want to consider.

**Y Prif Weinidog:** Rydych yn gywir i ddweud nad oes cyllideb ar wahân ar gyfer cymorth prynu neu achub morgeisi, ond mae’n fater i awdurdodau lleol benderfynu a ddylid neilltuo unrhyw ran o'u grant tai cymdeithasol ar gyfer y cynlluniau hyn. Yn wir, fel rydych wedi crybwyll, mae rhai awdurdodau lleol wedi gwneud hynny eisoes, ac mae'n arfer y gall pobl eraill ei ystyried.

**Vaughan Gething:** As we know, over the past four quarters, about 35,000 properties in the UK were repossessed by mortgage lenders, and the number is likely to rise over the next couple of years.

**Vaughan Gething:** Fel y gwyddom, dros y pedwar chwarter diwethaf, cafodd tua 35,000 eiddo yn y DU eu hailfeddiannu gan fenthycwyr morgeisi, ac mae'r nifer yn debygol o godi dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

2.00 p.m.

In your answer to the first question, we heard about the impact of the mortgage rescue scheme that the Welsh Labour Government introduced. What assessment has been made of the impact of UK Government policies on the likely number of repossessions in Wales? How many people do we expect to become homeless over the next year as a result of UK Government policy?

Yn eich ateb i’r cwestiwn cyntaf, clywsom am effaith y cynllun achub morgeisi a gyflwynwyd gan Lywodraeth Lafur Cymru. Pa asesiad sydd wedi’i wneud o effaith polisïau Llywodraeth y DU ar nifer tebygol yr achosion o adfeddiannu yng Nghymru? Faint o bobl y disgwylir iddynt ddod yn ddigartref yn ystod y flwyddyn nesaf o ganlyniad i bolisi Llywodraeth y DU?

**The First Minister:** It is a difficult question to answer, because we do not know whether the UK Government will change its destructive policies. We know that 391 mortgage rescue applications have been approved since 2008, and that families and individuals have benefited from the homebuy scheme. We are working with the Council of Mortgage Lenders and local housing and planning authorities to develop a standardised approach to restrictions based on affordable housing, with a view to aiding mortgage availability.

**Y Prif Weinidog:** Mae’n gwestiwn anodd ei ateb, gan na wyddom a fydd Llywodraeth y DU yn newid ei pholisïau dinistriol. Gwyddom fod 391 cais am achub morgais wedi’u cymeradwyo ers 2008, a bod teuluoedd ac unigolion wedi elwa o’r cynllun cymorth prynu. Rydym yn gweithio gyda Chyngor y Benthycwyr Morgeisi ac awdurdodau tai a chynllunio lleol i ddatblygu dull safonol o gyfyngiadau sy’n seiliedig ar dai fforddiadwy, gyda’r bwriad o hybu argaeledd morgeisi.

**Rhodri Glyn Thomas:** Brif Weinidog, yr ydych newydd gyfeirio at bolisïau dinistriol y

**Rhodri Glyn Thomas:** First Minister, you have just referred to the destructive policies

glymblaid yn San Steffan, ac yr wyf yn cytuno â chi ar hynny. Fodd bynnag, fel arweinydd y Blaid Lafur, gwnaethoch addewid i bobl Cymru yn yr etholiad diwethaf y buasech yn amddiffyn pobl Cymru rhag effeithiau'r toriadau hyn. Beth yn union y byddwch yn ei wneud i gynorthwyo'r bobl hynny sydd ar hyn o bryd yn ei chael yn anodd cael neu gynnal eu morgeisi? Yr ydych yn ein cyfeirio drwy'r amser at eich maniffesto—yr ydych yn dweud ei fod yn faniffesto manwl, a byddwn yn cytuno ei fod yn hir—ond nid yw'r gair 'morgais' yn ymddangos ynddo.

of the coalition in Westminster, and I agree with you on that. However, as the leader of the Labour Party, you made a promise to the people of Wales during the last election that you would protect people in Wales from the effects of these cuts. What exactly will you do to assist those people who currently find it difficult to obtain or maintain their mortgages? You frequently refer us to your manifesto—you say it is a detailed manifesto, and I agree that it is long—but the word 'mortgage' does not appear in it.

**Y Prif Weinidog:** Y peth allweddol yw sicrhau bod mwy o dai fforddiadwy yn cael eu hadeiladu, ac yr ydym yn symud ymlaen â hyn. Yr oedd gan y Llywodraeth flaenorol record dda ar hynny. Wrth gwrs, nid yw'n bosibl sicrhau bod pawb sydd angen morgais yn cael morgais, ond mae'n iawn dweud ei fod yn bosibl i'r Llywodraeth sicrhau bod mwy o dai fforddiadwy ar gael er mwyn sicrhau bod gan unigolion a theuluoedd do uwch eu pennau.

**The First Minister:** The key thing is to ensure that more affordable housing is built, and we are moving forward with this. The previous Government had a good record on that. Of course, it is not possible to ensure that everyone who needs a mortgage gets one, but it is right to say that it is possible for the Government to ensure that more affordable housing is available in order to ensure that individuals and families have a roof over their heads.

**Lynne Neagle:** First Minister, do you agree that it is sheer hypocrisy on the part of the Conservatives to attack our mortgage rescue support when it is their Government in Westminster that has reduced the support available to those on income support, who used to be able to claim for more help with their mortgage?

**Lynne Neagle:** Brif Weinidog, a ydych yn cytuno ei bod yn rhagrith llwyr ar ran y Ceidwadwyr i ymosod ar ein cymorth ar gyfer achub morgeisi gan gofio mai eu Llywodraeth nhw yn San Steffan sydd wedi lleihau'r cymorth sydd ar gael i'r rhai sy'n derbyn cymhorthdal incwm, a arferai fod yn gallu hawlio fwy o gymorth gyda'u morgais?

**The First Minister:** Well, they have short memories, do they not? We know about the cuts that they have made to housing benefit and they have not denied that they would consider cutting the minimum wage for disabled people. I have heard no denials from that side of the Chamber with regard to that. We need no lessons—[*Interruption*.] It is shameful; it is shameful that he said it and it is equally shameful that you failed to condemn it.

**Y Prif Weinidog:** Wel, onid oes ganddynt atgofion byr? Gwyddom am y toriadau y maent wedi'u gwneud i'r budd-dal tai, ac nid ydynt wedi gwadu y byddent yn ystyried torri'r isafswm cyflog i bobl anabl. Nid wyf wedi clywed unrhyw un o'r ochr honno i'r Siambr yn gwadu hynny. Nid oes angen gwersi arnom—[*Torri ar draws.*] Mae'n gywilyddus; mae'n gywilyddus ei fod wedi dweud hynny, ac mae'r un mor gywilyddus eich bod wedi methu â chondemnio'r peth.

**Trafnidiaeth Gyhoeddus**

**Public Transport**

***5. Lynne Neagle:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei gynlluniau ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus yn Nhorfaen. OAQ(4)0041(FM)*

***5. Lynne Neagle:*** *Will the First Minister outline his plans for public transport in Torfaen. OAQ(4)0041(FM)*

**The First Minister:** We are working with

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn gweithio gydag

local authorities and bus and train operators to improve public transport in Torfaen. An example of this is the funding of the strategic bus corridor between Newport and Blaenavon.

awdurdodau lleol a chwmnïau bysys a threnau i wella trafnidiaeth gyhoeddus yn Nhorfaen. Un enghraifft o'r gwaith hwn yw cyllido'r coridor bws strategol rhwng Casnewydd a Blaenafon.

**Lynne Neagle:** Access to local bus services is a lifeline for communities. In Torfaen, we have been hit hard by Stagecoach's decision to stop operating a number of bus routes, including the number 25 bus service that links communities in Cwmbran with the town centre and Newport. In response to a question last week, the Minister for Local Government and Communities stated that he was looking positively at proposals to partially regulate bus services in Wales. Do you agree that we need to look at this issue and rid ourselves of the legacy of Thatcher's bungled bus deregulation, a system that means that operators can cherry-pick the best routes while leaving communities without other important services?

**Lynne Neagle:** Mae cael mynediad at wasanaethau bws lleol yn achubiaeth i gymunedau. Yn Nhorfaen, roedd penderfyniad Stagecoach i roi'r gorau i weithredu nifer o lwybrau bws, gan gynnwys gwasanaeth bws rhif 25, sy'n cysylltu cymunedau yng Nghwmbrân â chanol y dref a Chasnewydd, yn ergyd galed. Mewn ymateb i gwestiwn yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau bod ganddo ymagwedd gadarnhaol tuag at gynigion a fyddai'n rheoleiddio gwasanaethau bysys yng Nghymru yn rhannol. A ydych yn cytuno bod angen inni ystyried y mater hwn a chael gwared ar etifeddiaeth Thatcher, sef ymgyrch drwsgl i ddadreoleiddio bysys, gan adael system sy'n golygu y gall cwmnïau ddewis a dethol y llwybrau gorau a gadael cymunedau heb wasanaethau pwysig eraill?

**The First Minister:** I am aware of what the Minister said last week. On top of what he said, it is important that we press to get a traffic commissioner based in Wales. At the moment, the traffic commissioner for buses is based in Birmingham and my experience as a constituency Assembly Member teaches me that it is not the most effective of bodies.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn ymwybodol o'r hyn a ddywedodd y Gweinidog yr wythnos diwethaf. Yn ychwanegol i'r hyn a ddywedodd, mae'n bwysig ein bod yn pwyso i gael comisiynydd traffig yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae'r comisiynydd traffig ar gyfer bysys wedi'i leoli yn Birmingham, ac mae fy mhrofiad fel Aelod Cynulliad sy'n cynrychioli etholaeth wedi fy nysgu am y ffaith nad yw'r corff hwnnw'n un arbennig o effeithiol.

**Mohammad Asghar:** First Minister, a problem encountered by users of public transport in Torfaen and many areas of Wales has been the lack of audio announcements on Welsh buses. I have raised on a number of occasions the problems that this can cause for blind and partially sighted passengers. Newport Transport is exploring the future purchase of buses with in-built capacity for audio announcements. This would be a welcome development. The previous administration said in November 2010 that a best-practice guide for passengers with sight problems would be published in December 2010 and, in February, said it would be published in the spring. I understand that, as

**Mohammad Asghar:** Brif Weinidog, un broblem y mae defnyddwyr cludiant cyhoeddus yn Nhorfaen a sawl ardal o Gymru wedi dioddef yw'r diffyg cyhoeddiadau sain ar fysys yng Nghymru. Rwyf wedi codi'r problemau y gall y sefyllfa hon ei hachosi i deithwyr dall a rhannol ddall ar nifer o achlysuron. Mae Trafnidiaeth Casnewydd yn edrych ar brynu bysys sydd â chapasiti ar gyfer cyhoeddiadau sain wedi'i ymgorffori ynddynt yn y dyfodol. Byddai hwn yn ddatblygiad i'w groesawu. Dywedodd y weinyddiaeth flaenorol ym mis Tachwedd 2010 y byddai canllaw arfer gorau ar gyfer teithwyr sydd â phroblemau golwg yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2010.

far as Bus Users UK is concerned, this guide is now complete and is sat on the Minister's desk waiting for approval. Will you urge the Minister responsible for transport to do all he can to ensure that this guide will make a real difference to the sector and is published as soon as possible, given the real improvements it could help to accelerate across Wales, such as those being explored in Newport?

Yna, ym mis Chwefror, dywedodd y byddai'r ddogfen hon yn cael ei chyhoeddi yn y gwanwyn. Rwyf yn deall bod y canllaw hwn, cyn belled â bod Bus Users UK yn y cwestiwn, bellach wedi'i gwblhau ac yn eistedd ar ddesg y Gweinidog, yn aros am gymeradwyaeth. A wnewch chi annog y Gweinidog sy'n gyfrifol am drafnidiaeth i wneud popeth posibl i sicrhau bod y canllaw hwn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yn y sector hwn a'i fod yn cael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo modd, o ystyried y gwelliannau y gallai eu sicrhau ledled Cymru, fel y rhai sy'n cael eu hystyried yng Nghasnewydd?

**The First Minister:** I understand that pilot schemes on this are being rolled out anyway, but I applaud Newport Transport's actions in seeking to make its buses as accessible as possible.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf ar ddeall bod cynlluniau peilot ar y mater hwn yn cael eu cyflwyno beth bynnag, ond rwyf yn cymeradwyo'r camau a gymerwyd gan Trafnidiaeth Casnewydd wrth geisio sicrhau bod ei fysys mor hygyrch ag y bo modd.

### Cronfa Swyddi a Hyfforddiant Pobl Ifanc Cymru

### Welsh Jobs and Training Fund for Young People

***6. Vaughan Gething:*** *Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yng nghyswllt Cronfa Swyddi a Hyfforddiant Pobl Ifanc Cymru. OAQ(4)0052(FM)*

***6. Vaughan Gething:*** *What progress is the Welsh Government making on the Welsh Jobs and Training Fund for Young People. OAQ(4)0052(FM)*

**The First Minister:** The Welsh jobs fund will be a new package of support to help young people aged 16 to 24 into paid employment for a minimum six-month period. The Welsh Government is currently developing detailed proposals and I will make a further statement to update Members on progress next month.

**Y Prif Weinidog:** Bydd y gronfa swyddi yng Nghymru yn becyn newydd o gymorth i helpu pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed gael gwaith cyflogedig am o leiaf chwe mis. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu cynigion manwl, a byddaf yn gwneud datganiad pellach yn ystod y mis nesaf er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ar y cynnydd a wnaed.

**Vaughan Gething:** We have heard before in the Chamber the Liberal Democrats and the Tories denigrating the Future Jobs fund and claiming that it was a failed policy when, in fact, about half of the people receiving it had permanent employment from it. We also know that youth unemployment is now at record levels, with more than 40 per cent of unemployed people in Wales between the ages of 16 and 24. In my constituency, well over 1,000 people on the claimant count are under 24. Can you confirm what the priority areas of action will be, such as geography or deprivation, when you start the scheme? As

**Vaughan Gething:** Rydym wedi clywed y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Torïaid eisoes yn y Siambr hon yn bychanu cronfa Swyddi'r Dyfodol ac yn hawlio bod y polisi hwn wedi methu pan, mewn gwirionedd, cafodd tua hanner y bobl a fanteisiodd o'r gronfa gyflogaeth barhaol o ganlyniad i hynny. Gwyddom hefyd fod diweithdra ymhlith pobl ifanc yn awr yn uwch nag erioed, gyda mwy na 40 y cant o'r bobl sy'n ddi-waith yng Nghymru rhwng 16 a 24 oed. Yn fy etholaeth i, mae ymhell dros 1,000 o'r bobl sy'n hawlio budd-daliadau o dan 24 oed. A allwch chi gadarnhau pa feysydd fydd yn cael

you will be aware, a number of parts of my constituency, in the Cardiff end, are relatively deprived and would welcome the assistance available.

blaenoriaeth o ran gweithredu, fel daearyddiaeth neu amddifadedd, pan fyddwch yn dechrau'r cynllun? Fel y gwyddoch, mae sawl rhan o fy etholaeth i, ar ochr Caerdydd, yn gymharol ddifreintiedig, a byddent yn croesawu'r cymorth sydd ar gael.

**The First Minister:** It is available to all young people between the ages of 16 and 24. There are 4,000 places. The package of support will be available across Wales to those who are unemployed from the first day of unemployment, with a focus on supporting the individual to remain in or progress to sustained employment. You are quite right to point out that there are many people in Wales who are in jobs as a result of the Future Jobs fund. I have met them. I do not know where the party opposite has been on that, but I have met them. Many of us on this side of the Chamber have met them, and it is a real shame that the Future Jobs fund was taken away from the people of Wales. However, next month, it will be reinstated.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r cynllun ar gael i'r holl bobl ifanc rhwng 16 a 24. Mae yna 4,000 o leoedd. Bydd y pecyn cymorth ar gael ar draws Cymru i'r rhai sy'n ddi-waith, o ddiwrnod cyntaf eu cyfnod o ddiweithdra, gyda ffocws ar gefnogi'r unigolyn i aros mewn cyflogaeth gynaliadwy neu symud ymlaen i gyflogaeth gynaliadwy. Rydych yn berffaith iawn i dynnu sylw at y ffaith bod llawer o bobl yng Nghymru sydd mewn swyddi o ganlyniad i'r gronfa Swyddi'r Dyfodol. Rwyf wedi cyfarfod â hwy. Ni wn lle mae'r blaid gyferbyn wedi bod ar hynny, ond rwyf wedi cyfarfod â hwy. Mae llawer ohonom ar yr ochr hon i'r Siambr wedi cyfarfod â hwy, ac mae'n drueni mawr y cafodd cronfa Swyddi'r Dyfodol ei chymryd i ffwrdd oddi wrth bobl Cymru. Fodd bynnag, bydd yn cael ei hadfer y mis nesaf.

**Alun Ffred Jones:** Faint o gynlluniau hyfforddi ar gyfer pobl ifanc sy'n cael eu hariannu gan y Llywodraeth yn barod? A fydd y cynllun newydd yn disodli rhai ohonynt, neu a yw'n ychwanegol at y nifer helaeth sy'n bodoli yn barod? O ble y daw'r £25 miliwn sydd angen arnoch i'w weithredu?

**Alun Ffred Jones:** How many training schemes for young people are already being funded by the Government? Does this new scheme replace some of those schemes or will it be in addition to the substantial number already in existence? Where will you get the required £25 million to operate it?

**The First Minister:** Bydd yr arian yn dod allan o'r gyllideb pan fo'n briodol. Mae'r rhaglen yn ychwanegol at y rhaglenni sydd gennym ar hyn o bryd.

**The First Minister:** The funding will come out of the budget when the time is right. This programme is additional to the programmes that we currently administer.

**Antoinette Sandbach:** I am sure that the First Minister welcomes the latest figures, which show unemployment falling in Wales. Given the private sector job losses in north Wales during the recession, there is an urgent need for new entrepreneurs in the region. In light of this, does the First Minister regret the substantial decline in new start-ups since the entrepreneurship action plan was shelved? What steps is your Government taking to restart the success of this scheme?

**Antoinette Sandbach:** Rwyf yn siŵr bod y Prif Weinidog yn croesawu'r ffigurau diweddaraf, sy'n dangos bod diweithdra yn gostwng yng Nghymru. O ystyried y swyddi a gollwyd yn y sector preifat yng ngogledd Cymru yn ystod y dirwasgiad, mae angen dybryd am entrepreneuriaid newydd yn y rhanbarth. Yn sgîl hyn, a yw'r Prif Weinidog yn gresynu at y gostyngiad sylweddol a gafwyd yn nifer y busnesau newydd a gychwynnwyd ers i'r cynllun gweithredu entrepreneuriaeth gael ei roi o'r neilltu? Pa gamau y mae eich Llywodraeth yn eu cymryd i ail-greu llwyddiant y cynllun hwn?

**The First Minister:** I have already outlined what we are doing to help small businesses and to encourage entrepreneurship in Wales. The reason for there being so few start-ups is what was happening in terms of UK policy, particularly since last year of course. It amuses me sometimes that, where unemployment drops, it is to the credit of the UK Government, but, where unemployment rises, it is the fault of the Welsh Government.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf eisoes wedi amlinellu'r hyn yr ydym yn ei wneud i helpu busnesau bach ac i annog entrepreneuriaeth yng Nghymru. Y rheswm dros y ffaith bod cyn lleied o fusnesau newydd yw'r hyn oedd yn digwydd o ran polisi'r DU, yn enwedig ers y llynedd, wrth gwrs. Rwyf yn ei gweld yn ddoniol weithiau bod Llywodraeth y DU yn cael ei chlodfori os yw diweithdra'n gostwng, ond bod Llywodraeth Cymru'n cael ei beio os yw diweithdra'n codi.

### Adfywio Economaidd

### Economic Regeneration

***7. Joyce Watson:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ysgogi adfywio economaidd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. OAQ(4)0047(FM)*

***7. Joyce Watson:*** *Will the First Minister outline what the Welsh Government is doing to stimulate economic regeneration in Mid and West Wales. OAQ(4)0047(FM)*

**The First Minister:** We are improving the conditions within which businesses operate across Wales and across all portfolios. Mid and west Wales will benefit from prioritised investment, shaping the business environment, providing infrastructure and targeting business support to help create economic growth. There are regeneration areas in Aberystwyth and the western Valleys.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn gwella'r amodau i fusnesau ar draws Cymru ac ar draws pob portffolio. Bydd canolbarth a gorllewin Cymru yn elwa o fuddsoddiadau blaenoriaeth, a fydd yn llunio'r amgylchedd busnes, darparu seilwaith a thargedu cymorth busnes er mwyn creu twf economaidd. Mae ardaloedd adfywio yn Aberystwyth a'r Cymoedd gorllewinol.

**Joyce Watson:** Thank you very much for that answer, First Minister. First, I welcome the statement on planning for renewable energy that you made last week. It underlines once again how seriously the Welsh Government takes its responsibility to tackle climate change and ensure energy security. At the same time, Labour's green jobs strategy goes further in recognising the potential of low carbon industries to transform the Welsh economy. We have to nurture those industries and develop a base of expertise that sets Wales apart within Europe. Will you therefore join me in welcoming the significant recent investment in green jobs in mid and west Wales, particularly the investment in the DeltaStream project in Ramsey Sound and Dulas in Machynlleth?

**Joyce Watson:** Diolch yn fawr iawn am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Yn gyntaf, croesawaf y datganiad a wnaethoch yr wythnos diwethaf ar gynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy. Unwaith eto, mae'n tanlinellu pa mor ddifrifol y mae Llywodraeth Cymru yn cymryd ei chyfrifoldeb o ran mynd i'r afael â newid hinsawdd a sicrhau diogelwch ynni. Ar yr un pryd, mae strategaeth swyddi gwyrdd Llafur yn mynd ymhellach wrth gydnabod potensial diwydiannau carbon isel i drawsnewid economi Cymru. Mae'n rhaid inni feithrin y diwydiannau hynny a datblygu sylfaen o arbenigedd sy'n gosod Cymru ar wahân o fewn Ewrop. Felly, a wnewch chi ymuno â mi i groesawu'r buddsoddiad sylweddol a wnaed yn ddiweddar mewn swyddi gwyrdd yng nghanolbarth a gorllewin Cymru, yn enwedig y buddsoddiad a wnaed yn y prosiect DeltaStream yn Swnt Dewi a Dulas ym Machynlleth?

**The First Minister:** Climate change remains a serious problem. We must make sure that we maintain our targets with regard to dealing with it. However, marine energy is a recognised priority sub-sector identified by the energy and environment team within the Department for Business, Enterprise, Technology and Science. It is an area in which we believe Wales has great potential, not just for delivering and generating energy, but also for economic benefit.

**Y Prif Weinidog:** Mae newid yn yr hinsawdd yn parhau i fod yn broblem ddifrifol. Mae'n rhaid inni sicrhau ein bod yn cynnal ein targedau o ran ymdrin â'r broblem hon. Fodd bynnag, mae ynni morol yn is-sector blaenoriaeth cydnabyddedig a nodwyd gan y tîm ynni a'r amgylchedd o fewn yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth. Mae'n faes lle credwn fod gan Gymru botensial fawr, nid yn unig ar gyfer cyflwyno a chynhyrchu ynni, ond hefyd ar gyfer creu budd economaidd.

**Andrew R.T. Davies:** One of the drivers of economic activity in mid and west Wales—and, indeed, the rest of Wales—is tourism. With the Olympics just over 12 months away and many hundreds of thousands of people visiting the UK, what action is the tourism arm of the Welsh Assembly Government taking to promote Wales as a destination for people wishing to take extended holidays or for those visiting Wales as part of their Olympic experience?

**Andrew R.T. Davies:** Un sbardun ar gyfer gweithgarwch economaidd yng nghanolbarth a gorllewin Cymru—ac, yn wir, yng ngweddill Cymru—yw twristiaeth. Gyda'r Gemau Olympaidd ychydig dros 12 mis i ffwrdd, a chyda cannoedd o filoedd o bobl ar fin ymweld â'r Deyrnas Unedig, pa gamau y mae cangen dwristiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu cymryd i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan ar gyfer pobl sy'n dymuno cymryd gwyliau estynedig, neu ar gyfer y rhai sy'n ymweld â Chymru fel rhan o'u profiad Olympaidd?

**The First Minister:** As with the Ryder Cup, we will be looking to ensure that we derive tourism benefit from the Olympics. We know that many people visited Wales because the Ryder Cup was held here. The Olympics are not that far away. I know that officials are looking at ways of ensuring that we bring those people who will stay in London, and might stay for longer in the UK, to Wales so that they can enjoy what we have to offer.

**Y Prif Weinidog:** Yn yr un modd â Chwpan Ryder, byddwn yn ceisio sicrhau bod buddion twristiaeth yn deillio i ni o'r Gemau Olympaidd. Gwyddom fod llawer o bobl wedi ymweld â Chymru am fod Cwpan Ryder wedi'i gynnal yma. Nid yw'r Gemau Olympaidd yn bell i ffwrdd. Gwn fod swyddogion yn edrych ar ffyrdd o sicrhau ein bod yn denu'r bobl hynny a fydd yn aros yn Llundain—ac a allai aros yn hirach yn y DU—i Gymru, fel y gallant fwynhau'r hyn sydd gennym i'w gynnig.

**Simon Thomas:** A yw'r Prif Weinidog yn cytuno bod adnoddau naturiol yng nghanolbarth a gorllewin Cymru yn hanfodol i adfywio'r cymunedau hynny, yn arbennig, ynni o'r gwynt a defnyddio dŵr Cymru? A wnaiff y Prif Weinidog, felly, amlinellu'r camau y bydd yn eu cymryd yn awr i sicrhau bod cymunedau lleol yn elwa yn uniongyrchol o ddatblygiadau melinau gwynt yn eu cylch; ac a fyddai'n derbyn gwahoddiad i roi slap yn wyneb Boris Johnson a dweud wrtho nad yw dŵr Cymru i gael ei ddwyn gan Lundain?

**Simon Thomas:** Does the First Minister agree that the natural resources of mid and west wales are crucially important to regenerate those communities, particularly wind energy and using Wales's water resources? Will the First Minister outline the steps that he will take now to ensure that local communities benefit directly from these developments of windfarms in their areas; and would he accept an invitation to give Boris Johnson a slap in the face and tell him that Welsh water is not to be stolen by London?

**Y Prif Weinidog:** Ni chredaf y bydd dwr yn

**The First Minister:** I do not believe that

cael ei ddwyn o Gymru o gwbl. Y mae'n hynod o od bod Boris Johnson wedi dweud hynny. Fodd bynnag, os oes ffordd i sicrhau bod dŵr yn mynd o un man o Brydain i fan arall heb achosi unrhyw broblemau, efallai byddai'n rhywbeth teg i'w hystyried, ond nid yn y ffordd y bu iddo grybwyll. Yr argraff y rhoddwyd ganddo, fwy neu lai, oedd ei bod yn bosib cymryd dŵr Cymru a'i gludo i Lundain. Ni ddywedodd hynny mewn ffordd diplomataidd, ond nid yw'n rhywun sy'n ymfalchïo mewn diplomyddiaeth o gwbl.

water will be stolen from Wales at all. It is extremely odd that Boris Johnson said that. However, if there is a way of ensuring that water is transported from one part of Britain to another without any problems being caused, that might be a fair thing to consider, but not in the manner that he put it. The impression that he gave, more or less, was that it was possible to take water from Wales to London. That was not a diplomatic way of putting it, but I do not think that he prides himself on his diplomacy.

Ynglŷn ag ynni, yr wyf wedi rhoi fy marn yn hollol glir dros y diwrnodau diwethaf.

My view on energy has been made completely clear over the past few days.

**William Powell:** As you may know, the Big Lottery Fund, in partnership with BBC Village SOS, recently awarded in excess of £500,000 to two Wales-based schemes as part of a UK-wide scheme that featured only six successful winners. Those selected were the Tŷ Talcen project at Myddfai, near Llandovery, and the restoration project at Talgarth mill, both of which are within the Mid and West Wales region. Both projects are designed to create jobs for the local population, to stimulate economic growth in those rural communities and to attract tourism to the region. Do you agree that this project model is exactly the kind of initiative that we should encourage across Wales to support local economic regeneration? Secondly, would you be willing, First Minister, to visit these projects, when your diary allows, to view the success of the projects and to encourage the roll-out of good practice across Wales?

**William Powell:** Efallai y gwyddoch fod y Gronfa Loteri Fawr, mewn partneriaeth â BBC Village SOS, wedi dyfarnu mwy na £500,000 yn ddiweddar i ddau gynllun sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, a hynny fel rhan o gynllun sy'n cael ei weithredu ledled y DU ac sy'n cynnwys dim ond chwe enillydd llwyddiannus. Y cynlluniau a ddewiswyd oedd y prosiect Tŷ Talcen ym Myddfai, ger Llanymddyfri, a'r prosiect i adfer melin Talgarth. Mae'r ddau ohonynt o fewn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru. Lluniwyd y ddau brosiect i greu swyddi i'r boblogaeth leol, er mwyn ysgogi twf economaidd yn y cymunedau gwledig hynny ac i ddenu twristiaeth i'r rhanbarth. A ydych yn cytuno mai'r model hwn ar gyfer prosiectau yw'r union fath o fenter y dylem ei annog ar draws Cymru i gefnogi adfywio economaidd lleol? Yn ail, a fyddech yn barod, Brif Weinidog, i ymweld â'r prosiectau, pan fydd eich dyddiadur yn caniatáu, i weld llwyddiant y prosiectau hyn ac i annog y broses o gyflwyno arfer da ar draws Cymru?

**The First Minister:** I would be delighted to consider any invitation that might be extended. It is good to see that there are models of economic activity that are appropriate to those parts of Wales: Myddfai, in particular, as the village lost its pub, the Plough Inn, not so long ago; and Talgarth, which is further east, in Brecon and Radnorshire. It is good to see that projects are being taken forward there with local initiatives.

**Y Prif Weinidog:** Byddwn wrth fy modd i ystyried unrhyw wahoddiad. Mae'n dda gweld bod yna fodelau o weithgaredd economaidd sy'n briodol i'r rhannau hynny o Gymru: Myddfai, yn arbennig, gan fod y pentref wedi colli ei dafarn, Tafarn y Plough, heb fod mor bell yn ôl a hynny; a Thalgarth, sydd yn bellach i'r dwyrain, ym Mrycheiniog a Maesyfed. Mae'n dda gweld bod prosiectau'n cael eu datblygu yno gyda mentrau lleol.

**Cydgyngor Gweinidogion**

**Joint Ministerial Council**

***8. Elin Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cydgyngor Gweinidogion. OAQ(4)0042(FM)*

***8. Elin Jones:** Will the First Minister provide an update on the Joint Ministerial Council. OAQ(4)0042(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Ar 8 Mehefin, cyfarfu cyfarfod llawn y Cydgyngor Gweinidogion i drafod blaenoriaethau'r Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig yn ogystal â'r economi a chyllid cyhoeddus. Ar 13 Mehefin, cyfarfu Cyd-gyngor Gweinidogion Ewrop i drafod cydweithio ar faterion Ewropeaidd, cyfarfod y Cyngor Ewropeaidd a gynhelir ym mis Mehefin, a chyllideb yr Undeb Ewropeaidd o 2014 ymlaen.

**The First Minister:** The Joint Ministerial Council plenary met on 8 June to discuss the priorities of the United Kingdom, devolved Governments, the economy and public finances. The Joint Ministerial Council Europe met on 13 June to discuss co-operation on EU matters, the forthcoming European Council meeting, which will be held this month, and the European Union's budget from 2014.

2.15 p.m.

**Elin Jones:** First Minister, you went to the JMC a few weeks ago with little to request from the UK Government, and you got nothing. You went to the British-Irish Council yesterday with an ad hoc request for the devolution of some powers on energy generation, and you got nothing. Last night, you said that it was a slap in the face. What did it feel like to have your face slapped so publicly by Nick Clegg? [*Laughter.*]

**Elin Jones:** Brif Weinidog, buoch i Gyd-gyngor Gweinidogion Ewrop ychydig wythnosau yn ôl, heb lawer iawn i ofyn amdano gan Lywodraeth y DU, a chawsoch ddim byd. Buoch i'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig ddoe gyda chais ad hoc am ddatganoli rhai pwerau ar gynhyrchu ynni, a chawsoch ddim byd. Neithiwr, dywedasoch fod hon yn slap yn y wyneb. Sut deimlad oedd cael slap gyhoeddus gan Nick Clegg? [*Chwerthin.*]

**The First Minister:** Nick Clegg said that he would consider the request—he said it in a press conference in front of several journalists in answer to a question by David Williamson from the *Western Mail*. Yesterday, I raised the issue with Charles Hendry, and we were told that he would clarify the position. We learned on the train on the way back that a desperate attempt was being made by the Department of Energy and Climate Change to say that there would be no devolution of such powers. However, we heard a Whitehall source say this morning that the Government would consider the devolution of such powers. So, when it comes to the devolution of energy, it is fair to say that the UK Government is in a shambolic position.

**Y Prif Weinidog:** Dywedodd Nick Clegg y byddai'n ystyried y cais—dywedodd hyn mewn cynhadledd i'r wasg o flaen sawl newyddiadurwr, wrth ateb cwestiwn gan David Williamson o'r *Western Mail*. Ddoe, codais y mater hwn gyda Charles Hendry, a dywedwyd wrthym y byddai'n ceisio eglurhad am y sefyllfa hon. Ar y trên ar y ffordd yn ôl, clywsom fod yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd yn gwneud ymgais daer i ddweud na fyddai pwerau o'r fath yn cael eu datganoli. Fodd bynnag, clywsom ffynhonnell o Whitehall yn dweud y bore yma y byddai'r Llywodraeth yn ystyried datganoli pwerau o'r fath. Felly, ar y mater o ddatganoli ynni, mae'n deg dweud bod sefyllfa Llywodraeth y DU yn draed moch.

**Mark Isherwood:** It was reported ahead of the joint ministerial committee that your main demand would be the reform of the Barnett formula. We know that the UK Government has committed itself to taking forward the recommendations of the final report on

**Mark Isherwood:** Dywedwyd cyn y cyd-gyngor gweinidogol mai diwygio fformiwla Barnett fyddai eich prif alwad. Gwyddom fod Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â'r argymhellion yn yr adroddiad terfynol ar Barnett, a oedd yn cysylltu

Barnett, which attached responsibility to need; it says that rather than simply paying out because of need, there need to be tax or borrowing potential considerations attached to that. I know that you are making a statement on that later and that you will not wish to prejudge that now. Nonetheless, given those recommendations, do you agree that reform would need to take account of tax and borrowing within the remit? Therefore, should we not wait for the Calman-like committee review that has been promised for Wales and not prejudge what its recommendations might be?

cyfrifoldeb ag angen; yn ôl yr adroddiad, yn hytrach na thalu allan i ddiwallu angen, dylai ystyriaethau treth neu fenthyca posibl fod ynghlwm wrth hynny. Gwn y byddwch yn gwneud datganiad ar hynny yn ddiweddarach ac na fyddwch yn dymuno rhagfarnu'r mater hwnnw yn awr. Serch hynny, o ystyried yr argymhellion hynny, a ydych yn cytuno y byddai angen ystyried trethi a benthyca yn rhan o gylch gwaith y cynllun diwygio? Felly, oni ddylem aros am yr adolygiad gan y pwyllgor tebyg i Calman a gafodd ei addo i Gymru, ac nid rhagfarnu'r hyn y byddai'n ei argymell?

**The First Minister:** I am content to see what such a review will mean, but I also want to see it start. That is the difficulty. We were promised a statement from the UK Government on this issue before the parliamentary recess and I look forward to that statement.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn fodlon gweld beth fydd adolygiad o'r fath yn ei olygu, ond rwyf hefyd am ei weld yn dechrau. Dyna'r anhawster. Cawsom addewid y byddai Llywodraeth y DU yn gwneud datganiad ar y mater hwn cyn y toriad seneddol, ac rwyf yn edrych ymlaen at y datganiad hwnnw.

### Cynhyrchwyr

### Producers

***9. Leanne Wood:*** *Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i gefnogi cynhyrchwyr lleol bach. OAQ(4)0051(FM)*

***9. Leanne Wood:*** *What plans does the First Minister have to support small local producers. OAQ(4)0051(FM)*

**The First Minister:** We are committed to supporting small local food and drink producers through a number of initiatives, including attendance at major food events and exhibitions across the UK, the True Taste awards and food festivals and through food industry development centres that assist with innovation.

**Y Prif Weinidog:** Rydym wedi ymrwymo i gefnogi cynhyrchwyr bwyd a diod bach lleol drwy nifer o fentrau, gan gynnwys mynychu digwyddiadau ac arddangosfeydd bwyd mawr ledled y DU, cynnal gwobrau Gwir Flas Cymru a gwyliau bwyd, a thrwy ganolfannau datblygu ar gyfer y diwydiant bwyd sy'n cynorthwyo ag arloesi.

**Leanne Wood:** First Minister, there is vast potential to increase the amount of local food and locally produced products that are procured by the public sector. Plaid Cymru intends to push for an inquiry into local procurement through the new committee that is responsible for the economy. What can you do to maximise local procurement when the trend is for contracts to be bigger, which militates against small local producers? Would you support an inquiry into local procurement and what can you do in the interim to increase the amount of Welsh produce consumed by the Welsh home market?

**Leanne Wood:** Brif Weinidog, mae potensial enfawr i gynyddu faint o fwyd lleol a chynhyrchion a gynhyrchir yn lleol sy'n cael eu caffael gan y sector cyhoeddus. Mae Plaid Cymru'n bwriadu pwyso am ymchwiliad i gaffael lleol drwy'r pwyllgor newydd sy'n gyfrifol am yr economi. Beth allwch chi ei wneud i wneud y gorau o gaffael lleol, o gofio'r duedd i gael contractau mwy, sy'n gweithio yn erbyn cynhyrchwyr lleol bach? A fyddech yn cefnogi ymchwiliad i gaffael lleol, a beth y gallwch chi ei wneud yn y cyfamser i gynyddu'r cynnyrch Cymreig a ddefnyddir gan y farchnad gartref yng Nghymru?

**The First Minister:** What the committee

**Y Prif Weinidog:** Mae'r hyn y bydd y

does is a matter for the committee, but we have had a good story to tell over the last few years in terms of procurement. There was a time when almost nothing from Wales went into public sector contracts, but that has changed over the years. For example, we have a local sourcing strategic action plan that has been developed in conjunction with others to help to promote a broader understanding of public procurement, and to support local businesses and organisations to gain more of an idea of what they need to do to bid for those contracts. That is something that needs to be done and that has been done in the years gone by through the procurement initiatives. Targeted business support is already being provided to small food and drink producers via the food business development advisers scheme. We also have the three food industry development centres across Wales, which are located in the University of Wales Institute, Cardiff, Horeb and Coleg Menai. They have offered a tremendous amount of support to local producers over the past few years.

pwyllgor yn ei wneud yn fater i'r pwyllgor, ond rydym wedi cael stori dda i'w hadrodd dros y blynyddoedd diwethaf o ran caffael. Roedd yna adeg pan nad oedd braidd dim o Gymru yn cael ei gynnwys mewn contractau sector cyhoeddus, ond mae'r sefyllfa honno wedi newid dros y blynyddoedd. Er enghraifft, mae gennym gynllun gweithredu strategol ar ffynonellau lleol a gafodd ei ddatblygu ar y cyd ag eraill i hyrwyddo dealltwriaeth ehangach o gaffael cyhoeddus, ac i gefnogi busnesau lleol a sefydliadau o ran cael syniad gwell o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwneud cais am y contractau hynny. Mae hynny'n rhywbeth y mae angen ei wneud, ac mae'n rhywbeth sydd wedi cael ei wneud yn y blynyddoedd a fu drwy'r mentrau caffael. Mae cymorth busnes wedi'i dargedu eisoes yn cael ei ddarparu i gynhyrchwyr bwyd a diod bach a thrwy'r cynllun cynghorydd datblygu busnes bwyd. Yn ogystal, mae gennym dair canolfan ar gyfer datblygu'r diwydiant bwyd ledled Cymru, sydd wedi'u lleoli yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd, yn Horeb ac yng Ngholeg Menai. Maent wedi cynnig llawer o gymorth i gynhyrchwyr lleol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

**Suzy Davies:** I am sure that the First Minister will wish to congratulate Creation Development Trust and the organisers of the Valleys' rural market in Pontycymer. The market has been successful in attracting food producers from within the 35 mile radius that defines them as local. However, the organisers and the organisers of other similar markets have found that they are receiving interest from local producers who would like to take part in these enterprises, but whose premises are not registered to produce goods. What can the Welsh Labour Government do to make the process of registration quicker and easier, while ensuring that the process of inspection is sufficiently robust?

**Suzy Davies:** Rwyf yn siŵr y bydd y Prif Weinidog am longyfarch Ymddiriedolaeth Datblygu Creation a threfnwyr marchnad wledig y Cymoedd ym Mhontycymer. Mae'r farchnad wedi bod yn llwyddiannus o ran denu cynhyrchwyr bwyd o fewn radiws o 35 milltir—sef y radiws sy'n eu diffinio'n gynhyrchwyr lleol. Fodd bynnag, mae'r trefnwyr hyn a threfnwyr marchnadoedd tebyg eraill wedi sylweddoli eu bod yn ennyn diddordeb cynhyrchwyr lleol a hoffai gymryd rhan yn y mentrau hyn, ond nad yw eu hadeiladau wedi'u eu cofrestru ar gyfer cynhyrchu nwyddau. Sut y gallai Llywodraeth Lafur Cymru wneud y broses gofrestru yn gynt ac yn haws, gan sicrhau bod y broses arolygu yn ddigon cadarn?

**The First Minister:** You would need to provide me with individual examples of the problem so that I could provide you with a fuller answer.

**Y Prif Weinidog:** Byddai angen ichi ddarparu enghreifftiau unigol o'r broblem hon er mwyn imi allu rhoi ateb mwy llawn ichi.

### Comisiwn Cynllunio Seilwaith

### Infrastructure Planning Commission

***10. Yr Arglwydd Elis-Thomas:*** *Pa*

***10. Lord Elis-Thomas:*** *What discussions has*

*drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith. OAQ(4)0056(FM)*

*the Welsh Government had with the UK Government regarding the Infrastructure Planning Commission. OAQ(4)0056(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth Cymru wedi cael sawl trafodaeth gyda Llywodraethau cyfredol a blaenorol y Deyrnas Unedig ynghylch y Comisiwn Cynllunio Seilwaith ers iddo gael ei sefydlu ac mae'r trafodaethau hynny'n parhau.

**The First Minister:** The Welsh Government has had numerous discussions with the current and previous United Kingdom Governments regarding the Infrastructure Planning Commission since its inception and those discussions are ongoing.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Diolch yn fawr i'r Prif Weinidog am ei ateb. Bydd yn ymwybodol bod y Bil Lleoliaeth sy'n mynd drwy Senedd y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd yn bwriadu dileu'r corff hwn ac efallai byddwn i'n dweud, 'A choffa da amdano'. Fodd bynnag, yr hyn sydd yn bwysig yw bod y corff a fydd yn ei olynu, sef yr uned gynllunio seilwaith mawr o fewn yr Arolygiaeth Gynllunio, yn talu tipyn bach mwy o sylw i bolisïau cynllunio Cymru nac yr oedd y comisiwn yn fodlon gwneud. A fydd y Prif Weinidog yn gallu sicrhau hynny, yn enwedig yng ngoleuni'r hyn a ddigwyddodd ddoe?

**Lord Elis-Thomas:** Thank you very much to the First Minister for that response. He will be aware that the Localism Bill that is going through the UK Parliament at present intends to abolish this body and I might say, 'May it rest in peace'. However, what is important is that its successor body, the major infrastructure planning unit within the Planning Inspectorate, should pay a little more attention to Welsh planning policy than the commission was willing to do. Will the First Minister be able to ensure that, particularly in the light of what happened yesterday?

**Y Prif Weinidog:** Fy marn i yw na ddylai gael grym yng Nghymru ac y dylai penderfyniadau ar brosiectau mawr ynni adnewyddadwy gael eu gwneud yng Nghymru. Dyna farn pob plaid yn y Siambr hon o edrych ar eu maniffestos dros y diwrnodau diwethaf. Fy mhryder yw y byddai unrhyw gorff o'r fath yn edrych ar gynllunio o safbwynt Whitehall ac nid o safbwynt Cymru. Felly mae'n bwysig dros ben bod Cymru'n cael yr un pwerau â'r Alban a Gogledd Iwerddon i reoli ei hadnoddau yn y ffordd y byddai pobl Cymru ei heisiau.

**The First Minister:** My opinion is that it should not have that power in Wales and decisions on major renewable energy projects should be made in Wales. That is the opinion of every party in this Chamber according to the manifestos that I have been looking at over the past few days. My concern is that any such body will look at planning from a Whitehall perspective and not a Wales perspective. It is therefore extremely important that Wales has the same powers as Scotland and Northern Ireland to manage its resources in the way that the people of Wales would wish.

**Mohammad Asghar:** The Infrastructure Planning Commission, set up by the last Labour Government, will make the final decision on a proposed incinerator near Merthyr Tydfil in the South Wales East region. I welcome the fact that the IPC has extended the time available to scrutinise the plans put forward by Covanta, following the energy firm's unveiling of amended designs, notably concerning the size of the proposed building. Will you join me in urging people affected by the plans to ensure that they are

**Mohammad Asghar:** Bydd y Comisiwn Cynllunio Seilwaith, a sefydlwyd gan y Llywodraeth Lafur ddiwethaf, yn gwneud penderfyniad terfynol ar y llosgydd arfaethedig ger Merthyr Tudful yn rhanbarth Dwyrain De Cymru. Croesawaf y ffaith bod y comisiwn wedi ymestyn yr amser sydd ar gael i graffu ar y cynlluniau a gyflwynwyd gan Covanta, yn dilyn y cynlluniau diwygiedig a gyhoeddwyd gan y cwmni ynni, yn benodol mewn perthynas â maint yr adeilad arfaethedig. A wnewch chi ymuno â

properly represented and that the planning proposals that have been put forward are properly scrutinised?

mi i annog y bobl yr effeithir arnynt gan y cynlluniau hyn i sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli mewn modd priodol, ac i sicrhau bod gwaith craffu priodol yn cael ei wneud ar y cynigion cynllunio a gyflwynwyd?

**The First Minister:** I cannot argue with that. It is important that people make their views known as quickly and in as much detail as possible. I hope that, although it is an unelected quango, the IPC will consider the planning issue in some detail.

**Y Prif Weinidog:** Ni allaf ddadlau â hynny. Mae’n bwysig bod pobl yn gwneud eu barn yn hysbys, a hynny mor gyflym ac mor fanwl ag y bo modd. Rwyf yn gobeithio y bydd y comisiwn, er ei fod yn gwango anetholedig, yn ystyried y mater cynllunio hwn yn fanwl.

### Blaenoriaethau ar gyfer Gorllewin De Cymru

### Priorities for South Wales West

***11. Byron Davies:*** *Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Gorllewin De Cymru. OAQ(4)0044(FM)*

***11. Byron Davies:*** *What are the Welsh Government’s priorities for South Wales West. OAQ(4)0044(FM)*

**The First Minister:** We will get on with our Government commitments to the benefit of all our communities, including those of South Wales West.

**Y Prif Weinidog:** Byddwn yn bwrw ymlaen â’n hymrwymiadau, fel Llywodraeth, er budd ein holl gymunedau, gan gynnwys y rhai yng Ngorllewin De Cymru.

**Byron Davies:** The NHS is an issue of great concern to us all in the Chamber. Since being elected as a Member for South Wales West, I have become increasingly worried about the number of patients coming to me with concerns about growing waiting lists. This can easily be demonstrated within the orthopaedic care area and is backed up by your statistics, which show a dramatic rise. Some 4,500 patients fall outside the maximum target time of 36 weeks and I am extremely worried that the cuts that your Government is making to the NHS will compound the problem. Will you look into this urgently, review waiting lists across the board and reconsider your policy, which will decimate the NHS?

**Byron Davies:** Mae’r GIG yn fater o bryder mawr i bawb yn y Siambr. Ers cael fy ethol yn Aelod dros Orllewin De Cymru, rwyf yn pryderu fwyfwy am nifer y cleifion sy’n dod ataf i fynegi eu pryderon am restrau aros sy’n parhau i dyfu. Gellir dangos hyn yn hawdd mewn perthynas â’r maes gofal orthopedig, ac mae’r datganiad hwn yn cael ei ategu gan eich ystadegau, sy’n dangos cynnydd dramatig. Mae tua 4,500 o gleifion y tu allan i’r amser targed, sef uchafswm o 36 wythnos, ac rwyf yn poeni’n fawr y bydd y toriadau y mae eich Llywodraeth yn eu gwneud i’r GIG yn ychwanegu at y broblem. A wnewch chi edrych ar y mater hwn ar fyrder, gan adolygu rhestrau aros ar draws y bwrdd ac ailystyried eich polisi, a fydd yn anrheithio’r GIG?

**The First Minister:** Orthopaedic surgery has just had an extra £65 million and, therefore, it was perhaps not the most profitable area to pick on. We know that demand is increasing in the field of orthopaedic surgery as people are living longer and are now receiving not one, but two hip replacements in the same joint. Bearing that in mind, we took the prudent course of action and invested £65 million extra in orthopaedic services. We are now seeing the number of people on waiting lists dropping as more and more people

**Y Prif Weinidog:** Mae llawdriniaeth orthopedig newydd gael £65 miliwn o arian ychwanegol; felly, mae’n bosibl nad hwnnw oedd y maes mwyaf proffidiol i sôn amdano. Gwyddom fod y galw’n cynyddu ym maes llawdriniaeth orthopedig gan fod pobl yn byw’n hirach ac yn awr yn cael dwy glun newydd yn yr un cymal, yn hytrach nag un. Gan gadw hynny mewn cof, rydym wedi cymryd y penderfyniad doeth o fuddsoddi £65 miliwn ychwanegol mewn gwasanaethau orthopedig. Rydym yn awr yn

benefit from that investment.

gweld y niferoedd ar restrau aros yn disgyn wrth i fwy o bobl elwa o'r buddsoddiad hwnnw.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 12, OAQ(4)0053(FM), yn ôl.

**The Presiding Officer:** Question 12, OAQ(4)0053(FM), has been withdrawn.

**Economi Wledig**

**Rural Economy**

***13. Antoinette Sandbach:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwneud yr economi wledig yn fwy cystadleuol. OAQ(4)0048(FM)*

***13. Antionette Sandbach:*** *Will the First Minister outline the Welsh Government's priorities for increasing the competitiveness of the rural economy. OAQ(4)0048(FM)*

**The First Minister:** We will do so through the delivery of the rural development plan for Wales, which provides a wide range of support and funding.

**Y Prif Weinidog:** Byddwn yn gwneud hynny drwy gyflwyno'r cynllun datblygu gwledig ar gyfer Cymru, sy'n darparu ystod eang o gefnogaeth a chyllid.

**Antoinette Sandbach:** The First Minister will be familiar with the shocking decline in the Welsh agriculture gross value added figures, the majority of which occurred between 2005 and 2007, when I believe that he was the Minister for the environment. One factor that has made Welsh agriculture uncompetitive is the sheer volume of red tape that farmers have to put up with because Welsh Governments have so zealously gold-plated regulation after regulation from Europe. When will your Government set out its plans to get to grips with red tape? If I may show you this document, this is the English form that needs to be filled out, which could be described as a pamphlet, and this is the Welsh form for the same area, which could perhaps be described as a book.

**Antoinette Sandbach:** Bydd y Prif Weinidog yn gyfarwydd â'r dirywiad dychrynllyd yn ffigurau gwerth ychwanegol crynswth sector amaethyddiaeth Cymru. Gwelwyd y dirywiad mwyaf rhwng 2005 a 2007, pan oedd y Prif Weinidog yn Weinidog dros yr amgylchedd. Un ffactor sydd wedi gwneud amaethyddiaeth Cymru yn anghystadleuol yw'r holl dâp coch y mae'n rhaid i ffermwyr ei ddioddef oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi goreuro rheoliad ar ôl rheoliad o Ewrop, a hynny mewn modd mor eiddgar. Pa bryd fydd eich Llywodraeth yn amlinellu ei chynlluniau i fynd i'r afael â thâp coch? Os caf ddangos y ddogfen hon ichi, dyma'r ffurflen y mae angen ei llenwi yn Lloegr, sef dogfen y gellid ei disgrifio fel pamffled; a dyma'r ffurflen ar gyfer Cymru yn yr un ardal, sef dogfen y gellid ei disgrifio fel llyfr, efallai.

**The Presiding Officer:** Order. Will you ask a question, please?

**Y Llywydd:** Trefn. A wnewch chi ofyn cwestiwn, os gwelwch yn dda?

**Antoinette Sandbach:** When will your Government get to grips with farm red tape and accept that the achievements of the previous Government's review were extremely modest, despite spending over £2 million of taxpayers' money?

**Antoinette Sandbach:** Pa bryd fydd eich Llywodraeth yn mynd i'r afael â thâp coch sy'n ymwneud â ffermydd ac yn derbyn bod yr hyn a gyflawnwyd o ran adolygiad y Llywodraeth flaenorol yn hynod o fach, er i'r Llywodraeth wario dros £2 miliwn o arian trethdalwyr?

**The First Minister:** The single farm payment application form is much shorter than the forms for the previous schemes, for

**Y Prif Weinidog:** Mae'r ffurflen gais ar gyfer y taliad sengl yn llawer byrrach na'r ffurflenni ar gyfer y cynlluniau blaenorol,

example, the beef special premium scheme, the sheep annual premium scheme and the arable area payment scheme. This form is much easier to fill in. What we did in Wales was to pay people on time, which did not happen in England. We have shown our commitment to farming in Wales and we have shown that we are able to provide farmers with their subsidies, paid properly and on time.

megis y cynllun premiwm arbennig eidion, y cynllun premiwm blynyddol defaid a'r cynllun taliadau arwynebedd tir. Mae'r ffurflen hon yn llawer haws i'w llenwi. Yr hyn a wnaethom yng Nghymru oedd talu pobl yn brydlon—rhywbeth nad oedd yn digwydd yn Lloegr. Rydym wedi dangos ein hymrwymiad i ffermio yng Nghymru, ac rydym wedi dangos ein bod yn gallu darparu cymorthdaliadau i ffermwyr, a hynny gan sicrhau eu bod yn cael eu talu'n briodol ac yn brydlon.

**Llunio Polisiau Iechyd**

**Health Policy Making**

***14. Mark Drakeford****: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar yr egwyddorion a fydd yn llywio'r broses o lunio polisïau iechyd yng Nghymru yn ystod cyfnod y Pedwerydd Cynulliad. OAQ(4)0046(FM)*

***14. Mark Drakeford:*** *Will the First Minister make a statement on the principles which will guide health policy making in Wales during the period of the Fourth Assembly. OAQ(4)0046(FM)*

**The First Minister:** We will not look to privatise health services, we will not look to commission general practitioner services and we will ensure that we provide high-quality services to our people.

**Y Prif Weinidog:** Ni fyddwn yn edrych i breifateiddio gwasanaethau iechyd, ni fyddwn yn edrych i gomisiynu gwasanaethau meddyg teulu, a byddwn yn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i'n pobl.

**Mark Drakeford:** Would you agree that consistency and continuity are essential in providing a stable policy framework for delivering health services, and that the positive approach you have just outlined provides a sharp contrast with what *The Times* newspaper called the 'debacle' of last week's health policy u-turn in England?

**Mark Drakeford:** A fyddech yn cytuno bod cysondeb a pharhad yn hanfodol o ran darparu fframwaith polisi cadarn ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd, a bod y dull cadarnhaol yr ydych newydd ei amlinellu yn gyferbyniad llwyr â'r hyn y mae papur newydd *The Times* yn ei alw'n 'llanastr', sef y tro pedol o ran polisi iechyd yn Lloegr?

**The First Minister:** It is fair to say that no-one in Wales would want to see that kind of debacle here. I have heard many times that people are grateful for the fact that they have a Welsh Government that is interested in providing good GP services rather than toying with the markets in order to make a profit.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n deg dweud na fyddai unrhyw un yng Nghymru am weld y math hwnnw o lanastr yma. Rwyf wedi clywed sawl gwaith bod pobl yn ddiolchgar am y ffaith bod ganddynt Lywodraeth yng Nghymru sydd â diddordeb mewn darparu gwasanaethau meddyg teulu da, yn hytrach na chwarae â'r marchnadoedd er mwyn gwneud elw.

**Darren Millar:** Research by Care Forum Wales has shown that if the NHS in Wales worked with the independent care sector, hospital discharges could be speeded up significantly, the NHS could save in excess of £20 million per year, and we could see an end to the misery of bed-blocking, which blights much of the NHS. Do you agree that

**Darren Millar:** Yn ôl ymchwil a wnaed gan Fforwm Gofal Cymru, pe byddai'r GIG yng Nghymru yn gweithio gyda'r sector gofal annibynnol, gellid cyflymu'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn sylweddol, gallai'r GIG arbed dros £20 miliwn y flwyddyn, a gallem weld diwedd ar y trallod o flocio gwelyau, sy'n falltod ar lawer o'r

research like this proves that the independent sector has a role to play in the health service in Wales? Will you agree to consider those areas where the private and independent sectors can work with the NHS to alleviate some of the problems?

GIG. A ydych yn cytuno bod gwaith ymchwil o'r math hwn yn profi bod gan y sector annibynnol rôl i'w chwarae yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru? A wnewch chi gytuno i ystyried y meysydd hynny lle gallai'r sectorau preifat ac annibynnol weithio gyda'r GIG i leddfu rhai o'r problemau hyn?

**The First Minister:** Given what has happened with Southern Cross, now is perhaps not the best time to make that point, but we know for a fact that much social care is delivered by independent providers in Wales. That is not a reason, however, for introducing private providers in the health service, particularly in the field of GP services.

**Y Prif Weinidog:** O ystyried yr hyn sydd wedi digwydd gyda Southern Cross, efallai nad dyma'r amser gorau i wneud y pwynt hwnnw, ond gwyddom fel ffaith bod llawer o ofal cymdeithasol yn cael ei ddarparu gan ddarparwyr annibynnol yng Nghymru. Nid yw hynny'n rheswm, fodd bynnag, i gyflwyno darparwyr preifat i'r gwasanaeth iechyd, yn enwedig ym maes gwasanaethau meddyg teulu.

**Blaenoriaethau Addysg**

**Priorities for Education**

***15. Sandy Mewies:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer addysg yn ystod tymor hwn y Cynulliad. OAQ(4)0050(FM)*

***15. Sandy Mewies:*** *Will the First Minister outline his priorities for education in this Assembly term. OAQ(4)0050(FM)*

**The First Minister:** My priorities for education are set out in our manifesto and are focused on raising standards across the board.

**Y Prif Weinidog:** Mae fy mlaenoriaethau ar gyfer addysg wedi eu gosod allan yn ein maniffesto, ac maent yn canolbwyntio ar godi safonau ar draws y bwrdd.

**Sandy Mewies:** The commitments already made to our full-time students have been widely welcomed, as you know. Would you agree that it is equally important to provide fairer funding for part-time students who are ordinarily resident in Wales, in the manner that the Welsh Government has proposed?

**Sandy Mewies:** Mae'r ymrwymiadau a wnaed eisoes i'n myfyrwyr amser llawn wedi cael croeso eang, fel y gwyddoch. A fyddech yn cytuno bod darparu cyllid tecach i fyfyrwyr rhan amser sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru, yn y modd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gynnig, yr un mor bwysig?

**The First Minister:** We take the view that no student in Wales should be put off going to university or to study because of financial commitments that they have found too onerous. It is a shame that that has not been repeated in England.

**Y Prif Weinidog:** Rydym o'r farn na ddylai unrhyw fyfyriwr yng Nghymru gael ei droi oddi ar fynd i'r brifysgol neu i astudio oherwydd bod yr ymrwymiadau ariannol yn rhy feichus. Mae'n drueni nad yw'r farn honno wedi cael ei hailadrodd yn Lloegr.

**Angela Burns:** I know that we all agree that the number of children aged 11 who leave school without a good command of English, Welsh, mathematics or science is far too high. The tables recently published show a figure of 21 per cent in Neath Port Talbot, 23 per cent in Anglesey, 23 per cent for Welsh in Neath Port Talbot, and 23 per cent for mathematics in Merthyr Tydfil in that

**Angela Burns:** Gwn ein bod i gyd yn cytuno bod nifer y plant 11 oed sy'n gadael yr ysgol heb gael meistrolaeth dda o'r Saesneg, y Gymraeg, mathemateg neu wyddoniaeth yn llawer rhy uchel. Mae'r tablau a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn dangos ffigur o 21 y cant yng Nghastell-nedd Port Talbot, 23 y cant yn Ynys Môn, 23 y cant ar gyfer y Gymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot, a 23 y cant ar

category. Most of the local authority areas with the worst figures are the authorities that have had the highest investment over the last 10 years in terms of regeneration, Communities First programmes and so on. First Minister, will you and your ministerial colleagues consider a review of how that money has been spent by the councils that, year after year, are producing such low rates of educational attainment for children? The attainment of children in comparable local authority areas is head and shoulders above those in these areas. I have the data sets here and I am sure that your Minister would be able to provide them to you.

gyfer mathemateg ym Merthyr Tudful yn y categori hwnnw. Mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd awdurdod lleol sydd â'r ffigurau gwaethaf yn awdurdodau sydd wedi cael y buddsoddiad uchaf dros y 10 mlynedd diwethaf o ran adfywio, rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf ac yn y blaen. Brif Weinidog, a wnewch chi a'ch cyd-Weinidogion ystyried cynnal adolygiad o sut y mae'r arian hwnnw'n cael ei wario gan y cynghorau hynny sydd, flwyddyn ar ôl blwyddyn, yn cyflawni cyfraddau mor isel o gyrhaeddiad addysgol ymhlith plant? Mae lefelau cyrhaeddiad plant mewn awdurdodau lleol cymaradwy ben ac ysgwydd yn uwch na'r ffigurau yn yr ardaloedd hyn. Mae gen i'r setiau data yma, ac rwyf yn siŵr y byddai eich Gweinidog yn gallu eu darparu i chi.

**The First Minister:** It is a matter for those councils to explain that situation. Education, in terms of delivery, is primarily a matter for local authorities, but in terms of literacy and numeracy, we have our national plans. These will introduce a national reading test, consistent across Wales, that is designed to ensure that far fewer pupils will fall behind their appropriate reading age. It will focus on seven to 11-year-old children, and there will also be catch-up reading programmes. By the 2012-13 academic year, we will have developed similar plans for numeracy.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n fater i'r cynghorau hynny esbonio'r sefyllfa honno. O safbwynt gweithredu, mae addysg yn fater i awdurdodau lleol yn bennaf, ond o ran llythrennedd a rhifedd, mae gennym gynlluniau cenedlaethol. Bydd y rhain yn cyflwyno prawf darllen cenedlaethol, a fydd yn gyson ledled Cymru, ac a fydd wedi'i lunio er mwyn sicrhau y bydd llawer llai o ddisgyblion yn disgyn y tu ôl i'w hoedran darllen priodol. Bydd yn canolbwyntio ar blant saith i 11 mlwydd oed, a bydd hefyd rhaglenni darllen dal-i-fyny. Erbyn y flwyddyn academaidd 2012-13, byddwn wedi datblygu cynlluniau tebyg ar gyfer rhifedd.

2.30 p.m.

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
## Business Statement and Announcement

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** This week's Government business is as set out in the agenda papers for today and tomorrow. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

**Y Gweinidog dros Gyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Mae busnes y Llywodraeth yr wythnos hon fel a nodir yn y papurau agenda ar gyfer heddiw ac yfory. Dangosir y busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd ar gael ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i Aelodau yn electronig.

**William Graham:** May I ask you to bring forward a statement on a matter that has caused some concern to local authorities? I am referring in particular to hydraulic fracturing. You will know from your own

**William Graham:** A gaf ofyn i chi gyflwyno datganiad ar fater sydd wedi achosi peth pryder i awdurdodau lleol? Yr wyf yn cyfeirio yn benodol at hollti hydrolig. Byddwch yn gwybod, o'ch etholaeth eich

constituency that there is a possibility of a planning application being made within the next few weeks. This matter is causing concern on the grounds of environmental safety and there are also health concerns. Will you bring forward a statement on the technical advice that you are likely to produce, particularly as the Simpson report recommends that this should be done on a national basis, which I assume means a Wales-wide basis?

hun, fod posibilrwydd o gais cynllunio yn cael ei wneud o fewn yr wythnosau nesaf. Mae'r mater hwn yn peri pryder ar sail diogelwch amgylcheddol ac mae hefyd bryderon iechyd. A wnewch gyflwyno datganiad ar y cyngor technegol yr ydych yn debygol o'i gynhyrchu, yn enwedig gan fod adroddiad Simpson yn argymell y dylid gwneud hyn ar sail genedlaethol, yr wyf yn cymryd yn ganiataol sy'n golygu sail Cymru gyfan?

**Jane Hutt:** You raise an important point, which is a matter for the Minister for Environment and Sustainable Development. We must also recognise that the shadow Minister has made a clear point on this with regard to a moratorium. We note that the UK Government's Minister for energy has declined to go down that route. This is an issue for the UK Government in terms of licensing, but, clearly, we must take account of it in terms of impacts in Wales.

**Jane Hutt:** Yr ydych yn codi pwynt pwysig, sy'n fater i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy. Rhaid inni gydnabod hefyd fod Gweinidog yr wrthblaid wedi gwneud pwynt clir ar hyn mewn perthynas â moratoriwm. Rydym yn nodi bod Gweinidog Llywodraeth y DU ar gyfer ynni wedi gwrthod dilyn y llwybr hwnnw. Mae hwn yn fater i Lywodraeth y DU o ran trwyddedu, ond, yn amlwg, mae'n rhaid i ni ei gymryd i ystyriaeth yn nhermau ei effeithiau yng Nghymru.

**Simon Thomas:** Can we have an urgent statement from the Government on something that is not in the Welsh Labour manifesto, namely the establishment of an internet domain name for Wales? The Minister will remember that the last Government was committed to the dot.cym campaign, and although dot.cym is no longer available, the Internet Corporation for Assigning Names and Numbers has said that it is now prepared to open the bidding process next year so that we can have dot.cymru and dot.wales for businesses, tourism ventures and cultural organisations in Wales. An early statement from the Government saying that it wants this for Wales would be widely welcomed throughout the nation.

**Simon Thomas:** A allwn gael datganiad brys gan y Llywodraeth ar rywbeth nad yw'n rhan o faniffesto Llafur Cymru, sef sefydlu enw parth rhyngrwyd ar gyfer Cymru? Bydd y Gweinidog yn cofio bod y Llywodraeth ddiwethaf wedi ymrwymo i ymgyrch dot.cym, ac er nad yw dot.cym ar gael bellach, mae Corfforaeth y Rhyngrwyd ar gyfer Neilltuo Enwau a Rhifau wedi dweud ei fod yn barod yn awr i agor y broses ymgeisio flwyddyn nesaf fel y gallwn gael dot.cymru a dot.wales ar gyfer busnesau, mentrau twristiaeth a sefydliadau diwylliannol yng Nghymru. Byddai datganiad cynnar gan y Llywodraeth yn dweud ei fod eisiau hyn ar gyfer Cymru yn cael ei groesawu yn eang ledled y wlad.

**Jane Hutt:** This is a matter that the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science will certainly be looking at, and I am sure that you will raise it with her at the appropriate time.

**Jane Hutt:** Mae hwn yn fater y bydd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn sicr yn edrych arno, ac rwy'n siŵr y byddwch yn ei godi gyda hi ar yr adeg briodol.

**Mick Antoniw:** You will be aware that, on 30 June, we will be facing the biggest strike of public sector workers since the general strike of 1926. Thousands of workers across the UK and Wales will be protesting at the

**Mick Antoniw:** Byddwch yn ymwybodol y byddwn, ar 30 Mehefin, yn wynebu'r streic fwyaf o weithwyr y sector cyhoeddus ers streic gyffredinol 1926. Bydd miloedd o weithwyr ar draws y DU a Chymru yn

Tory-Lib Dem attack on pensions. I, like many other Assembly Members on this side, will be joining the trade union march in Cardiff on that day. In Monday's *Western Mail*, Dr Andrew Dearden, chair of the British Medical Association's Welsh council and pensions committee, was quoted as saying:

protestio ynglŷn ag ymosodiad y Torïaid-Democratiaid Rhyddfrydol ar bensiynau. Yr wyf fi, fel Aelodau Cynulliad eraill ar yr ochr hon, yn ymuno â'r undeb llafur i orymdeithio yng Nghaerdydd ar y diwrnod hwnnw. Yn y *Western Mail* ddydd Llun, dyfynnwyd Dr Andrew Dearden, cadeirydd cyngor a phwyllgor pensiynau Cymru Cymdeithas Feddygol Prydain, a ddywedodd:

'Why, then, would the Government want to change a pension scheme that's in positive balance, is financially stable and will give the Government £67 billion over the next 50 years? I suspect they want to use public-sector pensions as a tax-generating body—it's a stealth tax but without the stealth.'

Pam, felly, y byddai'r Llywodraeth yn dymuno newid cynllun pensiwn sydd ag iddi gydbwysedd ariannol, sy'n sefydlog yn ariannol ac sy'n rhoi £67 biliwn i'r Llywodraeth dros y 50 mlynedd nesaf? Rwyf yn amau ei bod am ddefnyddio pensiynau sector cyhoeddus fel corff cynhyrchu trethi—mae'n dreth ddirgel ond heb y dirgelwch.

Does the Minister agree with that analysis? May I also draw the Minister's attention to the statement of opinion that I have filed, entitled 'Opposing the unfair attack on the public sector workers', which I hope all Members will sign?

A yw'r Prif Weinidog yn cytuno â'r dadansoddiad hwnnw? Gallaf hefyd dynnu sylw'r Gweinidog at y datganiad barn yr wyf wedi'i gyflwyno, o'r enw 'Gwrthwynebu'r ymosodiad annheg ar weithwyr y sector cyhoeddus', yr wyf yn gobeithio y bydd pob Aelod yn ei lofnodi?

**The Presiding Officer:** Order. I do not recall hearing a request for a debate.

**Y Llywydd:** Trefn. Nid wyf yn cofio clywed cais am ddadl.

**Jane Hutt:** I will respond by saying that the Assembly Member for Pontypridd raises an important point and is taking it forward appropriately in terms of a statement of opinion. Although these issues are, to a large extent, not devolved—pension arrangements are not devolved—they, of course, have a major impact on women, which is of particular interest to me as Minister for equalities.

**Jane Hutt:** Byddaf yn ymateb drwy ddweud bod yr Aelod Cynulliad dros Bontypridd yn codi pwynt pwysig ac mae'n ymateb yn briodol o ran datganiad o farn. Er nad yw'r materion hyn, i raddau helaeth, wedi'u datganoli—nid yw trefniadau pensiwn wedi'u datganoli—maent, wrth gwrs, yn cael effaith fawr ar fenywod, sydd o ddiddordeb arbennig i mi fel Gweinidog dros gydraddoldeb.

**Kirsty Williams:** Will the Leader of the House ensure that the Minister for Environment and Sustainable Development produces a written statement with regard to the Welsh Government's response to the Department for Environment, Food and Rural Affairs consultation on the future of British waterways? That consultation paper is currently out, and while waterways are not a devolved issue, the future governance arrangements for British waterways, if it is to be turned into a charity, will be of interest to the people of Wales. I would be grateful to learn what the Welsh Government is doing to

**Kirsty Williams:** A wnaiff Arweinydd y Tŷ sicrhau bod y Gweinidog dros yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig o ran ymateb Llywodraeth Cymru i ymgynghoriad Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar ddyfodol dyfrffyrdd Prydain? Y mae papur ymgynghori allan ar hyn o bryd, ac er nad yw dyfrffyrdd yn fater datganoledig, bydd trefniadau llywodraethu dyfrffyrdd Prydain i'r dyfodol, os yw i gael ei droi'n elusen, o ddiddordeb i bobl Cymru. Byddwn yn gwerthfawrogi dysgu beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau

ensure that we have the most appropriate set of governance arrangements for the people of Wales.

bod gennym y set fwyaf addas o drefniadau llywodraethu ar gyfer pobl Cymru.

**Jane Hutt:** The Leader of the Welsh Liberal Democrats raises an important point for our Minister and I will make sure that he is aware of that request.

**Jane Hutt:** Mae Arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn codi pwynt pwysig ar gyfer ein Gweinidog a byddaf yn gwneud yn siŵr ei fod yn ymwybodol o'r cais hwnnw.

**Mark Isherwood:** As we are currently in Armed Forces Week, which leads up to Armed Forces Day, can you tell us whether there will be a Welsh Government statement on the armed forces, as there was last year, to coincide with this event? If not, can I call for such a statement, updating us on Welsh Government policy and support for Welsh troops serving overseas and for our veterans and ex-forces personnel? That statement could also update us on the support that the Welsh Government is giving to Armed Forces Day and what support it might give to other events, such as the Royal British Legion's ninetieth anniversary celebration in Llandudno this year.

**Mark Isherwood:** Gan ein bod ar hyn o bryd yn Wythnos Lluoedd Arfog, sy'n arwain i fyny at Ddiwrnod y Lluoedd Arfog, a allwch chi ddweud wrthym a fydd datganiad gan Lywodraeth Cymru ar y lluoedd arfog, fel oedd y llynedd, i gyd-fynd â'r digwyddiad hwn? Os na, galwaf am ddatganiad o'r fath, i'n diweddaru ni ar bolisi Llywodraeth Cymru a chefnogaeth i filwyr Cymru sy'n gwasanaethu dramor ac ar gyfer ein cyn-filwyr a chyn-lluoedd personél? Gallai'r datganiad hynny hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i Ddiwrnod y Lluoedd Arfog a pha gymorth y gallai fod yn ei roi i ddigwyddiadau eraill, megis dathliad 90 mlynedd ers sefydlu'r Lleng Brydeinig Frenhinol yn Llandudno eleni.

**Jane Hutt:** The Minister for Local Government and Communities is aware and very supportive of Armed Forces Day, and has attended events on behalf of the Welsh Government. A written statement will be produced and will deal with those important issues, such as the ninetieth anniversary of the Royal British Legion.

**Jane Hutt:** Mae'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau yn ymwybodol ac yn gefnogol iawn i Ddiwrnod y Lluoedd Arfog, ac mae wedi mynychu digwyddiadau ar ran Llywodraeth Cymru. Bydd datganiad ysgrifenedig yn cael ei gynhyrchu a bydd yn delio â'r materion pwysig hynny, fel 90 mlynedd ers sefydlu'r Lleng Brydeinig Frenhinol.

**Bethan Jenkins:** Bydd iawndal gan Lywodraeth Cymru i Tata am y ffordd ddosbarthu newydd a fydd yn mynd drwy safle gwaith dur Port Talbot yn hanfodol ar gyfer ariannu siopau newydd, canolfan ymwelwyr ac, yn bwysicach, y ganolfan hyfforddiant ar gyfer prentisiaid ifanc. A yw'n bosibl inni gael datganiad gyda'r diweddaraf ar y broses hon gan y Llywodraeth, gan ein bod yn clywed yn lleol bod Llywodraeth Cymru wedi methu â chytuno iawndal gyda Tata, sydd â'r potensial i beryglu'r prosiectau hyn yn y dyfodol?

**Bethan Jenkins:** Compensation from the Welsh Government to Tata for the new distributor road that will go through the Port Talbot steelweeks will be crucial to fund new shops, a visitor centre and, more importantly, the training centre for young apprentices. Would it be possible to have a statement updating us on this process from the Government, because we hear locally that the Welsh Government has failed to agree compensation with Tata, which has the potential to endanger these projects in future?

Mae'n rhaid imi hefyd godi ail fater, gan na chafodd cwestiwn brys ei ganiatáu arno.

I must also raise a second issue, since an urgent queston on it was not permitted. I

Deallaf fod swyddi wedi'u colli yng nghanolfan ffôn Conduit UK yn Abertawe yr wythnos diwethaf oherwydd i'r cwmni golli cytundeb mawr gyda Vodafone. Golyga hyn fod potensial i hyd yn oed mwy o staff golli eu gwaith. Yn wir, derbyniais ohebiaeth gan staff a oedd yn gweithio yn y ganolfan ffôn yn fy hysbysu bod 100 o weithwyr asiantaeth wedi colli eu gwaith yn syth wedi'r datganiad a wnaethpwyd yr wythnos diwethaf gan Conduit UK. Beth fydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud i drafod gyda Conduit UK y posibilrwydd o ddod o hyd i gytundebau newydd, a sut bydd Llywodraeth Cymru yn siarad gyda'r cwmni hwn er mwyn gwarchod y staff a gyflogir ganddo ac er mwyn edrych yn ehangach ar hawliau gweithwyr asiantaeth yma yng Nghymru?

understand that jobs have been lost in the Conduit UK call centre in Swansea last week as the company has lost a major contract with Vodafone. That means that there is the potential for even more staff to lose their jobs. Indeed, I have received correspondence from staff who worked in the call centre informing me that 100 agency staff had lost their work immediately following the statement made last week by Conduit UK. What will the Welsh Government do to discuss with Conduit UK the possibility of securing new contracts, and how will the Welsh Government talk with the company in order to safeguard the staff employed by it and to look more widely at the rights of agency workers here in Wales?

**Jane Hutt:** I suggest that Bethan Jenkins raises the first issue, which is an important issue for her, regarding transport in her regional constituency, with the Minister for Local Government and Communities, who also has responsibility for transport policy.

**Jane Hutt:** Awgrymaf fod Bethan Jenkins yn codi'r mater cyntaf, sy'n fater pwysig iddi hi, ynghylch trafnidiaeth yn ei hetholaeth ranbarthol, gyda'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau, sydd hefyd yn gyfrifol am bolisi trafnidiaeth.

On her second issue, our understanding is that no jobs have been lost at Swansea. Welsh Government officials are in discussions with Conduit UK's chief executive officer for Europe. Opportunities exist to bring other work to Swansea from within Conduit UK, and I am sure that the Member is seeking to encourage the company in doing so.

Ar yr ail fater, ein dealltwriaeth ni yw nad oes swyddi wedi eu colli yn Abertawe. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru mewn trafodaethau gyda phrif swyddog gweithredol ar gyfer Ewrop Conduit UK. Mae cyfleoedd i ddod â gwaith arall i Abertawe o fewn Conduit UK, ac yr wyf yn siŵr bod yr Aelod yn ceisio annog y cwmni i wneud hynny.

**Lynne Neagle:** I would like to ask for a debate on the UK Government's plans for welfare reform and the impact that they are likely to have on communities in Wales. There are many deeply worrying issues, such as the warning given by the Children's Society this weekend that the move to universal credit could leave many thousands of families with disabled children up to £1,400 a year worse off. My colleague Mark Drakeford recently highlighted potentially damaging changes to the social fund, and I am afraid that the list could go on. While this is not a devolved area, this will undoubtedly bring huge pressures to bear on devolved services in Wales, so Members would welcome the opportunity to discuss this issue.

**Lynne Neagle:** Hoffwn ofyn am ddadl ar gynlluniau Llywodraeth y DU i ddiwygio lles a'r effaith y maent yn debygol o'i gael ar gymunedau yng Nghymru. Mae llawer o faterion yn peri gofid mawr, fel y rhybudd a roddwyd gan Gymdeithas y Plant y penwythnos hwn y gallai symud i'r credyd cynhwysol adael miloedd lawer o deuluoedd gyda phlant anabl ar eu coleg o £1,400 y flwyddyn. Yn ddiweddar, nododd fy nghyd-Aelod Mark Drakeford y newidiadau i'r gronfa gymdeithasol a allai fod yn niweidiol, ac mae arnaf ofn y gallai'r rhestr barhau i dyfu. Er nad yw hwn yn faes datganoledig, bydd hyn yn ddi-os yn dwyn pwysau enfawr ar wasanaethau datganoledig yng Nghymru, felly byddai Aelodau yn croesawu'r cyfle i drafod y mater hwn.

**Jane Hutt:** This is an important matter that the Member for Torfaen has raised today, although it is not devolved. The £18 billion cut, which has come forth as a result of the comprehensive spending review and last June's budget, will have a major impact on the most vulnerable people in communities in Wales, particularly disabled people. It has been described by Disability Wales as a double whammy for disabled people. Welsh Ministers are working hard to ensure that, with regard to our policies and our interventions, we can mitigate these cuts and shield people, as far as possible, from their effects.

**Jane Hutt:** Mae hwn yn fater pwysig a godwyd gan yr Aelod dros Torfaen heddiw, er nad yw wedi'i ddatganoli. Bydd y toriad o £18 biliwn, o ganlyniad i'r adolygiad cynhwysfawr o wariant a'r gyllideb fis Mehefin diwethaf, yn cael effaith fawr ar y bobl fwyaf agored i niwed mewn cymunedau yng Nghymru, yn enwedig pobl anabl. Fe'i disgrifiwyd gan Anabledd Cymru fel ergyd ddwbl i bobl anabl. Mae Gweinidogion Cymru yn gweithio'n galed i sicrhau, o ran ein polisïau a'n hymyriadau, y gallwn liniaru'r toriadau hyn a gwarchod pobl, cyn belled ag y bo modd, rhag eu heffeithiau.

**Andrew R.T. Davies:** Could we have a statement on Government support for Cardiff Airport? I questioned the First Minister last week and he highlighted that the airport, and the support that is given to the airport, required close examination. He went on to say that he is concerned about the future of the airport, given that bmibaby is leaving, and that he needed to target the support that the Welsh Assembly Government is able to give to Cardiff Airport. The owners are working tirelessly to attract new operators, but there needs to be partnership and dialogue with the Government in Cardiff bay. Is it possible that the Minister could bring forward a statement, highlighting exactly what action the Government is taking and what support will be made available to the airport to try to secure new routes and the future viability of the airport?

**Andrew R.T. Davies:** A gawn ni ddatganiad am gefnogaeth y Llywodraeth i Faes Awyr Caerdydd? Holais y Prif Weinidog yr wythnos diwethaf, a nododd bod y maes awyr, a'r cymorth a roddir i'r maes awyr, yn gofyn am sylw manwl. Aeth ymlaen i ddweud ei fod yn poeni am ddyfodol y maes awyr, o gofio bod bmibaby yn gadael, a bod angen iddo dargedu'r cymorth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gallu i roi i Faes Awyr Caerdydd. Mae'r perchnogion wedi gweithio'n ddiflino i ddenu gweithredwyr newydd, ond mae angen cael partneriaeth a deialog gyda'r Llywodraeth ym mae Caerdydd. A fyddai modd i'r Gweinidog wneud datganiad, yn amlygu pa gamau yn union mae'r Llywodraeth yn eu cymryd a pha gymorth fydd ar gael i'r maes awyr i geisio sicrhau llwybrau newydd a hyfywedd y maes awyr yn y dyfodol?

**Jane Hutt:** In terms of the opportunities and levers that we have at our disposal for improving the prospects of Cardiff Airport, we look at every avenue. It is important that this is not only seen by the First Minister, but also by the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science, as an important strategic area in terms of connectivity and business.

**Jane Hutt:** O ran y cyfleoedd a'r dulliau sydd gennym ar gyfer gwella rhagolygon Maes Awyr Caerdydd, rydym yn edrych ar bob llwybr. Mae'n bwysig bod hyn nid yn unig yn cael ei weld gan y Prif Weinidog, ond hefyd gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, fel ardal strategol bwysig o ran cysylltedd a busnes.

**Leanne Wood:** Further to the point made earlier by Mick Antoniw, next week's strike will have a major impact on the running of public services in Wales, including the running of this place. Ed Balls has come out clearly against the trade unions, advising workers not to strike next week. Can we have

**Leanne Wood:** Yn dilyn y pwynt a wnaed yn gynharach gan Mick Antoniw, bydd y streic yr wythnos nesaf yn cael effaith fawr ar y gwaith o redeg gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y gwaith o redeg y lle hwn. Mae Ed Balls wedi dod allan yn glir yn erbyn yr undebau llafur, a chynghori

a statement from the Government indicating its position on this strike? Specifically, I would like to know whether the Government is going to stand up for Welsh public sector workers in their attempts to defend their pensions, or whether it intends to support Ed Balls's view. We need an urgent statement so that everyone is clear as to how this building and the Government will operate its business a week on Thursday.

gweithwyr i beidio â streicio yr wythnos nesaf. A allwn gael datganiad gan y Llywodraeth yn nodi ei safbwynt ar y streic? Yn benodol, hoffwn wybod a yw'r Llywodraeth yn mynd i gefnogi gweithwyr sector cyhoeddus Cymru yn eu hymdrechion i amddiffyn eu pensiynau, ynteu a yw'n bwriadu cefnogi barn Ed Balls. Mae arnom angen datganiad brys fel bod pawb yn glir ynghylch sut y bydd yr adeilad hwn a'r Llywodraeth yn gweithredu ei fusnes wythnos i ddydd Iau.

**Jane Hutt:** I think that it is clear form my response to the Member for Pontypridd that we are concerned about the impact of the Government's public sector pension proposals. Around 300,000 people work in the public sector in Wales—approximately 24 per cent of the workforce—and women are going to be hit particularly hard. It is quite clear that reforms of this kind should be negotiated with trade unions to ensure that employees are treated fairly and equitably with full protection for accrued rights.

**Jane Hutt:** Yr wyf yn meddwl ei bod yn glir oddi wrth fy ymateb i'r Aelod dros Bontypridd ein bod yn pryderu am effaith cynigion y Llywodraeth i bensiynau'r sector cyhoeddus. Mae tua 300,000 o bobl yn gweithio yn y sector cyhoeddus yng Nghymru—tua 24 y cant o'r gweithlu—a bydd merched yn cael eu taro yn arbennig o galed. Mae'n eithaf clir y dylai diwygiadau o'r math hwn gael eu trafod gyda'r undebau llafur i sicrhau bod gweithwyr yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal gyda diogelwch llawn ar gyfer hawliau cronedig.

**Darren Millar:** I call for a statement from the Minster for Business, Enterprise, Technology and Science on the development of enterprise zones in Wales. I know that the Government is keen to consider the introduction of enterprise zones, and I would like the opportunity to make the case in response to a statement for strategic regeneration areas to be designated as enterprise zones. The Government has designated a number of strategic regeneration areas. The opportunities for reduced business rates or some other kind of support for businesses to establish themselves in those areas would give them a real boost.

**Darren Millar:** Galwaf am ddatganiad gan y Gweinidog dros Fusnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ar y gwaith o ddatblygu parthau menter yng Nghymru. Gwn fod y Llywodraeth yn awyddus i ystyried cyflwyno parthau menter, a hoffwn y cyfle i wneud yr achos mewn ymateb i ddatganiad ar gyfer ardaloedd adfywio strategol i gael eu dynodi fel ardaloedd menter. Mae'r Llywodraeth wedi dynodi nifer o ardaloedd adfywio strategol. Byddai'r cyfleoedd ar gyfer trethi busnes is neu ryw fath arall o gymorth ar gyfer busnesau i sefydlu eu hunain yn yr ardaloedd hynny yn rhoi hwb go iawn iddynt.

**Jane Hutt:** We had a good debate about this last week and, as the First Minister has made clear, we are looking at the options for enterprise zones, including clustered enterprise zones. We want to make sure that we get this right, which is why the Minister is considering this carefully.

**Jane Hutt:** Cawsom ddadl dda am hyn yr wythnos diwethaf ac, fel y mae'r Prif Weinidog wedi gwneud yn glir, rydym yn edrych ar y dewisiadau ar gyfer ardaloedd menter, gan gynnwys parthau menter wedi'u clystyru. Rydym eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn cael hyn yn iawn, a dyna pam mae'r Gweinidog yn ystyried hyn yn ofalus.

## Datganiad ar Ddiwygio Cyllidol
## Statement on Financial Reform

**The First Minister:** There is consensus in the Chamber and, I believe, across Welsh civic society, that the devolved funding settlement for Wales is no longer fit for purpose. The UK Government has gone some way to acknowledging this fact by committing to considering the case for financial reform for Wales. When that process gets under way, the Welsh Government will play a constructive role. As I have already made clear to UK Government Ministers at the joint ministerial committee and elsewhere, no serious proposal will be dismissed out of hand, but neither will we accept a set of reforms that fails to address the fundamental flaws in the current system. Today, I wish to set out my objectives for financial reform. As Members of all parties are well aware, the mechanism by which our budget is decided—the Barnett formula—lacks a coherent rationale. The formula is an accident of history and now has few defenders anywhere. The Prime Minister himself has acknowledged that the Barnett formula is coming to the end of its life, but, so far at least, the formula clings on.

Mae'r trethi eraill yr wyf wedi'u crybwyll wedi'u cynnwys yn y datganiad am eu bod eisoes yn rhan o'r meysydd cyfrifoldeb sydd eisoes gan y Cynulliad a Llywodraeth Cymru. Felly, mae'n gwneud synnwyr i'r pwerau hynny gael eu datganoli. Rwyf eisoes wedi crybwyll yr hyn y gellid ei wneud gyda threth stamp er mwyn annog y diwydiant adeiladu yng Nghymru. Mae'n bwysig peidio â rhoi'r argraff mai ein hunig amcan yw cael mwy o arian, fel petai, heb gael ein cyhuddo o beidio â bod eisiau cymryd cyfrifoldeb ariannol. Mae'r datganiad hwn yn ceisio sicrhau cydbwysedd yn hynny o beth ac mae'n dangos, o'n rhan ni, petai Llywodraeth y DU yn cymryd y farn, er mwyn cael setliad ariannu teg i Gymru, y byddai angen dant am ddant o ran cyfrifoldebau ariannol ychwanegol ar gyfer y Cynulliad, mae hynny'n rhywbeth o fewn y cyfyngiadau yr wyf wedi'u hamlinellu yn y datganiad y byddwn yn barod i'w hystyried.

**Kirsty Williams:** I thank the First Minister for his statement this afternoon. I welcome the fact that we have had more clarity about the Welsh Government's intention with regard to fiscal devolution than we had received to date. I agree with the First Minister's closing statements in his response to Ieuan Wyn Jones: there are important issues of accountability and credibility to be struck when negotiating these issues with the Government in Westminster. It is right that we should have greater financial devolution to improve the accountability of the Welsh Government, and also to finally give us some levers over our own destiny. To be in a position where we simply receive money from another body, regardless of the success or failure of our policies or otherwise, is not the mark of the mature institution that we have grown to be.

**Kirsty Williams:** Diolchaf i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma. Croesawaf y ffaith ein bod wedi cael mwy o eglurder ynglŷn â bwriad Llywodraeth Cymru o ran datganoli ariannol nag yr ydym wedi'i gael hyd yma. Cytunaf â datganiadau cloi'r Prif Weinidog yn ei ymateb i Ieuan Wyn Jones: mae'n rhaid cytuno ar faterion pwysig o atebolrwydd a hygrededd wrth drafod y materion hyn â'r Llywodraeth yn San Steffan. Mae'n iawn y dylem gael mwy o ddatganoli ariannol i wella atebolrwydd Llywodraeth Cymru, a hefyd i roi rhywfaint o liferi dros ein tynged ein hunain i ni. Nid yw bod mewn sefyllfa lle rydym yn syml yn derbyn arian gan gorff arall, waeth beth fo llwyddiant neu fethiant ein polisïau neu fel arall, yn arwydd o'r sefydliad aeddfed yr ydym wedi tyfu i fod.

I have some specific questions to ask. You said that you discussed these issues on the margins of your meeting yesterday. You also said that it is the Westminster Government's

Mae gennyf rai cwestiynau penodol i'w gofyn. Roeddech yn dweud eich bod wedi trafod y materion hyn ar ymylon eich cyfarfod ddoe. Dywedoch hefyd ei bod yn

intention to release a statement on the Calman-style process for Wales before the beginning of the parliamentary recess. Are the discussions at the water cooler the limit of your formal representations to the Westminster Government about what that Calman-style commission should be, or have you submitted a formal request to the Westminster Government about what should be looked at by the Calman-style commission; who should be a part of that commission; and what representation, specifically, this institution—or indeed the wider Welsh civic society—should have in looking at that Calman-style commission?

fwriad gan Lywodraeth San Steffan i ryddhau datganiad ar y broses yn arddull Calman ar gyfer Cymru cyn dechrau'r toriad seneddol. Ai trafodaethau wrth y peiriant oeri dŵr yw'r cwbl yr ydych wedi'i o ran sylwadau ffurfiol i Lywodraeth San Steffan am yr hyn y dylai comisiwn yn arddull Calman fod, ynteu a ydych wedi cyflwyno cais ffurfiol i Lywodraeth San Steffan ynghylch beth y dylid ei ystyried gan y comisiwn yn arddull Calman; pwy ddylai fod yn rhan o'r comisiwn; a pha gynrychiolaeth, yn benodol, y dylai'r sefydliad hwn—neu yn wir cymdeithas ddinesig ehangach Cymru—ei chael wrth edrych ar gomisiwn yn arddull Calman?

I wholeheartedly support your request for borrowing powers to be given to the Welsh Government. I think that that is perfectly appropriate. Ultimately, we need a new, fairer funding formula for Wales. It has long been the stated policy of the Welsh Liberal Democrats for that to be the case, and I welcome the fact that it is now also your Government's stated policy.

Rwy'n llwyr gefnogi eich cais i roi pwerau benthyg i Lywodraeth Cymru. Credaf fod hynny'n gwbl briodol. Yn y pen draw, mae angen fformiwla ariannu newydd a thecach i Gymru. Mae hynny wedi bod yn bolisi Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ers amser hir, a chroesawaf y ffaith mai dyna yw polisi eich Llywodraeth hefyd erbyn hyn.

I now turn to some of the individual taxes mentioned in your statement. You did not respond to Ieuan Wyn Jones's analysis of your statement. On landfill tax, stamp duty, aggregates levy and air passenger duty, your statement states that they may be useful policy levers but that there might also be risks associated with the devolution of those taxes to Wales. Do you intend to ask the Westminster Government for the devolution of those taxes, and do you intend to do the same on the issue of corporation tax? Paul Davies was right to remind us of the conclusions of Gerry Holtham with regard to the importance of corporation tax and the difference that that could make. It would not be unusual for the Welsh Government to look at powers around corporation tax. Perhaps I could remind you, First Minister, of the announcement made by Mike German in 2000, when he was the Minister for economic development. He went to Europe to look at additional operating aids for the Objective 1 areas around corporation tax. Therefore, in 2000, it seems that, as a Welsh Government, you were willing to look at a differentiation between corporation tax levels.

Trof yn awr at rai o'r trethi unigol a grybwyllir yn eich datganiad. Ni wnaethoch ymateb i ddadansoddiad Ieuan Wyn Jones o'ch datganiad. O ran treth tirlenwi, treth stamp, ardoll agregau a threth i deithwyr awyr, mae eich datganiad yn nodi y gallent fod yn ysgogwyr polisi defnyddiol ond y gallai hefyd risgiau fod yn gysylltiedig â datganoli'r trethi hynny i Gymru. A ydych yn bwriadu gofyn i Lywodraeth San Steffan ddatganoli'r trethi hynny, ac a ydych yn bwriadu gwneud yr un peth o ran treth gorfforaeth? Roedd Paul Davies yn iawn i'n hatgoffa o gasgliadau Gerry Holtham mewn perthynas â phwysigrwydd treth gorfforaeth a'r gwahaniaeth y gallai hynny ei wneud. Ni fyddai'n anarferol i Lywodraeth Cymru edrych ar bwerau yn ymwneud â threth gorfforaeth. Efallai y gallwn eich atgoffa, Brif Weinidog, o'r cyhoeddiad a wnaed gan Mike German yn 2000, pan oedd yn Weinidog datblygu economaidd. Aeth i Ewrop i edrych ar gymhorthion gweithredu ychwanegol ar gyfer ardaloedd Amcan 1 yn ymwneud â threth gorfforaeth. Felly, yn 2000, mae'n ymddangos, fel Llywodraeth Cymru, eich bod yn barod i edrych ar wahaniaethu rhwng lefelau treth gorfforaeth.

3.15 p.m.

You saying that you will not ask for power over corporation tax, but that you might want it if it were offered to the others, reminds me of Oscar Wilde saying—I think that it was he who said it—that the biggest curse was not having an invitation to a party that you would not be seen dead at. Therefore, you are saying, 'I don't really want power over corporation tax, but if everybody else is going to have it, maybe I want it after all'. Some clarity about your views on corporation tax would be welcome. I certainly think that Wales should be arguing the case for the devolution of power over corporation tax and I would be grateful for some clarity as to whether it is your intention to ask the Westminster Government for it, or whether you will just relax, sit back and see what comes out of the discussions.

Pan ddywedwch na fyddwch yn gofyn am bŵer dros dreth gorfforaeth, ond y gallech fod am ei gael pe bai'n cael ei gynnig i eraill, mae'n fy atgoffa o Oscar Wilde yn dweud—rwy'n credu mai ef ddywedodd hyn—mai'r felltith fwyaf oedd peidio a chael gwahoddiad i barti na fyddech am gael eich gweld yn farw ynddo. Felly, rydych yn dweud, 'Nid wyf wir am gael pŵer dros dreth gorfforaeth, ond os yw pawb arall yn mynd i'w gael, efallai fy mod am ei gael wedi'r cyfan'. Byddwn yn croesawu cael rhywfaint o eglurder am eich barn ar dreth gorfforaeth. Rwy'n sicr yn credu y dylai Cymru fod yn dadlau'r achos o blaid datganoli pŵer dros dreth gorfforaeth, a byddwn yn ddiolchgar i gael rhywfaint o eglurder ynghylch a yw'n fwriad gennych i ofyn i Lywodraeth San Steffan amdano, ynteu a fyddwch yn ymlacio, eistedd yn ôl a gweld beth ddaw o'r trafodaethau.

Finally, with regard to tax-varying powers, I do not think that anyone in the Chamber would want to have another referendum and I therefore understand your reluctance to go down that line. Would your views be the same if we were considering the ability to lower tax alone, rather than the ability to raise or lower tax? Gerry Holtham had some interesting things to say about the ability to lower income taxes and its use as a lever. Do you object to devolving power over income tax because you do not think that Welsh people would want us to raise it? If the power were devolved to us so that we could only lower it, would you still feel the same way?

Yn olaf, o ran pwerau amrywio trethi, nid wyf yn credu y byddai unrhyw un yn y Siambr am gael refferendwm arall, ac felly rwy'n deall eich amharodrwydd i fynd ar hyd y trywydd hwnnw. A fyddai'ch barn yr un fath pe byddem yn ystyried y gallu i ostwng y dreth yn unig, yn hytrach na'r gallu i godi neu ostwng y dreth? Roedd gan Gerry Holtham rai pethau diddorol i'w dweud am y gallu i ostwng trethi incwm a'i ddefnydd fel lifer. A ydych yn gwrthwynebu datganoli pŵer dros dreth incwm gan nad ydych yn credu y byddai pobl Cymru am inni ei chodi? Pe bai'r pŵer yn cael ei ddatganoli i ni i'w ostwng yn unig, a fyddech yn dal i deimlo'r un fath?

**The First Minister:** I think, Llywydd, that that quote was from Groucho Marx, not Oscar Wilde, but I will be corrected on that if I am wrong.

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn credu, Lywydd, mai dyfyniad gan Groucho Marx ydoedd, nid Oscar Wilde, ond câf yn nghywiro os wyf yn anghywir.

**Kirsty Williams:** I yield on that point.

**Kirsty Williams:** Yr wyf ildio ar y pwynt hwnnw.

**The First Minister:** The leader of the Welsh Liberal Democrats' criticism of inaction would carry more force were it not for the fact that, back in May of last year, a coalition agreement was put in place between her party and the Conservative party and, since then,

**Y Prif Weinidog:** Byddai beirniadaeth arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru o ddiffyg gweithredu yn fwy grymus pe na bai am y ffaith, yn ôl ym mis Mai y llynedd, y rhoddwyd cytundeb clymblaid ar waith rhwng ei phlaid a'r Blaid Geidwadol, ac ers

precisely nothing has been done by her party. Nothing has been delivered—there has been no action in terms of taking forward the Calman recommendations. Our view is that there is no need for another Calman commission. The Holtham commission has done its work and produced the evidence, and that is the evidence on which any Calman-style process should be based. We see no need for there to be yet another commission to do exactly the same thing again to produce a similar result. That point has been made many times to the UK Government, to the Secretary of State in the joint ministerial committee and in the margins of yesterday's meeting.

hynny, nid oes unrhyw beth o gwbl wedi ei wneud gan ei phlaid. Nid oes unrhyw beth wedi ei gyflawni—ni fu unrhyw weithredu o ran bwrw ymlaen ag argymhellion Calman. Ein barn ni yw nad oes angen comisiwn Calman arall. Mae comisiwn Holtham wedi gwneud ei waith ac wedi llunio'r dystiolaeth, a dylai unrhyw broses yn arddull Calman fod yn seiliedig ar y dystiolaeth honno. Nid ydym yn gweld yr angen am gomisiwn arall i wneud yn union yr un peth eto i ddod i ganlyniad tebyg. Gwnaed y pwynt hwnnw sawl gwaith i Lywodraeth y DU, yr Ysgrifennydd Gwladol yn y cyd-bwyllgor Gweinidogion ac ar ymylon y cyfarfod ddoe.

In terms of the taxes that I mentioned, as I said before, we know that £200 million can be raised from those taxes. You asked whether I would seek the devolution of powers over those taxes and the answer is 'yes', but only if it is part of an overall financial package that is good for Wales. I would not accept the devolution of those powers without fair funding. It would have to be as part of an overall package, as it cannot be done in bits and pieces—it must be part of a whole.

O ran y trethi y soniais amdanynt, fel y dywedais o'r blaen, rydym yn gwybod y gellir codi £200 miliwn o'r trethi hynny. Gofynnoch a fyddwn yn ceisio datganoli pwerau dros y trethi hynny a'r ateb yw 'byddwn', ond dim ond os yw'n rhan o becyn ariannol cyffredinol sy'n dda i Gymru. Ni fyddwn yn derbyn datganoli'r pwerau hynny heb ariannu teg. Byddai'n rhaid iddo fod yn rhan o becyn cyffredinol, gan na ellir ei wneud fesul darn—mae'n rhaid iddo fod yn rhan o gyfanwaith.

On whether I will ask for the devolution of power over corporation tax, the answer is 'no'. On whether I would oppose the devolution of such power, at this stage there is a lot of work to do in order to understand what the effect would be on Wales.

O ran a fyddaf yn gofyn am ddatganoli pŵer dros dreth gorfforaeth, yr ateb yw 'na fyddaf'. O ran a fyddwn yn gwrthwynebu datganoli pŵer o'r fath, ar hyn o bryd mae llawer o waith i'w wneud er mwyn deall beth fyddai'r effaith ar Gymru.

In terms of income tax and whether I would accept a situation where we could only lower income tax, the answer is 'no'. No-one would accept any powers over taxation on the basis that they could only lower tax. It is a bit like saying to local government, 'You can set your council tax rate, but it has to be lower every year', which makes no sense at all. If you are going to have control over taxation, it must be a substantial level of control. Nevertheless, it is a source of revenue that I do not think is appropriate for Wales and it would take a referendum for that to be approved.

O ran treth incwm ac a fyddwn yn derbyn sefyllfa lle gallem ostwng treth incwm yn unig, yr ateb yw 'na fyddwn'. Ni fyddai unrhyw un yn derbyn unrhyw bwerau dros drethiant ar y sail y gallent leihau'r dreth yn unig. Mae hynny fel dweud wrth lywodraeth leol, 'Gallwch osod eich cyfradd dreth gyngor, ond mae'n rhaid iddi fod yn is bob blwyddyn', ac nid yw hynny'n gwneud unrhyw synnwyr o gwbl. Os ydych am gael rheolaeth dros drethiant, rhaid ichi gael lefel sylweddol o reolaeth. Serch hynny, mae'n ffynhonnell o refeniw nad wyf yn credu sy'n briodol i Gymru a byddai'n rhaid cael refferendwm er mwyn cymeradwyo hynny.

I welcome the support that has been given by the other parties in the Chamber; some of it

Croesawaf y gefnogaeth a roddwyd gan y pleidiau eraill yn y Siambr; mae peth ohoni

has been warm, some of it terse, but, nevertheless, it is support. I hope that the UK Government will take note of that. It is important that we go from a situation where we have an acknowledgement that there should be a Calman-style process to a Calman-style process beginning. That is where this process must go next. It is essential that we deal with the situation of fair funding for Wales and that we get a financial package that is fair to all people.

wedi bod yn gynnes, peth ohoni’n swta, ond, serch hynny, mae’n gefnogaeth. Rwy’n gobeithio y bydd Llywodraeth y DU yn cymryd sylw o hynny. Mae’n bwysig ein bod yn mynd o sefyllfa lle mae gennym gydnabyddiaeth y dylid cael proses yn arddull Calman i ddechrau proses yn arddull Calman. Dyna lle mae’n rhaid i’r broses hon fynd nesaf. Mae’n hanfodol ein bod yn delio â’r sefyllfa o ran cyllid teg i Gymru, a bod gennym becyn ariannol sy’n deg i bawb.

**The Presiding Officer:** We have had three eloquent speeches from party leaders, who have covered a whole range of questions. I remind the remaining speakers that this is an opportunity to ask questions, not to make statements. Questions that have not been asked would be appreciated.

**Y Llywydd:** Rydym wedi cael tair araith huawdl gan arweinwyr y pleidiau, sydd wedi ymdrin ag ystod eang o gwestiynau. Rwy’n atgoffa’r siaradwyr sy’n weddill mai cyfle i ofyn cwestiynau yw hwn, nid i wneud datganiadau. Byddwn yn gwerthfawrogi cwestiynau nad ydynt eisoes wedi eu gofyn.

**Nick Ramsay:** I also thank the First Minister for his statement; I think that we all agree that Barnett needs to be reformed. I am sure that the First Minister would also agree that Lord Barnett never intended his name to live in infamy in the way that it has for the last 30 years. I am pleased that you acknowledge that the UK Government is committed to considering the case for Barnett reform.

**Nick Ramsay:** Rwyf hefyd yn diolch i’r Prif Weinidog am ei ddatganiad; credaf ein bod i gyd yn cytuno bod angen diwygio Barnett. Rwy’n siŵr y byddai’r Prif Weinidog hefyd yn cytuno nad oedd yr Arglwydd Barnett erioed yn bwriadu i’w enw fyw mewn gwaradwydd yn y ffordd y mae wedi gwneud dros y 30 mlynedd diwethaf. Rwy’n falch eich bod yn cydnabod bod Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ystyried yr achos dros ddiwygio Barnett.

I have a specific question on the issue of borrowing because, although we have discussed it in the Chamber and you have answered questions on it today, confusion reigns over this area. I agree with you, First Minister, and with other speakers that it is anomalous that we do not have borrowing powers when other institutions, such as the Northern Ireland Executive and local authorities, have such powers. However, do you agree that this is not simply a case of us being given the same settlement in terms of borrowing as Northern Ireland or that which a local authority might have because it is far more complicated than that?

Mae gennyf gwestiwn penodol ar fenthyca oherwydd, er ein bod wedi ei drafod yn y Siambr a’ch bod wedi ateb cwestiynau ar y pwnc heddiw, mae llawer o ddryswch yn y maes hwn. Cytunaf â chi, Brif Weinidog, ac â siaradwyr eraill ei bod yn anarferol nad oes gennym bwerau benthyca pan fo gan sefydliadau eraill, megis Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ac awdurdodau lleol, bwerau o’r fath. Fodd bynnag, a ydych yn cytuno nad achos syml o gael yr un setliad o ran benthyca â Gogledd Iwerddon neu awdurdod lleol yw hwn, a’i fod yn llawer mwy cymhleth na hynny?

Do you agree that, ultimately, you can only borrow a sum of money once? Therefore, are you proposing that, when borrowing, we would have some kind of funding stream to pay for that borrowing or are you saying that the UK Government would have to take into account the borrowing that took place in

A ydych yn cytuno, yn y pen draw, y gallwch ond fenthyg swm o arian unwaith? Felly, a ydych yn cynnig, wrth fenthyg, y byddem yn cael rhyw fath o lif ariannu i dalu am y benthyg ynteu a ydych yn dweud y byddai Llywodraeth y DU yn gorfod ystyried y benthyca a ddigwyddodd yng Nghymru yn yr

Wales in the same way that it does if a local authority wants to borrow money? Prudentially, it has to take account of it so that that can appear on the UK balance sheet. There is confusion surrounding which model you are talking about. It is easy to talk about the devolution of borrowing powers, but, as you said earlier, First Minister, the issue of taxation is a lot more complicated.

un modd ag y mae'n gwneud os bydd awdurdod lleol am fenthyg arian? Yn ochelgar, mae'n rhaid iddi ei ystyried fel y gall ymddangos ar fantolen y DU. Mae dryswch yn gysylltiedig â pha fodel yr ydych yn sôn amdano. Mae'n hawdd siarad am ddatganoli pwerau benthyca, ond, fel y dywedasoch yn gynharach, Brif Weinidog, mae mater trethiant yn llawer mwy cymhleth.

You have spoken a lot about borrowing, but you have not spoken about the ability to pay back a loan. You have said that borrowing is not a panacea and I completely agree with you on that. How would you intend that any Welsh Government that borrowed money would be able to pay it back? We need to make clear to the Welsh people that we are talking about using fiscal tools such as borrowing, if they were to come here, in a responsible way that would not end up with Welsh people having to foot a bill that they had not expected.

Rydych wedi siarad llawer am fenthyca, ond nid ydych wedi siarad am y gallu i dalu benthyciad yn ôl. Rydych wedi dweud nad yw benthyca yn ateb i bob problem a chytunaf yn llwyr â chi ar hynny. Sut fyddech yn bwriadu i unrhyw Lywodraeth Cymru sydd wedi benthyg arian allu ei dalu'n ôl? Mae angen i ni ei gwneud yn glir i bobl Cymru ein bod yn sôn am ddefnyddio offer cyllidol, megis benthyca, pe byddent am ddod yma, mewn ffordd gyfrifol, na fyddai'n golygu bod disgwyl i bobl Cymru dalu bil nad oeddent yn ei ddisgwyl.

Finally, do you agree that there is a danger, which was alluded to in Ieuan Wyn Jones's earlier comments, that although you are not calling for the devolution of powers over income tax in this statement, once you talk about borrowing and devolution without fleshing out what you mean, there is an unspoken idea that powers over income tax will follow at some point? Can you please clarify the answers to those questions?

Yn olaf, a ydych yn cytuno bod perygl, y cyfeiriwyd ato yn sylwadau Ieuan Wyn Jones yn gynharach, er nad ydych yn galw am ddatganoli pwerau dros dreth incwm yn y datganiad hwn, unwaith i chi siarad am fenthyca a datganoli heb ymhelaethu beth ydych yn ei olygu, bod rhyw syniad mud y bydd pwerau dros dreth incwm yn dilyn yn nes ymlaen? A allwch chi egluro'r atebion i'r cwestiynau hynny?

**The First Minister:** At least we now know that Nick Ramsay is against the devolution of borrowing powers. Given his comments, it is clear that he sees no reason for their devolution and has no enthusiasm for them either. I do not see why it is different in Northern Ireland. Why on earth should Northern Ireland be treated differently to Wales? Northern Ireland has the ability to borrow money, why should not Wales? Northern Ireland has the ability to borrow money without having taxation powers, why should not Wales? He asked where the money would come from to pay it back. Inevitably, a Government would have to lay aside money from the block grant to pay back any loans, but a prudent Government should do that anyway. That Government would be answerable to the Welsh people for any actions that it took.

**Y Prif Weinidog:** O leiaf rydym bellach yn gwybod bod Nick Ramsay yn erbyn datganoli pwerau benthyca. O ystyried ei sylwadau, mae'n amlwg nad yw'n gweld unrhyw reswm dros eu datganoli ac nid oes ganddo frwdfrydedd ar eu cyfer chwaith. Nid wyf yn gweld pam ei bod yn wahanol yng Ngogledd Iwerddon. Pam ar y ddaear y dylid trin Gogledd Iwerddon yn wahanol i Gymru? Mae gan Ogledd Iwerddon y gallu i fenthyg arian, pam na ddylai Cymru ei gael? Mae gan Ogledd Iwerddon y gallu i fenthyg arian heb gael pwerau trethu, pam na ddylai Cymru ei gael? Gofynnodd o lle y deuai'r arian i'w dalu yn ôl. Yn anochel, byddai'n rhaid i Lywodraeth osod arian o'r neilltu o'r grant bloc i ad-dalu unrhyw fenthyciadau, ond dylai Llywodraeth ddoeth wneud hynny beth bynnag. Byddai'r Llywodraeth honno yn atebol i bobl Cymru am unrhyw gamau y

byddai'n eu cymryd.

Should borrowing be part of PSBR? That is what is happening in Scotland. Again, if it is good enough for Scotland, it is good enough for Wales. I fail to see the argument that, somehow, it is okay for our 22 local authorities to be able to borrow, but not the Welsh Government. Somehow, it is okay for the Scottish Government to be able to borrow, but not the Welsh Government. It is okay for the Northern Ireland Executive to borrow and the UK Government to borrow for investment in England, but such investment should not take place in Wales. It is right to say that it is possible to borrow. His pro tem leader has already said that he is in favour of borrowing powers and I know that having borrowing powers commands widespread support within the Chamber. Borrowing powers do not lead to powers over income tax; I have made the position clear on income tax, as did the Government's manifesto, and we will keep to the promise that we made in our manifesto.

A ddylai benthyca fod yn rhan o PSBR? Dyna beth sy'n digwydd yn yr Alban. Unwaith eto, os yw'n ddigon da i'r Alban, mae'n ddigon da i Gymru. Rwy'n methu â gweld y ddadl sut, rywsut, mae'n iawn i'n 22 awdurdod lleol allu benthyca, ond nid Llywodraeth Cymru. Rywsut, mae'n iawn i Lywodraeth yr Alban allu benthyca, ond nid Llywodraeth Cymru. Mae'n iawn i Weithrediaeth Gogledd Iwerddon fenthyca ac i Lywodraeth y DU fenthyca i fuddsoddi yn Lloegr, ond ni ddylai buddsoddiad o'r fath ddigwydd yng Nghymru. Mae'n iawn dweud ei bod yn bosibl benthyca. Mae ei arweinydd dros dro eisoes wedi dweud ei fod o blaid pwerau benthyca, a gwn fod cael pwerau benthyca yn ennyn cefnogaeth eang o fewn y Siambr. Nid yw pwerau benthyca yn arwain at bwerau dros dreth incwm; rwyf wedi gwneud y sefyllfa'n glir ar dreth incwm, fel y gwnaeth maniffesto'r Llywodraeth, a byddwn yn cadw at yr addewid a wnaethom yn ein maniffesto.

**Alun Ffred Jones:** Diolch am y datganiad ac mae llawer i'w groesawu ynddo, er bod yn rhaid imi ddweud bod rhywbeth doniol a thrist yn clywed arweinydd Llafur, arweinydd dros dro'r Torïaid ac arweinydd y Rhyddfrydwyr yn y Cynulliad yn beio Llywodraeth y naill a'r llall yn Llundain am fethu â gwneud dim byd ynglŷn â Barnett. Mae'n atgoffa rhywun o'r dywediad Saesneg am ddau berson moel yn ymladd dros grib.

**Alun Ffred Jones:** Thank you for the statement and there is much to welcome in it, although I must say that it is both funny and sad to hear the Labour leader, the acting Tory leader and the Liberal leader in the Assembly blaming the other's Government in London for being unable to do anything about Barnett. It reminds one of two bald men fighting over a comb.

Yn eich datganiad, yr ydych yn dweud yn glir bod angen hawliau benthyg effeithiol ar Gymru ac yr ydych yn cyplysu hynny gyda chynlluniau cyfalaf. Byddai hynny'n fuddiol i'r economi ac i wasanaethau yn gyffredinol. Fodd bynnag, nid oes cyfeiriad yn eich maniffesto at yr hawl i fenthyg ac felly mae eich cyfeirio parhaus at eich maniffesto fel rhaglen yn amlwg yn amherthnasol i'n dadl heddiw.

In your statement, you state clearly that Wales needs effective borrowing powers and you coupled that with capital schemes. That would be beneficial to the economy and services generally. However, there is no reference in your manifesto to the right to borrow and therefore your constant references to your manifesto as your programme are obviously irrelevant to today's debate.

O gofio bod Llywodraeth SNP yr Alban wedi cael yr hawl hon i gael rhyw fath o flaendal o £200 miliwn er mwyn symud ymlaen â'r cynllun i gael pont newydd dros yr Afon Forth, a'r angen felly i ni yng Nghymru gael hawl benthyca o ryw fath, beth yw eich blaenoriaeth chi fel Llywodraeth er mwyn

Bearing in mind that the SNP Government in Scotland has had this right to have some sort of down payment of £200 million in order to proceed with a new crossing for the River Forth, and therefore the need for us in Wales to have borrowing powers of some kind, what is your priority as a Government to secure

sicrhau'r arian cyfalaf ychwanegol hwnnw er mwyn gwella isadeiledd Cymru? Beth yw eich blaenoriaeth yn y cyfeiriad hwnnw, felly, o ran ennill arian ychwanegol i gyflawni anghenion Cymru?

that additional capital funding in order to improve Wales's infrastructure? What is your priority in that direction, therefore, with regard to raising additional funds to meet the needs of Wales?

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn gwybod y bydd y gyllideb gyfalaf yn cael ei thorri dros y tair blynedd nesaf ac y bydd llawer llai o arian ar gael inni yng Nghymru. Mae felly'n bwysig dros ben ein bod yn edrych i weld os gallwn sicrhau arian cyfalaf o ffynonellau eraill. Bydd angen i rai prosiectau ddod i rym dros y tair blynedd nesaf ac mae'n anodd gweld ar hyn o bryd o ble bydd yr arian hwnnw'n dod i'w cynnal. Yr ydym yn gwybod y bydd opsiwn yn yr Alban a Gogledd Iwerddon i sicrhau arian cyfalaf drwy fenthyca, ac mae'n bwysig dros ben bod yr opsiwn hwnnw ar gael i Lywodraeth Cymru.

**The First Minister:** We know that the capital budget is to be cut over the next three years and that there will be a lot less money available to us in Wales. It is therefore very important that we look to see whether we can secure capital funding from other sources. Some projects will need to be brought forward over the next three years and it is currently difficult to see where that funding will come from to maintain them. We know that there will be an option in Scotland and Northern Ireland of ensuring capital through borrowing, and it is very important that that option is available to the Welsh Government.

## Datganiad ar TB Buchol
## Statement on Bovine TB

**The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):** I would like to update Members on the bovine TB eradication programme. This Government recognises the significant financial and social impacts of bovine TB on farmers and the wider community in Wales. The Welsh Government paid out just over £12 million in compensation last year and, at any time, approximately 10 per cent of cattle farms in Wales are under movement restrictions as a consequence of bovine TB. This impact should not and cannot be sustained and we, as a Government, are committed to the eradication of bovine TB in Wales.

**Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths):** Hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am y rhaglen i ddileu TB mewn gwartheg. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod effeithiau ariannol a chymdeithasol sylweddol TB mewn gwartheg ar ffermwyr a'r gymuned ehangach yng Nghymru. Talodd Llywodraeth Cymru ychydig dros £12 miliwn mewn iawndal y llynedd ac, ar unrhyw adeg, mae tua 10 y cant o ffermydd gwartheg yng Nghymru o dan gyfyngiadau symud o ganlyniad i TB mewn gwartheg. Ni ddylid ac ni ellir cynnal yr effaith hon ac rydym ni, fel Llywodraeth, wedi ymrwymo i ddileu TB mewn gwartheg yng Nghymru.

The TB eradication programme in Wales is aimed at tackling all sources of infection. The various elements of the programme combine to provide a comprehensive and integrated approach. Such an approach will be essential in order to have a sustained impact on the disease in Wales. A UK bovine TB eradication plan, which includes the measures under way in Wales, has been agreed by the European Commission and is in place for 2011. The plan, first introduced in 2010, is agreed annually and is expected to be

Mae'r rhaglen dileu TB yng Nghymru wedi'i hanelu at fynd i'r afael â holl ffynonellau'r haint. Mae elfennau amrywiol o'r rhaglen yn cyfuno i gynnig dull cynhwysfawr ac integredig. Bydd dull o'r fath yn hanfodol er mwyn cael effaith barhaus ar y clefyd yng Nghymru. Mae cynllun dileu TB mewn gwartheg yn y DU, sy'n cynnwys y mesurau sy'n mynd rhagddynt yng Nghymru, wedi cael ei dderbyn gan y Comisiwn Ewropeaidd, ac mae ar waith ar gyfer 2011. Mae'r cynllun, a gyflwynwyd gyntaf yn 2010, yn cael ei

supported by a retrospective award of over £2 million for that year in Wales. The measures implemented in Wales have been introduced progressively to address the known routes of bovine TB transmission. The eradication programme covers all aspects of disease prevention, transmission and TB breakdown management, and considers all affected livestock and wildlife species.

dderbyn yn flynyddol ac mae disgwyl iddo gael ei gefnogi gan ddyfarniad ôl-weithredol o dros £2 miliwn ar gyfer y flwyddyn honno yng Nghymru. Mae'r mesurau a weithredwyd yng Nghymru wedi cael eu cyflwyno'n raddol i fynd i'r afael â llwybrau hysbys trosglwyddo TB mewn gwartheg. Mae'r rhaglen ddileu yn ymdrin â phob agwedd ar atal yr afiechyd, trosglwyddo a rheoli achosion o TB, ac mae'n ystyried yr holl dda byw a'r rhywogaethau bywyd gwyllt yr effeithir arnynt.

Bovine TB remains the subject of considerable comment and debate. That is also true of the huge body of scientific research related to the disease. Our Government commitment is to carry out a science-led approach to evaluate and review the best way of tackling bovine TB. My aim is to ensure that the existing measures continue to be fit for purpose. To this end, I have agreement from the Cabinet to commission an expert panel to peer-review the scientific evidence base regarding the eradication of bovine TB in Wales. Its eradication is a long-term commitment that will require the application of new technologies and scientific developments as they become available and which the Welsh Government will continue to monitor.

Mae TB mewn gwartheg yn parhau i fod yn destun sylwadau sylweddol a dadlau. Mae hynny hefyd yn wir am y corff anferth o ymchwil wyddonol sy'n gysylltiedig â'r clefyd. Ymrwymiad ein Llywodraeth yw cynnal dull a arweinir gan wyddoniaeth i werthuso ac adolygu'r ffordd orau o fynd i'r afael â TB mewn gwartheg. Fy nod yw sicrhau bod y mesurau presennol yn parhau i fod yn addas at y diben. I'r perwyl hwn, mae gennyf gytundeb gan y Cabinet i gomisiynu panel arbenigol i adolygu'r sail dystiolaeth wyddonol ynglŷn â dileu TB mewn gwartheg yng Nghymru. Mae ei ddileu yn ymrwymiad hirdymor a fydd yn ei golygu defnyddio technolegau newydd a datblygiadau gwyddonol wrth iddynt ddod i'r amlwg ac y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i'w monitro.

I have asked the Chief Scientific Adviser for Wales, Professor John Harries, to oversee the review. He will appoint an independent panel to undertake the work. The panel will be chaired by an independent expert, with the other members being recognised experts in areas relevant to this review. The Chief Veterinary Officer for Wales and her office will help provide the evidence and technical expertise. The review group and its terms of reference will be established as quickly as possible to ensure that the Wales TB eradication programme does not lose momentum.

Rwyf wedi gofyn i Brif Gynghorydd Gwyddonol Cymru, yr Athro John Harries, oruchwylio'r adolygiad. Bydd yn penodi panel annibynnol i ymgymryd â'r gwaith. Bydd y panel yn cael ei gadeirio gan arbenigwr annibynnol, gyda'r aelodau eraill yn arbenigwyr cydnabyddedig mewn meysydd perthnasol i'r adolygiad hwn. Bydd Prif Swyddog Milfeddygol Cymru a'i swyddfa yn helpu i ddarparu tystiolaeth ac arbenigedd technegol. Bydd y grŵp adolygu a'i gylch gorchwyl yn cael ei sefydlu cyn gynted ag y bo modd er mwyn sicrhau nad yw'r rhaglen dileu TB Cymru yn colli momentwm.

3.30 p.m.

Professor Harries and the expert panel's chairman will report their findings to me. A timetable for the completion of their work will be established with the formulation of

Bydd yr Athro Harries a chadeirydd y panel arbenigol yn adrodd eu canfyddiadau i mi. Bydd amserlen ar gyfer cwblhau eu gwaith yn cael ei sefydlu pan fydd y panel a'i gylch

the panel and its terms of reference.

Llywydd, we have seen positive signs of a reduction in bovine TB over recent months. It is too early to establish whether this is a long-term trend and the impact of bovine TB continues for those farms suffering its consequences, so it cannot justify a reduction in the existing measures in place to eradicate TB. During the review, the current regime of cattle surveillance and controls will continue. This includes the additional cattle disease control measures introduced on 1 May 2010 in the intensive action area. There will be no badger cull in the intensive action area while the review is being carried out. The Welsh Government remains fully committed to eradicating bovine TB and this review of the scientific evidence base will contribute to that objective.

gorchwyl yn cael eu ffurfio.

Lywydd, rydym wedi gweld arwyddion cadarnhaol o ostyngiad mewn TB buchol dros y misoedd diwethaf. Mae’n rhy gynnar i gadarnhau a yw hyn yn duedd hirdymor ac mae effaith TB buchol yn parhau ar gyfer y ffermydd hynny sy’n dioddef ei ganlyniadau, felly ni ellir cyfiawnhau gostyngiad yn y mesurau presennol sydd ar waith i ddileu TB. Yn ystod yr adolygiad, bydd y gyfundrefn bresennol o oruchwylio gwartheg a’r rheolaethau ar eu cyfer yn parhau. Mae hyn yn cynnwys y mesurau ychwanegol ar gyfer rheoli clefydau buchol a gyflwynwyd ar 1 Mai 2010 yn yr ardal triniaeth ddwys. Ni fydd moch daear yn cael eu difa yn yr ardal triniaeth ddwys tra bo’r adolygiad yn cael ei gynnal. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i ddileu TB buchol, a bydd yr adolygiad hwn o’r dystiolaeth wyddonol yn cyfrannu at yr amcan hwnnw.

**The Presiding Officer:** I have a long list of speakers, so I remind Members to ask questions and not to make long statements.

**Y Llywydd:** Mae gennyf restr hir o siaradwyr, felly atgoffaf yr Aelodau i ofyn cwestiynau ac i beidio â gwneud datganiadau hir.

**Antoinette Sandbach:** I thank you for your statement, Minister. I am sure that you will appreciate that there has been considerable anticipation of your announcement in rural communities the length and breadth of Wales. I would hope that no Member, whatever their views on eradication policy, would dispute the fact that TB has taken a dreadful toll on our farming communities. Seventy per cent of the herds in the intensive action area have been affected by TB. As well as the multi-million pound cost to taxpayers and the tens of thousands of cattle that have been culled over the years, there has been a substantial human cost to this disease in terms of the strain that farming families have been put under and the livelihoods that have been at risk—sometimes for decades.

**Antoinette Sandbach:** Diolch ichi am eich datganiad, Weinidog. Rwy’n siŵr y byddwch yn gwerthfawrogi y bu disgwyl mawr am eich cyhoeddiad mewn cymunedau gwledig ar hyd a lled Cymru. Byddwn yn gobeithio nad oes unrhyw Aelod, beth bynnag yw eu barn ar y polisi difa, yn gwadu’r ffaith bod TB wedi cael effaith ofnadwy ar ein cymunedau ffermio. Mae 70 y cant o’r buchesi yn yr ardal triniaeth ddwys wedi cael eu heffeithio gan TB. Yn ogystal â’r gost o filiynau o bunnoedd i drethdalwyr a’r degau o filoedd o wartheg sydd wedi cael eu difa dros y blynyddoedd, bu cost ddynol sylweddol i’r clefyd hwn o ran y straen ar deuluoedd a’r bywoliaethau sydd wedi bod mewn perygl—weithiau am ddegawdau.

That is why I am so surprised that the Minister is willing to jeopardise the work of the One Wales Government’s eradication policy by effectively kicking the issue into the long grass. The previous Minister showed political courage by ensuring that she

Dyna pam rwyf wedi fy synnu cymaint bod y Gweinidog yn barod i beryglu gwaith Llywodraeth Cymru’n Un o ran y polisi difa trwy ysgubo’r mater i’r neilltu. Dangosodd y Gweinidog blaenorol ddewrder gwleidyddol trwy sicrhau ei bod yn gwerthuso tystiolaeth

evaluated the scientific evidence—courage which you, as her successor, have failed to demonstrate in your statement today. Dr Christianne Glossop, the Chief Veterinary Officer for Wales, told the Government, of which you were a Minister, as long ago as 2010 that evidence from a number of studies, including the randomised trials, shows that culling badgers can substantially reduce TB in cattle. She went on to say that

wyddonol—dewrder yr ydych chi, fel ei holynydd, wedi methu â'i ddangos yn eich datganiad heddiw. Dywedodd Dr Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru, wrth y Llywodraeth, yr ydych yn Weinidog ynddi, mor bell yn ôl â 2010 bod tystiolaeth o nifer o astudiaethau, gan gynnwys y treialon ar hap, yn dangos y gall difa moch daear leihau achosion TB buchol yn sylweddol. Aeth ymlaen i ddweud:

'we are dealing with a bovine TB crisis that is threatening cattle farming across Wales. It cannot be ignored and it needs to be dealt with as quickly and as effectively as possible.'

ein bod yn delio ag argyfwng TB buchol sy'n bygwth ffermio gwartheg ledled Cymru. Ni ellir ei anwybyddu ac mae angen delio â'r mater hwn mor gyflym ac mor effeithiol â phosibl.

That was a statement that she made to the Government of which you were a part in February 2010. In fact, your own Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes, who, of course, chaired the Rural Development Sub-committee that considered and evaluated the science in relation to TB, said in a statement in the Senedd on 4 November 2009, with regard to the holistic approach that the Government was taking to address this reservoir of disease in both wildlife and cattle populations, that

Dyna ddatganiad a wnaethpwyd ganddi i'r Llywodraeth yr oeddech yn rhan ohoni ym mis Chwefror 2010. Yn wir, dywedodd eich Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd eich hun, a fu, wrth gwrs, yn cadeirio'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig a oedd yn ystyried ac yn gwerthuso'r wyddoniaeth mewn perthynas â TB, mewn datganiad yn y Senedd ar 4 Tachwedd 2009, o ran dull gweithredu cyfannol y mae'r Llywodraeth yn ei ddefnyddio i fynd i'r afael â'r gronfa hon o glefyd mewn bywyd gwyllt a phoblogaethau gwartheg:

'if you do one without the other, you will fail.'

'Os gwnewch un heb y llall, byddwch yn methu.'

Your Government—

Cafodd eich Llywodraeth—

**The Presiding Officer:** Order. Can you come to your questions, please?

**Y Llywydd:** Trefn. A allwch ddod at eich cwestiynau, os gwelwch yn dda?

**Antoinette Sandbach:** Yes. Your Government was elected with a manifesto committment to a science-led approach to tackle TB. The scientific evidence was good enough for you to vote in support of a cull just three months ago. The legal advice was good enough for you to vote in support three months ago. The communities affected by this disease are going to be left wondering, after hearing your statement, what has changed in the last 91 days. Why were you and your Cabinet colleagues prepared to support this policy so recently, but are now prepared to make a u-turn?

**Antoinette Sandbach:** Gallaf. Cafodd eich Llywodraeth ei hethol gydag ymrwymiad maniffesto i gael dull wedi'i arwain gan wyddoniaeth o fynd i'r afael â TB. Roedd y dystiolaeth wyddonol yn ddigon da i chi bleidleisio o blaid rhaglen ddifa dim ond tri mis yn ôl. Roedd y cyngor cyfreithiol yn ddigon da i chi bleidleisio o blaid dri mis yn ôl. Mae'r cymunedau yr effeithir arnynt gan y clefyd hwn yn mynd i ofyn, ar ôl clywed eich datganiad, beth sydd wedi newid yn y 91 diwrnod diwethaf. Pam oeddech chi a'ch cyd Weinidogion yn barod i gefnogi'r polisi hwn mor ddiweddar, ond rydych bellach yn barod i newid eich meddyliau?

You have made your decision, and I would be grateful if you could answer these questions. Will you set out a tight timetable to guarantee that momentum is not lost, and that the results of the review are known within months? Will you make public the specific legal and scientific evidence that you have received that justifies the postponement of the One Wales Government's eradication policy? I have read the material provided to the previous Minister, and I cannot see how it can be used to justify your Government's new position. Will you require the review to report within months? What estimate have you made of the full cost of putting the eradication policy on hold and conducting this review?

Rydych wedi gwneud eich penderfyniad, a byddwn yn ddiolchgar pe gallech ateb y cwestiynau hyn. A wnewch amlinellu amserlen dynn i sicrhau nad yw momentwm yn cael ei golli, a bod canlyniadau'r adolygiad yn cael eu cyhoeddi o fewn misoedd? A fyddwch yn cyhoeddi'r dystiolaeth gyfreithiol a gwyddonol penodol yr ydych wedi'i chael sy'n cyfiawnhau gohirio polisi difa Llywodraeth Cymru'n Un? Rwyf wedi darllen y deunydd a roddwyd i'r Gweinidog blaenorol, ac ni allaf weld sut y gellir ei ddefnyddio i gyfiawnhau safbwynt newydd eich Llywodraeth. A fyddwch yn gofyn bod yr adolygiad yn adrodd yn ôl o fewn misoedd? Pa amcangyfrif ydych wedi'i wneud o gost lawn gohirio'r polisi difa am y tro a chynnal yr adolygiad hwn?

Finally, given that an effective badger and cattle vaccine is years away, can you confirm the conditions necessary for your Government to press ahead with the pilot cull? If this Government genuinely has no stomach for taking the difficult, but necessary, decisions over TB, our farming and rural communities deserve to know that right now.

Yn olaf, o ystyried bod brechlyn effeithiol ar gyfer moch daear a gwartheg flynyddoedd i ffwrdd, a allwch gadarnhau'r amodau sy'n angenrheidiol er mwyn i'ch Llywodraeth fwrw ymlaen â'r peilot difa? Os yw'n wir nad oes gan y Llywodraeth yr awydd i wneud y penderfyniadau anodd, ond angenrheidiol, mewn perthynas â TB, mae ein ffermwyr a'n cymunedau gwledig yn haeddu gwybod hynny yn awr.

**John Griffiths:** I thank the Member for those views and questions. I will say at the outset that every Member in this Assembly understands well the huge importance of these matters and the considerable impact on farming communities—cattle farmers in particular. There is also considerable public interest in and concern about the wildlife aspects, including badgers. These are important matters, and there is a wealth of research and evidence on the best way to tackle bovine TB. Given that a constant stream of new papers is being published on these matters, we have a long-term strategy on eradicating bovine TB, and it must be long-term if it is to succeed. We need an independent peer review of the science, looking at the technological issues that are developing apace. We do not wish it to be a long-grass exercise, as you suggest, Antoinette; that is why I am hoping that this report will be available in the autumn. Obviously, there are issues around the availability of appropriate experts, as

**John Griffiths:** Diolchaf i'r Aelod am y safbwyntiau a'r cwestiynau hynny. Rwy'n dweud ar y dechrau fod pob Aelod yn y Cynulliad yn deall yn dda bwysigrwydd enfawr y materion hyn a'r effaith sylweddol ar gymunedau amaethyddol—ffermwyr gwartheg yn arbennig. Mae yna hefyd ddiddordeb cyhoeddus sylweddol yn yr agweddau bywyd gwyllt, gan gynnwys moch daear, a phryder am yr agweddau hyn. Mae'r rhain yn faterion pwysig, ac mae llawer o waith ymchwil a thystiolaeth ar y ffordd orau i fynd i'r afael â TB buchol. O gofio bod llif cyson o bapurau newydd yn cael eu cyhoeddi ar y materion hyn, mae gennym strategaeth hirdymor ynghylch dileu TB buchol, a rhaid iddi fod yn hirdymor os yw am lwyddo. Mae angen adolygiad annibynnol gan gymheiriaid o'r wyddoniaeth, gan edrych ar y materion technolegol sy'n datblygu'n gyflym. Nid ydym yn dymuno iddo fod yn ymarfer sy'n gwthio'r mater i'r neilltu, fel yr ydych yn ei awgrymu, Antoinette; dyna pam rwy'n gobeithio y bydd yr adroddiad hwn ar gael yn

determined by our chief scientific adviser, but that is the timetable that we are looking towards: a report in the autumn. I have made this statement, and we are having this review, early in this Assembly term, which demonstrates the commitment of this Welsh Government to dealing with these matters in a timely way, and shows that we understand their importance.

yr hydref. Yn amlwg, mae materion yn codi sy'n ymwneud ag argaeledd arbenigwyr priodol, fel y penderfynir gan ein prif gynghorydd gwyddonol, ond dyna'r amserlen yr ydym yn edrych arni: adroddiad yn yr hydref. Rwyf wedi gwneud y datganiad hwn, ac rydym yn cael yr adolygiad hwn, yn gynnar yn nhymor y Cynulliad, sy'n dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddelio â'r materion hyn mewn ffordd amserol, ac yn dangos ein bod yn deall eu pwysigrwydd.

Some of the scientific matters that you raised are for the review to deal with, and it will deliver its report in due course. On some of the cost issues, we have flexibility in some of the contracts that govern the work that would have been involved in a badger cull, and some will be used in other, more generic ways. It is too early to talk about the cost involved, because it will very much depend on the outcome of the review.

Mater i'r adolygiad fydd mynd i'r afael â rhai o'r materion gwyddonol a godwyd gennych, a bydd yn cyhoeddi ei adroddiad maes o law. O ran rhai o'r materion cost, mae gennym hyblygrwydd yn rhai o'r contractau sy'n rheoli'r gwaith a fyddai wedi bod yn rhan o ddifa moch daear, a bydd rhai yn cael eu defnyddio mewn ffyrdd eraill, mwy generig. Mae'n rhy gynnar i sôn am y gost, gan y bydd yn dibynnu'n helaeth ar ganlyniad yr adolygiad.

**Joyce Watson:** I thank the Minister for his statement. I welcome the announcement of a review of the science. The Labour Party's manifesto for the May Assembly elections promised a science-led approach to bovine TB. The Minister will be aware that I have made clear my position—I do not believe that the case has been made to prove that a cull would work, and I have written to him outlining my position on that. Bovine TB is a horrible disease that devastates families and businesses both emotionally and economically. There is no debate or ambiguity about the need to eradicate bovine TB, but we have to do it in a cost-effective, responsible way that is sustainable both in the short term and, more importantly, in the long term.

Tomorrow, as with every other day, cattle will be tested for TB in Pembrokeshire. Some of them will test positive and they will be taken, under enforcement by your own department, and slaughtered. The farmer will receive compensation from the public purse for that slaughter. That farmer will then purchase new cattle stock, which will have been tested clean before moving into Pembrokeshire. However, in a few months' time, those cattle will be tested for TB and some of them will again test positive for the disease. The circle will carry on endlessly; cattle will be slaughtered and badgers will be left alone although they are infected with TB; no-one is denying that.

Heddiw, colloch chi'r cyfle i dorri'r gadwyn hwn a chael gwared ar yr haint yng Nghymru. Mae eich polisi o ohirio cyfystyr â chaniatáu i'r clefyd hwn i barhau. Mae gennyf ddau gwestiwn. A ydych yn bwriadu, fel Llywodraeth, i gadw Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2011, a

Today, you missed the opportunity to break the chain and to eradicate this disease in Wales. Your policy of deferral allows this disease to remain in our stock. I have two questions. Do you intend, as a Government, to keep the Tuberculosis (Wales) Order 2011, which was approved in the Senedd a few

gymeradwywyd yn y Senedd ychydig fisoedd yn ôl, mewn grym? A fyddwch yn amddiffyn y ddeddfwriaeth honno yn erbyn unrhyw her gyfreithiol posibl? Yn ail, gan eich bod wedi anwybyddu'r cwestiwn hwn pan ofynnwyd ef gan Llyr Huws Gruffydd, gofynnaf y cwestiwn unwaith eto: os bydd eich panel o ymgynghorwyr annibynnol yn argymell difa moch daear, a fyddech chi yn barod i awdurdodi hynny?

months ago, in force? Will you defend that legislation against any possible legal challenge? Secondly, as you ignored this question when it was asked by Llyr Huws Gruffydd, I will ask it once again: if your panel of independent experts were to recommend the culling of badgers, would you be willing to authorise that?

**John Griffiths:** I thank the Member for that contribution and for those questions. At the outset, I recognise the great deal of hard work and commitment that the Member showed with regard to these important issues when she was the responsible Minister. I recognise that the testing requirements, the movement restrictions, and the biosecurity measures are very onerous for the cattle farmers who are affected by them, particularly in the intensive action area. However, they are a necessary part of the equation of trying to tackle this disease. We have seen improvements in incidence rates over the last year, although it is not possible to attribute them directly to those cattle measures because it is difficult to prove cause and effect. Also, that improvement is far too short-lived in terms of identifying any trend. Nonetheless, they are an important part of the equation, as was recognised by the Member when she was the responsible Minister.

**John Griffiths:** Diolch i'r Aelod am y cyfraniad hwnnw ac am y cwestiynau hynny. O'r cychwyn, rwy'n cydnabod gwaith mawr a chaled yr Aelod a'r ymrwymiad a ddangoswyd ganddi yn y materion pwysig hyn yn ei chyfnod fel y Gweinidog â chyfrifoldeb. Rwy'n cydnabod bod y gofynion profi, y cyfyngiadau ar symud anifeiliaid, a'r mesurau bioddiogelwch yn feichus iawn ar gyfer y ffermwyr gwartheg sy'n cael eu heffeithio ganddynt, yn enwedig yn yr ardal triniaeth ddwys. Fodd bynnag, maent yn rhan angenrheidiol o'r cyfan wrth geisio mynd i'r afael â'r clefyd hwn. Gwelsom welliannau yn nifer yr achosion dros y flwyddyn ddiwethaf, er nad yw'n bosibl priodoli yn uniongyrchol i'r mesurau gwartheg am ei bod yn anodd profi rheswm ac effaith. Hefyd, mae'r gwelliant hwnnw'n rhy fyrhoedlog o lawer ar gyfer nodi tuedd. Serch hynny, maent yn rhan bwysig o'r cyfan, fel y cydnabu'r Aelod pan mai hi oedd y Gweinidog â chyfrifoldeb.

As I have stressed many times today, we want this review to be a timely exercise. We want this report to be made available by the autumn. We wish to find the best way forward. We understand the terrible toll that this disease takes in Wales. As I said earlier, the Government paid £12 million in compensation last year. We recognise the terrible impact on cattle farmers and farming communities, and the concern of the wider Welsh public in terms of cattle and other wildlife aspects. We recognise that, which is why we are committed to carrying out this exercise.

Fel yr wyf wedi ei bwysleisio sawl gwaith heddiw, rydym am i'r adolygiad hwn fod yn ymarfer amserol. Rydym am i'r adroddiad hwn fod ar gael erbyn yr hydref. Rydym yn awyddus i ddod o hyd i'r ffordd orau ymlaen. Rydym yn deall y difrod ofnadwy a ddaw yn sgîl y clefyd hwn yng Nghymru. Fel y dywedais yn gynharach, talodd y Llywodraeth £12 miliwn mewn iawndal y llynedd. Rydym yn cydnabod yr effaith ofnadwy ar ffermwyr gwartheg a chymunedau ffermio, a phryder y cyhoedd yn ehangach yng Nghymru o ran gwartheg ac agweddau ar fywyd gwyllt. Rydym yn cydnabod hynny, a dyna pam rydym wedi ymrwymo i gynnal yr ymarfer hwn.

I said that there would not be a cull of badgers for the period of this review. What happens after the review will obviously

Dywedais na fyddai difa moch daear yng nghyfnod yr adolygiad hwn. Bydd yr hyn sy'n digwydd wedi'r adolygiad yn amlwg yn

depend on the report that is delivered and the verdict. I am happy to meet Welsh farmers on a whole range of issues, but there are legal difficulties in meeting them on the subject of bovine TB during the period of this review. Indeed, that applied before the review, and it also applies to wildlife groups as far as bovine TB is concerned.

dibynnu ar yr adroddiad a ddarperir ac ar y dyfarniad ynddo. Yr wyf yn fodlon cwrdd â ffermwyr Cymru ynghylch ystod o faterion, ond mae anawsterau cyfreithiol o ran eu cyfarfod ynghylch TB mewn gwartheg yn ystod cyfnod yr adolygiad hwn. Yn wir, roedd hynny'n wir cyn yr adolygiad, ac mae'r un peth yn wir hefyd am y grwpiau bywyd gwyllt cyn belled ag y mae TB mewn gwartheg yn y cwestiwn.

We are prepared to defend the existing Badger (Control Area) (Wales) Order 2011. We have exchanged letters with solicitors for the Badger Trust and others with regard to the pre-action protocol of judicial review proceedings in doing just that, namely defending that Order as passed by the previous Assembly.

Rydym yn barod i amddiffyn y Gorchymyn Moch Daear (Ardal Reoli) (Cymru) 2011. Rydym wedi llythyru â chyfreithwyr yr Ymddiriedolaeth Moch Daear ac eraill o ran y protocol cyn gweithredu parthed achos adolygiad barnwrol yn gwneud yn union hynny, sef amddiffyn y Gorchymyn hwnnw fel y'i pasiwyd gan y Cynulliad blaenorol.

4.15 p.m.

In conclusion, I say to the Member that I am happy to meet Welsh farmers to discuss a whole range of matters, but I have to observe the legal restrictions as far as bovine TB is concerned. Once the review is concluded and the report is available, I would be happy to meet the farming unions, farmers and other interested groups.

I gloi, dywedaf wrth yr Aelod fy mod yn hapus i gwrdd â ffermwyr Cymru i drafod ystod eang o faterion, ond bod rhaid i mi gadw at y cyfyngiadau cyfreithiol lle bo TB mewn gwartheg yn y cwestiwn. Unwaith y bydd yr adolygiad ar ben a'r adroddiad ar gael, byddwn yn hapus i gwrdd â'r undebau ffermio, ffermwyr a grwpiau eraill sydd â buddiant.

## Datganiad ar Wasanaethau Cyhoeddus
## Statement on Public Services

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I wish to make a statement on the Welsh Government's approach to public services in the coming Assembly term. It will come as no surprise that my starting point is delivery—taking effective practical action to improve services for the people of Wales.

**Y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Rwyf am wneud datganiad am ymagwedd Llywodraeth Cymru at wasanaethau cyhoeddus yn nhymor y Cynulliad i ddod. Ni fydd yn syndod i glywed mai cyflawni yw fy man cychwyn—cymryd camau ymarferol, effeithiol i wella gwasanaethau i bobl Cymru.

Our public service values are clear. This Government will provide active leadership for public services in Wales. We will not make changes for change's sake. We will tackle problems that need solving and develop solutions in partnership with the public and the workforce. The benchmark is that change must deliver better or cheaper services for the people of Wales.

Mae ein gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus yn glir. Bydd y Llywodraeth hon yn darparu arweinyddiaeth weithredol dros wasanaethau cyhoeddus Cymru. Ni fydd newidiadau er eu mwyn eu hunain. Awn i'r afael â phroblemau y mae angen eu datrys, gan ddatblygu atebion mewn partneriaeth â'r cyhoedd a'r gweithlu. Y meincnod yw bod yn rhaid i newid ddarparu gwasanaethau gwell neu am lai o arian i bobl Cymru.

My approach will be based on clear accountability, delivery and collaboration. Clarity in terms of accountability and responsibility is crucial, so I intend to be absolutely clear as to what the Welsh Government will do to help that to happen and what we expect local authorities to do, working with their partners, so that our services are designed around people, not organisations.

Bydd fy null yn seiliedig ar atebolrwydd clir, darparu a chydweithredu. Mae eglurder o ran atebolrwydd a chyfrifoldeb yn hanfodol, felly mae'n fwriad gennyf fod yn gwbl glir ynghylch yr hyn a wna Llywodraeth Cymru i hwyluso hynny a'r hyn yr ydym yn disgwyl i awdurdodau lleol ei wneud, gan weithio gyda'u partneriaid, fel bod ein gwasanaethau'n cael eu cynllunio ar gyfer pobl, nid sefydliadau.

Local organisations are accountable for their performance in fulfilling statutory roles and for meeting the needs of their communities. In local government, accountability flows through the direct democratic mandate of local councillors. I remind you that the Welsh Government has given local government a very fair financial settlement to support delivery. Compared with England, the budget for local councils will remain stable across the three-year spending review. That compares favourably with the substantial cuts being made in England.

Mae sefydliadau lleol yn atebol am eu perfformiad wrth gyflawni swyddogaethau statudol ac am ddiwallu anghenion eu cymunedau. Mewn llywodraeth leol, cyfyd atebolrwydd o fandad democrataidd uniongyrchol y cynghorwyr lleol. Fe'ch atgoffaf fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi setliad ariannol teg iawn i lywodraeth leol i gefnogi'r ddarpariaeth hon. O gymharu â Lloegr, bydd y gyllideb i gynghorau lleol yn aros yn sefydlog drwy gydol yr adolygiad gwariant tair blynedd. Mae hynny'n cymharu'n ffafriol â'r toriadau sylweddol a welir yn Lloegr.

Against that backdrop, we will provide a robust challenge regarding local performance. We will tackle those issues that lie outside the control of local organisations and we will ensure that the overall delivery structure is fit for purpose. Where there are bureaucratic barriers, we will remove them and we will continue to take decisive action in response to failure.

Gyda hynny'n gefnlen, byddwn yn gosod her gadarn ynghylch perfformiadau lleol. Awn i'r afael â'r materion sydd y tu allan i reolaeth y sefydliadau lleol a sicrhawn fod y strwythur darparu cyffredinol yn gymwys i'r diben. Lle mae rhwystrau biwrocrataidd, cawn wared arnynt a pharhawn i gymryd camau pendant wrth ymateb i fethiant.

In today's statement, I will focus on three areas for early action. First, I will take forward action that flows from the Simpson report, which complements the Viv Thomas report on education structures and the Government's policy paper, 'Sustainable Social Services for Wales: A Framework for Action'—all of which were published at the end of the last term. Secondly, I will recognise the gains made in efficiency and innovation and make sure that we keep up the momentum for delivery. Finally, I will ensure that there are effective partnerships.

Yn y datganiad heddiw, tri maes ar gyfer gweithredu cynnar a gaiff fy sylw. Yn gyntaf, byddaf yn bwrw ymlaen â chamau sy'n codi o adroddiad Simpson, sy'n ategu adroddiad Viv Thomas ar strwythurau addysg a phapur polisi'r Llywodraeth, 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu'—cyhoeddwyd pob un o'r rheini ddiwedd y tymor diwethaf. Yn ail, byddaf yn cydnabod y cynnydd a wnaed o ran effeithlonrwydd ac arloesedd a sicrhau ein bod yn cadw'r momentwm i gyflwyno. Yn olaf, byddaf yn sicrhau bod partneriaethau effeithiol.

We are now moving to the implementation of the fundamental service reviews that I have mentioned. The core messages are clear: the existing service delivery arrangements are

Rydym bellach yn symud at weithredu'r adolygiadau gwasanaeth sylfaenol y soniais amdanynt. Mae'r negeseuon craidd yn glir: nid yw'r trefniadau cyflenwi gwasanaeth

not suitable, as capacity is spread too thinly across 22 organisations. Therefore, we face an urgent imperative to reconfigure those delivery arrangements. Doing so will strengthen performance and ensure that services are robust and resilient for the long term. Simpson is therefore the key driver of change and reconfiguration in local service delivery for this Assembly term

presennol yn addas, gan fod capasiti'n rhy denau ar draws y 22 sefydliad. Felly, rheidrwydd o frys sydd o'n blaenau i ail-gyflunio'r trefniadau cyflenwi. Bydd gwneud felly'n cryfhau perfformiad a sicrhau bod gwasanaethau yn gadarn ac yn wydn yn y tymor hir. Adroddiad Simpson felly yw sbardun allweddol newid ac ail-gyflunio o ran darparu gwasanaethau lleol yn nhymor hwn y Cynulliad.

As I made clear in my statement on 31 March, this is not about local government re-organisation. We must reform delivery arrangements, but we do not need to incur the cost, delay or upheaval of re-organisation. Much work is already under way. On the planning side, Simpson's proposals reflect best practice across Wales, which is being driven forward by the Minister for Environment and Sustainable Development. My new department includes transport and I will be looking to build on the work of the regional transport consortia to deliver more transport functions on a regional basis. I will also consider the use of the powers to form joint transport authorities.

Fel yr eglurais yn fy natganiad ar 31 Mawrth, nid oes a wnelo hyn ag ad-drefnu llywodraeth leol. Rhaid diwygio trefniadau darparu, ond nid oes angen wynebu cost, oedi neu dryblith ad-drefnu. Mae llawer o waith eisoes ar y gweill. Ar yr ochr gynllunio, mae cynigion Simpson yn adlewyrchu arfer gorau ledled Cymru, a'r Gweinidog dros yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy sy'n gyrru hynny yn ei flaen. Mae fy adran newydd yn cynnwys trafnidiaeth a byddaf yn edrych i adeiladu ar waith y consortia trafnidiaeth rhanbarthol i gyflawni rhagor o swyddogaethau trafnidiaeth yn rhanbarthol. Byddaf hefyd yn ystyried defnyddio'r pwerau i ffurfio awdurdodau trafnidiaeth ar y cyd.

I am pleased that local government's response to Simpson has been positive in general, but we must move from talking to action. I will have a frank discussion with local government leaders on this at the Welsh Local Government Association conference on Thursday.

Rwy'n falch bod ymateb llywodraeth leol i adroddiad Simpson wedi bod yn gadarnhaol yn gyffredinol, ond rhaid inni weithredu yn lle siarad. Caf drafodaeth agored ag arweinwyr llywodraeth leol ar hyn yng nghynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddydd Iau.

I will be frank about my frustration at the difference between warm words in principle and recent action. The current senior staffing structure of 22 local authorities is unsustainable and out-dated. How do we justify the cost of so many chief executives and senior officers when front-line services are under threat?

Byddaf yn blaen am fy rhwystredigaeth ar y gwahaniaeth rhwng geiriau cynnes mewn egwyddor a gweithredu diweddar. Mae strwythur staffio uwch presennol 22 awdurdod lleol yn anghynaliadwy ac yn gamamserol. Sut y mae cyfiawnhau cynifer o brif weithredwyr ac uwch swyddogion gyda gwasanaethau rheng flaen o dan fygythiad?

At the same time, the reviews are pointing towards the need for strategic capacity at a more regional level. All this points to a fundamental re-think of the role of senior teams across organisational boundaries. Why, therefore, does local government default to filling posts on a single organisation basis? Over a quarter of local authorities in Wales have independently filled chief executive posts over the past year. At senior director

Yr un pryd, mae'r adolygiadau yn cyfeirio at yr angen am gapasiti strategol ar lefel fwy rhanbarthol. Mae hyn i gyd yn cyfeirio at ail-feddwl sylfaenol parthed rôl uwch dimau ar draws ffiniau sefydliadol. Pam, felly, y mae llywodraeth leol yn llenwi swyddi yn ddi-gwestiwn ar sail cyrff unigol? Mae dros chwarter yr awdurdodau lleol yng Nghymru wedi llenwi swydd prif weithredwr yn annibynnol dros y flwyddyn ddiwethaf. Ar

level, the pattern is the same: opportunities to make joint appointments are resisted and often not even considered. I am thinking of specific examples that I have pushed for in Conwy, Wrexham and Blaenau Gwent, but this is a general problem. We are missing opportunities not only to make savings, but, more importantly, to recruit the best quality people, from within and beyond Wales, who can help us deliver our ambitious change agenda. This cannot go on; it is time to stop talking and to start delivering.

lefel uwch gyfarwyddwr, yr un patrwm a geir: ymwrthodir â chyfleoedd i benodi ar y cyd ac yn aml ni chânt eu hystyried hyd yn oed. Rwy'n meddwl am enghreifftiau penodol yr wyf wedi pwyso amdanynt yng Nghonwy, Wrecsam a Blaenau Gwent, ond mae'r broblem yn un gyffredinol. Rydym yn colli cyfleoedd nid yn unig i wneud arbedion, ond, yn bwysicach, i recriwtio'r bobl orau, yng Nghymru a'r tu hwnt, sef y rhai a all ein helpu i gyflawni ein hagenda uchelgeisiol dros newid. Ni all hyn bara; mae'n hen bryd rhoi'r gorau i'r siarad a dechrau cyflawni.

It is also time to simplify and streamline, so that delivery arrangements for individual services add up to a coherent overall structure that makes sense for partners and the public. We are therefore looking to the WLGA response to demonstrate strategic coherence and the best practicable fit with the local health board and police authority arrangements. I believe in doing, not talking. I will take the opportunity offered by Simpson to revamp the local government partnership council so that it provides the mechanism for robust challenge and progress-chasing. I am commissioning an immediate fundamental review of its operation and will bring forward specific proposals in the autumn.

Mae hefyd yn bryd inni symleiddio, fel y bydd trefniadau cyflenwi i wasanaethau unigol yn eu crynswth yn gwneud strwythur cydlynol y mae partneriaid a'r cyhoedd yn gallu ei ddeall. Rydym felly yn disgwyl i ymateb CLlLC ddangos cydlyniad strategol a'r gyfatebiaeth ymarferol orau â'r bwrdd iechyd lleol a threfniadau awdurdod yr heddlu. Gwell gennyf wneud na dweud. Cydiaf yn y cyfle a gynigir gan Simpson i ailwampio cyngor partneriaeth llywodraeth leol fel y bydd yn darparu mecanwaith ar gyfer herio cadarn a chwrso cynnydd. Yr wyf yn comisiynu adolygiad sylfaenol brys o'r modd y mae'n gweithredu a chyflwynaf gynigion penodol yn yr hydref.

Our work on efficiency and innovation provided a rapid response to supporting public services in managing tighter budgets. We have seen some real successes through working as one Welsh public service, for example, in using common procurement, an area which is in our manifesto. I will be working closely with Ministers to bring to fruition ICT and property management systems, as well as the new service delivery models. I am grateful for the commitment shown by public service leaders to driving forward this common agenda with vigour and enthusiasm. I will meet the senior leaders involved early next month to identify the way forward as we move to support the implementation of Simpson.

Oherwydd ein gwaith ar effeithlonrwydd ac arloesi, cafwyd ymateb cyflym i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus wrth reoli cyllidebau tynnach. Rydym wedi gweld llwyddiannau go iawn drwy weithio fel gwasanaeth cyhoeddus Cymreig unigol, er enghraifft, wrth ddefnyddio caffael ar y cyd, sydd yn ein maniffesto. Byddaf yn gweithio'n agos gyda Gweinidogion i wireddu systemau rheoli TGCh ac eiddo, yn ogystal â'r modelau cyflwyno gwasanaeth newydd. Rwy'n ddiolchgar am yr ymrwymiad o du arweinwyr y gwasanaethau cyhoeddus i fwrw ymlaen â'r agenda gyffredin ag egni a brwdfrydedd. Byddaf yn cwrdd â'r arweinwyr uwch sy'n rhan o hyn yn gynnar y mis nesaf i ganfod y ffordd ymlaen wrth inni symud i gefnogi rhoi'r hyn sydd yn adroddiad Simpson ar waith.

I have said that the Welsh Government will remove bureaucratic burdens wherever we can. The plethora of partnerships across

Rwyf wedi dweud y bydd Llywodraeth Cymru yn codi beichiau biwrocrataidd lle bynnag y gallwn. Mae'r gormodedd o

public services is a case in point. I intend to respond to the messages that I have received on the cost of current arrangements. While partnerships are essential, we must avoid a culture of meetings and strategy production. I will say more about that later this week.

bartneriaethau drwy'r gwasanaethau cyhoeddus yn enghraifft o hyn. Fy mwriad yw ymateb i'r negeseuon a gefais ar gost y trefniadau cyfredol. Er bod partneriaethau yn hanfodol, rhaid osgoi diwylliant o gynnal cyfarfodydd a llunio strategaethau. Dywedaf fwy am hynny yn nes ymlaen yr wythnos hon.

There has been significant progress and I recognise the commitment of colleagues and workers, but we must go further and faster. The time for excuses is over. Our five-year programme of government provides a unique opportunity to make real changes. I will not hesitate to take difficult or unpopular decisions, including mandating change, if that is necessary, to deliver our commitments to the people of Wales.

Cafwyd cynnydd sylweddol, ac rwy'n cydnabod ymrwymiad cydweithwyr a gweithwyr, ond rhaid i ni fynd ymhellach ac yn gyflymach. Mae'r amser am esgusodion ar ben. Mae ein rhaglen lywodraethu bum mlynedd yn rhoi cyfle unigryw i wneud newidiadau go iawn. Ni fyddaf yn oedi i wneud penderfyniadau anodd neu amhoblogaidd, gan gynnwys gorchymyn newid, os bydd rhaid, i gyflawni o ran ein hymrwymiadau i bobl Cymru.

**William Graham:** I thank the Minister for his statement this afternoon and congratulate him on commissioning the Simpson report. The 21 recommendations contained in that report are mirrored by many of the aspirations of local authorities throughout Wales. I particularly welcome the reassurance in his statement that this is not about local government reorganisation. The Minister will know how often that plea is made to him in certain quarters, and I am grateful that he resists it.

**William Graham:** Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma a llongyfarchiadau iddo ar gomisiynu adroddiad Simpson. Mae 21 argymhelliad yn yr adroddiad a gwelir eu tebyg yn llawer o'r dyheadau sydd gan awdurdodau lleol ledled Cymru. Croesawaf yn arbennig y sicrwydd a roes inni yn ei ddatganiad nad oes a wnelo hyn ag ad-drefnu llywodraeth leol. Bydd y Gweinidog yn gwybod pa mor aml y mae rhai'n apelio ato parthed hynny, ac rwy'n ddiolchgar ei fod yn eu gwrthsefyll.

I note that the Minister has some similarities to Mr Eric Pickles, the Minister in Westminster, particularly in his remarks on the filling of executive posts. The Minister will recognise that collaboration is the way forward, not just as a response to the tough economic challenges, but because it offers more effective and efficient service provision. Collaboration is about much more than reducing the number of chief executives or directors of services; it is about merging departments with those of other local authorities, reviewing service delivery and placing the citizen at the heart of our services. After all, citizens have the right to expect the best possible public services delivered in the most efficient manner.

Nodaf fod y Gweinidog yn ymdebygu i Mr Eric Pickles, y Gweinidog yn San Steffan, yn enwedig yn ei sylwadau am y modd y llenwir swyddi gweithredwyr. Bydd y Gweinidog yn cydnabod mai cydweithio yw'r ffordd ymlaen, nid yn unig yn ymateb i'r heriau economaidd anodd, ond am ei fod yn cynnig darparu gwasanaeth mwy effeithiol ac effeithlon. Mae a wnelo cydweithio â llawer mwy na lleihau nifer y prif weithredwyr neu gyfarwyddwyr gwasanaethau; mae'n ymwneud ag uno adrannau ag adrannau mewn awdurdodau lleol eraill, adolygu cyflwyno gwasanaethau a dodi'r dinesydd ynghanol ein gwasanaethau. Wedi'r cyfan, mae gan ddinasyddion yr hawl i ddisgwyl y gwasanaethau cyhoeddus gorau posibl a bod y rheini'n cael eu darparu yn y modd mwyaf effeithlon.

Common procurement and the sharing of

Mae caffael ar y cyd a rhannu systemau

information systems are a vital first step in collaboration, but they are soft options. The leap of faith comes from budget commitment and the reality is that the service area committing its budget may not be the service area that realises the savings. Computer compatibility is a key component. More effective and responsive service delivery will require collaboration beyond local authorities. It will necessitate active engagement with the third sector.

gwybodaeth yn gam cyntaf hanfodol wrth gydweithredu, ond maent yn ddewisiadau hawdd. Daw'r naid ffydd o ymrwymiad yn y gyllideb ac mae'n bosibl nad y gwasanaeth sy'n ymrwymo ei gyllideb fydd yn sylweddoli arbedion. Mae cydweddoldeb cyfrifiadurol yn elfen allweddol. Bydd darparu gwasanaethau mwy effeithiol ac ymatebol yn gofyn am gydweithio y tu hwnt i awdurdodau lleol. Bydd yn gofyn ymgysylltu â'r trydydd sector.

We need to see clear lines of accountability and scrutiny as we await the compact for change between the Assembly Government and the WLGA, and the framework for delivery that it will describe. I would like you to place on record an assurance that collaboration is looking outward, not inward. The compact will be required to incorporate the third sector, and probably private sector organisations, if we are to realise the most effective service delivery. We expect the positive leadership necessary to drive collaboration to express this wider view. We also expect the leadership to direct collaboration on a national level to attain equitable service delivery throughout Wales, and to be retained within local agreements so that local needs prevail. Decision-making must be retained by locally active councillors.

Mae angen gweld llinellau clir o ran atebolrwydd a chraffu wrth i ni aros am y cytundeb dros newid rhwng Llywodraeth y Cynulliad a CLlLC, ac i'r fframwaith darparu y bydd yn ei ddisgrifio. Hoffwn i chi nodi'r sicrwydd a roddir y bydd cydweithio yn edrych allan, ac nid i mewn. Gofynnir i'r cytundeb gynnwys y trydydd sector, a sefydliadau yn y sector preifat, mwy na thebyg, os ydym am weld darparu gwasanaethau gyda'r mwyaf effeithiol. Disgwyliwn i'r arweinyddiaeth gadarnhaol y mae ei hangen i hybu cydweithredu fynegi'r farn ehangach hon. Disgwyliwn hefyd i'r arweinyddiaeth gyfarwyddo gydweithio ar lefel genedlaethol i gyrraedd darparu gwasanaethau teg drwy Gymru, ac i hynny gael ei gadw yn y cytundebau lleol fel mai anghenion lleol fydd bennaf. Rhaid i'r gallu i benderfynu gael ei gadw gan gynghorwyr lleol gweithgar.

**Carl Sargeant:** I thank the Conservative regional Member for making those points. We have some commonality on issues around the structures of local authorities. You are right that this is not about the position of the postholder, but the service operation underneath that. I share some of your thoughts on that.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod rhanbarthol Ceidwadol am wneud y pwyntiau hynny. Mae peth tir cyffredin rhyngom ar faterion sy'n ymwneud â strwythurau awdurdodau lleol. Yr ydych yn gywir nad oes a wnelo hyn â safle deiliad swydd, eithr y modd y gweithredir y gwasanaeth o dan hynny. Rwy'n rhannu rhai o'ch syniadau ar hynny.

On Simpson, I am again starting to pick up discussions on reorganisation in the local government family. Let me be clear: reorganisation should not be a distraction from delivering the Simpson review and taking it forward. I am not in any way, shape or form thinking about the reorganisation of local authorities. I am keen on driving forward the Simpson agenda of collaboration and working together right across the public sector, including local government, the fire service, the police and the health boards. That

O ran Simpson, yr wyf eto yn dechrau clywed trafodaethau ar ad-drefnu yn nheulu llywodraeth leol. Gadewch imi fod yn glir: ni ddylai ad-drefnu dynnu sylw oddi wrth gyflawni'r hyn sydd yn adolygiad Simpson a bwrw ymlaen ag ef. Nid wyf yn ystyried ad-drefnu awdurdodau lleol na dim byd tebyg iddo. Rwyf am fwrw ymlaen ag agenda Simpson o gydweithredu a chydweithio ar draws y sector cyhoeddus, gan gynnwys llywodraeth leol, y gwasanaeth tân, yr heddlu a'r byrddau iechyd. Dyna yw fy nyhead ac

is my aspiration and I hope that it is shared by your good self.

rwy'n gobeithio eich bod chi'n rhannu yn hynny o beth.

The compact and framework that you mentioned with regard to the Simpson policy on our co-operation with the Welsh Local Government Association—[*Interruption.*]

Mae'r cytundeb a'r fframwaith a grybwyllwyd gennych o ran y polisi Simpson ar ein cydweithrediad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru—[*Torri ar draws.*]

**The Presiding Officer:** Order. That microphone is not working; please use the other one.

**Y Llywydd:** Trefn. Nid yw'r microffon hwnnw'n gweithio; da chi, defnyddiwch y llall.

**Carl Sargeant:** The issue for me is that the compact should not be a document-signing ceremony; it should have some meaningful operation and therefore I will be working closely with the WLGA on delivery. That is the key operation that we need to look forward to.

**Carl Sargeant:** Y mater i mi yw na ddylai'r cytundeb fod yn ddim namyn seremoni i lofnodi dogfennau; dylai rhywfaint o waith ystyrlon berthyn iddo ac, felly, byddaf yn gweithio'n agos â CLlLC ar gyflawni. Dyna'r gweithredu allweddol y mae angen edrych ymlaen ato.

**Rhodri Glyn Thomas:** Weinidog, ar ran grŵp Plaid Cymru yr wyf yn croesawu'n fawr eich datganiad y prynhawn yma a'r pwyslais yr ydych wedi ei osod ar ddarparu gwasanaethau ac mai'r ddarpariaeth honno yw'r flaenoriaeth ar hyn o bryd. Yr ydych wedi pwysleisio yn eich datganiad nad oes modd cyfiawnhau'r nifer o uwch swyddogion sydd ledled Cymru mewn 22 awdurdod lleol. A ydych wedi dod i'r casgliad hwnnw yn unig oherwydd ein bod mewn dirwasgiad ariannol neu a ydych yn dadlau nad yw'r math hwnnw o fiwrocratiaeth—cyfeiriasoch at fiwrocratiaeth yn eich datganiad—yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn effeithiol? Os mai dyna yw'ch pwyslais, Weinidog, pam yn union a gymerodd 12 mlynedd i chi ddod i'r casgliad hwnnw? Dros y 12 mlynedd ddiwethaf, mae Llywodraethau Llafur wedi cefnogi yn gyson y syniad o 22 awdurdod lleol gydag uwch swyddogion ym mhob un, gan gynnwys prif weithredwyr. Yn y Cynulliad cyntaf, creasoch 22 bwrdd iechyd lleol i gyfateb â'r awdurdodau lleol hynny ac yr oedd gan y byrddau iechyd lleol hynny eu biwrocratiaeth eu hunain o uwch swyddogion ar gyflogau mawr. A ydych yn dweud wrthym yn awr eich bod wedi dod i'r casgliad fod y Llywodraethau Llafur yng Nghymru ers 1999 wedi bod yn anghywir i ddilyn y patrwm hwnnw, ac y byddai gwasanaethau yng Nghymru wedi bod yn llawer mwy effeithiol pe baent wedi eu darparu gan nifer llai o sefydliadau yn cyd-weithio? Os mai dyna yw'r casgliad yr ydych

**Rhodri Glyn Thomas:** Minister, on behalf of the Plaid Cymru group, I very much welcome your statement this afternoon and the emphasis that you have placed on the provision of services, which should be the priority at the moment. You emphasised in your statement that there is no way of justifying the number of senior executive officers throughout Wales's 22 authorities. Have you come to that conclusion just because we are in a period of economic recession or are you arguing that that type of bureaucracy—and you referred to bureaucracy in your statement—does not ensure that services are provided in an effective manner? If that is your emphasis, Minister, why exactly has it taken 12 years for you to come to that conclusion? Over the past 12 years, the Labour Governments have consistently supported the idea of 22 local authorities with senior executive officers in each one, including chief executives. In the first Assembly, you created 22 local health boards to correspond to those local authorities, and those local health boards also had their own bureaucracy of senior executive officers on large salaries. Are you telling us now that you have come to the conclusion that the Labour Governments in Wales since 1999 were wrong to follow that pattern, and that services in Wales would have been much more effectively delivered had they been provided by a smaller number of bodies collaborating together? If that is the conclusion that you have come to on the back

wedi dod iddo o ganlyniad i adroddiad ac argymhellion Simpson, dylech gyfaddef fod y gorffennol wedi bod yn fethiant yn hynny o beth.

of the Simpson report and its recommendations, you should admit that the past was a failure in that sense.

4.30 p.m.

Yn ail, hoffwn gael sicrwydd gennych y prynhawn yma, yn ogystal ag edrych ar yr angen i resymoli nifer y pif weithredwyr ac uwch-gyfarwyddwyr sy'n bodoli mewn awdurdodau lleol yng Nghymru, y byddwch hefyd yn sicrhau bod gwasanaethau yn parhau i gael eu darparu i gymunedau lleol, ac nad ydym yn symud at sefyllfa o ganoli gwasanaethau i'r graddau bod y cymunedau hynny, yn enwedig y rhai ar gyrion yr awdurdodau, yn cael eu hanghofio. Byddwch yn ymwybodol bod llawer o gymunedau yn teimlo bod gor-ganoli'n digwydd ar hyn o bryd a'u bod yn cael eu hanghofio yn y broses honno. Gobeithiaf y bydd eich pwyslais ar ddarparu gwasanaethau yn ogystal ag ar gael gwared ar y nifer ormodol o swyddogion mewn llywodraeth leol. Croesawaf eich datganiad ar y cyfan a'r athroniaeth sydd y tu ôl iddo.

Secondly, I would like an assurance from you this afternoon that, as well as looking at the need to rationalise the number of chief executives and senior directors within local authorities in Wales, you will also ensure that services continue to be provided to local communities, and that we do not move to a position where we centralise services to the extent that those communities, particularly those on the periphery of the authorities, are forgotten. You will be aware that many communities feel that services ar being over-centralised and that they are being forgotten in that process. I hope that your emphasis will be on the provision of services as well as on getting rid of the excessive number of officers in local government. However, on the whole, I welcome your statement and the philosophy that lies behind it.

**Carl Sargeant:** I thank the Member for his contribution and for his general support for the statement. Your position is interesting regarding my thinking around local government and its structure. I have been clear about my vision and view of service delivery since I came to post over 18 months ago: it has always focused on services, as opposed to structures. That is why I have chosen to articulate the argument around service transformation, as opposed to structural transformation. Giving local authorities the opportunity to work together, whether that be on a neighbouring basis or a regional or national basis, allows them the opportunity to increase and maintain better service delivery for the general public. It also addresses the issue that you raised regarding the democratic process, and the fact that we currently have 22 authorities with democratically elected councillors to scrutinise decisions, which I fully support. However, there comes a point in service delivery when we see the structure getting in the way of service delivery. I have recently seen senior members of staff being recruited on salaries running to hundreds of thousands

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei gyfraniad ac am ei gefnogaeth gyffredinol i'r datganiad. Mae eich safiad yn ddiddorol o ran fy marn i ar lywodraeth leol a'i strwythur. Rwyf wedi bod yn glir am fy ngweledigaeth a'm golwg ar ddarparu gwasanaethau ers i mi ddod i'r swydd dros 18 mis yn ôl: mae bob amser wedi canolbwyntio ar wasanaethau, yn hytrach na strwythurau. Dyna pam rwyf wedi dewis cyfleu'r ddadl o gwmpas trawsnewid gwasanaethau, yn hytrach na thrawsnewid strwythurol. Mae rhoi cyfle i awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd, boed hynny ar sail awdurdodau cyfagos neu ar sail ranbarthol neu genedlaethol, yn caniatáu iddynt y cyfle i gynyddu a chynnal gwell darpariaeth o wasanaethau i'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae hefyd yn mynd i'r afael â'r mater a godwyd gennych ynghylch y broses ddemocrataidd, a'r ffaith bod gennym ar hyn o bryd 22 o awdurdodau gyda chynghorwyr wedi'u hethol yn ddemocrataidd i graffu ar benderfyniadau, ac rwy'n llwyr gefnogi hynny. Fodd bynnag, daw adeg wrth ddarparu gwasanaethau pan welwn y strwythur yn atal y ddarpariaeth o wasanaethau. Rwyf wedi gweld yn

of pounds, when community centres or bus stations are being closed down; that is not appropriate. That is why I am saying that we must maintain good-quality service provision for the people of Wales. Never mind the structure; let us get the service delivery right first.

ddiweddar uwch-aelodau o staff yn cael eu recriwtio ar gyflogau sy'n cyrraedd cannoedd o filoedd o bunnoedd, pan fydd canolfannau cymunedol neu orsafoedd bws yn cael eu cau i lawr; nid yw hynny'n briodol. Dyna pam rwy'n dweud fod yn rhaid inni gynnal darpariaeth gwasanaethau o ansawdd da i bobl Cymru. Peidiwch â sôn am y strwythur, gadewch inni gael y cyflwyniad o wasanaethau yn gywir yn gyntaf.

I have always supported Simpson. The opportunity for service delivery is in the hands of local authorities, and I will support them. However, ultimately, their destiny lies with their own delivery.

Rwyf bob amser wedi cefnogi Simpson. Mae'r cyfle ar gyfer darparu gwasanaeth yn nwylo awdurdodau lleol, a byddaf yn eu cefnogi. Fodd bynnag, yn y pen draw, mae eu tynged yn gorwedd gyda'u darpariaeth eu hunain.

**Peter Black:** I start by welcoming your continued optimism and the positive attitude towards partnership and joint working in your statement, which is shared by the local government 'family', as you called it. However, although I am not concerned about the direction of travel, I am concerned about the method by which you are travelling with regard to that agenda. You say that you do not want reorganisation, yet you are calling for joint appointments, without an apparent appreciation of the complexity and implications for the organisations concerned. I do not think that you can have it both ways.

**Peter Black:** Dechreuaf trwy groesawu eich optimistiaeth barhaus a'r agwedd bositif tuag at bartneriaeth a chydweithio yn eich datganiad, sy'n cael ei rannu gan 'deulu' llywodraeth leol, fel y gelwid ef gennych. Fodd bynnag, er nad wyf yn pryderu am y cyfeiriad rydym yn teithio ynddo, rwy'n bryderus ynghylch y dull teithio o ran yr agenda. Rydych yn dweud nad ydych eisiau ad-drefnu, eto rydych yn galw am benodiadau ar y cyd, heb werthfawrogiad ymddangosiadol o'r cymhlethdod a'r goblygiadau ar gyfer y sefydliadau dan sylw. Nid wyf yn meddwl y gallwch ei chael hi bob ffordd.

What lessons have you learned from the collaboration projects that are already under way around Wales? In my discussions, one thing that local government has learned is that it is not a quick win, but that it requires resource, commitment and time. It is not for the fainthearted either. There are cultural issues around risk aversion and vested interests, there is a need for dedicated support and capacity to make progress, a need to break down silos and a willingness to compromise. Any collaboration requires strong leadership. Therefore, when you look at it from that point of view, you can see that the sort of partnership and collaboration that everyone in the Chamber supports is not as simple as just standing up there to take the blunderbuss approach that you have hitherto taken—'It must be done or else'. That is the impression that you have given in the Chamber. I am sure that that is effective in

Pa wersi rydych chi wedi'u dysgu o'r prosiectau cydweithio sydd eisoes ar y gweill ledled Cymru? Yn fy nhrafodaethau, un peth y mae llywodraeth leol wedi'i ddysgu yw nad yw hynny'n ateb cyflym, ond fod angen arno adnoddau, ymrwymiad ac amser. Nid ydyw ar gyfer y gwangalon ychwaith. Mae materion diwylliannol yn ymwneud ag amharodrwydd i gymryd risg a buddiannau breintiedig, mae angen cymorth penodol a'r gallu i wneud cynnydd, angen i ddileu seilos a pharodrwydd i gyfaddawdu. Mae angen arweinyddiaeth gref ar unrhyw gydweithio. Felly, pan edrychwch arno o'r safbwynt hwnnw, gwelwch nad yw'r math o bartneriaeth a chydweithio y mae pawb yn y Siambr yn eu cefnogi mor syml â dim ond sefyll i fyny a chymryd yr ymagwedd *blunderbuss* rydych hyd yma wedi'i gymryd—'Rhaid iddo gael ei wneud a dyna ni'. Dyna'r argraff a roddwyd gennych yn y

some environments, but perhaps not in a complex environment such as local government. Can you, therefore, confirm that you understand that complexity and the need for that joint working to be nurtured rather than forced upon local government? Leadership, in this case, involves more support and constructive joint working on your part as well as on the part of the Welsh Local Government Association and other partners if we are to achieve the objective that we all want, which is delivering value for money from the sort of projects that are already proving successful, such as in Gwent and elsewhere. Can you also confirm that, when you talk about these sorts of joint working partnerships, the bodies and services for which the Assembly Government is responsible, such as health and the Environment Agency, are also in the mix, so that we can get a properly joined-up public service across all sectors within Wales?

Siambr. Rwy'n siŵr fod hynny'n effeithiol mewn rhai amgylcheddau, ond efallai nid mewn amgylchedd cymhleth megis llywodraeth leol. A allwch chi, felly, gadarnhau eich bod yn deall y cymhlethdod a'r angen i'r gweithio ar y cyd hwnnw gael eu meithrin yn hytrach na'u gorfodi ar lywodraeth leol? Mae arweinyddiaeth, yn yr achos hwn, yn cynnwys mwy o gefnogaeth a gweithio ar y cyd adeiladol ar eich rhan, yn ogystal ag ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a phartneriaid eraill os ydym am gyflawni'r nod rydym i gyd ei eisiau, sef darparu gwerth am arian o'r math o brosiectau sydd eisoes yn profi'n llwyddiannus, megis yng Ngwent ac mewn mannau eraill. A allwch chi hefyd gadarnhau, pan fyddwch yn siarad am y mathau hyn o bartneriaethau gweithio ar y cyd, y bydd y cyrff a'r gwasanaethau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn gyfrifol amdanynt, megis iechyd ac Asiantaeth yr Amgylchedd, wedi'u cynnwys hefyd, fel y gallwn gael gwasanaeth cyhoeddus wedi'i gydgysylltu'n iawn ar draws pob sector yng Nghymru?

**Carl Sargeant:** I thank the Member for his contribution. It will come as no surprise, Peter, that I do not agree with many of the things that you say. The method that I am using is about taking people with us. I am trying to guide local government into working together better. The simple principle of whether it is cheaper and whether it will deliver a better service is not too hard for anybody in local government—and certainly not difficult for the Welsh Government—to understand.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei gyfraniad. Ni fydd yn syndod, Peter, nad wyf yn cytuno â llawer o'r pethau rydych yn eu dweud. Mae'r dull rwyf yn ei ddefnyddio yn ymwneud â chymryd pobl gyda ni. Rwy'n ceisio arwain llywodraeth leol i weithio'n well gyda'i gilydd. Nid yw'r egwyddor syml a yw'n rhatach ac a fydd yn darparu gwell gwasanaeth yn rhy anodd i unrhyw un mewn llywodraeth leol—nac yn sicr yn anodd i Lywodraeth Cymru—ei deall.

From what I have experienced and learned over these last few months, where there are willing partners to deliver, I do not accept that there is a time issue. Where partners are unwilling to work together, we have seen many excuses, and professional and political obstacles have been placed in the way. Let me give you some examples. In north Wales, there was an example of children's services between local authorities being considered, and an independent report identified that around £1.5 million worth of savings could be delivered. However, they were not delivered, because of political decisions and because the two local authorities could not come to an agreement. Another example was

O'r hyn rwyf wedi'i brofi a'i ddysgu dros y misoedd diwethaf, lle mae nifer o bartneriaid yn barod i gyflwyno, nid wyf yn derbyn bod amser yn fater. Lle mae partneriaid yn amharod i weithio gyda'i gilydd, rydym wedi gweld llawer o esgusodion, a gosodwyd rhwystrau proffesiynol a gwleidyddol yn y ffordd. Gadewch imi roi rhai enghreifftiau i chi. Yng ngogledd Cymru, roedd yr enghraifft o wasanaethau i blant rhwng awdurdodau lleol yn cael ei ystyried, a dangosodd adroddiad annibynnol y gallai tua £1.5 miliwn o arbedion gael eu cyflawni. Fodd bynnag, ni chawsant eu delifro, oherwydd penderfyniadau gwleidyddol ac oherwydd na fu i'r ddau awdurdod lleol ddod

at chief executive level. I was phoned by a member asking my views on a joint chief executive position in north Wales. I expressed my views, but the same person phoned me back several weeks later saying that there was not a chance of getting it through, politically. Let me tell you: that is not acceptable. The local government family is struggling, financially, across Wales to deliver vital public services that you and I and our constituents expect on a daily basis. It is time to grow up, stop talking about it and start delivering the service.

i gytundeb. Enghraifft arall oedd honno ar lefel prif weithredol. Cefais alwad ffôn gan aelod yn gofyn fy marn ar gael prif weithredwr ar y cyd yng ngogledd Cymru. Mynegais fy marn, ond ffoniodd yr un person yn ôl nifer o wythnosau yn ddiweddarach gan ddweud nad oedd cyfle i weithredu ar hynny, yn wleidyddol. Gadewch imi ddweud wrthych: nid yw hynny'n dderbyniol. Mae teulu llywodraeth leol yn ei chael hi'n anodd, yn ariannol, ar draws Cymru i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol yr ydych chi a minnau a'n hetholwyr yn eu disgwyl o ddydd i ddydd. Mae'n amser i dyfu i fyny, rhoi'r gorau i siarad am y peth a dechrau darparu'r gwasanaeth.

**Mike Hedges:** After local government reorganisation, there was quite a lot of joint working in Wales but, unfortunately, it declined. Every authority wanted one of its own. We went from having eight directors of social services and eight directors of education in Wales to having 22 of each—and, not only that, we paid them more. This has reached the stage where it is not sustainable.

**Mike Hedges:** Ar ôl ad-drefnu llywodraeth leol, roedd cryn dipyn o weithio ar y cyd yng Nghymru, ond, yn anffodus, mae hynny wedi dirywio. Roedd pob awdurdod eisiau un i'w hun. Aethom o gael wyth cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol ac wyth cyfarwyddwr addysg yng Nghymru i gael 22 o bob un—ac, nid yn unig hynny, roeddem yn eu talu yn fwy. Rydym bellach wedi cyrraedd y pwynt lle nad yw hyn yn gynaliadwy.

There are areas where it has worked well, such as in procurement—the Welsh purchasing consortium, of which I used to be a member, and of which I speak highly, has worked well and has saved Welsh local government many millions of pounds, and we have had other examples of local authorities trying to work together. However, they have been too few and too little, so I welcome this, because it is a huge opportunity.

Mae yna ardaloedd lle mae wedi gweithio'n dda, megis mewn caffael—mae consortiwm prynu Cymru, yr hwnnw roeddwn yn arfer bod yn aelod ohono, ac rwy'n parhau i'w ganmol, wedi gweithio'n dda ac wedi arbed miliynau o bunnoedd i lywodraeth leol Cymru, ac rydym wedi cael enghreifftiau eraill o awdurdodau lleol yn ceisio gweithio gyda'i gilydd. Fodd bynnag, nid oes digon o hynny wedi bod ac felly rwy'n croesawu hyn, oherwydd mae'n gyfle enfawr.

There is a limited amount of money coming into local government and we desperately need to make the best use of it. I am not convinced that having 22 directors of education and 22 directors of social services is making the best use of it. I strongly urge the Minister to keep pushing for consortia, and for people to work together in areas that have a lot in common. Neath Port Talbot and Swansea used to be together as part of West Glamorgan—I was fortunate enough to serve with Gwenda Thomas on that authority—and we had one director of education, but now we have one each. That is just not sustainable in

Mae swm cyfyngedig o arian yn dod i mewn i lywodraeth leol, ac mae taer angen arnom i wneud y defnydd gorau ohono. Nid wyf yn argyhoeddedig fod cael 22 o gyfarwyddwyr addysg a 22 o gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol yn gwneud y defnydd gorau ohono. Rwy'n annog y Gweinidog yn gryf i barhau i wthio am gonsortia, ac i bobl weithio gyda'i gilydd mewn ardaloedd sydd â llawer yn gyffredin. Roedd Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe yn arfer bod gyda'i gilydd fel rhan o Orllewin Morgannwg—roeddwn yn ddigon ffodus i wasanaethu gyda Gwenda Thomas ar yr awdurdod hwnnw—ac

these difficult times. I had hoped that the Minister would push for joint working. There are far too many areas where it could be done but where it is not being done. There are some areas where it was forced through, such as on pension funds, where it has worked well. There was no option but to do it, and it worked. The Minister is definitely going in the right direction, and I wish him all the best in taking it forward.

roedd gennym un cyfarwyddwr addysg, ond yn awr mae gennym un yr un. Nid yw hynny'n gynaliadwy yn y cyfnod anodd hwn. Roeddwn wedi gobeithio y byddai'r Gweinidog wedi rhoi pwysau ar weithio ar y cyd. Gorfodwyd hynny ar rai ardaloedd, megis ar gronfeydd pensiwn, lle mae wedi gweithio'n dda. Nid oedd opsiwn arall ond gwneud hynny, ac fe weithiodd. Mae'r Gweinidog yn bendant yn mynd i'r cyfeiriad cywir, a dymunaf yn dda iddo wrth ei ddatblygu.

**Carl Sargeant:** I thank the Member for his contribution. It would be remiss of me to say that joint working is not working anywhere in Wales. There are fantastic examples of where people have taken this approach and made progress with it. There is a great example in Swansea, where there is a regional facility for legal services; it is still early days, but it is saving significant amounts of money. There are also great examples in north Wales, as there are throughout Wales. In Gwent, the frailty project, involving the health board and local government, is working well. However, the situation is not as consistent and as wide-ranging as we need it to be, and the pace of change is different in different areas.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei gyfraniad. Byddai'n esgeulus ar fy rhan i ddweud nad yw gweithio ar y cyd yn gweithio yn unrhyw le yng Nghymru. Ceir enghreifftiau gwych o le mae pobl wedi defnyddio'r dull hwn ac wedi gwneud cynnydd ag ef. Mae enghraifft wych yn Abertawe, lle ceir cyfleuster rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol; mae'n dal yn ddyddiau cynnar, ond mae'n arbed symiau sylweddol o arian. Ceir hefyd enghreifftiau gwych yng ngogledd Cymru, fel yng ngweddill Cymru. Yng Ngwent, mae'r prosiect eiddilwch, sy'n cynnwys y bwrdd iechyd a llywodraeth leol, yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, nid yw'r sefyllfa mor gyson ac mor eang ei gwmpas ac y mae arnom angen iddo fod, ac mae cyflymder y newid yn wahanol mewn gwahanol ardaloedd.

In 2009-10, the salaries of chief executives and senior officers in Wales amounted to over £14.5 million. Do not come to me to talk about road networks needing repairs, or complaining about community centres not being kept open, when an amount of cash is going to areas where we could consider joint appointments and a different way of operating in local government. Structures have already been presented to local authorities in relation to shared services and shared personnel, but they are being ignored. They cannot be ignored in the future.

Yn 2009-10, roedd cyfanswm cyflogau prif weithredwyr ac uwch-swyddogion yng Nghymru wedi cyrraedd dros £14.5 miliwn. Peidiwch â dod ataf i i siarad am rwydweithiau ffyrdd sydd angen gwaith trwsio, neu i gwyno am ganolfannau cymunedol nad ydynt yn cael eu cadw ar agor, pan fo swm o arian yn mynd i feysydd lle gallem ystyried penodiadau ar y cyd a ffordd wahanol o weithredu mewn llywodraeth leol. Cyflwynwyd strwythurau eisoes i awdurdodau lleol mewn perthynas â gwasanaethau a rennir a phersonél a rennir, ond maent yn cael eu hanwybyddu. Ni ellir eu hanwybyddu yn y dyfodol.

**Janet Finch-Saunders:** I also welcome your report, Minister. I would like to pick up on the issue of bureaucratic barriers and inefficiency. In Aberconwy, many residents have seen massive increases in council tax year on year, but that has come about as a

**Janet Finch-Saunders:** Rwyf hefyd yn croesawu eich adroddiad, Weinidog. Hoffwn godi mater y rhwystrau biwrocrataidd ac aneffeithlonrwydd. Yn Aberconwy, mae llawer o drigolion wedi gweld cynnydd aruthrol yn y dreth gyngor flwyddyn ar ôl

direct result of the poor and disproportionate settlement funding that Welsh Labour-led Governments have allocated to Conwy over many years. In addition, many difficulties are faced by our officers and service providers as a result of the complex, numerous and bureaucratic funding streams that accompany grants to many departments. I am aware that there are over 80 separate education grants, and I believe that there used to be over 120. With those comes a high degree of complex bureaucracy on both sides, and that is inefficient and unsustainable. In view of those types of issues and obvious inefficiencies, Minister, would you consider working with the First Minister and the Minister for Education and Skills to endorse our policy of funding schools directly, so that the Welsh pound can follow our pupils, as opposed to keeping the current costly and bureaucratic system?

blwyddyn, ond mae hynny wedi digwydd o ganlyniad uniongyrchol i'r setliad ariannol gwael ac anghymesur a ddyrannwyd i Gonwy gan Lywodraethau Cymreig blaenorol o dan arweiniad Llafur dros nifer o flynyddoedd. Yn ogystal, mae llawer o anawsterau a wynebir gan ein swyddogion a'n darparwyr gwasanaeth o ganlyniad i'r ffrydiau ariannu cymhleth, niferus a biwrocrataidd sy'n cyd-fynd â grantiau i nifer o adrannau. Rwy'n ymwybodol fod dros 80 o grantiau addysg gwahanol, a chredaf fod 120 ohonynt ar gael yn flaenorol. Gyda'r rheini, daw lefel uchel o fiwrocratiaeth gymhleth ar y ddwy ochr, ac mae hynny'n aneffeithlon ac yn anghynaliadwy. O ystyried y mathau hyn o faterion ac aneffeithlonrwydd amlwg, Weinidog, a fyddech yn ystyried gweithio gyda'r Prif Weinidog a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau i gefnogi ein polisi o ariannu ysgolion yn uniongyrchol, fel y gall y bunt Gymreig ddilyn ein disgyblion, yn hytrach na chadw'r system gostus a biwrocrataidd bresennol?

**Carl Sargeant:** I thank the Member for her contribution. I am sure that she will be aware that the last local government settlement, which was delivered by the previous Government, was applauded by local government throughout Wales. I was the Minister with responsibility for local government at the time, and that was the first time in the history of the Assembly that the settlement that the Welsh Government was delivering for local authorities was welcomed; it was heralded as a fair settlement. The Member seems to believe something else, but that has not been flagged up to me by any local authority, even though I sit on the finance forum for Wales. Therefore, you raise an interesting point. The border is not too far away from your part of north Wales, but look over the border to see what local authorities in England are having to deal with because of colleagues in Westminster of your political persuasion.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei chyfraniad. Rwy'n siŵr y bydd yn ymwybodol i'r setliad llywodraeth leol diwethaf, a gyflwynwyd gan y Llywodraeth flaenorol, gael ei gymeradwyo gan lywodraeth leol ledled Cymru. Fi oedd y Gweinidog â chyfrifoldeb dros lywodraeth leol ar y pryd, a dyna oedd y tro cyntaf yn hanes y Cynulliad i'r setliad a gyflwynodd Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol gael ei groesawu; cafodd ei gydnabod fel setliad teg. Fe ymddengys fod yr Aelod yn credu rhywbeth arall, ond nid oes unrhyw awdurdod lleol wedi tynnu hynny i'm sylw, hyd yn oed er fy mod yn eistedd ar y fforwm cyllid ar gyfer Cymru. Felly, rydych yn codi pwynt diddorol. Nid yw'r ffin yn rhy bell i ffwrdd oddi wrth eich rhan chi o ogledd Cymru, ond edrychwch dros y ffin i weld beth y mae awdurdodau lleol yn Lloegr yn gorfod delio ag ef oherwydd cydweithwyr yn San Steffan o'r un lliw gwleidyddol â chi.

On your point about education, you will be aware of the Vivian Thomas review, and the Minister for education is keeping a keen eye on ensuring that schools receive fair funding. We work closely together, as I do with the Deputy Minister for Children and Social Services, Gwenda Thomas. We have the best

O ran eich pwynt am addysg, byddwch yn ymwybodol o adolygiad Vivian Thomas, ac mae'r Gweinidog addysg yn cadw llygad barcud ar sicrhau bod ysgolion yn cael cyllid teg. Rydym yn gweithio'n agos gyda'n gilydd, fel rwyf yn ei wneud gyda'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau

interests of the people of Wales at heart in relation to public service delivery. Believe me, I am committed to making sure that we get as much money to the front line of service delivery. I am not committed to bureaucratic barriers. I will be making more announcements on what the Welsh Government will do to ensure that local authorities' funding has a clear and sustainable future. It is a two-way street: while we do things, local government also has to respond proactively.

Cymdeithasol, Gwenda Thomas. Rydym yn dal buddiannau pobl Cymru yn agos at ein calon mewn perthynas â darparu gwasanaeth cyhoeddus. Credwch fi, rwyf wedi ymrwymo i wneud yn siŵr ein bod yn cael cymaint o arian ag y bo modd i'r rheng flaen o ddarparu gwasanaeth. Nid wyf wedi ymrwymo i rwystrau biwrocrataidd. Byddaf yn gwneud cyhoeddiadau pellach ar yr hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod gan gyllid awdurdodau lleol ddyfodol clir a chynaliadwy. Mae'n stryd ddwy ffordd: wrth ein bod ni'n gwneud pethau, rhaid i lywodraeth leol ymateb yn rhagweithiol hefyd.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 4.45 p.m.*
*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 4.45 p.m.*

## Cynnig i Gymeradwyo Rheoliadau'r Diwydiant Dŵr (Cynlluniau ar gyfer Mabwysiadu Carthffosydd Preifat) 2011
## Motion to Approve the Water Industry (Schemes for Adoption of Private Sewers) Regulations 2011

*Cynnig NDM4739 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:*

*Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau'r Diwydiant Dŵr (Cynlluniau i Fabwysiadu Carthffosydd Preifat) 2011 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mai 2011.*

*Motion NDM4739 Jane Hutt*

*To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:*

*Approves that the draft The Water Industry (Schemes for Adoption of Private Sewers) Regulations 2011 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 20 May 2011.*

**The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):** I move the motion.

I welcome this opportunity to introduce these very important draft regulations, which will affect the transfer of private sewers and lateral drains to the statutory water and sewerage companies across Wales and England. Very often, the owners of private sewers and lateral drains, typically householders, are unaware of their responsibilities and liabilities. The repair and maintenance of private sewers can be very expensive for individual householders. Where drainage arrangements are shared between a number of households, it can be

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths):** Cynigiaf y cynnig.

Rwy'n croesawu'r cyfle hwn i gyflwyno'r rheoliadau drafft hyn, sy'n bwysig iawn, ac a fydd yn effeithio ar y gwaith o drosglwyddo carthffosydd preifat a draeniau ochrol i'r cwmnïau dŵr a charthffosiaeth statudol ledled Cymru a Lloegr. Yn aml iawn, ni fydd perchnogion carthffosydd preifat a draeniau ochrol, deiliaid tai fel arfer, yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u rhwymedigaethau. Gall y gwaith o gynnal a chadw carthffosydd preifat fod yn ddrud iawn i berchnogion tai unigol. Lle mae trefniadau draenio yn cael eu rhannu rhwng nifer o gartrefi, gall fod yn

difficult to recover costs from those who use the sewers but are unaffected by the problems. Therefore, this transfer is about fairness. It will ensure that those homes that are connected to the public sewer system receive the same level of service. It is the case that not all sewers will be transferred. Sewers that carry only surface water and discharge, other than to a public sewer, will not be transferred. The same will apply to sewerage systems that serve a single, centrally managed site or curtilage, as might be the case, for example, with a shopping mall or an industrial estate. Systems that drain to private treatment facilities, such as septic tanks, cesspits and small sewage treatment plants, are also excluded.

anodd i adennill costau oddi wrth y rhai sy'n defnyddio'r carthffosydd ond nad yw'r problemau yn effeithio arnynt. Felly, mae'r trosglwyddiad hwn yn ymwneud â thegwch. Bydd yn sicrhau y bydd y cartrefi hynny sy'n cael eu cysylltu â'r system garthffos gyhoeddus yn cael gwasanaeth cyfartal. Mae'n wir na fydd pob carthffos yn cael ei throsglwyddo. Ni chaiff carthffosydd sy'n cludo dŵr wyneb a dŵr a gollwyd yn unig, oni bai ei fod yn cael ei gludo i garthffos gyhoeddus, eu trosglwyddo. Bydd yr un peth yn berthnasol o ran systemau carthffosiaeth sy'n gwasanaethu un safle a reolir yn ganolog, neu o fewn cwrtil, fel y gallai fod yn wir, er enghraifft, gyda chanolfan siopa neu ystâd ddiwydiannol. Mae systemau sy'n draenio i gyfleusterau trin preifat, fel tanciau septig, carthbyllau a gweithfeydd trin carthion bach, wedi'u heithrio hefyd.

Transfer will ensure better maintenance of these sewers, resulting in less environmental pollution, minimising threats to public health, and reducing complaints from householders and businesses about what is perceived to be a costly and unfair burden. It will also cut the number of disputes requiring local authority intervention. An integrated approach to managing the sewerage system will lower maintenance costs and result in a more resilient and effective system. Water and sewerage companies will assess and prioritise what is essential short-term maintenance, repair or replacement. I would welcome comments on these regulations and agreement to them.

Bydd trosglwyddo yn sicrhau y gellir cynnal a chadw'r carthffosydd yn well, a fydd yn arwain at lai o lygredd amgylcheddol, lleihau i'r eithaf y bygythiadau i iechyd y cyhoedd, a lleihau cwynion gan ddeiliaid tai a busnesau ynghylch yr hyn yr ystyrir yn faich costus ac annheg. Bydd hefyd yn lleihau nifer yr anghydfodau lle y mae angen ymyrraeth gan yr awdurdod lleol i'w datrys. Bydd dull integredig o reoli'r system garthffosiaeth yn lleihau costau cynnal a chadw, ac yn arwain at system fwy cadarn ac effeithiol. Bydd cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn asesu ac yn blaenoriaethu gwaith hanfodol yn y tymor byr o ran cynnal a chadw, trwsio neu adnewyddu. Byddwn yn croesawu cael sylwadau ar y rheoliadau hyn a chytundeb arnynt.

**Russell George:** The Welsh Conservative group and I are very pleased that these regulations are to be passed today. Until now, the law has meant that each drainage system has had its own legal and physical issues that had to be taken into account by a range of different people, organisations and authorities. It is a common misconception among homeowners that responsibility for the drains and sewers serving their properties is a simple matter. While readily acknowledging responsibility for the grids, gullies and drains next to their houses, they often believe that the council is responsible for everything thereafter. The most common

**Russell George:** Mae grŵp Ceidwadwyr Cymru a minnau'n falch iawn fod y rheoliadau yn cael eu pasio heddiw. Hyd yma, mae'r gyfraith wedi golygu bod gan bob system ddraenio ei materion cyfreithiol a ffisegol ei hun y bu'n rhaid eu cymryd i ystyriaeth gan amrywiaeth o bobl, sefydliadau ac awdurdodau gwahanol. Mae'n gamsyniad cyffredin ymysg perchnogion tai bod cyfrifoldeb am y draeniau a charthffosydd sy'n gwasanaethu eu heiddo yn fater syml. Er eu bod yn barod i gydnabod eu cyfrifoldeb am y gridiau, y gwteri a'r draeniau agosaf at eu tai, maent yn aml yn credu bod y cyngor yn gyfrifol am bopeth

scenario is that, until a problem occurs, most households are unaware that they are responsible for their private sewers, sometimes jointly with neighbouring households. Moreover, even when households are aware of their responsibilities, when problems occur, the costs associated with maintaining and repairing private sewers can be extremely high. They are often met by individuals or spread across just a few households, resulting in considerable financial burdens for those responsible. These regulations will now mean that water companies will now have to take ownership of private sewerage assets that connect the public to the system. It is a comprehensive solution, simplifying the whole process and giving water companies and local authorities clarity and homeowners peace of mind. This transfer will also help to address the lack of integrated management of sewerage networks as a whole. Some urban drainage systems are many years old—indeed, some are centuries old—and with the onset of climate change and population growth, we must have the confidence that they will be resilient enough to handle those changes and pressures. To conclude, the decision to go down this route was taken by the previous UK Government 10 years ago, and it has taken us until now to get this legislation passed. It has been long overdue.

arall. Y sefyllfa fwyaf cyffredin yw, nes y bydd problem yn codi, bydd y rhan fwyaf o gartrefi heb fod yn ymwybodol eu bod yn gyfrifol am eu carthffosydd preifat, weithiau ar y cyd ag aelwydydd cyfagos. Ar ben hynny, hyd yn oed pan fydd cartrefi’n ymwybodol o'u cyfrifoldebau, pan fydd problemau'n codi, gall y costau sy'n gysylltiedig â chynnal ac atgyweirio carthffosydd preifat fod yn eithriadol o uchel. Unigolion sy’n talu’r costau yn aml, neu fe’u rhennir rhwng ychydig o gartrefi, sy’n arwain at feichiau ariannol sylweddol ar y rhai sy'n gyfrifol. Bydd y rheoliadau hyn bellach yn golygu y bydd yn rhaid i gwmnïau dŵr gymryd perchnogaeth o asedau carthffosiaeth preifat sy'n cysylltu'r cyhoedd â'r system. Mae’n ateb cynhwysfawr, sy’n symleiddio'r broses gyfan ac yn rhoi eglurder i gwmnïau dŵr ac awdurdodau lleol a thawelwch meddwl i berchnogion tai. Bydd y trosglwyddiad hwn hefyd yn helpu i fynd i'r afael â'r diffyg rheolaeth integredig o rwydweithiau carthffosiaeth yn gyffredinol. Mae rhai systemau draenio trefol yn flynyddoedd lawer o oed—yn wir, mae rhai yn ganrifoedd oed—a chyda dyfodiad newid yn yr hinsawdd a thwf yn y boblogaeth, mae'n rhaid inni fod yn hyderus y byddant yn ddigon gwydn i ymdopi â’r newidiadau a’r pwysau hynny. I gloi, gwnaed y penderfyniad i ddilyn y trywydd hwn gan Lywodraeth flaenorol y DU 10 mlynedd yn ôl, ac mae wedi cymryd tan yn awr i basio’r ddeddfwriaeth hon. Buom yn aros yn ddigon hir.

**Mick Antoniw:** I very much welcome these regulations, and I know that there are several hundred people in the Llantrisant area of my constituency who will also very much welcome them. These regulations have cross-party support, even though they technically amount to the nationalisation of private sewerage. The key issue is that, when problems arise, people can face, out of the blue, bills that can amount to tens of thousands of pounds, if not hundreds of thousands of pounds. This has blighted an area of Llantrisant for some three years. It causes anguish and distress. There are people who are not sure how they can pay, whether they have insurance to cover it, and whether they might get insurance in future. At long last, this removes the sword of Damocles

**Mick Antoniw:** Rwy’n croesawu'r rheoliadau hyn, a gwn fod cannoedd o bobl yn ardal Llantrisant yn fy etholaeth sydd yn eu croesawu'n fawr hefyd. Mae cefnogaeth drawsbleidiol i’r rheoliadau, er eu bod, yn dechnegol yn gyfystyr â gwladoli carthffosiaeth breifat. Y mater allweddol yw, pan fydd problemau'n codi, gall pobl wynebu biliau a all fod yn ddegau o filoedd, os nad cannoedd o filoedd o bunnoedd yn annisgwyl. Mae hyn wedi effeithio ar ran o Lantrisant ers rhyw dair blynedd. Mae'n achosi gofid a thrallod. Mae pobl nad ydynt yn siŵr sut y gallant dalu, p'un a oes ganddynt yswiriant ar ei gyfer, ac a allant gael yswiriant yn y dyfodol. O'r diwedd, mae hyn yn cael gwared ar gleddyf Damocles, a fu’n hongian uwch eu pennau, ac rwy'n siŵr

hanging over their heads, and I am sure that they will welcome with open arms a positive decision from the Assembly to approve these regulations. That welcome will not just be from the people of Llantrisant, as many people will benefit from these regulations in future, because it is estimated that half of all households have private connections. So, if this issue does not affect people this year, it will in future years. This change puts sewerage where it belongs, which is in the public sector, where responsibility for it should remain.

y byddant yn croesawu'r penderfyniad cadarnhaol gan y Cynulliad i gymeradwyo'r rheoliadau hyn gyda breichiau agored. Nid pobl Llantrisant yn unig fydd yn croesawu hyn; bydd llawer o bobl yn elwa o'r rheoliadau hyn yn y dyfodol, oherwydd amcangyfrifir bod gan hanner yr holl aelwydydd gysylltiadau preifat. Felly, os nad yw'r mater hwn yn effeithio ar bobl eleni, bydd yn effeithio arnynt yn y dyfodol. Mae'r newid hwn yn rhoi carthffosiaeth lle y dylai fod, sef yn y sector cyhoeddus, lle y dylai'r cyfrifoldeb drosto barhau.

**Rhodri Glyn Thomas:** Weinidog, croesawaf innau’r rheoliadau hyn; mae’n amlwg o’r cyfraniadau a gafwyd eisoes y bydd cefnogaeth drawsbleidiol i fabwysiadu’r rheoliadau hyn. Fel y dywedasoch wrth eu cyflwyno, yr hyn sy’n bwysig yw bod y trosglwyddo hyn o’r sector preifat i’r sector cyhoeddus yn digwydd. Pa mor hyderus ydych fod modd gweithredu hynny, ac a ydych yn rhagweld problemau wrth sicrhau bod y trosglwyddo yn digwydd mor fuan â phosibl?

**Rhodri Glyn Thomas:** Minister, I also welcome these regulations; it is clear from the contributions that we have already had that there will cross-party support for the adoption of these regulations. As you said in introducing them, what is important is that this transfer from the private sector to the public sector happens. How confident are you that it will be possible to achieve that, and do you foresee any problems in ensuring that the transfer happens as soon as possible?

**Christine Chapman:** I, too, welcome these regulations. The upkeep and maintenance of private sewers is an issue that constituents have raised with me for some time, not just since I entered the Assembly 12 years ago, but before that, when I was an elected member of Rhondda Cynon Taf County Borough Council. We should not underestimate the impact of this change in practical terms or in terms of the emotional and psychological effect on householders who face dealing with a problem that they had in no way envisaged. As Russell George said, it is quite difficult for householders to understand that such problems are for them to deal with. That is a battle that you sometimes have to look at, because there is a sense of frustration that arises out of the feeling that there should be more support. This has been a particular problem in cases where housing developers have gone into liquidation. That happens quite a lot, and householders have subsequently found themselves in the difficult position of having to deal with the upkeep of their sewerage systems. That means reaching a consensus with neighbours and residents, which can be difficult, because they may say that it is not they who should

**Christine Chapman:** Rwyf finnau hefyd yn croesawu'r rheoliadau hyn. Mae'r gwaith o gynnal a chadw carthffosydd preifat yn fater y mae etholwyr wedi'i godi gyda mi ers peth amser, nid dim ond ers imi ddod i'r Cynulliad 12 mlynedd yn ôl, ond cyn hynny, pan oeddwn yn aelod etholedig ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Ni ddylem ddibrisio effaith y newid hwn mewn termau ymarferol nac o ran yr effaith emosiynol a seicolegol ar ddeiliaid tai sy'n wynebu gorfod ymdrin â phroblem nad oeddent wedi’i rhagweld o gwbl. Fel y dywedodd Russell George, mae'n eithaf anodd i berchnogion tai ddeall bod problemau o'r fath yn broblem y bydd yn rhaid iddynt hwy ymdrin â hi. Mae honno'n frwydr y bydd yn rhaid ei hystyried weithiau, oherwydd mae ymdeimlad o rwystredigaeth sy'n deillio o'r teimlad y dylai mwy o gefnogaeth fod ar gael yn hyn o beth. Bu’n broblem arbennig mewn achosion lle mae datblygwyr tai wedi mynd yn fethdalwyr. Mae hyn yn digwydd yn gyffredin, a deiliaid tai wedyn mewn sefyllfaoedd anodd am eu bod yn gorfod cynnal a chadw eu systemau carthffosiaeth. Mae hynny'n golygu dod i gytundeb gyda chymdogion a thrigolion, a all

pay for it, but the council. However, we know that, legally, it is not the council's responsibility, so there is that added issue of the complexity of the legal situation. An awful lot of frustrated households the length and breadth of Wales have suffered over the years, and I know that they will certainly welcome these regulations.

fod yn anodd, oherwydd efallai y byddant yn dweud nad hwy, ond y cyngor, a ddylai dalu am y gwaith. Fodd bynnag, gwyddom, yn gyfreithiol, nad cyfrifoldeb y cyngor mohono, felly mae cymhlethdod y sefyllfa gyfreithiol yn broblem ychwanegol. Mae llawer iawn o gartrefi rhwystredig ledled Cymru sydd wedi dioddef dros y blynyddoedd, a gwn y byddant yn sicr yn croesawu'r rheoliadau hyn.

**Kirsty Williams:** On behalf of the Welsh Liberal Democrats, I, too, welcome the regulations before us; we will support the motion this afternoon. As has been highlighted by previous speakers, there is not a constituency in Wales that does not suffer from this problem in some shape or form. I know that there are people in the communities of Brecon, Builth Wells and Knighton who will be delighted to finally have these regulations in place, so that they can see a beginning to the end of the problems that they have experienced for many years. As Christine Chapman and Russell George said, it is often the case that residents are unaware of their liability until they wake up one morning to find something blocking their sewerage system and, on calling the water board or the council to send someone to clear the blockage, are told, 'It is simply not our responsibility'. That is often the first that they know of the situation. Christine is quite right; it is often the case that estates that have been built over the past 20 to 25 years have unadopted sewers, and it is often impossible to track down the developers of those estates that have gone into liquidation and are therefore not liable either. It can cause a great deal of stress, concern and worry for people living in those houses. Trying to deal with these issues can also take up a huge amount of council time, which is expensive for the council.

**Kirsty Williams:** Ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, hoffwn innau hefyd groesawu'r rheoliadau sydd ger ein bron; byddwn yn cefnogi'r cynnig y prynhawn yma. Fel y nodwyd gan siaradwyr blaenorol, nid oes etholaeth yng Nghymru nad yw'n dioddef yn sgîl y broblem hon mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Gwn fod yna bobl yng nghymunedau Aberhonddu, Llanfair-ym-Muallt a Threfyclo a fydd yn falch o gael y rheoliadau hyn ar waith o'r diwedd, fel y gallant weld dechrau i ddiwedd y problemau y maent wedi'u cael ers blynyddoedd lawer. Fel y dywedodd Christine Chapman a Russell George, mae'n aml yn wir nad yw preswylwyr yn ymwybodol o'u rhwymedigaeth nes eu bod yn deffro un bore ac yn canfod fod rhywbeth yn achosi rhwystr yn eu system garthffosiaeth, a phan fyddant yn ffonio'r bwrdd dŵr neu'r cyngor i anfon rhywun i glirio'r rhwystr, dywedir wrthynt, 'Nid yw'n gyfrifoldeb arnom ni i'w glirio'. Yn aml, dyna'r amser y byddant yn gwybod gyntaf am y sefyllfa. Mae Christine yn llygad ei lle; mae'n aml yn wir bod ystadau sydd wedi cael eu hadeiladu dros yr 20 i 25 mlynedd diwethaf â charthffosydd nad ydynt wedi'u mabwysiadu, ac yn aml mae'n amhosibl i olrhain datblygwyr yr ystadau hynny sydd wedi mynd yn fethdalwyr, ac felly nid ydynt yn atebol ychwaith. Gall achosi llawer iawn o bryder, straen a phoeni i bobl sy'n byw yn y tai hynny. Gall ceisio ymdrin â'r materion hyn gymryd llawer iawn o amser y cyngor hefyd, ac mae hynny'n ddrud i'r cyngor.

I would be grateful if the Minister would respond to one point in replying to this debate. It has been suggested in some circles that there is a considerable financial liability here that is shifting onto the water companies, and there has been some suggestion that, in order for them to pay for

Byddwn yn ddiolchgar pe bai'r Gweinidog yn ymateb i un pwynt mewn ymateb i'r ddadl hon. Awgrymwyd mewn rhai cylchoedd bod atebolrwydd ariannol sylweddol yma a gaiff ei drosglwyddo i'r cwmnïau dŵr, a bu awgrym, er mwyn iddynt dalu am yr atebolrwydd newydd hwn, y gallai arwain at

this new liability, that could result in higher water charges. What representations is the Minister making to water companies about their ability to manage this financially and what steps can he take with the water companies and the regulators of the water industry to ensure that residents do not pick up the tab for this in another way via significant increases in their water bills?

daliadau uwch am ddŵr. Pa sylwadau y mae'r Gweinidog yn eu rhoi i'r cwmnïau dŵr ynghylch eu gallu i reoli hyn yn ariannol a pha gamau y mae'n eu cymryd gyda'r cwmnïau dŵr a rheoleiddwyr y diwydiant dŵr i sicrhau nad yw preswylwyr yn gorfod talu am hyn mewn ffordd arall, sef drwy godiadau sylweddol yn eu biliau dŵr?

**Keith Davies:** Mae sawl Aelod wedi sôn am hyn eisoes, ond, fel y dywedodd Christine yn gynharach, credaf mai problem yr ystadau tai a adeiladwyd yn y 1960au a'r 1970au yw hon. Yn fy etholaeth, yn Llangennech, Porth Tywyn a Dyffryn y Swistir, yr ydym yn sôn am gannoedd o dai a daethom â deiseb ynglŷn â'r mater hwn i bwyllgor Christine Chapman ddwy flynedd yn ôl. Yr hyn sy'n fy mhryderu yn awr yw a fyddem yn camarwain y bobl sy'n mynd i ddarganfod bod ganddynt broblem, ond nad yw'r arian wedi cael ei drosglwyddo i Dŵr Cymru. Credaf mai Dŵr Cymru fydd yn gyfrifol am hyn. Yr ail beth sy'n fy mhryderu yw bod y rheoliadau hyn yn gorffen yn 2018. Felly, mae gennyf ddau gwestiwn: a fydd cyllid ychwanegol, oherwydd bydd pobl yn erfyn hynny, ac a fydd yn cael ei gyflawni erbyn 2018?

**Keith Davies:** Several Members have mentioned this already, but, as Christine said earlier, I believe that this is a problem of the housing estates built in the 1960s and 1970s. In my constituency, in Llangennech, Burry Port and the Swiss Valley, we are talking about hundreds of houses and we brought a petition on this subject to Christine Chapman's committee some two years ago. What concerns me now is whether we are going to mislead the people who will discover that they have a problem, but money has not been transferred to Welsh Water. I believe that it is Welsh Water that will be responsible for this. The second thing that concerns me is that these regulations come to an end in 2018. Therefore, I have two questions: will there be additional funding, because people will want that, and will this be achieved by 2018?

**The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):** I thank Members for their welcome for these measures and their illustration of some of the issues and problems that will be addressed and solved by the transfer. It is good to have that widespread recognition of the importance of these regulations and of the difference that they will make to people's lives in Wales in practical and significant ways.

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths)**: Diolch i'r Aelodau am groesawu'r mesurau hyn, a'u henghreifftiau o rai o'r materion a'r problemau a gaiff sylw a'u datrys yn sgîl y trosglwyddo cyfrifoldebau. Mae'n dda cael y gydnabyddiaeth eang o bwysigrwydd y rheoliadau hyn a'r gwahaniaeth, mewn ffyrdd ymarferol ac arwyddocaol, y byddant yn ei wneud i fywydau pobl yng Nghymru.

We do not have a particular anxiety around whether the transfer will be effective, Rhodri Glyn, because it will happen automatically on the due date of 1 October. There are issues around cost, as both Keith and Kirsty mentioned. Ofwat, as the regulator, has an important role here. There have been estimates as to the additional amounts that will be levied on water customers and the difference this will make to customers' bills, and they vary from figures as low as £5 to perhaps as much as £14 or £15 on annual

Nid oes gennym bryder penodol ynghylch a fydd y trosglwyddiad yn effeithiol, Rhodri Glyn, gan y bydd yn digwydd yn awtomatig ar y dyddiad y mae i ddod i rym, sef 1 Hydref. Mae materion yn ymwneud â chost, fel y crybwyllodd Keith a Kirsty. Mae gan Ofwat, y rheoleiddiwr, rôl bwysig yma. Cafwyd amcangyfrifon ynghylch y symiau ychwanegol a godir ar gwsmeriaid dŵr a'r gwahaniaeth y bydd hyn yn ei wneud i filiau cwsmeriaid, ac maent yn amrywio o ffigurau mor isel â £5 i gymaint â £14 neu £15 ar

bills. Those are just estimates at the moment, so we have to wait and see, but Ofwat will take a close interest in that, and it may well vary from one water company to another, depending on the extent of the issues and the investments that they will have to make when the automatic transfer takes place.

filiau blynyddol efallai. Dim ond amcangyfrifon yw'r rhain ar hyn o bryd, felly rhaid i ni aros a gweld, ond bydd Ofwat yn cymryd diddordeb brwd yn hynny, ac mae'n gwbl bosibl y bydd y gost yn amrywio o un cwmni dŵr i'r llall, yn dibynnu ar raddfa'r materion a'r buddsoddiadau y bydd yn rhaid iddynt eu gwneud pan fydd y trosglwyddiad awtomatig yn digwydd.

As I said earlier, this transfer is about relieving many individuals in Wales of the unfair burden and expense that Members have mentioned in terms of their own experiences of these issues. We will have a much better system, which will be more integrated and more consistently managed. It is the case that there are fewer blockages and problems in publicly managed sewage systems than in private systems. Therefore, I am sure that we will see considerable benefits. The Public Health Act 1936 created an anomaly, which meant that, by adopting sewerage systems that connected to the public system at that time, the issue for owners of post-1937 properties was addressed. However, after that, it was a matter of voluntary adoption, and, of course, not all of those private householders, and indeed businesses, connected to the public system went through the necessary adoption procedure. Therefore, this will deal with that long-standing anomaly dating all the way back to 1937. I have no doubt that it will be a major step forward for our sewerage systems, and I very much welcome that recognition from Members today.

Fel y dywedais yn gynharach, mae'r trosglwyddiad hwn yn ymwneud â lleddfu llawer o'r baich a'r costau annheg ar unigolion yng Nghymru y soniodd yr Aelodau amdanynt o'u profiadau eu hunain o'r materion hyn. Bydd gennym system lawer gwell, a fydd yn fwy integredig ac a reolir mewn modd mwy cyson. Mae'n wir bod llai o rwystrau a phroblemau mewn systemau carthffosiaeth a reolir yn gyhoeddus nag mewn systemau preifat. Felly, rwy'n siŵr y byddwn yn gweld manteision sylweddol. Roedd Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936 yn creu anghysondeb, a oedd yn golygu, drwy fabwysiadu systemau carthffosiaeth sy'n cysylltu â'r system gyhoeddus ar y pryd, aethpwyd i'r afael â'r mater i berchnogion tai a adeiladwyd ar ôl 1937. Fodd bynnag, ar ôl hynny, roedd yn fater o fabwysiadu gwirfoddol, ac, wrth gwrs, ni aeth yr holl berchnogion preifat hynny, na'r holl fusnesau, a oedd yn gysylltiedig â'r system gyhoeddus drwy'r broses fabwysiadu angenrheidiol. Felly, bydd hyn yn ymdrin â'r anghysondeb hir a gafwyd er 1937. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd yn gam mawr ymlaen i'n systemau carthffosiaeth, ac rwy'n croesawu'n fawr y gydnabyddiaeth honno gan Aelodau heddiw.

5.00 p.m.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that no-one does, and therefore, in accordance with Standing Order No. 12.36, the motion is agreed.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw cytuno ar y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Rwy'n gweld nad oes gwrthwynebiad, ac felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36 cytunwyd ar y cynnig.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

## Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: Bil Senedd y DU ynghylch Ynni
## Supplementary Legislative Consent Motion: Energy Bill

*Cynnig NDM4727 John Griffiths*

*Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried, yn ychwanegol at y darpariaethau y cyfeirir atynt yng nghynnig NNDM4634, ddarpariaethau pellach a gyflwynwyd yn y Bil Ynni ynghylch Dal a Storio Carbon, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.*

*Motion NDM4727 John Griffiths*

*That the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that, in addition to the provisions referred to in motion NNDM4634, further provisions which have been brought forward in the Energy Bill relating to Carbon Capture and Storage, in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.*

**The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):** I move the motion.

**Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths):** Cynigiaf y cynnig.

I would like to thank you for this opportunity to explain the background to the supplementary legislative consent motion in relation to the Energy Bill. As the Welsh Government, we have had active discussions with the UK Government on the contents of the Bill and areas of particular interest to Welsh Ministers. The supplementary legislative consent motion is required because two of the Government amendments to the Bill's provisions fall within the Assembly's legislative competence in relation to devolved areas. Those amendments both relate to carbon capture and storage. The decommissioning of offshore installations is the subject matter of one, and compulsory purchase Order powers to take forward the provisions of the Bill are the subject matter of the other.

Hoffwn ddiolch i chi am y cyfle hwn i esbonio cefndir y cydsyniad deddfwriaethol atodol mewn cysylltiad â'r Bil Ynni. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael trafodaethau gweithredol â Llywodraeth y DU ar gynnwys y Bil a meysydd o ddiddordeb penodol i Weinidogion Cymru. Mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol yn ofynnol oherwydd bod dau o welliannau'r Llywodraeth i ddarpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad o ran meysydd datganoledig. Mae'r gwelliannau hynny yn ymwneud â chadw a storio carbon. Digomisiynu gosodiadau ar y môr yw cynnwys un ohonynt a phwerau Gorchymyn prynu gorfodol i fwrw ymlaen â darpariaethau'r Bil yw testun y llall.

The Welsh Government holds the view that a supplementary legislative consent motion is required on those issues, and I will briefly explain why the legislative provisions are being sought. These UK Government amendments are intended to facilitate carbon capture and storage projects by removing obstacles to the reuse of existing capital-intensive infrastructure. While these are relatively minor measures in legislative terms, they are nevertheless important to the demonstration of this key carbon-abatement technology since they will make it considerably more straightforward to reuse existing infrastructure for that carbon capture and storage where it is suitable and no longer required for its original purposes. I should stress at the outset that these amendments do

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cynnig deddfwriaethol atodol yn ofynnol ar y materion hynny, ac esboniaf yn fyr pam y mae'r darpariaethau deddfwriaethol yn cael eu ceisio. Bwriad y gwelliannau hyn gan Lywodraeth y DU yw hwyluso prosiectau dal storio carbon trwy gael gwared ar rwystrau i ailddefnyddio seilwaith presennol sy'n gyfalaf-ddwys. Er bod y rhain yn fesurau cymharol fach mewn termau deddfwriaethol, maent, serch hynny, yn bwysig o ran arddangos y dechnoleg lleihau carbon allweddol gan y byddant yn ei gwneud yn llawer symlach i ailddefnyddio'r seilwaith presennol i ddal a storio carbon lle bo hynny'n addas ac nad oes ei angen ar gyfer ei ddibenion gwreiddiol. Dylwn bwysleisio ar y cychwyn nad yw'r gwelliannau hyn yn newid

not change the basis on which the use of existing infrastructure for CCS would be authorised by the appropriate regulatory authorities in order to ensure that the highest possible standards of safety and environmental protection are met.

y sail ar gyfer awdurdodi defnyddio'r isadeiledd presennol ar gyfer dal a storio carbon gan yr awdurdodau rheoleiddio priodol er mwyn sicrhau bod y safonau uchaf posibl o ran diogelwch a gwarchod yr amgylchedd yn cael eu bodloni.

In relation to the decommissioning of offshore installations, these provisions will change the decommissioning regime for offshore pipelines and installations under the Petroleum Act 1998 by giving the Secretary of State a discretionary power to designate offshore pipelines and installations that are intended to be, or have been, used as part of a CCS demonstration project. The effect of that designation would be to remove the possibility that the previous owners, operators and licensees of these facilities for oil and gas purposes could be made liable for their decommissioning. Without this amendment, it is likely that owners of oil and gas facilities would choose to decommission them rather than allow them to be used for carbon dioxide storage due to the uncertainty about the timing and cost of decommissioning infrastructure that has been converted to the use of CCS.

Mewn perthynas â digomisiynu gosodiadau ar y môr, bydd y darpariaethau hyn yn newid y drefn ddigomisiynu ar gyfer piblinellau yn y môr a gosodiadau o dan Ddeddf Petrolewm 1998 drwy roi i'r Ysgrifennydd Gwladol bŵer dewisol i ddynodi piblinellau yn y môr a gosodiadau sydd wedi'u bwriadu i fod, neu sydd wedi bod, i'w defnyddio fel rhan o brosiect arddangos dal a storio carbon. Effaith y dynodiad hwnnw fyddai cael gwared ar y posibilrwydd y gallai perchnogion, gweithredwyr a thrwyddedigion blaenorol y cyfleusterau hyn i ddibenion olew a nwy gael eu gwneud yn atebol am eu digomisiynu. Heb y gwelliant hwn, mae'n debygol y byddai perchnogion cyfleusterau olew a nwy yn dewis eu digomisiynu yn hytrach na chaniatáu iddynt gael eu defnyddio ar gyfer storio carbon deuocsid oherwydd yr ansicrwydd ynghylch amseru a chost digomisiynu seilwaith sydd wedi ei addasu i ddiben dal a storio carbon.

The amendment does not change the obligations of the storage site operator to decommission the facilities once they are no longer required. The purpose of this amendment is, on balance, to remove a disincentive to CCS. That purpose falls within the legislative competence of the National Assembly for Wales under Part 4 of and Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006, because it relates to environmental protection and the collection, management or disposal of waste. As these provisions are within the legislative competence of the Assembly, they must be the subject of a legislative consent motion.

Nid yw'r gwelliant yn newid rhwymedigaethau gweithredwr y safle storio i ddigomisiynu'r cyfleusterau pan nad oes eu hangen bellach. Pwrpas y gwelliant hwn, ar y cyfan, yw i gael gwared ar anghymhelliad i ddal a storio carbon. Mae'r diben hwnnw yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ran 4 ac Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan ei fod yn ymwneud ag amddiffyn yr amgylchedd a chasglu, rheoli neu waredu gwastraff. Gan fod y darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, rhaid iddynt fod yn destun cynnig cydsyniad deddfwriaethol.

I now turn to the provision within the Bill in respect of compulsory purchase Order powers. This amendment will allow the compulsory acquisition of rights over land to facilitate the transport of carbon dioxide through a pipeline previously used for another purpose. Under the Pipe-Lines Act 1962, persons constructing new pipelines may already benefit from the acquisition of

Trof yn awr at y ddarpariaeth yn y Mesur ar bwerau Gorchymyn prynu gorfodol. Bydd y gwelliant hwn yn caniatáu caffael gorfodol hawliau dros dir i hwyluso cludo carbon deuocsid trwy biblinell a ddefnyddiwyd yn flaenorol at ddiben arall. O dan Ddeddf Pibellau 1962, gall pobl sy'n adeiladu piblinellau newydd eisoes fanteisio ar hawliau gorfodol. Bydd y gwelliant hwn yn

compulsory rights. This amendment will amend the Act to place those seeking to reuse existing pipelines in a similar position.

diwygio'r Ddeddf i osod y rhai sy'n ceisio ailddefnyddio piblinellau sy'n bodoli eisoes mewn sefyllfa debyg.

This amendment provides that, where an existing pipeline is intended to be converted for the transport of carbon dioxide, the owner of the pipeline may be authorised by the Secretary of State to acquire the rights over land that are necessary for the conversion and subsequent use of the pipeline. It also provides that procedures and rules applicable to this compulsory acquisition Order will be the same as those that are provided in the Pipe-Lines Act 1962 for the construction of a new pipeline. Without this amendment, those seeking to reuse an existing suitable pipeline to transport carbon dioxide would have to reach voluntary agreements with each of the landowners through which the pipeline passes. This may require many hundreds of agreements, and failure to reach voluntary agreement could derail a project that would otherwise be very much in the public interest.

Mae'r gwelliant yn darparu, lle bwriedir trosi piblinell bresennol ar gyfer cludo carbon deuocsid, y gall yr Ysgrifennydd Gwladol awdurdodi perchennog y biblinell i gaffael yr hawliau dros dir sy'n angenrheidiol i addasu a defnyddio'r biblinell. Mae hefyd yn darparu y bydd y gweithdrefnau a'r rheolau perthnasol i'r Gorchymyn caffael gorfodol hwn yr un fath â'r rhai yn Neddf Piblinellau 1962 ar gyfer adeiladu piblinell newydd. Heb y gwelliant hwn, byddai'r rhai sy'n ceisio ailddefnyddio piblinell sy'n addas i gludo carbon deuocsid yn gorfod dod i gytundeb gwirfoddol gyda phob un o feddianwyr y tir mae'r biblinell yn mynd drwyddo. Gallai hyn fod yn gannoedd o gytundebau, a gallai methiant i ddod i gytundeb gwirfoddol rwystro prosiect a fyddai fel arall yn fuddiol iawn i'r cyhoedd.

The purpose of this amendment is to facilitate carbon capture and storage, which falls within the legislative competence of the National Assembly for Wales under Part 4 and Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006 because, again, it relates to environmental protection and the collection, management or disposal of waste. As these provisions are within the legislative competence of the Assembly, they must be the subject of a legislative consent motion.

Diben y gwelliant yw hwyluso dal a storio carbon, sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ran 4 ac Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 oherwydd, unwaith eto, mae'n ymwneud â gwarchod yr amgylchedd a chasglu, rheoli neu waredu gwastraff. Gan fod y darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, rhaid iddynt fod yn destun cynnig cydsyniad deddfwriaethol.

I consider it appropriate to deal with these provisions within this UK Bill as it presents the most appropriate and proportionate legislative vehicle to enable these provisions to apply in Wales. It is an ideal opportunity to enable those provisions to apply at the earliest possible juncture. As the demonstration of carbon capture and storage progresses, it is likely that developers will look for opportunities to convert existing capital assets to provide carbon dioxide transport and storage. These amendments are intended to facilitate this process; therefore, this legislative consent motion should be supported. The legislative consent motion is therefore placed before Members for approval on the terms that I have outlined.

Rwy'n ystyried ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn o fewn y Mesur hwn ar gyfer y DU gan ei fod yn cyflwyno'r cerbyd deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur i ganiatáu i'r darpariaethau hyn fod yn gymwys yng Nghymru. Mae'n gyfle delfrydol i sicrhau bod y darpariaethau hyn yn weithredol cyn gynted ag y bo modd. Wrth i ddal a storio carbon ddatblygu, mae'n debygol y bydd datblygwyr yn chwilio am gyfleoedd i drosi asedau cyfalaf presennol i gludo a storio carbon deuocsid. Bwriad y gwelliannau hyn yw hwyluso'r broses honno; felly, dylid cefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn. Felly, gosodir y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ger bron Aelodau i'w gymeradwyo ar y telerau yr wyf wedi'u hamlinellu.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Araith fer fydd hon. Dyma fy araith gyntaf fel llefarydd ar yr amgylchedd ac ynni. Yn ddifyr iawn, yr ydym ni yn y Cynulliad Cenedlaethol y prynhawn yma yn trafod y cynnig arbennig hwn ar yr un pryd—yr wyf yn gobetihio, beth bynnag—ag y mae Tŷ'r Cyffredin yn symud i gwblhau ei drafodaethau ar y Mesur Ynni, sydd eisoes wedi bod am gyfnod eithaf helaeth yn Nhŷ'r Arglwyddi. Fel y mae'r Gweinidog wedi esbonio'n glir iawn, diben y cynnig hwn yw galluogi'r Cynulliad i gytuno i'w rym cyfreithiol gael ei ddenfyddio mewn amgylchiadau lle mae'n fwy effeithiol i'r grym gael ei ddefnyddio gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a chan Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Mae'n bwysig dweud hynny, gan nad oes dim yn y polisi hwn y gallwn anghytuno ag ef, gan ei fod yn ymwneud â'r holl bosibiliadau cynhyrfus o leihau allyriadau carbon deuocsid yn yr amgylchedd drwy ddefnyddio isadeiledd a arferai gael ei ddefnyddio i ddiogelu hydrocarbon gwahanol ar gyfer dal a storio carbon. Mae hefyd yn ymwneud, fel y clywsom, â phwerau gorfodol ar gyfer piblinellau presennol.

**Lord Elis-Thomas:** This will be a brief speech. It is my first speech as spokesperson on the environment and energy. Interestingly, we at the National Assembly for Wales are discussing this particular motion at the same time that the House of Commons is completing its own discussions on the Energy Bill, which has already been discussed extensively in the House of Lords. As the Minister has clearly expressed, the purpose of this motion is to enable the Assembly to agree for its legal force to be used in circumstances where it is more appropriate for that legal force to be put in place by the UK Government and by the House of Commons and the House of Lords. It is important to make that point because there is nothing contained within this policy that I could disagree with, as it relates to all of the exciting possibilities of reducing carbon dioxide emissions to the environment by the use of infrastructure that, in the past, was used to safeguard different hydrocarbons for carbon capture and storage. As we have heard, it also relates to compulsory purchase powers for existing pipelines.

Felly, mae'n ceisio hyrwyddo'r sector preifat er mwyn buddsoddi, ynghyd â'r strwythur cyhoeddus, o fewn dulliau o leihau carbon. Felly, rhan o'r broses o wynebu heriau difrifol newid yn yr hinsawdd yw'r hyn sy'n digwydd yma.

In effect, this is trying to promote the private sector so that it invests, along with public investment, in means of reducing carbon emissions. Therefore, what we are seeing is part of the process of facing the serious challenges of climate change.

Daeth hyn i'r amlwg wrth i'r Bil fynd drwyddo. Mae'n bwysig gwneud y pwynt y gall prosesau fel hyn ddigwydd yn llawer amlach erbyn hyn, er ein bod wedi cael pwerau deddfwriaethol llawnach yn y meysydd datganoledig. Mae'r cyfle i gyd-ddeddfu, pan mae'n gyd-ddeddfu go iawn, yn gyfle pwysig inni i'w ddefnyddio. Ym maes yr amgylchedd a meysydd ag iddynt effaith ryngwladol, lle mae polisi yn cael ei wireddu ar lefel Cymru ond yn gorfod cydlynu gyda pholisi'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, mae'r dull hwn o gyd-ddeddfu yn rhywbeth i'w gymeradwyo.

This became apparent during the passage of the Bill. It is important to make the point that processes such as this could now happen far more often, even though we have been given fuller legislative powers in the devolved areas. The opportunity to create joint legislation, when it truly is joint legislation, is an important opportunity for us. In the field of the environment and other fields that have an international impact, where policy is achieved at a Welsh level but when it has to be co-ordinated with UK and EU policy, this means of joint legislation is something that we should applaud.

Felly, mae'n dda gennyf—am y tro cyntaf o dan lywyddiaeth raslon y Dirprwy Lywydd—ymateb i'r Gweinidog a chefnogi'r cynnig y bu iddo'i gynnig. Efallai na fyddaf yn dweud

Therefore—for the first time under the Deputy Presiding Officer's gracious chairmanship—I am pleased to respond to the Minister by supporting this motion. I might

yr un peth yfory.

not say the same thing tomorrow.

**John Griffiths:** I thank the Member for his contribution on these important matters. We have a vision for energy policy in Wales that is ambitious and important. Carbon capture and storage will be a significant part of that. It has much to offer in terms of responding to the challenges of climate change, and I agree with the Member that the UK Energy Bill and the vehicle of our legislative consent motion are the appropriate vehicles to achieve the measures that will be facilitated by this legislative consent motion.

**John Griffiths:** Diolch i'r Aelod am ei gyfraniad ar y materion pwysig hyn. Mae gennym weledigaeth ar gyfer polisi ynni yng Nghymru sy'n uchelgeisiol ac yn bwysig. Bydd dal a storio carbon yn rhan sylweddol o hynny. Mae ganddo lawer i'w gynnig o ran ymateb i heriau newid yn yr hinsawdd, ac yr wyf yn cytuno â'r Aelod mai Mesur Ynni y DU a cherbyd ein cynnig cydsyniad deddfwriaethol ni yw'r dulliau priodol o gyflawni'r mesurau a fydd yn cael eu hwyluso gan y cynnig cydsyniad deddfwriaethol.

I therefore urge Members to support the supplementary legislative consent motion following on from an earlier legislative consent motion with regard to the Energy Bill, because it is important that we get energy policy right in Wales. This legislative opportunity is a significant and important part of that.

Rwyf felly'n annog Aelodau i gefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol sy'n dilyn ymlaen o gynnig cydsyniad deddfwriaethol cynharach o ran y Mesur Ynni, oherwydd y mae'n bwysig ein bod yn cael polisi ynni Cymru yn iawn. Mae'r cyfle deddfwriaethol hwn yn rhan sylweddol a phwysig o hynny.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is that the motion be agreed. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 12.36, I therefore declare the motion agreed.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei gytuno. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, cytunwyd ar y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

## Ffioedd Addysg Uwch
## Higher Education Fees

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendments 1 and 2 in the name of Jocelyn Davies and amendment 3 in the name of Nick Ramsay.

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliannau 1 a 2 yn enw Jocelyn Davies a gwelliant 3 yn enw Nick Ramsay.

*Cynnig NDM4740 Jane Hutt*

*Motion NDM4740 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Yn croesawu cynlluniau Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r modd y caiff addysg uwch ran-amser ei hariannu ac i sicrhau cyllid mwy teg ar gyfer myfyrwyr rhan-amser sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru.*

*Welcomes the Welsh Government's plans to reform the funding of part-time higher education and to provide fairer funding for part-time students ordinarily resident in Wales.*

**The Minister for Education and Skills**

**Y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau**

**(Leighton Andrews):** I move the motion.

**(Leighton Andrews):** Cynigiaf y cynnig.

I remind Members that, in my statement to the Assembly on 30 November last year, I announced significant changes to the full-time higher education funding and student support system in Wales from academic year 2012-13. Those changes reflected the Government's commitment to protect Welsh-domiciled students from increases in tuition fees wherever they studied. At the same time, I gave a commitment that part-time students ordinarily resident in Wales would be able to access a tuition fee loan depending on the level of intensity of their course. This reflected proposals already announced in England to raise part-time fees to the same level as full-time—£9,000 pro rata—and make available fee loans to part-time undergraduate students who studied at 25 per cent to 75 per cent intensity.

Atgoffaf yr Aelodau imi gyhoeddi, yn fy natganiad i'r Cynulliad ar 30 Tachwedd y llynedd, newidiadau sylweddol i'r system gyllido addysg uwch a chymorth i fyfyrwyr llawn amser yng Nghymru o flwyddyn academaidd 2012-13. Mae'r newidiadau hynny yn adlewyrchu ymrwymiad y Llywodraeth i ddiogelu myfyrwyr sy'n hanu o Gymru rhag cynnydd mewn ffioedd dysgu lle bynnag y maent yn astudio. Ar yr un pryd, ymrwymais y byddai myfyrwyr rhan-amser sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru yn gallu cael benthyciad ffioedd dysgu gan ddibynnu ar lefel dwyster eu cwrs. Mae hyn yn adlewyrchu cynigion a gyhoeddwyd eisoes yn Lloegr i godi ffioedd rhan-amser i'r un lefel â'r rhai llawn amser—£9,000 y flwyddyn—ac yn sicrhau bod benthyciadau ffioedd ar gael i fyfyrwyr rhan-amser israddedig sy'n astudio ar ddwyster o 25 y cant i 75 y cant.

Since last November, further details have emerged of the proposals for part-time higher education and student finance in England. I am now able to announce how we propose to fund part-time higher education in Wales and support learners to study on a part-time basis.

Ers mis Tachwedd diwethaf, mae manylion pellach wedi dod i'r amlwg am y cynigion ar gyfer addysg uwch rhan-amser a chyllid myfyrwyr yn Lloegr. Gallaf gyhoeddi yn awr sut y bwriadwn ariannu addysg uwch rhan-amser yng Nghymru a chefnogi dysgwyr i astudio ar sail ran-amser.

There are currently around 27,000 undergraduates studying on a part-time basis in Wales. They make up a significant proportion of our student population. The fundamental importance of part-time higher education provision to the economic buoyancy of Wales and to social inclusion was recognised in 'For our Future—the 21st Century Higher Education Strategy and Plan for Wales', which was published by my predecessor in 2009. Our strategy has been to promote greater opportunities for individuals to learn on a part-time basis, with more higher education programmes designed flexibly to provide such opportunity. We have also sought to provide greater equity between full-time and part-time students in terms of financial support and fee policy. The proposals that I am announcing today build further on our established approach.

Ar hyn o bryd mae tua 27,000 o israddedigion yn astudio yn rhan-amser yng Nghymru. Maent yn ffurfio cyfran sylweddol o'n poblogaeth myfyrwyr. Ceir cydnabyddiaeth o bwysigrwydd sylfaenol darpariaeth addysg uwch ran-amser i fywiogrwydd economaidd Cymru, ac i gynhwysiant cymdeithasol, yn 'Er Mwyn Ein Dyfodol—Strategaeth a Chynllun Addysg Uwch Cymru ar gyfer yr 21ain Ganrif', a gyhoeddwyd gan fy rhagflaenydd yn 2009. Ein strategaeth fu hyrwyddo mwy o gyfleoedd i unigolion ddysgu ar sail ran-amser, gyda mwy o raglenni addysg uwch wedi eu cynllunio'n hyblyg i gynnig cyfle o'r fath. Rydym hefyd wedi ceisio darparu mwy o degwch rhwng myfyrwyr llawn amser a rhan-amser o ran cymorth ariannol a pholisi ffioedd. Mae'r cynigion yr wyf yn eu cyhoeddi heddiw yn adeiladu ymhellach ar y dull yr ydym wedi ei sefydlu.

5.15 p.m.

I propose that, from academic year 2012-13, higher education institutions in Wales should be able to charge a maximum tuition fee of £7,000 pro rata. This means that the maximum fee for a course carrying 50 per cent intensity will be £3,500 and no part-time student who is eligible for student support will pay fees in excess of £5,250 a year. Subject to approval of the Education Bill currently before Parliament, the fees charged for part-time courses in Wales will be regulated and institutions will be required to include the provision of part-time courses in fee plans to be approved by the Higher Education Funding Council for Wales if they wish to charge above the basic amount on a pro-rata basis.

O flwyddyn academaidd 2012-13, cynigiaf y bydd sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn gallu codi uchafswm ffi dysgu o £7,000 pro rata. Mae hyn yn golygu mai’r uchafswm ffi ar gyfer cwrs sydd â dwyster o 50 y cant fydd £3,500 ac ni fydd unrhyw fyfyriwr rhan-amser sy’n gymwys ar gyfer cymorth i fyfyrwyr yn talu ffioedd o fwy na £5,250 y flwyddyn. Yn amodol ar basio’r Mesur Addysg sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd, bydd y ffioedd a godir am gyrsiau rhan-amser yng Nghymru yn cael eu rheoleiddio, a bydd yn ofynnol i sefydliadau gynnwys y ddarpariaeth o gyrsiau rhan-amser mewn cynlluniau ffioedd sydd i’w cymeradwyo gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru os ydynt yn dymuno codi mwy na’r swm sylfaenol ar sail pro rata.

To protect part-time learners from substantial increases in fees, I also propose that part-time students ordinarily resident in Wales should be entitled to a combination of non-means-tested loans and grants to meet the upfront cost of their tuition fees. In keeping with the support that we will offer to full-time learners, a loan will be available to cover a proportion of the part-time fee and a grant from the Welsh Government will cover the remainder. The part-time fee grant will be administered by HEFCW. We will maintain the means-tested support that we currently provide for part-time students with additional needs, including the childcare grant and the adult dependents grant. The terms and conditions for the repayment of student loans will be the same for full-time and part-time students.

Er mwyn diogelu dysgwyr rhan-amser rhag codiadau sylweddol mewn ffioedd, yr wyf hefyd yn cynnig y dylai myfyrwyr rhan-amser sy’n preswylio fel arfer yng Nghymru fod â hawl i gael cyfuniad o fenthyciadau nad ydynt yn ddibynnol ar brawf modd a grantiau i gwrdd â chost eu ffioedd dysgu ymlaen llaw. Yn unol â’r gefnogaeth y byddwn yn ei chynnig i ddysgwyr llawn amser, bydd benthyciad ar gael i dalu cyfran o’r ffioedd rhan-amser ynghyd â grant gan Lywodraeth Cymru i dalu am y gweddill. Bydd y grant ffioedd rhan-amser yn cael ei weinyddu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Byddwn yn parhau â’r gefnogaeth prawf modd yr ydym yn ei darparu ar hyn o bryd i fyfyrwyr rhan-amser sydd ag anghenion ychwanegol, gan gynnwys y grant gofal plant a’r grant oedolion dibynnol. Bydd y telerau a’r amodau ar gyfer ad-dalu benthyciadau myfyrwyr yr un fath i fyfyrwyr llawn amser a myfyrwyr rhan-amser.

These proposals represent a good deal for the Welsh higher education sector and a fair solution for Welsh part-time students. The ability to charge higher fees for part-time courses will generate additional income for higher education institutions in Wales. At the same time, part-time learners will face no upfront costs in order to access higher education.

Mae’r cynigion hyn yn cynrychioli bargen dda i’r sector addysg uwch yng Nghymru ac yn ateb teg i fyfyrwyr rhan-amser Cymru. Bydd y gallu i godi ffioedd uwch am gyrsiau rhan-amser yn creu incwm ychwanegol i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Ar yr un pryd, ni fydd dysgwyr rhan-amser yn wynebu unrhyw gostau ymlaen llaw er mwyn cael mynediad at addysg uwch.

In proposing to set the maximum amount for part-time tuition fees at £7,000 pro rata rather

Wrth gynnig gosod uchafswm o £7,000 pro rata am ffioedd dysgu rhan-amser, yn hytrach

than £9,000, we will encourage more learners to enter higher education on a part-time basis. It is of fundamental importance that the higher education sector should be more responsive to learner needs. Part-time modes of study provide flexibility for students who might otherwise not be able to take advantage of such opportunity to engage with higher learning. Our ambition to widen access to higher education and to increase opportunity for all depends in no small way on part-time delivery for success. These proposals will help to incentivise part-time learning as a preferred mode of study.

na £9,000, byddwn yn annog mwy o ddysgwyr i fynd i addysg uwch yn rhan-amser. Mae'n hanfodol bwysig y dylai'r sector addysg uwch fod yn fwy ymatebol i anghenion dysgwyr. Mae astudio'n rhan-amser yn rhoi hyblygrwydd i fyfyrwyr na fyddent fel arall yn gallu manteisio ar gyfle o'r fath i gymryd rhan mewn dysgu uwch. Mae ein huchelgais i ehangu mynediad at addysg uwch ac i gynyddu cyfle cyfartal i bawb yn dibynnu'n fawr ar ddarpariaeth ran-amser ar gyfer llwyddiant. Bydd y cynigion hyn yn gymhelliant i ddysgu rhan-amser fel dull dewisol o astudio.

Our proposals will maintain and build on the principle of equity between full-time and part-time modes of study. Part-time students ordinarily resident in Wales will be entitled to the same fee support as those who choose to study full time. Key stakeholders have told us that they regard this as crucial to the continuing success of part-time higher education in Wales. We have listened and we have responded.

Bydd ein cynigion yn cynnal yr egwyddor o degwch rhwng dulliau astudio llawn amser a rhan-amser ac yn adeiladu ar yr egwyddor honno. Bydd myfyrwyr rhan-amser sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru yn gymwys i gael yr un cymorth ffioedd â'r rhai sy'n dewis astudio'n llawn amser. Mae rhanddeiliaid allweddol wedi dweud wrthym eu bod yn ystyried bod hyn yn hanfodol i lwyddiant parhaus addysg uwch rhan-amser yng Nghymru. Rydym wedi gwrando ac rydym wedi ymateb.

**Simon Thomas:** I thank the Minister for giving way on this point and I welcome what he has said so far. Will he say a little more about the course intensity at which these loans and grants will become available to part-time students? As he knows, it is set at 25 per cent in England. What is his proposal for Wales?

**Simon Thomas:** Diolchaf i'r Gweinidog am ildio ar y pwynt hwn a chroesawaf yr hyn y mae wedi'i ddweud hyd yn hyn. A wnaiff ddweud ychydig mwy am lefelau dwyster cyrsiau lle bydd y benthyciadau a'r grantiau hyn ar gael i fyfyrwyr rhan-amser? Fel y gŵyr, 25 y cant yw'r lefel a osodwyd yn Lloegr. Beth yw ei gynnig ar gyfer Cymru?

**Leighton Andrews:** I will come on to that shortly. We are adopting the principle that there will be the same availability of support for part-time students as for full-time students. We are putting forward a made-in-Wales solution that meets the needs of both the higher education sector in Wales and Welsh part-time students. The proposed system of support for part-time students is that at an intensity of study of 75 per cent, the maximum tuition fee that could be charged would be £5,250. If the intensity of study was 25 per cent, the maximum tuition fee that could be charged would be £1,750. We are putting in place the arrangements to give support through a tuition fee loan and a tuition fee grant from the Welsh Government in the form that I outlined earlier. Therefore,

**Leighton Andrews:** Dof at hynny cyn bo hir. Rydym yn mabwysiadu'r egwyddor y bydd yr un gefnogaeth ar gael i fyfyrwyr rhan-amser â myfyrwyr llawn amser. Rydym ni'n cyflwyno ateb a wnaed yng Nghymru sy'n bodloni anghenion y sector addysg uwch yng Nghymru a myfyrwyr rhan-amser Cymru. Y system arfaethedig o gefnogaeth i fyfyrwyr rhan-amser yw mai'r uchafswm ffi dysgu y gellid ei godi ar ddwyster astudio o 75 y cant fyddai £5,250. Os yw'r dwyster astudio yn 25 y cant, yr uchafswm y gellid ei godi fyddai £1,750. Rydym yn rhoi'r trefniadau yn eu lle i roi cymorth drwy fenthyciad ffioedd dysgu a grant ffioedd dysgu gan Lywodraeth Cymru ar y ffurf a amlinellwyd gennyf yn gynharach. Felly, bydd y gefnogaeth honno ar gael i fyfyrwyr rhan-amser sy'n astudio

that support will be available to part-time students studying undergraduate courses.

cyrsiau israddedig.

It is important that our higher education institutions remain competitive in an increasingly diverse and challenging UK and world context. It is equally important to the future success of Wales that access to higher education should be available to all who have the ability to benefit from it, not just those with the ability to pay. The package of measures that we have announced today represents a major step forward for part-time higher education and part-time students. I commend these proposals to the Assembly.

Mae'n bwysig bod ein sefydliadau addysg uwch yn aros yn gystadleuol yng nghyd-destun y DU a chyd-destun byd eang sy'n gynyddol amrywiol a heriol. Mae'r un mor bwysig i lwyddiant Cymru yn y dyfodol y dylai mynediad at addysg uwch fod ar gael i bawb sydd â'r gallu i gael budd ohono, ac nid yn unig y rhai sydd â'r gallu i dalu. Mae'r pecyn o fesurau yr ydym wedi'i gyhoeddi heddiw yn gam mawr ymlaen ar gyfer addysg uwch rhan-amser a myfyrwyr rhan-amser. Cymeradwyaf y cynigion hyn i'r Cynulliad.

*Ymddangosodd gwelliant 1 ar yr agenda fel a ganlyn:*

*Amendment 1 appeared on the agenda as follows:*

*Gwelliant 1 Jocelyn Davies*

*Amendment 1 Jocelyn Davies*

*Dileu 'Yn croesawu' a rhoi 'Yn nodi' yn ei le.*

*Delete 'Welcomes' and replace with 'Notes'*

*Gwelliant 2 Jocelyn Davies*

*Amendment 2 Jocelyn Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau mai nod y diwygio hwn yw trin myfyrwyr rhan-amser ac amser llawn yn gyfartal.*

*Calls on the Welsh Government to ensure that the aim of this reform is to treat part and full-time students as equals.*

**Simon Thomas:** Cynigiaf welliant 2 yn enw Jocelyn Davies, ond ni fyddaf yn cynnig gwelliant 1 oherwydd yr wyf am fanteisio ar y cyfle i groesawu datganiad y Gweinidog.

**Simon Thomas:** I move amendment 2 in the name of Jocelyn Davies, but I will not move amendment 1 because I wish to take advantage of the opportunity to welcome the Minister's statement.

Nid oedd manylion y datganiad yn glir cyn i ni gyfarfod, ond wedi gwrando ar yr hyn yr oedd gan y Gweinidog i'w ddweud, gallaf ddweud fy mod yn croesawu'r datganiad yn fawr.

The details of the statement were not clear before we met, but having listened to what the Minister had to say, I can say that I welcome the statement very much.

Ymddengys bod y Gweinidog wedi ceisio estyn cymorth i fyfyrwyr rhan-amser sy'n dechrau astudio ar arddwysedd o 25 y cant i fyny at arddwysedd o 75 y cant, a bod y cymorth hwnnw ar gael ar raddfa symudol. Hynny yw, bydd y to ar gyfer ffioedd dysgu yn £7,000 yn hytrach na'r £9,000 sy'n do ar gyfer myfyrwyr amser llawn. Bydd hynny'n rhoi cyfle i bobl ystyried astudio'n rhan-amser fel un o'u hopsiynau er mwyn ennill profiad a hefyd er mwyn bod yn rhan o'r

It seems that the Minister has tried to extend support for part-time students who are starting to study at an intensity of 25 per cent up to an intensity of 75 per cent, and that that assistance is available on a sliding scale. That is, the ceiling on tuition fees will be set at £7,000 rather than £9,000, which is the ceiling for full-time students. That will give people an opportunity to consider studying part time as one of their options for gaining experience and also in order to be part of the

gweithlu. Yr wyf yn croesawu hynny.

workforce. I welcome that.

Yr wyf hefyd yn casglu o glywed y datganiad bod y Gweinidog yn bwriadu cadw’r grant sy’n seiliedig ar brawf modd. Mae bron 9,000 o fyfyrwyr rhan-amser yn elwa ar y grant hwnnw ar hyn o bryd ac mae’n cyfrannu at ofal plant, er enghraifft, er mwyn helpu mamau sengl i astudio mewn prifysgolion. Credaf fod yr £8 miliwn sydd wedi’i glustnodi ar gyfer hynny yn cael ei gadw, ond hoffwn i’r Gweinidog gadarnhau bod y gronfa’n aros yr un maint, pan gaiff gyfle i ddod yn ôl atom.

I also take it, having listened to the statement, that the Minister intends to retain the means-tested grant. Nearly 9,000 part-time students currently benefit from that grant and it goes towards childcare, for example, in order to help single mothers to study at university. I believe that the £8 million that has been earmarked for that purpose is being retained, but I would like the Minister to confirm that the fund will remain at the same level, when he has an opportunity to respond to us.

Wrth gynnig gwelliant 2, yr ydym am sicrhau bod y Llywodraeth yn ystyried trin myfyrwyr rhan-amser a myfyrwyr llawn amser yn gyfartal. Nid ydym yn gofyn iddynt gael eu trin yn yr un ffordd, ac nid ydym ychwaith yn gosod unrhyw amserlen ar gyfer cyrraedd y nod hwnnw, ond yr ydym yn meddwl ei fod yn nod derbyniol a chlodwiw ar gyfer unrhyw Lywodraeth flaengar sydd am annog pobl i astudio mewn prifysgolion ar sail ran-amser. Wedi’r cyfan, yn ôl y datganiad, dyna yw polisi presennol y Llywodraeth. Yn wir, yn y ddogfen y cyfeiriodd y Gweinidog ati, nodir yn glir bod y Llywodraeth yn disgwyl gweld,

In moving amendment 2, we would like to ensure that the Government is considering equal treatment of part-time and full-time students. We are not asking for them to be treated in the same way, and we are not setting out any particular timetable for the achievement of that aim, but we think that it is an acceptable and commendable aim for any progressive Government that wants to encourage people to undertake part-time study at university. After all, according to the statement, that is the Government’s current policy. Indeed, the document that the Minister referred to clearly states that the Government expects,

‘rhagor o degwch rhwng myfyrwyr rhan-amser ac amser llawn o ran cymorth ariannol a pholisi ffioedd.’

‘greater equity between part-time and full-time students in terms of financial support and fee policy.’

Derbyniaf fod y Gweinidog wedi cymryd cam sylweddol yn y cyfeiriad hwnnw heddiw, ac yr ydym yn cefnogi hynny, ond dymunwn iddo ystyried y gwelliant hwn, fel ein bod yn cael arwydd gan y Llywodraeth mai’r nod yw symud tuag at sefyllfa lle bydd myfyrwyr rhan-amser ac amser llawn yn cael eu trin yn gyfartal. Y rheswm y tu ôl i hyn, wrth gwrs, yw’r ffaith bod gennym system gredydau ar waith sy’n golygu bod myfyrwyr rhan-amser yn ennill credydau o’r un gwerth â’r rheini y mae myfyrwyr amser llawn yn eu hennill er mwyn adeiladu portffolio o gredydau sy’n arwain at radd. Byddai’n beth da, felly, pe bai’r system gymorth, a’r system ariannol sy’n cefnogi’r system honno, yn cydnabod bod y credydau hynny’n gyfwerth.

I accept that the Minister has taken a substantial step in that direction today, and we support that, but we would like him to consider this amendment so that we have a clear indication from the Government that the aim is to move towards a position whereby part-time and full-time students are treated equally. The reason for this, of course, is the fact that we have a credit system in place that means that part-time students earn credits of the same value as those earned by full-time students, and can build a portfolio of credits that leads to a degree. It would therefore be a positive thing if the aid system, and the financial system that supports it, were to recognise that those credits are equal in value.

Wrth edrych at y dyfodol, hoffwn sicrhau bod y Llywodraeth yn darganfod y ffordd orau i’n

In looking to the future, I would like to ensure that the Government finds the best

tywys allan o'r sefyllfa anffodus yr ydym ynddi—sefyllfa a grëwyd gan Lywodraethau Llafur y gorffennol yn San Steffan a'r Llywodraeth 'Geidfrydol' bresennol. Mae'n hynod bwysig ein bod yn canfod ffordd gynaliadwy o gynnal myfyrwyr rhan-amser yng Nghymru, yn enwedig gan fod 40 y cant o fyfyrwyr Cymru yn rhai rhan-amser a bod bron i 50 y cant o'r myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru yn rhai rhan-amser. Mae'r sefydliadau hynny sy'n annog myfyrwyr rhan-amser o Gymru, sy'n cynnig mynediad iddynt ac sy'n ceisio annog pobl sy'n annhebygol o fod wedi ystyried mynd i'r brifysgol i fynychu'r brifysgol ar sail ran-amser, ar eu colled o ganlyniad i'r system ffioedd bresennol. Mae'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr hynny yn dod o Gymru, yn byw yng Nghymru, yn aelodau o'r prifysgolion yng Nghymru ac yn rhan o ddynesiad y Llywodraeth at ehangu mynediad yng Nghymru. Bydd y sefydliadau hynny sy'n ddibynnol ar fyfyrwyr rhan-amser ychydig ar eu colled o dan y system bresennol.

possible way of guiding us out of the unfortunate situation that we have found ourselves in—a situation that has been created by previous Labour Governments in Westminster and the current Conservative-Liberal Government. It is vital that we find a sustainable way of supporting part-time students in Wales, particularly given that 40 per cent of Welsh students are part-time students and that nearly 50 per cent of students resident in Wales are part-time students. Those institutions that encourage part-time students from Wales, offer access and try to encourage people who are unlikely to have considered going to university to enrol at university on a part-time basis are losing out as a result of the current fees system. The majority of those students come from Wales, live in Wales, are members of the universities in Wales, and are part of the Government's approach to expanding access in Wales. Institutions that are dependent on part-time students may be losing out a little under the present system.

Yr wyf yn croesawu'r ffaith bod y datganiad yn ein symud ymlaen tuag at sefyllfa fwy teg. Wedi'r cyfan, mae hwn yn sector sy'n darparu rhychwant o brofiadau o ran gwaith a bywyd a bu cynnydd sylweddol yn y nifer o bobl ifanc sy'n dewis mynd i'r brifysgol ar sail ran-amser yn hytrach nac amser llawn. I ni ym Mhlaid Cymru, mae hyn yn allweddol er mwyn sicrhau economi a gweithlu hyblyg, hyderus a hyddysg. Felly, yr wyf yn croesawu'r dynesiad mae'r Gweinidog wedi ei roi ger ein bron ac yr wyf yn edrych ymlaen at glywed mwy o fanylion ynglŷn â'r ymgynghoriad llawn gyda'r sefydliadau yn y man.

I welcome the fact that the statement is moving us towards a fairer system. After all, this is a sector that provides an array of experiences of life and work and there has been a substantial increase in the number of young people who are choosing to go to university on a part-time basis instead of a full-time basis. For us in Plaid Cymru, this is key to a flexible, confident and educated economy and workforce. Therefore, I welcome the approach that the Minister has set out today and I look forward to hearing more details on the full consultation with the institutions in the near future.

*Gwelliant 3 Nick Ramsay*

*Amendment 3 Nick Ramsay*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgynghori'n llawn â sefydliadau addysg uwch wrth asesu effaith unrhyw newidiadau i'r trefniadau cyllido ar gyfer addysg uwch ran-amser.*

*Calls on the Welsh Government to consult fully with higher education institutions when assessing the impact of any changes to funding arrangements for part-time higher education.*

**Angela Burns:** I move amendment 3 in the name of Nick Ramsay.

**Angela Burns:** Cynigiaf welliant 3 yn enw Nick Ramsay.

Thank you, Minister, for bringing forward this debate, which the Welsh Conservatives broadly welcome. When you started your contribution, you referred to ‘For Our Future’, your strategy document for higher education, which in turn refers to the Jones report. I would like to quote a small part of the Jones report:

Diolch i chi, Weinidog, am gyflwyno’r ddadl hon y mae’r Ceidwadwyr Cymreig yn ei chroesawu ar y cyfan. Ar ddechrau eich cyfraniad, gwnaethoch gyfeirio at ‘Er Mwyn Ein Dyfodol’, eich dogfen strategaeth ar gyfer addysg uwch, sydd yn ei thro yn cyfeirio at adroddiad Jones. Hoffwn ddyfynnu rhan fach o adroddiad Jones:

‘There persists a prevailing view of higher education being first and foremost for school-leavers on full-time undergraduate degree programmes studying “academic” subjects.’

‘Ceir ymdeimlad o hyd bod addysg uwch yn bennaf oll ar gyfer y rheini sy’n gadael ysgol i ddilyn rhaglenni gradd israddedig llawn amser er mwyn astudio pynciau “academaidd”.’

I believe that there needs to be a fundamental change in how we view part-time courses, which enable people to access higher education. The Jones report also says:

Credaf fod angen newid sylfaenol yn y ffordd yr ydym yn edrych ar gyrsiau rhan-amser, sy’n galluogi pobl i gael mynediad at addysg uwch. Mae adroddiad Jones hefyd yn dweud:

‘We note that part-time participation has risen more sharply than full time participation over the last decade, but that very recently, part-time participation as a whole has started to fall.’

‘Nodwn fod cyfranogaeth ran-amser wedi cynyddu'n gynt na chyfranogaeth amser llawn dros y ddegawd ddiwethaf, ond yn ddiweddar iawn, mae cyfranogaeth ran-amser yn gyffredinol wedi dechrau disgyn.’

I would like to hear your thoughts, Minister, as to why you think that that is the case. Are the reasons for that decline mainly centred on funding? Are you hoping that these reforms that you wish to bring forward might address that?

Hoffwn glywed eich barn, Weinidog, ynglŷn â pham yr ydych yn meddwl bod hynny’n wir. A yw’r rhesymau dros y dirywiad hwnnw’n canolbwyntio’n bennaf ar gyllid? A ydych yn gobeithio y gallai’r diwygiadau hyn yr ydych am eu cyflwyno fynd i’r afael â hynny?

The Welsh Conservatives believe that part-time students must be valued in higher education and that we must take a supportive, flexible and responsive approach. One of the problems is that if people are unable to attend a course that provides them with enough credits, they will not be able to access the support that they require. I will briefly outline a case history of a constituent of mine: she had her first child at 14, her second at 16, was a single mum at 20, and now, at 26, is going back into further education in order to get into the health profession. Her ambition is to become a nurse, but with two young children on her own, she simply would not be able to undertake the study on a full-time basis. The way that she manages her hours and her commitment to her family might mean that she slips through the net that you want to lay out for people. Could you look at the issues affecting people who cannot quite make up a

Mae’r Ceidwadwyr Cymreig yn credu bod yn rhaid i fyfyrwyr rhan-amser gael eu gwerthfawrogi mewn addysg uwch a bod yn rhaid inni fabwysiadu dull cefnogol, hyblyg ac ymatebol. Un o’r problemau yw, os nad yw pobl yn gallu mynychu cwrs sy’n rhoi iddynt ddigon o gredydau, ni fyddant yn gallu cael mynediad at y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. Amlinellaf yn gryno hanes achos etholwr i mi: cafodd ei phlentyn cyntaf yn 14 oed, ei hail yn 16, roedd yn fam sengl yn 20, ac yn awr, yn 26, mae hi’n mynd yn ôl i addysg bellach er mwyn mynd i mewn i’r proffesiwn iechyd. Ei huchelgais yw bod yn nyrs, ond a hithau ar ei phen ei hun gyda dau o blant ifanc, ni fyddai’n gallu astudio’n llawn amser. Efallai y bydd y ffordd y mae hi’n rheoli ei horiau a’i hymrwymiad i’w theulu yn golygu y byddai’n llithro drwy’r rhwyd yr ydych am gynnig i bobl. A allech chi edrych ar y materion sy’n effeithio ar

sufficient number of credits, but who want to move on and become real contributors to society? How can they access further and higher education?

bobl nad ydynt yn gallu cronni'r nifer digonol o gredydau, ond sydd eisiau symud ymlaen a dod yn gyfranwyr gwirioneddol i gymdeithas? Sut allant hwy gael mynediad at addysg bellach ac addysg uwch?

We also believe that you need to articulate a much sharper and clearer policy. We need time to digest some of the meat that you were talking about, but you did mention the desired direction of travel and the remit for part-time provision in higher education. It concerns us that some higher education institutions do not have clear and consistent policies on fees for part-time education. I understand that it is because of the transactional costs and that they all have slightly different views on it. If you look, for example, at the University of Glamorgan, it has made some big changes to how it charges for part-time students.

Rydym hefyd yn credu bod arnoch angen mynegi polisi llawer cliriach. Mae angen amser arnom i ystyried sylwedd yr hyn yr ydych yn sôn amdano, ond fe wnaethoch sôn am y cyfeiriad yr ydych am ei gymryd a'r cylch gwaith ar gyfer darpariaeth ran-amser mewn addysg uwch. Mae'n peri pryder i ni nad oes gan rai sefydliadau addysg uwch bolisïau clir a chyson ar ffioedd ar gyfer addysg ran-amser. Deallaf fod hyn oherwydd y costau trafodol a bod ganddynt i gyd farn ychydig yn wahanol arno. Er enghraifft, mae Prifysgol Morgannwg wedi gwneud rhai newidiadau mawr i'r modd y mae'n codi ffioedd ar fyfyrwyr rhan-amser.

Talking of higher education institutions and how they will be funded and supported by you, what is your view on the cost that employers would have to pay going forward? I do not believe that you mentioned that in your statement. Employers sponsor part-time courses. How would that interface with the new fee structure that you are proposing?

Gan siarad am sefydliadau addysg uwch a sut y byddant yn cael eu hariannu a'u cefnogi gennych chi, beth yw eich barn ar y gost y byddai'n rhaid i gyflogwyr ei thalu yn y dyfodol? Nid wyf yn credu i chi sôn am hynny yn eich datganiad. Mae cyflogwyr yn noddi cyrsiau rhan-amser. Sut byddai hynny'n gweithio o fewn y strwythur ffioedd newydd yr ydych yn ei gynnig?

5.30 p.m.

The Welsh Conservatives would create a dedicated hardship fund for part-time students. I need to look at some of the detail that you just laid out, but we would like grants that reflect the intensity of the course, the course fees, student income and dependents. I was not quite sure, from listening to you, whether the support that you are talking about would cover some of those basic elements. I would be grateful for a little bit more clarification on that.

Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn creu cronfa galedi bwrpasol ar gyfer myfyrwyr rhan-amser. Mae angen i mi edrych ar rai o'r manylion yr ydych newydd eu hamlinellu, ond byddem yn hoffi gweld grantiau sy'n adlewyrchu ddwyster y cwrs, ffioedd y cwrs, incwm myfyriwr a dibynyddion. Nid oeddwn yn hollol siŵr, o wrando arnoch, a fyddai'r cymorth yr ydych yn sôn amdano yn ymdrin â rhai o'r elfennau sylfaenol hynny. Byddwn yn ddiolchgar am ychydig bach mwy o eglurhad am hynny.

You will note that our amendment asks you to ensure that you consult with higher education institutions. Have you done that on this particular issue? Have they bought into it, and do they intend to move with you on this? We have a difference of opinion about how to recoup the ever rising cost of education. We fundamentally believe that the

Byddwch yn sylwi fod ein gwelliant yn gofyn i chi sicrhau eich bod yn ymgynghori â sefydliadau addysg uwch. A ydych wedi gwneud hynny ar y mater penodol hwn? A ydynt yn awyddus i fod yn rhan ohono, ac a ydynt yn bwriadu symud gyda chi ar hyn? Mae gennym wahaniaeth barn ar sut i adennill cost addysg, sy'n cynyddu'n

public purse should support the individual student, but that we should ask graduates to make that contribution. You have chosen not to go down that route—as is your absolute prerogative—but we want to understand how you have talked to higher education institutions about that, and how they are going to be able to respond to the part-time fee structure that you are laying out here, as well as to the full-time fee structure, about which there has been much public debate.

barhaus. Fel egwyddor sylfaenol, credwn y dylai'r pwrs cyhoeddus gefnogi'r myfyriwr unigol, ond y dylem ofyn i raddedigion wneud y cyfraniad hwnnw. Rydych wedi dewis i beidio â dilyn y llwybr hwnnw—eich hawl absoliwt yw hynny—ond rydym yn awyddus i ddeall sut rydych wedi siarad â sefydliadau addysg uwch am hynny, a sut y maent yn mynd i allu ymateb i'r strwythur ffioedd rhan-amser yr ydych yn ei amlinellu yma, yn ogystal â'r strwythur ffioedd llawn-amser, y mae llawer o ddadlau cyhoeddus wedi digwydd yn ei gylch.

**David Rees:** Before I start, I declare an interest: prior to my election, I was an assistant dean of faculty in a higher education institution. I welcome the plans proposed by the Minister. When I first took up my post—I am showing my age now—almost 20 years ago, the majority of part-time students were employed. The first course that I taught was a part-time course. They were sponsored by their employer and were given time to undertake their studies. In the 20 years since, we have seen a change. Now, the majority of students are not sponsored by their employer; they are self-financing. They are finding it difficult to find time to come to university. Many are taking holidays to allow themselves time to come in. There are others who are not working. Therefore, the demographic has changed dramatically in those 20 years.

**David Rees:** Cyn i mi ddechrau, rwy'n datgan diddordeb: cyn i mi gael fy ethol, roeddwn yn ddeon cynorthwyol ar gyfadran mewn sefydliad addysg uwch. Rwy'n croesawu'r cynlluniau a gynigiwyd gan y Gweinidog. Pan ddechreuais fy swydd—rwy'n dangos fy oed yn awr—bron i 20 mlynedd yn ôl, roedd mwyafrif y myfyrwyr rhan-amser wedi'u cyflogi. Roedd y cwrs cyntaf i mi ei ddysgu yn un rhan-amser. Cafodd y myfyrwyr eu noddi gan eu cyflogwyr ac roeddent yn cael amser i ymgymryd â'u hastudiaethau. Yn yr 20 mlynedd ers hynny, rydym wedi gweld newid. Bellach, nid yw'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn cael eu noddi gan eu cyflogwr; maent yn ariannu eu hunain. Maent yn ei chael yn anodd dod o hyd i amser i fynd i'r brifysgol. Mae llawer yn cymryd gwyliau i roi amser i fynd i mewn. Mae yna bobl eraill nad ydynt yn gweithio. Felly, mae'r demograffig wedi newid yn ddramatig yn ystod yr 20 mlynedd hynny.

This proposal is looking at the way in which we deliver what I am sure all of us in the Chamber want, which is to be able to fulfil the aspirations of everyone who wants to go on to higher education. This is what it does. It brings equality to full-time and part-time education. The decisions of the Westminster Government back in December are taking fees up to an extortionate amount. Students are being frightened by figures of £9,000, which is what they are now facing: no matter what the UK Government said, the majority of institutions in England are talking about charging £9,000. Naturally, we have seen institutions in Wales follow suit, because they seem to have the view that they cannot charge any less in case people think that they

Mae'r cynnig hwn yn edrych ar y modd yr ydym yn cyflawni'r hyn yr wyf yn siŵr y mae pob un ohonom yn y Siambr am ei weld, sef y gallu i gyflawni dyheadau pawb sydd am fynd ymlaen i addysg uwch. Dyna beth y mae'n ei wneud. Mae'n dod â chydraddoldeb at addysg llawn-amser a rhan-amser. Mae penderfyniadau Llywodraeth San Steffan yn ôl ym mis Rhagfyr yn cynyddu ffioedd nes eu bod yn grocbris. Mae myfyrwyr yn cael eu dychryn gan y ffigurau o £9,000, sef yr hyn y maent yn awr yn ei wynebu: ni waeth beth a ddywed Llywodraeth y DU, mae'r mwyafrif o sefydliadau yn Lloegr yn sôn am godi £9,000. Yn naturiol, rydym wedi gweld sefydliadau yng Nghymru yn eu dilyn, oherwydd eu bod yn ymddangos i fod o'r

do not provide the same quality. Irrespective of the actual fee plans, that is their mentality. I would ask the Minister to ensure that the fee plans for part-time studying are comparable to fee plans for full-time studying, so that every institution provides reasons for the figures that they are charging. The maximum that we have indicated is £7,000. However, we should be saying that that is a maximum, not what you should be going for.

farn na allant godi tâl llai rhag ofn i bobl feddwl nad ydynt yn darparu addysg o'r un ansawdd. Beth bynnag y cynlluniau gwirioneddol ar gyfer ffioedd, dyna yw eu meddylfryd. Byddwn yn gofyn i'r Gweinidog sicrhau bod y cynlluniau o ran ffioedd ar gyfer astudio rhan-amser yn debyg i'r cynlluniau ar gyfer astudio llawn-amser, fel bod pob sefydliad yn rhoi rhesymau am y tâl y maent yn ei godi. Yr uchafswm yr ydym wedi ei nodi yw £7,000. Fodd bynnag, dylem fod yn dweud mai uchafswm yw hynny, nid y gost y dylech fod yn anelu ati.

Angela Burns is quite right in her comment about institutions across Wales varying their fees. Some charge £250 for 20 credits, but some charge £105. It is a dramatic change, so we need to look carefully at what institutions are charging so that we encourage students to attend university. There is no point saying that we are supporting them, but that everyone, at the end of the day, charges a flat rate, which is unattainable. These students often go for part time education because they cannot face the debt of a full-time fee. By making full-time fees and part-time fees comparable, you are putting the same burden on individuals. I would ask that care be taken as to how the fee plans deal with part-time fees.

Mae Angela Burns yn llygad ei lle yn ei sylwadau am sefydliadau ledled Cymru yn amrywio eu ffioedd. Mae rhai yn codi tâl o £250 ar gyfer 20 credyd, ond mae eraill yn codi £105. Mae'n newid dramatig, felly mae angen edrych yn ofalus ar y tâl sy'n cael ei godi gan sefydliadau er mwyn inni annog myfyrwyr i fynd i'r brifysgol. Nid oes pwynt dweud ein bod yn eu cefnogi, ond bod pawb, ar ddiwedd y dydd, yn codi cyfradd unffurf, sy'n anghyraeddadwy. Mae'r myfyrwyr hyn yn aml yn dewis addysg ran-amser oherwydd na allant wynebu'r ddyled sy'n deillio o ffioedd llawn-amser. Drwy wneud ffioedd llawn-amser a ffioedd rhan-amser yn debyg, rydych yn rhoi'r un baich ar unigolion. Byddwn yn gofyn bod gofal yn cael ei gymryd o ran sut y mae cynlluniau ar gyfer ffioedd yn ymdrin â ffioedd rhan-amser.

The proposal will provide all students with support. I have noticed that the grants that you are talking about are also there. I ask you to ensure that all grants, including the disabled students' allowance, are included, so that they provide a fair and equitable approach to higher education. Whether institutions are pre-1992 or post-1992 is important. According to the Higher Education Statistics Agency's statistics, most post-1992 institutions are delivering part-time courses. They also show that 53 per cent of Welsh-domiciled students who are in HE are studying part-time—those are studying part-time in Wales, whereas the proportion with regard to those who are studying in England or Wales could be larger. The Assembly has an important role in ensuring that we deliver HE for everyone, whether it is part-time or full-time, in Wales at a cost that everyone can afford. I welcome the ability to get rid of up-

Bydd y cynnig yn cynnig cymorth i bob myfyriwr. Rwyf wedi sylwi bod y grantiau yr ydych yn sôn amdanynt yno hefyd. Gofynnaf i chi sicrhau bod yr holl grantiau, gan gynnwys y lwfans myfyrwyr anabl, yn cael eu cynnwys, fel eu bod yn darparu dull teg a chyfartal o ymdrin ag addysg uwch. Mae'r cwestiwn ai sefydliadau cyn-1992 neu ôl-1992 ydynt yn bwysig. Yn ôl ystadegau yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, mae'r rhan fwyaf o sefydliadau ôl-1992 yn cynnig cyrsiau rhan-amser. Maent hefyd yn dangos bod 53 y cant o fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru sydd mewn addysg uwch yn astudio rhan-amser—maent yn astudio'n rhan-amser yng Nghymru, tra gallai'r gyfran mewn perthynas â'r rhai sy'n astudio yng Nghymru neu Loegr fod yn fwy. Mae gan y Cynulliad rôl bwysig o ran sicrhau ein bod yn darparu addysg uwch i bawb, boed yn rhan-amser neu'n llawn-amser, yng Nghymru am

front payments, which did have to be made. On some occasions, I saw fees of £3,000 or £4,000, and I have seen part-time courses that require up-front payments of £10,000. I am pleased that we are moving away from that.

gost y gall pawb ei fforddio. Croesawaf y gallu i gael gwared ar daliadau ymlaen llaw, yr oedd yn rhaid eu gwneud. Ar rai achlysuron, gwelais ffioedd o £3,000 neu £4,000, ac rwyf wedi gweld cyrsiau rhan-amser sy'n galw am daliadau ymlaen llaw o £10,000. Rwy'n falch ein bod yn symud oddi wrth hynny.

**Mick Antoniw:** I welcome the proposals. My contribution is more of a suggestion to the Minister. One area that seems to be omitted is that of part-time postgraduate students. At some stage, there may be an opportunity to consider that, because these are persons who have a proven track record. They are an important part of the skills base of the Welsh economy. I am sure that it is not an oversight, but it is an area that we need to look at further at some stage.

**Mick Antoniw:** Croesawaf y cynigion. Mae fy nghyfraniad yn fwy o awgrym i'r Gweinidog. Un maes sy'n ymddangos i gael ei hepgor yw myfyrwyr ôl-raddedig rhan-amser. Ar ryw adeg, efallai y bydd cyfle i ystyried hynny, oherwydd mae'r rhain yn bobl sydd â gallu sydd wedi'i brofi. Maent yn rhan bwysig o sylfaen sgiliau economi Cymru. Rwy'n siŵr nad yw'n amryfusedd, ond mae'n faes y mae angen i ni edrych arno ymhellach ar ryw adeg.

**William Powell:** I, like David Rees, declare an interest, because I completed my teacher training on a part-time basis. The Welsh Liberal Democrats warmly welcome the Minister's announcement. This area is far too important for us to engage in political point scoring. I have been grateful to see the absence of it in the debate so far, and I hope that that will continue.

**William Powell:** Rwyf i, fel David Rees, yn datgan buddiant, oherwydd fy mod wedi cwblhau fy hyfforddiant athrawon ar sail ran-amser. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn croesawu'n gynnes gyhoeddiad y Gweinidog. Mae'r maes hwn yn llawer rhy bwysig i ni fod yn sgorio pwyntiau gwleidyddol ynddo. Rwyf wedi bod yn ddiolchgar i weld y diffyg sgorio pwyntiau yn y ddadl hyd yn hyn, a gobeithiaf y bydd hynny'n parhau.

A total of 13 per cent of new entrants to the Open University in Wales are from Communities First wards, and 24 per cent are from areas of lower affluence. Yet, prior to the advent of the current Government at Westminster, most part-time students had to pay up-front fees, which was a real barrier to social mobility. Part-time learning is essential to allow parents, those with a variety of impairments and those in part-time employment to meet their aspirations for a more fulfilling life and greater prosperity. Wales's historic performance in the higher skills sector means that, without part-time learning, Wales could take a whole generation to get off the canvas in economic terms. John Ball of Swansea University's School of Business and Economics said, last March, that there is

Mae cyfanswm o 13 y cant o newydd-ddyfodiaid i'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn dod o wardiau Cymunedau yn Gyntaf, ac mae 24 y cant yn dod o ardaloedd o gyfoeth is. Eto i gyd, cyn dyfodiad y Llywodraeth bresennol yn San Steffan, roedd y rhan fwyaf o fyfyrwyr rhan-amser yn gorfod talu ffioedd ymlaen llaw, a oedd yn rhwystr gwirioneddol i symudedd cymdeithasol. Mae dysgu rhan-amser yn hanfodol i ganiatáu i rieni, y rhai sydd ag amrywiaeth o namau a'r rhai sydd mewn cyflogaeth ran-amser i wireddu eu dyheadau ar gyfer bywyd mwy cyflawn a mwy o ffyniant. Mae perfformiad hanesyddol Cymru yn y sector sgiliau uwch yn golygu, heb ddysgu rhan-amser, y gallai Cymru gymryd cenhedlaeth gyfan i godi oddi ar y cynfas mewn termau economaidd. Fis Mawrth diwethaf, dywedodd John Ball o Ysgol Fusnes ac Economeg Prifysgol Abertawe, nad oes

‘no question that skills levels in Wales are appalling. The education system leaves a great deal to be desired.’

dim cwestiwn bod lefelau sgiliau yng Nghymru yn warthus. Mae’r system addysg yn gadael llawer o le i wella.

Indeed, providing the proper support now to part-time students can go a long way to addressing this matter in the medium term. I very much welcome the Minister’s announcement on the issue of intensity; it is a positive step.

Yn wir, gall cynnig cymorth priodol yn awr i fyfyrwyr rhan-amser wneud llawer i fynd i’r afael â’r mater hwn yn y tymor canolig. Rwy’n croesawu’n fawr iawn gyhoeddiad y Gweinidog ar y mater o ddwyster; mae hynny’n gam cadarnhaol.

I am, however, concerned that the wider changes in funding may have the knock-on effect of hitting budgets for part-time education providers and/or students. The 35 per cent reduction in the teaching and learning grant is a reduction in total higher education spending, which pays for the full-time fee grant policy. That money will go to higher education institutions in the end, but only to those that have full-time students. That means that the Government is spending money that has helped fund the teaching of all students, but it will now only go towards full-time provision. Can the Minister confirm that no part-time students will be in a worse position than full-time students? Will the Minister confirm that the funding arrangement will not have a negative impact on the Higher Education Funding Council for Wales’s part-time undergraduate fee waiver scheme? I also hope that consideration is being given to ensuring that the variety of grants and loans does not become too complex for the part-time student. If, for example, you are a disabled care leaver with children, who studies at low intensity, these matters can become extremely complex and could be a barrier to participation.

Fodd bynnag, pryderaf y gallai’r newidiadau ehangach mewn cyllid gael yr effaith ganlyniadol o leihau cyllidebau ar gyfer darparwyr addysg a/neu fyfyrwyr rhan-amser. Mae’r gostyngiad o 35 y cant yn y grant addysgu a dysgu yn ostyngiad yn y cyfanswm gwariant ar addysg uwch, sy’n talu am y polisi grant ffioedd llawn-amser. Bydd yr arian hwnnw yn mynd i sefydliadau addysg uwch yn y diwedd, ond dim ond i’r rhai sydd â myfyrwyr llawn-amser. Mae hynny’n golygu bod y Llywodraeth yn gwario arian sydd wedi helpu ariannu addysgu pob myfyriwr, ond bydd yn awr yn unig yn mynd tuag at ddarpariaeth amser llawn. A all y Gweinidog gadarnhau na fydd unrhyw fyfyrwyr rhan-amser mewn sefyllfa waeth na myfyrwyr llawn-amser? A wnaiff y Gweinidog gadarnhau na fydd y trefniant ariannu yn cael effaith negyddol ar gynllun ildio ffioedd israddedigion rhan-amser Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru? Rwyf hefyd yn gobeithio y bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i sicrhau nad yw’r amrywiaeth o grantiau a benthyciadau yn mynd yn rhy gymhleth ar gyfer myfyrwyr rhan-amser. Os, er enghraifft, ydych yn berson anabl sy’n gadael gofal gyda phlant, sy’n astudio ar ddwysedd isel, gall y materion hyn fod yn hynod gymhleth a gallai fod yn rhwystr i gyfranogiad.

It is interesting, and very much to be welcomed, that Plaid has decided to withdraw its first amendment because of the content of the statement. I strongly empathise with that. The other amendments are perfectly sensible, and this Liberal Democrat will certainly support them.

Mae’n ddiddorol, ac i’w groesawu’n fawr, fod Plaid Cymru wedi penderfynu tynnu ei welliant cyntaf yn ôl oherwydd cynnwys y datganiad. Cydymdeimlaf yn gryf â hynny. Mae’r gwelliannau eraill yn gwbl synhwyrol, a bydd y Democrat Rhyddfrydol hwn yn sicr yn eu cefnogi.

**Vaughan Gething:** I also welcome the opportunity to speak in this debate. It is now more than a decade since I was a student

**Vaughan Gething:** Rwyf i hefyd yn croesawu’r cyfle i siarad yn y ddadl hon. Mae bellach yn fwy na degawd ers i mi fod yn

representative in higher education—a long time ago now. [*Laughter*.] The years have been good to me, although some of you might not think so. [*Laughter*.] I remember that, at that time, there were two problems in respect of how fee funding worked, as well as problems with the changing landscape with regard to the Dearing report and the changing way in which graduates and students contributed to higher education. In particular, there was unfairness relating to further education students, almost all of whom had to pay an element of up-front fees if they were not doing traditional A-levels. There was also an issue relating to part-time education and higher education. This has been a problem for a long time.

gynrychiolydd myfyrwyr mewn addysg uwch—amser maith yn ôl bellach. [*Chwerthin*.] Mae'r blynyddoedd wedi bod yn dda i mi, er efallai nad ydych i gyd yn meddwl hynny. [*Chwerthin*.] Yr wyf yn cofio, bryd hynny, bod dwy broblem o ran sut yr oedd ffioedd yn gweithio, yn ogystal â phroblemau gyda'r tirwedd newidiol o ran adroddiad Dearing a'r newidiadau o ran sut yr oedd graddedigion a myfyrwyr yn cyfrannu at addysg uwch. Yn benodol, roedd annhegwch o ran myfyrwyr addysg bellach, yr oedd bron pob un ohonynt yn gorfod talu elfen o ffioedd ymlaen llaw os nad oeddent yn gwneud cymwysterau Safon Uwch traddodiadol. Roedd yna hefyd fater yn ymwneud ag addysg ran-amser ac addysg uwch. Mae hon wedi bod yn broblem am amser hir.

As was said earlier, there are huge numbers of part-time higher education students: 50 per cent of students in Wales, or more than 27,000 students, are part-time students. I am particularly proud and pleased today about the fact that we are doing something about this situation. Our Welsh Labour Government is going to do something about this, and it is going to try to ensure that fee funding arrangements are much fairer. If we do not deal with this, we are always going to narrow access to higher education rather than widen it. We know that access to higher education is hugely important, not just for the benefits it brings individuals and their communities, which see more and more people from different backgrounds going on to higher education, thereby creating a realistic aspiration to do so, but also massively important for our economic prospects going forward. It is no coincidence that major competitor economies are investing so heavily in higher education. It is a very good thing that we are making it easier for people to benefit from higher education with today's measure.

Fel y dywedwyd yn gynharach, mae yna nifer fawr o fyfyrwyr rhan-amser mewn addysg uwch: mae 50 y cant o fyfyrwyr Cymru, neu fwy na 27,000 o fyfyrwyr, yn rhan-amser. Yr wyf yn arbennig o falch heddiw ein bod yn gwneud rhywbeth am y sefyllfa hon. Mae ein Llywodraeth Lafur Cymru yn mynd i wneud rhywbeth am hyn, ac mae'n mynd i geisio sicrhau bod trefniadau ariannu ffioedd yn llawer tecach. Os nad ydym yn delio gyda hyn, byddwn wastad yn cyfyngu ar fynediad i addysg uwch yn hytrach nag ehangu arno. Rydym yn gwybod bod mynediad i addysg uwch yn hynod o bwysig, nid yn unig ar gyfer y buddion i unigolion a'u cymunedau, sy'n gweld mwy a mwy o bobl o gefndiroedd gwahanol yn mynd ymlaen i addysg uwch, a thrwy hynny greu ddyhead realistig i wneud hynny, ond hefyd yn aruthrol bwysig ar gyfer ein rhagolygon economaidd yn y dyfodol. Nid yw'n gyd-ddigwyddiad fod y prif economïau yr ydym yn cystadlu a hwy yn buddsoddi cymaint mewn addysg uwch. Mae'n beth da iawn ein bod yn ei gwneud yn haws i bobl gael budd o addysg uwch gyda'r mesur heddiw.

I am particularly pleased that we are not just getting rid of up-front payments, but that we are also ensuring that there is genuine equity between full-time and part-time students. When people talk about higher education, they often have the traditional image of the kind of student that I was: namely, one who went from doing A-levels straight into

Rwy'n arbennig o falch nad ydym yn cael gwared ar daliadau ymlaen llaw yn unig, ond ein bod hefyd yn sicrhau tegwch gwirioneddol rhwng myfyrwyr llawn-amser a rhan-amser. Pan fydd pobl yn siarad am addysg uwch, yn aml mae ganddynt y ddelwedd draddodiadol o'r math o fyfyrwyr yr oeddwn i: sef, un a aeth o wneud Safon

university. However, that is increasingly not what higher education students are like. When I was at university, I remember that we called the people who were coming back for second-chance education 'mature students'—there were some far less polite terms used as well. It is so important for those people to have a route into higher education that works and that is not a further barrier. We should see more people, as a result of this measure, going into higher education and taking up the opportunities that it provides. We can also be proud of the fact that, with devolution, we are doing something different from the rest of the UK. We are not following the path of charging the fees that are being charged in England. We are not following what was put forward in other election manifestos regarding how we should or should not charge students. I am particularly pleased, in looking at the detail, that the repayment method will be progressive. People on lower incomes will repay at a lower rate. It is important to get those details right, to ensure that these are not just what look like opportunities in theory, but that they are opportunities that will be taken up in practice by more and more students in Wales.

Uwch yn syth i mewn i brifysgol. Fodd bynnag, yn gynyddol, nid dyna yw myfyrwyr addysg uwch. Pan oeddwn yn y brifysgol, yr wyf yn cofio ein bod yn galw'r bobl a oedd yn dod yn ôl ar gyfer ail-gyfle addysg yn 'fyfyrwyr aeddfed'—roedd rhai termau llawer llai cwrtais a ddefnyddiwyd yn ogystal. Mae mor bwysig i'r bobl hynny gael llwybr i addysg uwch sy'n gweithio ac nad yw'n rhwystr pellach. Dylem weld mwy o bobl, o ganlyniad i'r mesur hwn, yn mynd i mewn i addysg uwch ac yn manteisio ar y cyfleoedd y mae'n eu darparu. Gallwn hefyd fod yn falch o'r ffaith, gyda datganoli, ein bod yn gwneud rhywbeth gwahanol i weddill y DU. Nid ydym yn dilyn y llwybr o godi'r ffioedd sy'n cael eu codi yn Lloegr. Nid ydym yn dilyn yr hyn a gyflwynwyd mewn maniffestos etholiadol eraill ynghylch sut y dylem neu na ddylem godi ffioedd ar fyfyrwyr. Rwy'n arbennig o falch, o edrych ar y manylion, y bydd y dull ad-dalu yn flaengar. Bydd pobl ar incwm is yn ad-dalu ar gyfradd is. Mae'n bwysig cael y manylion yn gywir, er mwyn sicrhau bod y rhain yn fwy na dim ond cyfleoedd theoretig, ond eu bod yn gyfleoedd a gymerir yn ymarferol gan fwy a mwy o fyfyrwyr yng Nghymru.

**Kenneth Skates:** Minister, I begin by welcoming your reappointment to the Cabinet and your genuine determination to make education in Wales world class. One key way in which this can be achieved is by ensuring that every cog in the Welsh economic mechanism is working effectively and that we are getting maximum benefit from what is the most important resource that we have: our own human capital. We must widen access to higher education, not only by getting more people to go to university but also by ensuring fairer access for people from a broader range of backgrounds. Only then can we fulfil our economic potential and realise our vision of a wealthier and more fulfilled Wales. The Open University, one of the proudest achievements of the Labour Governments in the 1960s, has helped to enrich approximately 100,000 people in Wales over the past 40 years, demonstrating that there has always been a large portion of the population whose experience of higher education involves part-time learning or distance learning.

**Kenneth Skates:** Weinidog, dechreuaf drwy groesawu eich ailbenodi i'r Cabinet a'ch penderfyniad gwirioneddol i sicrhau bod addysg yng Nghymru o'r radd flaenaf. Un ffordd allweddol o gyflawni hyn yw drwy sicrhau bod pob cog yn mecanwaith economaidd Cymru yn gweithio'n effeithiol a'n bod yn cael y budd mwyaf posibl o'r adnodd pwysicaf sydd gennym: ein cyfalaf dynol eu hunain. Mae'n rhaid inni ehangu mynediad i addysg uwch, nid yn unig drwy gael mwy o bobl i fynd i brifysgol, ond hefyd drwy sicrhau mynediad tecach i bobl o ystod ehangach o gefndiroedd. Dim ond wedyn y gallwn gyflawni ein potensial economaidd a gwireddu ein gweledigaeth o Gymru gyfoethocach a mwy bodlon. Mae'r Brifysgol Agored, un o gyflawniadau mwyaf balch Llywodraethau Llafur yn y 1960au, wedi helpu i gyfoethogi tua 100,000 o bobl yng Nghymru dros y 40 mlynedd diwethaf, gan ddangos bod yna wastad gyfran fawr o'r boblogaeth y mae eu profiad o addysg uwch yn cynnwys dysgu rhan-amser neu ddysgu o bell.

5.45 p.m.

There are two points that I would briefly like to make. The first is in relation to funding. We all know that, in the wake of last year's comprehensive spending review, tough choices have to be made, and the mantra of 'more for less' is as relevant now as it ever has been and is the conventional wisdom across the public sector. That it requires us to look again at the higher education regime is inevitable. I welcome the pledge in the Welsh Labour manifesto to provide real financial support to students from the lowest income families, particularly the emphasis that was placed on meeting the needs of part-time students. Currently, some 40,000 people study part-time in the higher education system. However, one barrier to part-time education was the inability of many to fund their studies adequately. That is why I welcome today's announcement that part-time students will get improved access to student loans. I look forward to seeing that broaden and deepen access to higher education for those who have previously been put off from studying.

Mae dau bwynt y byddwn yn hoffi eu gwneud yn fyr. Mae'r cyntaf mewn perthynas â chyllid. Rydym i gyd yn gwybod, yn sgil yr adolygiad cynhwysfawr o wariant y llynedd, bod rhaid gwneud dewisiadau anodd, ac y mae'r mantra o 'mwy am lai' yr un mor berthnasol yn awr ag y bu erioed, ac yn ddoethineb confensiynol ar draws y sector cyhoeddus. Mae'n anochel bod angen i ni edrych eto ar y gyfundrefn addysg uwch. Rwyf yn croesawu'r addewid ym maniffesto Llafur Cymru i ddarparu cymorth ariannol go iawn i fyfyrwyr o'r teuluoedd incwm isaf, yn enwedig y pwyslais a roddwyd ar ddiwallu anghenion myfyrwyr rhan-amser. Ar hyn o bryd, mae tua 40,000 o bobl yn astudio'n rhan-amser yn y system addysg uwch. Fodd bynnag, un rhwystr i addysg ran-amser yw anallu llawer i ariannu eu hastudiaethau yn ddigonol. Dyna pam yr wyf yn croesawu cyhoeddiad heddiw y bydd myfyrwyr rhan-amser yn cael gwell mynediad at fenthyciadau myfyrwyr. Edrychaf ymlaen at weld hynny'n ehangu ac yn dyfnhau mynediad i addysg uwch i'r rheini sydd wedi cael eu rhwystro rhag astudio.

My second point relates to encouraging students from working-class backgrounds to enter into higher education. That agenda is crucial because higher education is the clearest and most tangible example of how the state can act as an uplifting force in society. We talk freely about social mobility, and, as a term, it has a fitting vagueness about it, yet the central idea, that those from disadvantaged backgrounds can and must be able to fulfil their potential regardless of their background or social class, is as revolutionary today as it was 50 years ago. That is why I am pleased that the Welsh Labour Government has made it a priority to protect students from Wales from the excessive tuition fees that we have seen proposed over the border. Higher education is expensive; there is no doubt about that, and there must be a way to pay for it. However, as Lyndon Johnson said:

Mae fy ail bwynt yn ymwneud ag annog myfyrwyr o gefndiroedd dosbarth gweithiol i fynd i mewn i addysg uwch. Mae'r agenda honno'n hanfodol oherwydd mai addysg uwch yw'r enghraifft gliriaf a mwyaf pendant o sut y gall y wladwriaeth weithredu fel grym dyrchafol mewn cymdeithas. Rydym yn siarad yn rhydd am symudedd cymdeithasol, ac, fel term, mae amwysedd addas amdano, ond mae'r syniad canolog, sef bod yn rhaid i'r rhai o gefndiroedd dan anfantais allu cyflawni eu potensial beth bynnag fo'u cefndir neu ddosbarth cymdeithasol, yr un mor chwyldroadol heddiw ag yr oedd 50 mlynedd yn ôl. Dyna pam yr wyf yn falch bod Llywodraeth Lafur Cymru wedi'u gwneud yn flaenoriaeth i ddiogelu myfyrwyr o Gymru o'r ffioedd dysgu gormodol a welsom yn cael eu cynnig dros y ffin. Mae addysg uwch yn ddrud; nid oes amheuaeth am hynny, a rhaid cael ffordd i dalu amdani. Fodd bynnag, fel y dywedodd Lyndon Johnson:

'Once we considered education a public expense; we know now that it is a public

Ar un adeg, roeddem yn ystyried addysg fel cost gyhoeddus; rydym yn gwybod yn awr ei

investment.'

fod yn fuddsoddiad cyhoeddus.

What I also applaud in this announcement today is the rejection of the Thatcherite imperative that is slowly creeping into higher education in England and of the 'get on your bike' approach to improving social mobility. I am pleased that the Minister has committed this Welsh Labour Government to holding down the cost of higher education for part-time students, recognising the public good of a higher education for students from all backgrounds. The recognition that we have a collective responsibility for higher education is still intact in Wales, and the education system that we provide in this country will be better for that.

Beth yr wyf hefyd yn ei gymeradwyo yn y cyhoeddiad hwn heddiw yw'r ffaith ei fod yn gwrthod y rheidrwydd Thatcheraidd sydd yn cropian yn araf i mewn i addysg uwch yn Lloegr a'r ymagwedd 'cer ar dy feic' tuag at wella symudedd cymdeithasol. Yr wyf yn falch bod y Gweinidog wedi ymrwymo Llywodraeth Lafur Cymru i ddal cost addysg uwch i lawr ar gyfer myfyrwyr rhan-amser, gan gydnabod y lles i'r cyhoedd o addysg uwch i fyfyrwyr o bob cefndir. Mae'r gydnabyddiaeth bod gennym gyfrifoldeb ar y cyd ar gyfer addysg uwch yn dal i sefyll yng Nghymru, a bydd y system addysg a ddarparwn yn y wlad hon yn well o ganlyniad i hynny.

**Bethan Jenkins:** Thank you for the statement, Minister. I welcome what has been said today to a large degree. As a member of the Graham review group that looked into part-time study in 2006, I find it startling that we are discussing again today many of the same issues as were discussed at that time. I would have liked to have seen some of these elements introduced sooner, but we are where we are. As Angela said, part-time study is a complex area and, when I was on the Graham review group, we found it difficult to come to a definition, in that students formally designated by their institutions as part-time students can undertake the same volume of work as full-time students, or even more. Again, it is a matter of perception and of how we define part-time study. We should realise that part-time students may be carrying out the same type of work as full-time students, and perhaps doing so more intensively, but are not getting the recognition that full-time students get.

**Bethan Jenkins:** Diolch am y datganiad, Weinidog. Croesawaf yr hyn sydd wedi'i ddweud heddiw i raddau helaeth. Fel aelod o grŵp adolygiad Graham a edrychodd ar astudio rhan-amser yn 2006, mae'n frawychus ein bod yn trafod unwaith eto heddiw lawer o'r un materion ag a drafodwyd bryd hynny. Byddwn wedi hoffi gweld rhai o'r elfennau hyn yn cael eu cyflwyno'n gynharach, ond yr ydym lle'r ydym. Fel y dywedodd Angela, mae astudio rhan-amser yn faes cymhleth a phan oeddwn ar grŵp adolygu Graham, roeddem yn ei chael yn anodd dod o hyd i ddiffiniad o ran y ffaith y gall myfyrwyr, y'u dynodir yn ffurfiol gan eu sefydliadau fel myfyrwyr rhan-amser, ymgymryd â'r un faint o waith â myfyrwyr llawn-amser, neu hyd yn oed mwy. Unwaith eto, mae'n fater o ganfyddiad ac o sut yr ydym yn diffinio astudio rhan-amser. Dylem sylweddoli y gall myfyrwyr rhan-amser gynnal yr un math o waith â myfyrwyr llawn-amser, ac efallai gwneud hynny yn fwy dwys, ond nid ydynt yn cael y gydnabyddiaeth y mae myfyrwyr llawn-amser yn ei chael.

We also need to acknowledge the diversity of students who study part time. For example, part-time students include more women with childcare commitments, and people returning to education. That leads me on to one of the questions that I wanted to ask, which is whether there will be an entitlements for those who have studied previously to re-engage with learning so that they can benefit from grants or loans as other students do.

Mae hefyd angen inni gydnabod amrywiaeth y myfyrwyr sy'n astudio'n rhan amser. Er enghraifft, mae myfyrwyr rhan-amser yn cynnwys mwy o fenywod gydag ymrwymiadau gofal plant, a phobl sy'n dychwelyd i addysg. Mae hynny'n fy arwain at un o'r cwestiynau yr oeddwn am ei ofyn, sef a fydd hawliau ar gyfer y rhai sydd wedi astudio yn flaenorol i ail-ymgysylltu â dysgu fel y gallant elwa o grantiau neu fenthyciadau

fel y mae myfyrwyr eraill yn ei wneud.

Another question relates to the fee plans. The Minister said that fee plans for part-time students will need to be put forward as they are for full-time students. However, I am curious about the timeline for this, because I know that the fee plans for full-time students have already been submitted. When will the proposals for part-time students be put in place?

Mae cwestiwn arall yn ymwneud â'r cynlluniau ffioedd. Dywedodd y Gweinidog y bydd angen cyflwyno cynlluniau ffioedd ar gyfer myfyrwyr rhan-amser yn yr un modd ag y maent ar gyfer myfyrwyr llawn-amser. Fodd bynnag, yr wyf yn chwilfrydig am y llinell amser ar gyfer hyn, gan fy mod yn gwybod bod y cynlluniau ffioedd ar gyfer myfyrwyr llawn-amser wedi eu cyflwyno eisoes. Pa bryd y bydd y cynigion ar gyfer myfyrwyr rhan-amser yn cael eu rhoi ar waith?

I also have a question regarding the concerns of employees and SMEs. Will any incentives be put in place so that more small businesses can participate and allow their employees to study part time? To be a bit of a devil's advocate—I am always a supporter of students and I want to put that on record—what we heard on the Graham review group was that many part-time students did not want loans, because they were at different stages in their lives and did not know that they wanted to commit to those particular loans. The Graham review noted:

Mae gennyf gwestiwn hefyd ynghylch pryderon staff a busnesau bach a chanolig eu maint. A fydd unrhyw gymhellion ar gael fel y gall mwy o fusnesau bach gymryd rhan a chaniatáu i'w gweithwyr astudio'n rhan amser? I fod yn dipyn o ddadleuydd y diafol—yr wyf bob amser yn cefnogi myfyrwyr ac rwyf am i hynny gael ei gofnodi—clywsom ar grŵp adolygiad Graham nad oedd llawer o fyfyrwyr rhan-amser eisiau benthyciadau, oherwydd eu bod mewn cyfnodau gwahanol yn eu bywydau ac nad oeddent yn gwybod a oeddent eisiau ymrwymo i'r benthyciadau penodol hynny. Nododd adolygiad Graham:

'a loan system for part-time students would be problematic and costly: issues relating to thresholds, time remaining in the workforce and retrieval were the main concerns.'

'byddai system benthyciad ar gyfer myfyrwyr rhan-amser yn broblem ac yn gostus: materion yn ymwneud â throthwyon, amser sydd yn weddill yn y gweithlu ac adalw oedd y prif bryderon.'

While I think that is important that part-time students can access loans, I urge the Minister to take into consideration people's different circumstances. Some people, who gave evidence to the review, were put off by having loans instead of paying upfront, because they did not want to have a debt commitment, whereas full-time students did not mind that as much. I wanted to throw that into the mix so that the Minister is aware that that was what people said in 2006. However, they may have changed their minds now that we are in 2011.

Er fy mod yn meddwl ei bod yn bwysig i fyfyrwyr rhan-amser allu cael benthyciadau, yr wyf yn annog y Gweinidog i gymryd i ystyriaeth gwahanol amgylchiadau pobl. Cafodd rhai pobl, a roddodd dystiolaeth i'r adolygiad, eu hatal rhag cael benthyciadau yn hytrach na thalu ymlaen llaw, gan nad oeddent am gael ymrwymiad dyled, tra nad oedd myfyrwyr llawn-amser yn poeni gymaint am hynny. Roeddwn am ychwanegu hynny i'r ddadl fel bod y Gweinidog yn ymwybodol mai dyna a ddywedodd pobl yn 2006. Fodd bynnag, efallai eu bod wedi newid eu meddyliau gan ein bod yn awr yn 2011.

**Keith Davies:** Yr wyf am ddatgan buddiant, gan imi wneud tystysgrif addysg rhan amser,

**Keith Davies:** I wish to declare an interest, as I did a teaching certificate part time, a little

ychydig yn gynharach na Vaughan Gething, efallai, a hefyd bûm yn diwtor gyda'r Brifysgol Agored. Yr hyn yr wyf yn ei groesawu yn natganiad y Gweinidog yw'r cyfle cyfartal i'r bobl sy'n astudio rhan amser. Fel y gwyddom i gyd, ac fel yr wyf yn gwybod fel un sydd wedi bod yn diwtor ar fyfyrwyr rhan amser, mae astudio rhan amser yn anodd iawn, gan eich bod yn y gwaith neu'n cadw teulu, fel y soniodd Angela Burns yn gynharach. Mae gan y bobl sy'n astudio rhan amser mwy o gryfder, gan eu bod wedi aeddfedu. Yr wyf am ofyn i'r Gweinidog am y cymorth sydd ei angen ar y bobl hynny i gadw teulu i fynd—soniodd Simon Thomas am hyn yn gynharach. Darparwyd y Gweinidog yr holl fanylion o ran grantiau a benthyciadau, ond gobeithiaf fydd y gronfa wrth gefn yn aros fel y mae, ac a fydd arian ychwanegol ar gael i'r bobl hyn i'w helpu drwy eu gyrfa.

earlier than Vaughan Gething, perhaps, and was also a tutor with the Open University. What I welcome in the Minister's statement is the equality of opportunity for those who are studying part time. As we all know, and as I know as someone who has been a tutor of part-time students, studying part time is very difficult, as you will be in work or looking after a family, as Angela Burns mentioned earlier. Those who study part time have greater strengths, as they have matured. I would like to ask the Minister about the support that those people need to maintain the family—Simon Thomas mentioned this earlier. The Minister gave all of the details about the grants and loans, but I hope that the reserve fund will remain as it is, and that additional money will be available to help these people through their careers.

**Jenny Rathbone:** We are facing uncharted waters in higher education as a result of the UK Government's decision to withdraw the teaching grant from most subjects, with the exception of science and technology. Undoubtedly, that will have an impact on the shape of the universities of the future, and it is not entirely clear how that will work out in the medium to long term. Happily, in Wales, we are already supporting full-time students who live in Wales. They are protected from the huge hike in fees now being proposed. That is for universities to be able to cover the cost of their courses, but there is no doubt that the tripling of tuition fees for students in England will have a major impact on the way in which universities operate. I am certain that it will lead to an increase in the number of students who will be forced to study part time. It is excellent that, in Wales, we already have a large number of students studying part time and that we are extending to them the support that we already give to full-time students from Wales. That can only be positive. However, I just want to highlight the fact that the future for universities is entirely uncertain and they are probably finding it extremely difficult to plan how they are going to operate in these uncharted waters.

**Jenny Rathbone:** Rydym yn wynebu dyfroedd dieithr mewn addysg uwch o ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth y DU i dynnu'r grant addysgu o'r rhan fwyaf o bynciau, ac eithrio gwyddoniaeth a thechnoleg. Heb os, bydd hynny'n cael effaith ar siâp prifysgolion y dyfodol, ac nid yw'n gwbl glir sut y bydd yn gweithio allan yn y tymor canolig i'r tymor hir. Yn ffodus, yng Nghymru, yr ydym eisoes yn cefnogi myfyrwyr llawn-amser sy'n byw yng Nghymru. Fe'u diogelir rhag y cynnydd enfawr yn y ffioedd sydd bellach yn cael ei gynnig. Mae'n galluogi'r prifysgolion i dalu cost eu cyrsiau, ond nid oes amheuaeth y bydd treblu ffioedd dysgu i fyfyrwyr yn Lloegr yn cael effaith fawr ar sut y mae prifysgolion yn gweithredu. Yr wyf yn sicr y bydd yn arwain at gynnydd yn nifer y myfyrwyr a fydd yn cael eu gorfodi i astudio'n rhan amser. Mae'n wych fod eisoes gennym, yng Nghymru, nifer fawr o fyfyrwyr sy'n astudio'n rhan-amser a'n bod yn ymestyn iddynt y gefnogaeth yr ydym eisoes yn ei rhoi i fyfyrwyr llawn-amser o Gymru. Ni all hynny ond fod yn gadarnhaol. Fodd bynnag, hoffwn dynnu sylw at y ffaith bod dyfodol prifysgolion yn gwbl ansicr a'u bod, mwy na thebyg, yn ei chael yn anodd iawn i gynllunio sut y maent yn mynd i weithredu yn y dyfroedd dieithr hyn.

**The Minister for Education and Skills**

**Y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau**

(**Leighton Andrews):** I will start by responding to the contribution of the Plaid Cymru spokesperson. I welcome his decision not to move amendment 1, and it is our intention to support amendment 2. He focused on the need to ensure equity between full-time and part-time students and that is what we are doing here. We have demonstrated that we are being supportive of students studying at an intensity of above 25 per cent; we are introducing a lower fee that can be charged as a maximum of £7,000, and we are keeping the other forms of grant assistance. Clearly, we will expect higher education institutions, in the context of fee planning, to have arrangements in place for part-time students. This was raised by other Members, the Conservative spokesperson and the Plaid Cymru Member for South Wales West. With regard to the timescale, there are certain amendments going through at a UK level in relation to the Education Bill now that will enable the regulation of part-time fees, which will enable us to put in place the proper arrangements for the planning of part-time study. However, we do not need to operate to the same timescale as we do for full-time students, where, as you know, we have a deadline of the middle of July.

**(Leighton Andrews):** Dechreuaf drwy ymateb i gyfraniad llefarydd Plaid Cymru. Rwyf yn croesawu ei benderfyniad i beidio â chynnig gwelliant 1, a'n bwriad ni yw cefnogi gwelliant 2. Roedd yn canolbwyntio ar yr angen i sicrhau tegwch rhwng myfyrwyr llawn-amser a rhan-amser a dyna beth yr ydym yn ei wneud yma. Rydym wedi dangos ein bod yn cefnogi myfyrwyr sy'n astudio mewn dwyster uwch na 25 y cant; rydym yn cyflwyno ffi is y gellir ei godi fel uchafswm o £7,000, ac rydym yn cadw'r mathau eraill o gymorth grant. Yn amlwg, byddwn yn disgwyl i sefydliadau addysg uwch, yng nghyd-destun cynllunio ffioedd, gael trefniadau ar waith ar gyfer myfyrwyr rhan-amser. Codwyd hyn gan Aelodau eraill, gan gynnwys llefarydd y Ceidwadwyr a'r Aelod Plaid Cymru dros Orllewin De Cymru. O ran yr amserlen, mae rhai newidiadau yn mynd drwyddo ar lefel y DU mewn perthynas â'r Mesur Addysg a fydd yn galluogi rheoli ffioedd rhan-amser, ac a fydd yn ein galluogi i roi ar waith y trefniadau priodol ar gyfer cynllunio astudio rhan-amser. Fodd bynnag, nid oes angen i ni weithredu i'r un amserlen ag yr ydym ar gyfer myfyrwyr llawn-amser, lle, fel y gwyddoch, mae gennym ddyddiad cau o ganol mis Gorffennaf.

In respect of the issues raised by the Conservative spokesperson, again, we are accepting the Conservative amendment today. I welcome her call for a fundamental change in the perception of part-time higher education. She is right to mention that there has been a fall in part-time take-up in recent years. That comes down to a number of factors, some of which relate to the provision being put in place at some of the institutions. However, I think that cost is a factor, and I hope that what we are doing here, by creating effectively an incentive, may lead to a growth in part-time study. With regard to support for employers, larger employers and small and medium-sized enterprises—something raised by the Plaid Cymru Member for South Wales West—the proposal made today will not make significant changes in those respects, but I hope that, through our work with the private sector, we will see the continuing investment by employers in support for study at higher levels of education. That is certainly our intention. Clearly, hardship arrangements will continue through financial contingency

O ran y materion a godwyd gan lefarydd y Ceidwadwyr, unwaith eto, rydym yn derbyn gwelliant y Ceidwadwyr heddiw. Yr wyf yn croesawu ei galwad am newid sylfaenol yng nghanfyddiad addysg uwch rhan-amser. Mae'n iawn i sôn am y ffaith y bu gostyngiad yn y nifer sy'n astudio'n rhan amser yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Daw hynny yn sgil nifer o ffactorau, rhai ohonynt yn ymwneud â'r ddarpariaeth a roddir ar waith yn rhai o'r sefydliadau. Fodd bynnag, credaf fod cost yn ffactor, a gobeithiaf y bydd yr hyn yr ydym yn ei wneud yma, drwy greu cymhelliant, i bob diben, yn gallu arwain at dwf mewn astudio rhan-amser. O ran cefnogaeth i gyflogwyr, cyflogwyr mwy o faint a mentrau bach a chanolig eu maint—a godwyd gan yr Aelod Plaid Cymru dros Orllewin De Cymru—ni fydd y cynnig a wnaed heddiw yn gwneud newidiadau sylweddol o ran hynny, ond yr wyf yn gobeithio, drwy ein gwaith gyda'r sector preifat, y byddwn yn gweld buddsoddiad parhaus gan gyflogwyr o ran cymorth ar gyfer astudio ar lefelau uwch o addysg. Dyna'n sicr ein bwriad. Yn amlwg,

funds and so on.

bydd trefniadau caledi yn parhau drwy gronfeydd ariannol wrth gefn ac yn y blaen.

With regard to the issue she raised on consultation, there has been consultation with higher education institutions and, indeed, with representatives of the student movement. Let me say that they do not always see eye to eye on some of these issues. So, having consultation does not mean that we can automatically endorse the position put forward by the higher education sector.

O ran y mater a godwyd ganddi ar ymgynghori, bu ymgynghori gyda sefydliadau addysg uwch ac, yn wir, gyda chynrychiolwyr o'r mudiad myfyrwyr. Gadewch i mi ddweud nad ydynt bob amser yn gweld llygad wrth lygad ar rai o'r materion hyn. Felly, nid yw ymgynghori yn golygu y gallwn ategu safbwynt a gyflwynwyd gan y sector addysg uwch yn awtomatig.

My colleague the Member for Aberavon spoke from his own experience in higher education and raised the challenges that have occurred in the past in relation to students who have been self-financing. I can confirm to him that the disabled student grant arrangements will, of course, continue. I can also confirm that it is our intention that fees plans will be put in place for part-time study and that our officials will be discussing these with the Higher Education Funding Council for Wales. My colleague the Member for the Pontypridd raised the issue of part-time postgraduate future provision. I cannot give him immediate assurance on that, but I am sure that we will return to this subject in due course. The Liberal Democrat Member for Mid and West Wales welcomed those proposals, and I welcome the support of his party. He referred to the need to boost numbers for Communities First wards, and let me say that that is a real target in HEFCW's corporate plan that has to be achieved. He also asked whether there was any danger that there would be a disincentive to higher education institutions taking up part-time students. We will retain our cap on full-time student numbers, so I do not see there being any disincentive to higher education institutions taking on part-time students.

Mae fy nghydweithiwr yr Aelod dros Aberafan yn siarad o'i brofiad ei hun mewn addysg uwch a chododd yr heriau sydd wedi digwydd yn y gorffennol mewn perthynas â myfyrwyr sydd wedi hunan-ariannu. Gallaf gadarnhau iddo y bydd y trefniadau grant ar gyfer myfyrwyr anabl, wrth gwrs, yn parhau. Gallaf hefyd gadarnhau mai ein bwriad yw y bydd cynlluniau ffioedd yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer astudio'n rhan-amser ac y bydd ein swyddogion yn trafod y rhain gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Cododd fy nghydweithiwr yr Aelod dros Bontypridd y mater o ddarpariaeth ran-amser ôl-raddedig yn y dyfodol. Ni allaf roi sicrwydd iddo ar hwn ar unwaith, ond yr wyf yn siŵr y byddwn yn dychwelyd at y pwnc hwn maes o law. Croesawodd Aelod Democratiaid Rhyddfrydol ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru y cynigion hynny, a chroesawaf gefnogaeth ei blaid. Cyfeiriodd at yr angen i gynyddu'r niferoedd ar gyfer wardiau Cymunedau yn Gyntaf, a gadewch i mi ddweud bod hwnnw'n darged go iawn yng nghynllun corfforaethol CCAUC y mae'n rhaid ei gyflawni. Gofynnodd hefyd a oedd unrhyw berygl y byddai anghymhelliad i sefydliadau addysg uwch o ran cymryd myfyrwyr rhan-amser. Byddwn yn cadw ein cap ar nifer y myfyrwyr llawn-amser, felly nid wyf yn gweld bod unrhyw anghymhelliad i sefydliadau addysg uwch gymryd myfyrwyr rhan-amser.

My colleague the Member for Cardiff South and Penarth, said that it was now a decade since he was a student representative. I think that that probably caused some wincing on the part of my colleagues, the Members for Pontypridd, Blaenau Gwent, Caerphilly and, indeed, myself from the Rhondda. We might

Dywedodd fy nghydweithiwr yr Aelod dros Dde Caerdydd a Phenarth ei bod bellach yn ddegawd ers iddo fod yn gynrychiolydd myfyrwyr. Credaf fod hynny wedi achosi cryn anghysur i fy nghydweithwyr, yr Aelodau dros Bontypridd, Blaenau Gwent, Caerffili ac, yn wir, i mi o'r Rhondda. Efallai

well turn back to him and say 'Only a decade?', but he welcomed the provision that we are putting in place and referred to the economic contribution that part-time study can make, and that is obviously recognised in our strategy 'For Our Future'. He also pointed out the benefits of the repayment systems that we are putting in place.

y byddwn hefyd yn troi yn ôl ato a dweud 'Dim ond degawd?', ond roedd yn croesawu'r ddarpariaeth yr ydym yn ei rhoi ar waith a chyfeiriodd at y cyfraniad economaidd y gall astudio'n rhan-amser ei wneud, a'i fod yn cael ei gydnabod yn amlwg yn ein strategaeth 'Er Mwyn Ein Dyfodol'. Tynnodd sylw hefyd at fanteision y systemau ad-dalu yr ydym yn eu rhoi ar waith.

My colleague the Member for Clwyd South, referred to the continuing importance of widening access and the very important role that has been played in the expansion of part-time study by the Open University. I think that we would all endorse what he said and I am sure that we would all want to take this opportunity to send our best wishes to the director of the Open University in Wales for his recovery from his recent accident.

Cyfeiriodd fy nghydweithiwr yr Aelod dros Dde Clwyd, at bwysigrwydd parhaus ehangu mynediad a'r rôl bwysig iawn sydd wedi cael ei chwarae gan y Brifysgol Agored i ehangu astudio rhan-amser. Credaf y byddem i gyd yn cymeradwyo'r hyn a ddywedodd, ac yr wyf yn siŵr y byddem i gyd yn awyddus i gymryd y cyfle hwn i anfon ein dymuniadau gorau at gyfarwyddwr y Brifysgol Agored yng Nghymru ar gyfer ei adfer o'i ddamwain diweddar.

6.00 p.m.

I now turn to the contribution of the Plaid Cymru Member for South Wales West who had been a member of the Graham review, which was established by one of my predecessors. I will want to return to the issue of previous study. However, we clearly cannot have a funding system that simply enables someone to maintain forms of support from one form of part-time study to another. As I said, we are working on the development of fee plans for part-time study, but that will be at a different timescale from those for full-time study.

Trof yn awr at gyfraniad yr Aelod Plaid Cymru dros Orllewin De Cymru, a oedd yn aelod o adolygiad Graham, a sefydlwyd gan un o fy rhagflaenwyr. Byddaf am ddychwelyd at fater astudiaeth flaenorol. Fodd bynnag, mae'n amlwg na allwn gael system ariannu sy'n galluogi rhywun i gynnal mathau o gefnogaeth o un math o astudiaeth ran-amser i un arall. Fel y dywedais, rydym yn gweithio ar ddatblygu cynlluniau ffioedd ar gyfer astudio rhan-amser, ond bydd hynny ar amserlen wahanol i'r rhai ar gyfer astudiaeth lawn-amser.

My colleague the Member for Llanelli, again speaking from his own experience working in the Open University, also stressed the importance of equality between part-time and full-time students. I can also give him the assurance that we are continuing with the grants that we have had in place in the past, including the financial contingency funds.

Mae fy nghydweithiwr yr Aelod dros Lanelli, unwaith eto yn siarad o brofiad o weithio yn y Brifysgol Agored, hefyd yn pwysleisio bwysigrwydd cydraddoldeb rhwng myfyrwyr rhan-amser a myfyrwyr llawn-amser. Gallaf hefyd ei sicrhau ein bod yn parhau â'r grantiau sydd wedi bod yn eu lle yn y gorffennol, gan gynnwys y cronfeydd ariannol wrth gefn.

My colleague the Member for Cardiff Central raised the general issue of the future of higher education and the challenges that we now face in higher education with the moves towards a more marketised system, particularly in England. She represents a constituency that has a large number of

Cododd fy nghydweithiwr yr Aelod dros Ganol Caerdydd fmater cyffredinol dyfodol addysg uwch a'r heriau a wynebwn yn awr mewn addysg uwch gyda'r symud tuag at system wedi'i marchnadeiddio yn fwy, yn enwedig yn Lloegr. Mae'n cynrychioli etholaeth sydd â nifer fawr o fyfyrwyr. Gall

students. Her own victory may owe something to the way in which parties have changed their policies over the last 12 months. I think that she can speak from great experience of the impact that those policy changes may have had on the student population in Wales and elsewhere.

ei buddugoliaeth fod yn ddyledus i'r ffordd y mae pleidiau wedi newid eu polisïau dros y 12 mis diwethaf. Yr wyf yn meddwl y gall siarad o brofiad mawr am yr effaith y gall y newidiadau polisi hynny eu cael ar boblogaeth myfyrwyr Cymru ac mewn mannau eraill.

I think that the proposals have met cross-party support across the Chamber today, and I am pleased about that. Historically, there has been great commitment in the Assembly to the cause of part-time students, and I commend the proposals to the Assembly.

Rwy'n credu bod y cynigion wedi cwrdd â chefnogaeth drawsbleidiol ar draws y Siambr heddiw, ac yr wyf yn falch o hynny. Yn hanesyddol, bu ymrwymiad mawr yn y Cynulliad i achos myfyrwyr rhan-amser, ac yr wyf yn cymeradwyo'r cynigion i'r Cynulliad.

**The Deputy Presiding Officer:** Amendment 1 was not moved; therefore, the proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? As no Member objects, I declare that it is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd:** Nid yw gwelliant 1 wedi ei symud; felly, y cynnig yw cytuno ar welliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gan nad oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu, yr wyf yn datgan ei fod wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif. 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 2.*
*Amendment 2 agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree amendment 3. Does any Member object? As no Member objects, I declare that amendment 3 is also agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw cytuno ar welliant 3. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gan nad oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu, yr wyf yn datgan fod gwelliant 3 hefyd wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif. 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 3.*
*Amendment 3 agreed.*

*Cynnig NDM4740 fel y'i diwygiwyd:*

*Motion NDM4740 as amended:*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Yn croesawu cynlluniau Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r modd y caiff addysg uwch ran-amser ei ariannu ac i sicrhau cyllid mwy teg ar gyfer myfyrwyr rhan-amser sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru.*

*Welcomes the Welsh Government's plans to reform the funding of part-time higher education and to provide fairer funding for part-time students ordinarily resident in Wales.*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau mai nod y diwygio hwn yw trin myfyrwyr rhan-amser ac amser llawn yn gyfartal.*

*Calls on the Welsh Government to ensure that the aim of this reform is to treat part and full-time students as equals.*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgynghori'n llawn â sefydliadau addysg uwch wrth asesu effaith unrhyw newidiadau*

*Calls on the Welsh Government to consult fully with higher education institutions when assessing the impact of any changes to*

*i'r trefniadau cyllido ar gyfer addysg uwch ran-amser.*

*funding arrangements for part-time higher education.*

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion as amended. Does any Member object? As no Member objects, I declare the motion as amended approved in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw cytuno ar y cynnig fel y'i diwygiwyd. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gan nad oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu, datganaf fod y cynnig fel y'i diwygiwyd wedi'i gymeradwyo yn unol â Rheol Sefydlog Rhif. 12.36.

*Derbyniwyd cynnig NDM4740 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM4740 as amended agreed.*

## Dadl Fer
## Short Debate

### Prydau Ysgol Heb Stigma
### Stigma-free School Meals

**Joyce Watson:** I welcome the opportunity to debate this topic today and I thank Members for their expressions of interest in contributing to what, I hope, will be a constructive debate. I am pleased to allow time for Keith Davies, Julie Morgan, Ken Skates and Jenny Rathbone to make contributions. I also look forward to hearing the Minister's response.

**Joyce Watson:** Croesawaf y cyfle i drafod y pwnc hwn heddiw, a diolchaf i'r Aelodau am eu datganiadau o ddiddordeb wrth gyfrannu at yr hyn a fydd, gobeithio, yn ddadl adeiladol. Yr wyf yn falch i ganiatáu amser i Keith Davies, Julie Morgan, Ken Skates a Jenny Rathbone wneud cyfraniadau. Rwyf hefyd yn edrych ymlaen at glywed ymateb y Gweinidog.

As a member of the previous Assembly's Children and Young People Committee, I was part of a group that considered children's quality of life. We made many recommendations for how the Welsh Government might make the experience of growing up in Wales a safer and happier one. One recommendation in particular that I wish to expand upon today presents us with a real opportunity to alleviate the feelings of embarrassment, or sometimes shame, that some children experience each school day, and could deliver wider benefits to schools, pupils and parents. For years, children who have had free school meals have had to use dinner tickets to purchase their lunch, and these are still used in many, if not most, schools today.

Fel aelod o Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cynulliad blaenorol, roeddwn yn rhan o grŵp a oedd yn ystyried ansawdd bywyd plant. Gwnaethom nifer o argymhellion ar gyfer sut y gallai Llywodraeth Cymru wneud y profiad o dyfu i fyny yng Nghymru yn un mwy diogel ac hapusach. Mae un argymhelliad yn benodol yr hoffwn ymhelaethu arno heddiw yn rhoi cyfle gwirioneddol i leddfu teimladau o embaras, neu weithiau gywilydd, y mae rhai plant yn ei brofi pob diwrnod ysgol, a gallai sicrhau manteision ehangach i ysgolion, disgyblion a rhieni. Am flynyddoedd, mae plant sydd wedi cael prydau ysgol am ddim wedi gorfod defnyddio tocynnau cinio i brynu eu cinio, ac mae'r rhain yn dal i gael eu defnyddio mewn llawer, os nad y mwyafrif, o ysgolion heddiw.

Children who have to queue with these tickets are marked out from a young age, yet investment in technology can protect our children's dignity and benefit parents,

Mae plant sy'n gorfod ciwio gyda'r tocynnau hyn yn cael eu labelu o oedran ifanc, ond gall buddsoddi mewn technoleg amddiffyn urddas ein plant a bod o fudd i rieni, ysgolion a

schools and education planners. At best, ticket systems are inefficient for schools to operate and, at worst, they promote segregation among pupils, which can have a far-reaching bearing on a young person's school life and far beyond. Either way, it is outdated and we must change it.

chynllunwyr addysg. Ar y gorau, mae systemau tocynnau yn aneffeithlon i ysgolion eu gweithredu ac, ar y gwaethaf, maent yn hyrwyddo gwahanu ymhlith disgyblion, a all gael effaith pellgyrhaeddol ar fywyd ysgol person ifanc ac ymhell y tu hwnt. Y naill ffordd neu'r llall, mae'n hen ffasiwn ac mae'n rhaid i ni ei newid.

Children learn many lessons in school, but one that they should not have to learn is that what is in your purse or your wallet can limit what you aspire to do. It is why schools are only allowed to ask for contributions towards school trips, rather than payment. Nowhere in schools do financial backgrounds become more uncomfortably visible than in the school canteen.

Mae plant yn dysgu llawer o wersi yn yr ysgol, ond un na ddylent orfod ei ddysgu yw y gall yr hyn sydd yn eich pwrs neu eich waled gyfyngu ar yr hyn rydych yn anelu at ei wneud. Dyna pam bod gan ysgolion yr hawl i ofyn am gyfraniadau yn unig tuag at deithiau ysgol, yn hytrach na thâl. Nid oes unman arall mewn ysgolion lle mae cefndiroedd ariannol yn fwy anghyfforddus o weladwy nag yn ffreutur yr ysgol.

The Minister will be well aware of the arguments in favour of cashless systems because he has actively encouraged local authorities to adopt them, and he has argued for the right of every pupil to access free school meals without fear of being stigmatised. In response to the follow up inquiry into child poverty, he accepted the recommendation that the Welsh Government should guide local government on how to create stigma-free meal systems, and announced that such systems should be in place by September 2012.

Bydd y Gweinidog yn ymwybodol iawn o'r dadleuon o blaid systemau heb arian parod gan ei fod wedi annog awdurdodau lleol i'w mabwysiadu, ac mae wedi dadlau dros hawl pob disgybl i gael mynediad i brydau ysgol am ddim heb ofni cael eu stigmateiddio. Mewn ymateb i'r ymchwiliad dilynol i dlodi plant, derbyniodd yr argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru rhoi arweiniad i lywodraeth leol ar sut i greu systemau prydau am ddim di-stigma, a chyhoeddodd y dylai systemau o'r fath fod ar waith erbyn mis Medi 2012.

It is my hope that we will meet this target, because there is a mixed picture in Wales at present. In Denbighshire, for example, all of the secondary schools use cashless systems, whereas in Anglesey, none of them do. Of the 13 secondary schools in Carmarthenshire, five are cashless, two are going cashless next year and two more hope to introduce systems the following year. In my region of Mid and West Wales, beyond Carmarthenshire, Gwynedd, Ceredigion, Pembrokeshire and Powys only have one or two schools with cashless meal systems. Therefore, the take-up of these systems varies from county to county and from school to school.

Fy ngobaith i yw y byddwn yn cyrraedd y targed hwn, oherwydd mae darlun cymysg yng Nghymru ar hyn o bryd. Yn sir Ddinbych, er enghraifft, mae pob un o'r ysgolion uwchradd yn defnyddio systemau di-arian, tra yn Ynys Môn nid oes yr un ohonynt yn eu defnyddio. O'r 13 ysgol uwchradd yn sir Gaerfyrddin, bydd pump yn mynd heb arian y flwyddyn nesaf ac mae dwy arall yn gobeithio cyflwyno systemau y flwyddyn wedyn. Yn fy rhanbarth i, sef Canolbarth a Gorllewin Cymru, y tu hwnt i sir Gaerfyrddin, yng Ngwynedd, Ceredigion, sir Benfro a Phowys, dim ond un neu ddwy o ysgolion sydd â systemau prydau heb arian. Felly, mae'r manteisio ar y systemau hyn yn amrywio o sir i sir ac o ysgol i ysgol.

We must not forget that there is also a legal requirement on all schools to protect the identity of pupils. The Healthy Eating in

Rhaid i ni beidio ag anghofio hefyd bod gofyniad cyfreithiol ar bob ysgol i ddiogelu manylion adnabod disgyblion. Mae'r Mesur

Schools (Wales) Measure 2009 states that a local authority must take reasonable steps to ensure that a pupil cannot be identified as receiving school lunch free of charge.

Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 yn datgan bod rhaid i awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i sicrhau na all disgybl gael ei adnabod fel rhywun sy'n derbyn cinio ysgol yn rhad ac am ddim.

Where they have been introduced, biometric or swipe card systems have had a positive impact. In Glan-y-Môr School in Burry Port, which was the first school in Carmarthenshire to introduce the technology seven years ago, I have seen how its system works and I have spoken to pupils and staff about their experiences of using it. Everyone, including canteen staff, teachers and pupils, said that the system had improved their lunchtimes.

Lle maent wedi cael eu cyflwyno, mae systemau cardiau biometrig neu sweip wedi cael effaith gadarnhaol. Yn Ysgol Glan-y-Môr ym Mhorth Tywyn, yr ysgol gyntaf yn sir Gaerfyrddin i gyflwyno'r dechnoleg, saith mlynedd yn ôl, yr wyf wedi gweld sut y mae ei system yn gweithio ac rwyf wedi siarad â disgyblion a staff am eu profiad o'i ddefnyddio. Dywedodd pawb, gan gynnwys staff y ffreutur, athrawon a disgyblion, bod y system wedi gwella eu hamser cinio.

Schools such as Glan-y-Môr that have become cashless have ensured that pupils having free school meals cannot be identified, and bullying for dinner money has been greatly reduced. It has ensured that pupils cannot spend all of their lunch money on snack food, or save it up to buy other things that might be much more harmful than that. It has also cut queues and it gives pupils time to eat and socialise with friends. It has also helped parents and pupils to jointly plan healthy diets, and we know from Labour's successful free school breakfast initiative that when children eat better, they do better in class.

Mae ysgolion fel Glan-y-Môr sydd wedi symud at system heb arian wedi sicrhau na all disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim gael eu hadnabod, ac mae bwlio am arian cinio wedi cael ei leihau yn fawr. Mae wedi sicrhau na all disgyblion wario'u holl arian cinio ar fyrbrydau, neu ei gadw i brynu pethau eraill a allai fod yn llawer mwy niweidiol na hynny. Mae hefyd wedi torri ciwiau ac mae'n rhoi amser i ddisgyblion fwyta a chymdeithasu gyda ffrindiau. Mae hefyd wedi helpu rhieni a disgyblion i gynllunio deiet iach ar y cyd, a gwyddom o fenter lwyddiannus brecwast ysgol am ddim y Blaid Lafur, pan fydd plant yn bwyta yn well, maent yn gwneud yn well yn y dosbarth

This is a crucial point, because research by the School Food Trust suggests that the stigma often associated with free school meals, especially in schools where pupils entitled to it are in the minority, can influence the likelihood of pupils taking up that entitlement. If young people are not having the free dinner that they are entitled to or are skipping lunch altogether because of a fear of being teased, that is a big failure.

Mae hwn yn bwynt hollbwysig, gan fod ymchwil gan Ymddiriedolaeth Bwyd Ysgol yn awgrymu bod y stigma sy'n aml yn gysylltiedig â phrydau ysgol am ddim, yn enwedig mewn ysgolion lle mae'r disgyblion sydd â hawl iddo yn y lleiafrif, yn gallu dylanwadu ar y tebygolrwydd y bydd disgyblion yn ymgymryd â'r hawl honno. Os nad yw pobl ifanc yn cael y cinio rhad ac am ddim y mae ganddynt hawl iddo neu yn mynd heb ginio yn gyfan gwbl oherwydd ofn o gael eu pryfocio, mae hynny'n fethiant mawr.

In the School Food Trust's 2009 report, 'Please Sir? Can we have some more?—lessons from Free School Meal initiatives', it also reports that stigma influences the likelihood of parents registering their children for free school meals. My concern is that, since 2009, with the public sector cuts

Yn adroddiad 2009 yr Ymddiriedolaeth Bwyd Ysgol, *'Please Sir? Can we have some more?—lessons from Free School Meal initiatives'*, mae hefyd yn adrodd bod stigma yn dylanwadu ar y tebygolrwydd o rieni yn cofrestru eu plant i dderbyn prydau ysgol am ddim. Fy mhryder yw, ers 2009, gyda'r

imposed by the Tory Government, many more families will have become entitled to free school meals, perhaps for the first time, and parents may not have registered for free school meals because of the perceived stigma attached to them.

toriadau yn y sector cyhoeddus gan y Llywodraeth Dorïaidd, bod llawer mwy o deuluoedd wedi dod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, efallai am y tro cyntaf, ac efallai na fydd rhieni wedi cofrestru i gael prydau ysgol am ddim oherwydd y stigma canfyddedig ynghlwm wrthynt.

Going cashless comes at a price. For secondary schools, depending on whether they introduce a biometric or swipe card system and depending on the supplier, it typically costs between £15,000 and £30,000 to install, but the ongoing cost is £2,000 a year to maintain. Charges are usually lower for primary schools, but I would argue that there would be an opportunity to reduce those costs if, instead of introducing the technology in a piecemeal, school-by-school way, we looked towards joint commissioning, especially if it were linked to other systems in the school such as the library, registration or school transport. Local authorities and individual schools should consider this and the Welsh Government might be able to facilitate and encourage it.

Mae pris i'w dalu am fynd heb arian. Ar gyfer ysgolion uwchradd, yn dibynnu ar pa un ai ydynt yn cyflwyno system gardiau biometrig neu sweip ac yn dibynnu ar y cyflenwr, mae fel arfer yn costio rhwng £15,000 a £30,000 i'w osod, ond y gost barhaus i'w gynnal yw £2,000 y flwyddyn. Mae taliadau fel arfer yn is ar gyfer ysgolion cynradd, ond byddwn yn dadlau y byddai cyfle i leihau'r costau hynny os, yn hytrach na chyflwyno'r dechnoleg mewn dull tameidiog, ysgol-wrth-ysgol, ydym yn edrych ar gomisiynu ar y cyd, yn enwedig os oedd yn gysylltiedig â systemau eraill yn yr ysgol megis y llyfrgell, cofrestru neu gludiant ysgol. Dylai awdurdodau lleol ac ysgolion unigol ystyried hyn a gallai Llywodraeth Cymru ei hwyluso a'i annog.

Biometric systems are controversial and must only ever be used with parents' support. Glan-y-Môr School operates both fingerprint technology and swipe cards in case parents object to the school having access to their child's personal data, but the vast majority of pupils and parents have apparently opted for biometric ID, not least because it has removed the problem and the expense of replacing lost cards. Replacing a lost card will cost the pupil £1, but their free school entitlement is only £2 a day.

Mae systemau biometrig yn ddadleuol a gallant ond gael eu defnyddio gyda chefnogaeth rhieni. Mae Ysgol Glan-y-Môr yn gweithredu technoleg olion bysedd a chardiau sweep rhag ofn bod rhieni yn gwrthwynebu'r ffaith bod gan yr ysgol fynediad i ddata personol eu plentyn, ond mae mwyafrif helaeth y disgyblion a'r rhieni, yn ôl pob golwg, wedi dewis dull adnabod biometrig, nid lleiaf oherwydd ei fod wedi cael gwared ar y broblem a'r gost o ailosod cardiau coll. Mae ailosod cerdyn coll yn costio £1 i'r disgybl, ond dim ond £2 y dydd yw eu hawl pryd ysgol am ddim.

Overall, the benefits of going cashless far outweigh the costs. By speeding up lunch services by up to three times and by increasing the take-up of free school meals from an average of 68 per cent to something like 90 per cent, it offers a real chance of monitoring healthy school meals. It is our duty to offer stigma-free school meals.

At ei gilydd, mae'r manteision o fynd heb arian yn llawer mwy na'r costau. Drwy gyflymu'r gwasanaethau cinio hyd at dair gwaith a thrwy gynyddu'r nifer sy'n cael prydau ysgol am ddim o gyfartaledd o 68 y cant i rywbeth fel 90 y cant, mae'n cynnig cyfle go iawn i fonitro prydau ysgol iach. Mae'n ddyletswydd arnom i gynnig prydau bwyd ysgol di-stigma.

**Julie Morgan:** I congratulate Joyce Watson on getting this important debate, because the

**Julie Morgan:** Yr wyf yn llongyfarch Joyce Watson ar gael y ddadl bwysig hon,

issue of stigma is tremendously important. The last thing that we want to do is to have young people and children growing up in Wales with the feeling that they are second-class citizens; therefore, this is an important debate. I want to refer briefly to a visit that I made to Sweden with the Welsh Affairs Committee. We visited a secondary school and had a school dinner with all the students. Everyone either had vegetarian chilli or meat chilli with rice and a big pile of lettuce, and you could drink only water. Absolutely everyone participated in those meals; that is, the students and the staff ate together. It was a very impressive and significant occasion. One of the major reasons for that total participation was the fact that the school meals were free. I want to make the point that it is tremendous that the Welsh Government has managed to introduce free school breakfasts in schools; it is of huge benefit. I know that, financially, times are tight, but I needed to use the opportunity provided by this debate to say that we should move towards universal free school meals, because I do not think that you can ever completely get rid of stigma otherwise. The children may know that they are having free school meals, which may affect their view of themselves and make them think of themselves as second-class citizens. I wanted to make that point in today's debate.

oherwydd mae'r mater o stigma yn hynod bwysig. Y peth olaf rydym am ei wneud yw cael pobl ifanc a phlant sy'n tyfu i fyny yng Nghymru gyda'r teimlad eu bod yn ddinasyddion eilradd; ac felly, mae hon yn ddadl bwysig. Yr wyf am gyfeirio'n fyr at ymweliad a wneuthum â Sweden gyda'r Pwyllgor Materion Cymreig. Buom yn ymweld ag ysgol uwchradd, gan fwyta cinio ysgol gyda'r holl fyfyrwyr. Cafodd bawb naill ai chilli llysieuol neu chilli cig gyda reis a phentwr mawr o letys, a dim ond dŵr oedd i'w yfed. Roedd pawb yn cymryd rhan yn y prydau hynny; hynny yw, roedd y myfyrwyr a'r staff yn bwyta gyda'i gilydd. Roedd yn achlysur trawiadol a sylweddol iawn. Un o'r prif resymau am y cyfranogiad llwyr hwnnw oedd y ffaith bod y prydau ysgol am ddim. Yr wyf am wneud y pwynt ei bod yn wych bod Llywodraeth Cymru wedi llwyddo i gyflwyno brecwast ysgol am ddim mewn ysgolion; mae o fudd mawr. Gwn fod arian yn dynn, ond roedd angen i mi ddefnyddio'r cyfle a ddarperir gan y ddadl hon i ddweud y dylem symud tuag at brydau ysgol am ddim i bawb, oherwydd nid wyf yn meddwl y gallwch chi fyth gael cael gwared ar stigma yn llwyr fel arall. Efallai y bydd y plant yn gwybod eu bod yn cael prydau ysgol am ddim, a allai effeithio ar eu barn amdanynt eu hunain a gwneud iddynt feddwl am eu hunain fel dinasyddion eilradd. Roeddwn eisiau gwneud y pwynt hwnnw yn y ddadl heddiw.

**The Deputy Presiding Officer:** That was one minute and 30 seconds. I am in a fairly generous mood, but let us try to keep these speeches to a minute before the Minister replies.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr oedd hwnnw'n un funud a 30 eiliad. Yr wyf mewn hwyliau eithaf hael, ond gadewch inni geisio cadw'r areithiau hyn i un funud cyn i'r Gweinidog ateb.

**Keith Davies:** Yr wyf hefyd yn falch o gael y cyfle i drafod y mater pwysig hwn. Mae'n rhaid imi ddatgan buddiant, achos yr wyf ar gorff llywodraethu Ysgol Gyfun y Strade, sy'n defnyddio'r system fiometrig, ac yn dad i ddau fachgen yn eu harddegau sy'n defnyddio'r system hon. Mae'r hyn a ddywedodd Joyce Watson yn bwysig imi oherwydd yr wyf yn cofio, pan oeddwn yn gweithio yn y system addysg, fod y plant oedd yn cael bwyd am ddim yn cael tocynnau a byddent yn mynd i dalu gyda thocyn. Yr oedd nifer o blant, yn fy mhrofiad i, yn gwrthod defnyddio'r system a byddent yn mynd heb fwyd oherwydd y stigma. Mae'r

**Keith Davies:** I am also pleased to have the opportunity to discuss this important issue. I must declare an interest because I am on the governing body of Ysgol Gyfun y Strade, which uses the biometric system, and I am the father of two boys in their teens who use this system. What Joyce Watson has said is important to me because I remember, when I worked in the education system, that the children who received food for free received tickets and would pay using a ticket. In my experience, a number of children refused to use the system and they would go without food because of the stigma. The new system removes that. What is also important in this

system newydd yn cael gwared ar hynny. Yr hyn sydd hefyd yn bwysig yn y system hon yw ei bod ar gyfer pob plentyn. Mae fy mhlant yn cael arian i fynd i'r ysgol ac maent yn ei dalu mewn rhyw fodd neu'i gilydd drwy focsys casglu. Pan fyddant yn mynd i ddewis eu bwyd, maent yn rhoi bys ar beiriant sydd yn dangos eu llun a chynnwys calorïau'r bwyd. Mae hefyd yn dweud wrthynt faint o arian sydd ar ôl ganddynt, felly mae'n meithrin eu sgiliau o ran edrych ar ôl eu harian. Am yr holl resymau hynny, yr wyf yn cefnogi'r syniad, ac yr wyf yn credu dylai bob ysgol yng Nghymru ddefnyddio'r system.

system is that it is for every child. My children have money to go to school and they pay it in in some way or another through collection boxes. When they go to choose their food, they place their finger on a machine which shows their picture and the calorie content of the food. It also tells them how much money they have left, so it develops their skills in terms of looking after their money. For all those reasons, I support this idea, and I think that all schools in Wales should adopt the system.

6.15 p.m.

**Kenneth Skates:** It is a sad reflection on the opposition parties that they are not here today; it gives the impression that they care more about culling badgers than the welfare of children. I welcome the opportunity to discuss this. It is crucial that children have proper, nutritious meals, and on free school breakfasts, the detractors were wrong: if you are to have a proper education, you have to get energy into your body from the start of the day. I welcome the rolling out of cashless systems in many north Wales schools in particular, but I wonder, like Julie, whether we could move to look at adopting universal free school dinners. Opponents primarily focus on the costs, but they ignore the economies of scale that stem from universal FSD, as I will call them, and the savings related to reduced administration costs.

**Kenneth Skates:** Mae'n adlewyrchiad trist ar y gwrthbleidiau nad ydynt yma heddiw; mae'n rhoi'r argraff eu bod yn poeni mwy am ddifa moch daear nac am les plant. Croesawaf y cyfle i drafod hyn. Mae'n hanfodol bod plant yn cael prydau bwyd priodol, maethlon, ac ar frecwast am ddim mewn ysgolion, roedd y gwrthwynebwyr yn anghywir: os ydych am gael addysg briodol, rhaid i chi gael egni i mewn i'ch corff o ddechrau'r dydd. Yr wyf yn croesawu gweithredu'r systemau heb arian parod mewn llawer o ysgolion yng ngogledd Cymru yn arbennig, ond tybed, fel Julie, a fyddai modd i ni symud i edrych ar fabwysiadu cinio ysgol am ddim i bawb? Mae gwrthwynebwyr yn canolbwyntio'n bennaf ar y costau, ond maent yn anwybyddu'r arbedion maint sy'n deillio o ginio ysgol am ddim yn gyffredinol, a'r arbedion yn ymwneud â chostau gweinyddol llai.

The biggest cost saving is in terms of health. The link between educational achievement and food in schools is undeniable. The latest research from Hull, where studies into the benefits of universal FSD have taken place, shows that 80 per cent of teachers report having more focused classes. They also report a reduction in health inequalities and improvements in health across the socioeconomic groups. In terms of health, we are living with a time bomb: by 2020, if trends continue, we will find that half of our children are obese.

Mae'r arbediad cost mwyaf o ran iechyd. Mae'r cysylltiad rhwng cyflawniad addysgol a bwyd mewn ysgolion yn ddiymwad. Mae'r gwaith ymchwil diweddaraf o Hull, lle mae astudiaethau i fanteision cyffredinol prydau ysgol am ddim wedi digwydd, yn dangos bod 80 y cant o athrawon yn dweud bod ganddynt dosbarthiadau â mwy o ffocws. Maent hefyd yn adrodd gostyngiad mewn anghydraddoldebau iechyd a gwelliannau mewn iechyd ar draws y grwpiau economaidd-gymdeithasol. O ran iechyd, yr ydym yn byw gyda bom amser: erbyn 2020, os bydd y tueddiadau yn parhau, byddwn yn gweld bod hanner ein plant yn ordew.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. You need to make your final remarks now.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Mae angen i chi wneud eich sylwadau terfynol yn awr.

**Jenny Rathbone:** I declare an interest as a governor of Llanedeyrn High School, where we do not have a swipe card and, as a result, many students who are entitled to free school meals do not take them up. As a result, some students are suffering from malnutrition. I have sat with some during the lunch hour who will have had a chocolate bar for breakfast, a portion of chips for lunch and, if they are lucky, a bowl of soup for supper. That is a pretty deplorable situation and it clearly has an impact on their ability to concentrate in lessons.

**Jenny Rathbone:** Datganaf fuddiant fel llywodraethwr Ysgol Uwchradd Llanedeyrn, lle nad oes gennym gerdyn sweip ac, o ganlyniad, nid yw llawer o fyfyrwyr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn eu cymryd. O ganlyniad, mae rhai myfyrwyr yn dioddef o ddiffyg maeth. Yr wyf wedi eistedd gyda rhai yn ystod yr awr ginio a fydd wedi cael bar siocled i frecwast, sglodion i ginio ac, os ydynt yn lwcus, bowlen o gawl i swper. Mae honno'n sefyllfa eithaf truenus ac mae'n amlwg yn cael effaith ar eu gallu i ganolbwyntio yn y gwersi.

I have also visited Willows High School in Tremorfa, where they have a swipe card system and students with a similar social profile. At that school, there is a far greater uptake of the hot meals provided, which is most beneficial in terms of getting students through the school day, as well as for their long-term health. The swipe cards also improve the management of the lunch hour for the staff who can get people through the canteen that much quicker. I wholly endorse the comments of Julie and Ken Skates about looking at free school meals for everybody. In Islington, where they now have free school meals for all primary school children, they have had a huge increase in uptake of benefit entitlements, which feeds into the overall economy.

Rwyf hefyd wedi ymweld ag Ysgol Uwchradd Willows yn Nhremorfa, lle mae ganddynt system cerdyn sweip a myfyrwyr sydd â phroffil cymdeithasol tebyg. Yn yr ysgol honno, mae llawer mwy yn manteisio ar y prydau bwyd poeth a ddarperir, sydd yn fuddiol iawn o ran cael myfyrwyr trwy'r diwrnod ysgol, yn ogystal ag ar gyfer eu hiechyd yn y tymor hir. Mae'r cardiau sweip hefyd yn gwella rheolaeth yr awr ginio o ran y staff sy'n gallu cael pobl drwy'r ffreutur yn llawer cyflymach. Yr wyf yn llwyr gymeradwyo sylwadau Julie a Ken Skates am edrych ar brydau ysgol am ddim i bawb. Yn Islington, lle y maent yn awr yn cael prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd, maent wedi gweld cynnydd enfawr yn yr hawliadau budd-dal, sy'n bwydo i mewn i'r economi yn gyffredinol.

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** I start by congratulating Joyce on the debate and the subject that she chose for it. I share the view that it is of critical importance that children and young people who are entitled to free school meals are not stigmatised. As a secondary school pupil, I was entitled to free school meals and I recall the arrangements for queuing and the collection of dinner money in ways that were unquestionably stigmatising. I recall that, in the 1970s, when the first studies were done, the Child Poverty Action Group produced a report on free school meals entitled, 'Badge of Poverty'. This debate has therefore been with us for some time.

**Y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Dechreuaf drwy longyfarch Joyce ar y drafodaeth a'r pwnc a ddewisodd ar ei chyfer. Yr wyf o'r farn ei bod yn hanfodol bwysig nad yw plant a phobl ifanc sydd â'r hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cael eu stigmateiddio. Fel disgybl ysgol uwchradd, yr oedd gen i'r hawl i gael prydau ysgol am ddim ac rwyf yn cofio'r trefniadau ar gyfer ciwio a chasglu arian cinio mewn ffyrdd a oedd yn ddiamheuol yn stigmateiddio. Yr wyf yn cofio, yn y 1970au, pan wnaethpwyd yr astudiaethau cyntaf, i'r Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant gynhyrchu adroddiad ar brydau ysgol am ddim o'r enw, 'Bathodyn Tlodi'. Felly, mae'r ddadl hon wedi bod gyda ni ers peth amser.

The latest figures from the annual school census of 2010 show that, on census day, 26 per cent of pupils—around 21,000—did not take up their entitlement to free school meals. We know that the challenges facing school meal services in secondary schools are usually greater than those facing school meal services in primary schools. The take-up of free school meals in secondary schools is 68 per cent, but there are huge variations between secondary schools, ranging from 16 per cent to 100 per cent. Before we identify the potential solutions for increasing take-up, we need to understand why pupils choose not to take up their entitlement. These reasons are complex, and certainly include stigma, but can also include the food on offer, the ability to go off-site during lunch time, commitment to other activities and problems associated with the whole food experience, such as queuing and the dining-room environment.

Mae'r ffigurau diweddaraf o gyfrifiad ysgol blynyddol 2010 yn dangos, ar ddiwrnod y cyfrifiad, nad oedd 26 y cant o ddisgyblion—tua 21,000—wedi manteisio ar eu hawl i gael prydau ysgol am ddim. Rydym yn gwybod bod yr heriau sy'n wynebu gwasanaethau prydau ysgol mewn ysgolion uwchradd fel arfer yn fwy na'r rheini sy'n wynebu gwasanaethau prydau ysgol mewn ysgolion cynradd. Mae'r nifer sy'n cael prydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd yn 68 y cant, ond mae yna amrywiadau mawr rhwng ysgolion uwchradd, yn amrywio o 16 y cant i 100 y cant. Cyn i ni nodi atebion posibl ar gyfer cynyddu niferoedd, mae angen inni ddeall pam mae disgyblion yn dewis peidio â manteisio ar eu hawl. Mae'r rhesymau hyn yn gymhleth, ac yn sicr yn cynnwys stigma, ond gall hefyd gynnwys y bwyd a gynigir, y gallu i fynd oddi ar y safle yn ystod amser cinio, ymrwymiad i weithgareddau a phroblemau eraill sy'n gysylltiedig â'r profiad bwyd yn gyfan gwbl, megis ciwio ac amgylchedd yr ystafell fwyta.

Joyce referred to the Children and Young People Committee's report into child poverty, published in February this year, which included a recommendation relating to the provision of stigma-free school meals. Taking into account the findings of that committee, we have been working with the Welsh Local Government Association to take forward further work on free school meals. As a first stage, the WLGA wrote to all 22 directors of education, seeking to establish what systems secondary schools currently operate or plan to introduce for payment of school meals, and how that may affect pupils accessing their free school meal entitlement.

Cyfeiriodd Joyce at adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar dlodi plant, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror eleni, a oedd yn cynnwys argymhelliad yn ymwneud â darparu prydau bwyd ysgol di-stigma. Gan ystyried y canfyddiadau o'r pwyllgor hwnnw, rydym wedi bod yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i symud y gwaith ymlaen ymhellach ar brydau ysgol am ddim. Fel cam cyntaf, ysgrifennodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru at bob un o'r 22 cyfarwyddwyr addysg, gan geisio sefydlu pa systemau ysgolion uwchradd sydd ar hyn o bryd yn weithredol neu y bwriedir eu cyflwyno ar gyfer talu am brydau ysgol, a sut y gallai hynny effeithio ar ddisgyblion yn cael mynediad i'w hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Information was received for 213 of the 222 secondary schools. From this work, we know that 38 per cent, or 81 schools, operate cashless payment systems for school meals; 2 per cent, or five schools, operate cashless systems and achieve 100 per cent take-up of free school meals; 3 per cent, or seven schools, do not operate cashless systems, but achieve 100 per cent take-up of free meals; two schools with cashless systems achieve

Derbyniwyd gwybodaeth ar gyfer 213 o'r 222 o ysgolion uwchradd. O'r gwaith hwn, rydym yn gwybod bod 38 y cant, neu 81 o ysgolion, yn gweithredu systemau talu heb arian ar gyfer prydau ysgol; mae 2 y cant, neu bump o ysgolion, yn gweithredu systemau heb arian ac yn cyflawni 100 y cant sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim; mae 3 y cant, neu saith o ysgolion, nad ydynt yn gweithredu systemau heb arian, ond yn

free meal take-up between 10 and 19 per cent only. Indeed, the three schools with the lowest take-up all have cashless systems. We know that cashless systems, where they work well, are successful, and Keith Davies illustrated that from his own experience and demonstrated the wider skills that pupils can learn from them.

cyflawni 100 y cant yn manteisio ar brydau am ddim; mae dwy ysgol gyda systemau heb arian yn cyflawni manteisio ar brydiau am ddim rhwng 10 a 19 y cant yn unig. Yn wir, mae gan y dair ysgol gyda'r manteisio isaf systemau heb arian. Rydym yn gwybod bod systemau heb arian, lle maent yn gweithio'n dda, yn llwyddiannus, a dangosodd Keith Davies hynny o'i brofiad ei hun a dangosodd y sgiliau ehangach y gall disgyblion ddysgu oddi wrthynt.

However, the information gathered suggests that cashless systems do not always result in higher levels of take-up of free school meals and that other factors, such as the environment, the off-site policy and food provision, may also impact on pupils' decisions. We will continue to work with the WLGA to look at case studies that can improve take-up of free meals at school level and we will disseminate these case studies to schools in the autumn term.

Fodd bynnag, mae'r wybodaeth a gasglwyd yn awgrymu nad yw systemau heb arian parod bob amser yn arwain at lefelau uwch o fanteisio ar brydau ysgol am ddim ac y gall ffactorau eraill, megis yr amgylchedd, y polisi oddi-ar-y-safle a darpariaeth bwyd, hefyd effeithio ar benderfyniadau disgyblion. Byddwn yn parhau i weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i edrych ar astudiaethau a all wella'r nifer sy'n cael prydau am ddim ar lefel ysgol a byddwn yn lledaenu'r astudiaethau hyn i ysgolion yn ystod tymor yr hydref.

As part of the wider work that we have in train to raise awareness of the availability of free school meals, we have developed information sheets for local authorities and schools to issue to parents and information packs for local authorities to use when responding to queries on eligibility. This information is also available via the citizens advice bureaux and the family information services. All local authorities have access to an online eligibility checking system, making the application process easier and quicker for parents.

Fel rhan o'r gwaith ehangach sydd gennym ar y gweill i godi ymwybyddiaeth o argaeledd prydau ysgol am ddim, rydym wedi datblygu taflenni gwybodaeth ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion i roi i rieni a phecynnau gwybodaeth ar gyfer awdurdodau lleol i'w defnyddio wrth ymateb i ymholiadau ar gymhwysedd. Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael drwy ganolfannau cyngor ar bopeth a gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd. Mae gan bob awdurdod lleol fynediad at system wirio cymhwysedd ar-lein, gan wneud y broses ymgeisio yn haws ac yn gyflymach i rieni.

Jenny Rathbone brought up the issue of poor diet, which is a major contributory factor to health inequalities. In February 2008, we published the 'Appetite for Life Action Plan', setting out our agenda for improving the food and drink provided in schools. This agenda included the commissioning of a two-year project to test and develop draft guidelines for implementing the food and nutritional standards proposed in the 'Appetite for Life Action Plan'. The project report was published in December last year and provides detailed information about pupils' experiences of food in school and the work

Cododd Jenny Rathbone y mater o ddeiet gwael, sy'n ffactor mawr sy'n cyfrannu at anghydraddoldebau iechyd. Ym mis Chwefror 2008, cyhoeddwyd y 'Cynllun Gweithredu Blas am Oes', yn nodi ein hagenda ar gyfer gwella bwyd a diod a ddarperir mewn ysgolion. Mae'r agenda hon yn cynnwys comisiynu prosiect dwy flynedd i brofi a datblygu canllawiau drafft ar gyfer gweithredu'r safonau bwyd a maeth a gynigir yn y 'Cynllun Gweithredu Blas am Oes'. Cyhoeddwyd adroddiad y prosiect ym mis Rhagfyr y llynedd ac mae'n darparu gwybodaeth fanwl am brofiadau disgyblion o

that local authorities and schools are undertaking to improve food and nutritional standards. That report clearly identifies the need for the canteen to be seen as an extension of the classroom and therefore integral to education.

Since April 2008, the Welsh Government has made available grant funding to all local authorities to undertake activities that support and deliver improvements to the food and drink provision in schools, moving provision towards compliance with the standards proposed in the 'Appetite for Life Action Plan', and encouraging pupils eating the food provided in the school canteen to take up the improved provision. A total of £2.4 million has been made available for this financial year to continue that work. Good progress has been made in meeting the recommended standards in primary schools, but progress in secondary schools has been more challenging.

Building on the published findings of the 'Appetite for Life Action Research Project', I am now considering how to take forward the provisions within the Healthy Eating in Schools (Wales) Measure 2009, including those that specifically relate to the promotion of free school meals and the protection of the identity of pupils in receipt of those meals. Julie Morgan mentioned the Swedish example that she had experienced, which illustrated that, while choice is not everything—which is true—the collective and communal experience is important. Ken Skates, in relation to that, brought up the issue of the possibility of moving towards universal free school dinners. It would be challenging for us to do that with the current financial restraints, however we want to look again at the way in which we are taking forward not only the 'Appetite for Life' programme, but the Healthy Eating in Schools (Wales) Measure as well. I would also want to give consideration to whether there are ways in which we can better enable the provision of school meals in the future. Certainly, we shall be building on the experience that we have of our free school breakfast initiative, which was of course opposed by the party opposite. There is also our free school milk scheme. We have undertaken a number of nutritional initiatives

fwyd yn yr ysgol a'r gwaith y mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn ei wneud i wella safonau bwyd a maeth. Mae'r adroddiad yn nodi'n glir yr angen i'r ffreutur gael ei weld fel estyniad o'r ystafell ddosbarth ac felly yn rhan annatod o addysg.

Ers Ebrill 2008, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu arian grant i bob awdurdod lleol i gynnal gweithgareddau sy'n cefnogi ac yn cyflwyno gwelliannau i'r ddarpariaeth bwyd a diod mewn ysgolion, gan symud darpariaeth tuag at gydymffurfio â'r safonau a gynigir yn y 'Cynllun Gweithredu Blas am Oes', ac annog disgyblion sy'n bwyta'r bwyd a ddarperir yn y ffreutur yr ysgol i fanteisio ar y ddarpariaeth well. Mae cyfanswm o £2.4 miliwn wedi cael ei ddarparu ar gyfer y flwyddyn ariannol hon i barhau â'r gwaith hwnnw. Mae cynnydd da wedi ei wneud i fodloni'r safonau a argymhellir mewn ysgolion cynradd, ond mae'r cynnydd mewn ysgolion uwchradd wedi bod yn fwy heriol.

Gan adeiladu ar y canfyddiadau a gyhoeddwyd gan y 'Prosiect Ymchwil Gweithredu Blas am Oes', yr wyf yn awr yn ystyried sut i fwrw ymlaen â'r darpariaethau yn y Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud yn benodol â hyrwyddo prydau ysgol am ddim a diogelu manylion adnabod y disgyblion sy'n derbyn y prydau hynny. Crybwyllodd Julie Morgan enghraifft Sweden a brofodd hithau, a oedd yn dangos, er nad dewis yw popeth—sydd yn wir—mae'r profiad cyfunol a chymunedol yn bwysig. Mewn perthynas â hynny, cododd Ken Skates y posibilrwydd o symud tuag at ginio ysgol am ddim i bawb. Byddai'n her i ni wneud hynny gyda'r cyfyngiadau ariannol presennol, fodd bynnag, rydym am edrych eto ar y ffordd yr ydym yn bwrw ymlaen, nid yn unig y rhaglen 'Blas am Oes' ond Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) hefyd. Byddwn hefyd am ystyried a oes ffyrdd y gallwn alluogi darparu prydau ysgol yn well yn y dyfodol. Yn sicr, byddwn yn adeiladu ar y profiad sydd gennym o'n menter brecwast ysgol am ddim, a wrthwynebwyd, wrth gwrs, gan y blaid gyferbyn. Mae gennym hefyd ein cynllun llaeth ysgol am ddim. Rydym wedi ymgymryd â nifer o fentrau maeth mewn ysgolion sydd wedi bod yn boblogaidd iawn.

in schools that have been very popular. We will continue to work to maximise the take-up of free school meals, and that will include producing guidance on implementing a stigma-free school meals system.

Byddwn yn parhau i weithio i wneud y gorau o’r nifer sy’n manteisio ar brydau ysgol am ddim, a bydd hynny’n cynnwys cynhyrchu canllawiau ar weithredu system prydau ysgol di-stigma.

Ensuring that children and young people have adequate and healthy nutrition so that they can take full advantage of what school offers will contribute to all three of my priorities of combating illiteracy, innumeracy and disadvantage.

Bydd sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael digon o faeth iach fel y gallant fanteisio i’r eithaf ar yr hyn y mae’r ysgol yn ei gynnig yn cyfrannu at bod un o fy nhri blaenoriaeth o fynd i’r afael ag anllythrennedd, anrhifogrwydd ac anfantais.

**The Deputy Presiding Officer:** Thank you very much. That brings today’s proceedings to a close.

**Y Dirprwy Lywydd:** Diolch yn fawr iawn i chi. Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.25 p.m.*
*The meeting ended at 6.25 p.m.*

**Aelodau a’u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)

Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)